



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 7 Gorffennaf 2010
Wednesday, 7 July 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
Election of Temporary Deputy Presiding Officer
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs
- 22 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing
- 46 Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Wasanaethau Cadeiriau
Olwynion
The Health, Wellbeing and Local Government Committee's Report on Wheelchair
Services
- 68 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cymru Wledig
Welsh Conservatives Debate: Rural Wales
- 114 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 117 Dadl Fer: Bancio Lleol, Hwylus: Rhywbeth o'r Oes a Fu yng Nghymru Wledig?
Short Debate: Helpful, Local Banking: A Thing of the Past for Rural Wales?

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer

Y Llywydd: Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, sy'n ein cynrychioli ni yng Nghynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop, CALRE, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer gweithdrefnau heddiw. Gwahoddaf enwebiadau.

The Presiding Officer: In the absence of the Deputy Presiding Officer, who is representing us at CALRE, the Conference of European Regional Legislative Assemblies, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for today's procedures. I invite nominations.

Peter Black: I nominate William Graham.

Peter Black: Enwebaf William Graham.

The Presiding Officer: Thank you very much, Peter. There being no other nominations, I declare that William Graham is elected temporary Deputy Presiding Officer for today, and I am very grateful to him for that.

Y Llywydd: Diolch yn fawr iawn, Peter. Gan nad oes dim enwebiadau eraill, yr wyf yn datgan bod William Graham wedi'i ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer heddiw, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn iddo am hynny.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 1 OAQ(3)1106(RAF) i'w ateb yn ysgrifenedig.

The Presiding Officer: Question 1 OAQ(3)1106(RAF) was transferred for written answer.

Common Agricultural Policy Payments

Taliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin

Q2 William Graham: Will the Minister make a statement on the publication of CAP payment details? OAQ(3)1104(RAF)

C2 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyhoeddi manylion taliadau PAC? OAQ(3)1104(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): The UK has published details of recipients of all CAP payments, including those under the single payment scheme, made during the years ending 15 October 2008 and 2009 on a single website, as required under European law. Data for Wales are included and identifiable.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Fel sy'n ofynnol dan gyfraith Ewrop, mae'r DU wedi cyhoeddi manylion pawb a gafodd daliadau dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan gynnwys y rheini dan gynllun y taliad sengl, yn ystod y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 15 Hydref 2008 a 2009. Mae'r manylion wedi'u cyhoeddi ar un wefan, ac mae'r data ar gyfer Cymru wedi'u cynnwys ac mae modd eu hadnabod.

William Graham: Perhaps you could give me some guidance then, Minister, as I gather that a recent opinion of the advocate-general of the European Court of Justice indicates

William Graham: Efallai y gallech roi rhywfaint o arweiniad imi, felly, Weinidog, gan fy mod ar ddeall bod barn ddiweddar adfocad cyffredinol Llys Cyfiawnder Ewrop

that European Union legislation requiring the disclosure of individual payments under CAP schemes may be invalid. How do you propose to answer that in view of the present publication?

Elin Jones: I am aware of the recent adjudication, but we are governed by current EU regulations on this matter and we comply with those regulations. There is now a discussion between the member state and the European Commission on how the adjudication given by the auditor must be taken account of in future EU regulations. On the whole, I am reasonably supportive of putting as much information as possible in the public domain; recipients of public money should be accountable and there should be transparency about that money. Putting this information in the public domain has not, on the whole, led to any negative impact on farming families in Wales, although I understand that farmers on the whole feel slightly reluctant about putting that information in the public domain. However, in general, information of that nature is in the public interest.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, cydnabyddaf yr angen am dryloywder yn y mater hwn, ac yr wyf yn eich canmol am y camau yr ydych wedi'u cymryd. Fodd bynnag, er eich bod yn dweud nad oes effeithiau negyddol wedi bod ar ffermwyr sydd wedi cael eu henwau a manylion eu taliadau wedi'u cyhoeddi, a ydych yn derbyn bod posibilrwydd y gellid defnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer gweithredoedd anghyfreithlon, ac y gallai ffermwyr ddiodesd yn sgîl y penderfyniad hwn?

Elin Jones: Mae hynny bob amser yn bosibilrwydd. Nid wyf yn ymwybodol o hynny'n digwydd yn sylweddol yng Nghymru. Yn wir, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw achos unigol o hynny. Fodd bynnag, pe bai'n datblygu, byddai'n rhaid iddo fod yn fater o drafodaeth ac o gonsŷm i fi fel Gweinidog yma yng Nghymru, ac yn fy nhrafodaethau sy'n para am faterion o'r fath gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Chomisiwn Ewrop.

yn nodi y gallai deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, sy'n mynnu y dylid datgelu taliadau unigol dan gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, fod yn annilys. Sut y bwriadwch ateb hynny yng ngoleuni'r wybodaeth a gyhoeddir ar hyn o bryd?

Elin Jones: Yr wyf yn ymwybodol o'r dyfarniad diweddar, ond cawn ein llywodraethu gan reoliadau cyfredol yr Undeb Ewropeaidd ar y mater hwn, ac yr ydym yn cydymffurfio â'r rheoliadau hynny. Mae trafodaeth yn mynd rhagddi'n awr rhwng yr aelod-wladwriaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y modd y mae'n rhaid i reoliadau'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ystyried dyfarniad yr archwilydd. Ar y cyfan, yr wyf yn weddol gefnogol o gamau i gyhoeddi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl; dylai'r rheini sy'n cael arian cyhoeddus fod yn atebol, a dylid sicrhau tryloywder ynghylch yr arian hwnnw. Ar y cyfan, nid yw cyhoeddi'r wybodaeth hon wedi arwain at ddim effaith negyddol ar deuluoedd sy'n ffermio yng Nghymru, er fy mod yn deall bod ffermwyr, at ei gilydd, braidd yn gyndyn o weld y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gwybodaeth o'r fath o ddiodesd i'r cyhoedd.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I acknowledge the need for transparency in this matter, and I applaud you for the steps that you have taken. However, although you say that there are no negative impacts on farmers who have had their names and details of their payments published, do you accept that there is a possibility that that information could be used for illegal acts, and that farmers could suffer as a result of this decision?

Elin Jones: That is always a possibility. I am not aware that that has happened to any great degree in Wales. Indeed, I am not aware of any such individual case. However, if that were to develop, it would have to be a matter of discussion and of concern for me as the Minister here in Wales, and in my continuing discussions of such matters with the Department for Environment, Food and Rural Affairs and the European Commission.

Dirywiad yn Niferoedd Gwenyn

C3 Bethan Jenkins: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddefnyddio neonicotinoidau mewn perthynas â dirywiad yn niferoedd gwenyn? OAQ(3)1105(RAF)

Elin Jones: Mae defnyddio plaladdwyr yng Nghymru yn cael ei fonitro gan yr arolwg o'r defnydd o blaladdwyr. Mae'r arolwg hwn yn cael ei drefnu gan gyfarwyddiaeth rheoleiddio cemegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ledled Prydain. Mae'r wybodaeth o'r arolygon hyn ar gael ar wefan asiantaeth ymchwil bwyd a'r amgylchedd DEFRA.

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae neonicotinoidau wedi cael eu gwahardd mewn nifer o wledydd Ewrop, megis Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Slofenia. A all Llywodraeth Cymru gymryd yr un safiad, oherwydd mae'r gwenwyn pryfaid hwn yn lladd gwenyn? Gwn mai'r awdurdodau ym Mhrydain sydd â'r pŵer hwn, ond a oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud am y mater pwysig hwn?

Elin Jones: Gwn fod y defnydd o neonicotinoidau wedi cael ei gyfyngu yn rhai o aelod wladwriaethau Ewrop. Mae'r defnydd yng Nghymru yn fach, gan fod y defnydd o blaladdwyr yn gyffredinol yn llai yng Nghymru nag ydyw mewn amryw o wledydd eraill. Tua 0.4 y cant o'r plaladdwyr sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru sy'n cynnwys neonicotinoidau.

Er hynny, mae angen cadw llygad ar y mater hwn ac ymchwilio ymhellach iddo. Dyna pam yr wyf yn falch bod yr arian sydd wedi cael ei glustnodi ar gyfer ymchwil pellach i ddiogelu ein poblogaeth gwenyn yn mynd i edrych ar effaith y plaladdwyr penodol hyn ar wenyyn ar lefel Brydeinig. Byddaf yn awyddus i weld ffrwyth yr ymchwil hwnnw ac i gymryd unrhyw gamau perthnasol er mwyn diogelu y niferoedd gwenyn, sydd mor allweddol i'n hamgylchedd.

Mohammad Asghar: On tackling the important issue of declining bee numbers, I note the Welsh Assembly Government's

Decline in Bee Numbers

Q3 Bethan Jenkins: What assessment has the Minister made of the use of neonicotinoids in relation to a decline in bee numbers? OAQ(3)1105(RAF)

Elin Jones: Pesticide usage in Wales is monitored by the pesticide usage survey. The survey is co-ordinated by the chemicals regulation directorate of the Health and Safety Executive on a UK-wide basis. The information from these surveys is available on the website of DEFRA's food and environment research agency.

Bethan Jenkins: Thank you for that answer, Minister. Neonicotinoids have been banned in several European countries, such as France, Germany, Italy and Slovenia. Could the Welsh Government take the same stand, because this insect poison kills bees? I know that the authorities in Britain have this power, but is there anything that the Welsh Government can do about this important issue?

Elin Jones: I know that the use of neonicotinoids has been limited in some European member states. Use in Wales is low, as the use of pesticides in general is lower in Wales than in various other countries. Around 0.4 per cent of the pesticides used in Wales contain neonicotinoids.

That said, we need to keep an eye on this matter and to research it further. That is why I am pleased that the funding earmarked for further research to safeguard our bee population will look at the impact of these specific pesticides on bees at the UK level. I will be keen to see the fruits of that research and to take any relevant steps to safeguard bee numbers, which is crucial for our environment.

Mohammad Asghar: O ran mynd i'r afael â'r dirywiad yn niferoedd gwenyn, sy'n fater pwysig, nodaf gynllun 'Gwenyn Iach'

'Healthy Bees' plan, and the commitment to liaise with amateur beekeepers across Wales. With press stories suggesting that the decline of the honey bee continues to become more rapid, could the Minister provide an update on how successful the Welsh Assembly Government has been in highlighting to Wales's amateur beekeepers the importance of maintaining contact with organisations such as the national bee unit regarding the health of their insects? Could the Minister also outline any recent assessments that she has made concerning the economic impact that the declining bee numbers will have on Wales's rural economy?

Elin Jones: I agree with you on the importance of our honey bee to our natural environment, and the concern about the declining bee population and the collapse of various colonies within that. Last year, I announced additional Assembly Government funding into supporting bee inspectors in Wales. We continue to work with bee inspectors and bee-keeping societies in Wales to provide additional information and leaflets on the health of the honey bees that they are responsible for. I attended a hugely successful honey bee conference in Builth earlier this year, where bee keepers from all around Wales were learning their craft. Older bee keepers tell me that they are hugely enthused by the number of younger and new bee keepers who want to respond to the public's concern about the bee population, and the need to maintain it. Therefore, this Government is committed to working with bee keepers in Wales to ensure a healthier bee population.

Alun Davies: I commend the Minister on her commitment to protecting the bee population in Wales. However, does she agree that the key to maintaining the bee population for the future—or any element of our biodiversity, for that matter—is the protection of habitats? She will be aware of the work that has been done by the Pembrokeshire Coast National Park, in collaboration with the Countryside Council for Wales, in Castlemartin. It has recently won a Europe-wide competition by demonstrating the quality of its work in

Llywodraeth y Cynulliad, a'r ymrwymiad i gysylltu â gwenynwyr amatur ledled Cymru. Gydag adroddiadau yn y wasg yn awgrymu bod y dirywiad yn niferoedd gwenyn mêl yn parhau i gyflymu, a allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pa mor llwyddiannus y bu ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i dynnu sylw gwenynwyr amatur at bwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â sefydliadau megis yr uned wenyn genedlaethol ynghylch iechyd eu pryfed? A allai'r Gweinidog hefyd amlinellu unrhyw asesiadau a gynhaliwyd ganddi'n ddiweddar ynghylch yr effaith economaidd y bydd y dirywiad yn niferoedd gwenyn yn ei chael ar economi wledig Cymru?

Elin Jones: Cytunaf â chi ynghylch pwysigrwydd y wenynen fêl i'n hamgylchedd naturiol, a'r pryder am y dirywiad ym mhoblogaeth gwenyn a'r ffaith bod amryw nythfeydd yn y boblogaeth honno'n diflannu. Y llynedd, cyhoeddais y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian ychwanegol i gefnogi arolygwyr gwenyn yng Nghymru. Yr ydym yn parhau i weithio gydag arolygwyr gwenyn a chymdeithasau gwenynwyr yng Nghymru i ddarparu taflenni a gwybodaeth ychwanegol am iechyd y gwenyn mêl y maent yn gyfrifol amdanynt. Bùm mewn cynhadledd hynod lwyddiannus ar wenyn mêl yn Llanfair-ym-Muallt yn gynharach eleni, lle'r oedd gwenynwyr o bob cwr o Gymru yn dysgu eu crefft. Dywed gwenynwyr hŷn wrthyf y cânt eu calonogi'n fawr gan nifer y gwenynwyr iau a newydd sydd am ymateb i bryder y cyhoedd am y boblogaeth gwenyn a'r angen i'w chynnal. Felly, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i weithio gyda gwenynwyr yng Nghymru i sicrhau poblogaeth iachach o wenyn.

Alun Davies: Cymeradwyaf y Gweinidog am ei hymrwymiad i warchod y boblogaeth gwenyn yng Nghymru. Fodd bynnag, a yw'n cytuno mai gwarchod cynefinoedd yw'r allwedd i gynnal y boblogaeth gwenyn—neu unrhyw elfen o'n bioamrywiaeth mewn gwirionedd—ar gyfer y dyfodol? Gŵyr am y gwaith a wnaed gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mewn cydweithrediad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yng Nghastellmartin. Enillodd gystadleuaeth Ewropeaidd yn ddiweddar trwy ddangos

protecting the various bee species in Pembrokeshire. I am sure that she would want to congratulate the national park on its work. Does she believe that this is an example of how the Welsh Assembly Government can continue to work alongside other stakeholders to protect the future of the bee species, while at the same time protecting important habitats?

ansawdd ei waith o ran gwarchod gwahanol rywogaethau gwenyn yn Sir Benfro. Yr wyf yn siŵr y byddai'n dymuno llongyfarch y parc cenedlaethol ar ei waith. A yw'r Gweinidog yn credu bod y gwaith yn enghraifft o sut y gall Llywodraeth y Cynulliad barhau i weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill i warchod dyfodol rhywogaethau gwenyn, gan warchod cynefinoedd pwysig ar yr un pryd?

1.40 p.m.

Elin Jones: Yr wyf yn cytuno â chi, Alun, fod y cynefin a'r amgylchedd naturiol sydd o'n cwmpas yn hollbwysig i roi'r hyn sydd ei angen ar y gwenyn i fwydo a pharhau. Felly, yr wyf yn llongyfarch Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro am y gwaith y mae eisoes yn ei gyflawni yn y maes hwn. Mae'r Llywodraeth hon ac awdurdodau tebyg yn edrych i wella cynefin naturiol Cymru a chreu cynefin sy'n berthnasol ac yn briodol i'n poblogaeth gwenyn. Mae hwn yn gyfraniad pwysig iawn o ran darparu cefnogaeth uniongyrchol i warchod ein poblogaeth gwenyn.

Elin Jones: I agree with you, Alun, that the natural habit and environment around us is crucial to give bees what they need to feed and survive. Therefore, I congratulate the Pembrokeshire Coast National Park on the work that it is already doing in this field. This Government and similar authorities are looking to improve the natural habitat of Wales and to create a relevant and appropriate habitat for our bee population. This is an important contribution in terms of providing direct support to safeguard our bee population.

The Rural Development Plan

Y Cynllun Datblygu Gwledig

Q4 Joyce Watson: Will the Minister provide an update on progress made in the four areas covered by the rural development plan? OAQ(3)1118(RAF)

C4 Joyce Watson: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ym mhedwar maes y cynllun datblygu gwledig? OAQ(3)1118(RAF)

Elin Jones: As at 31 March 2010, £282 million had been spent on support provided to rural Wales by the rural development plan. Activity is being delivered in all four areas of the plan.

Elin Jones: Erbyn 31 Mawrth 2010, yr oedd £282 miliwn wedi'i wario ar gymorth a ddarparwyd i Gymru gwledig gan y cynllun datblygu gwledig. Mae gweithgarwch yn digwydd ym mhob un o bedwar maes y cynllun.

Joyce Watson: Thank you for that response, Minister. You will know that axis 4 of the rural development plan aims to encourage innovative ways of sustaining rural communities. That is integral to the future of our rural communities, as businesses, in particular, must keep pace with the latest technologies to remain competitive. Minister, do you agree with me, given the natural resources that we are blessed with in Wales, that rural communities can lead the way in using renewable energy technologies to bring investment to rural areas? Do you agree with

Joyce Watson: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Gwyddoch fod echel 4 y cynllun datblygu gwledig yn ceisio hybu ffyrdd arloesol o gynnal cymunedau gwledig. Mae hynny'n hanfodol i ddyfodol ein cymunedau gwledig, gan fod yn rhaid i fusnesau, yn enwedig, fod yn gyfarwydd â'r technolegau diweddaraf er mwyn gallu parhau i gystadlu. Weinidog, a gytunwch â mi, o ystyried yr adnoddau naturiol yr ydym wedi ein bendithio â hwy yng Nghymru, y gall cymunedau gwledig arwain y ffordd o ran defnyddio technolegau ynni

me that we should support schemes, such as the Green Valleys initiative in Brecon, which enables community groups to source and install community-owned microgeneration projects for the benefit of the whole community, and that that would not only boost the local economy but also help the Government to meet its ambitious sustainability targets?

Elin Jones: I agree with you completely, Joyce, that there is much potential in our rural communities to harness their natural resources to produce energy in a renewable form. Axes 3 and 4 within the rural development plan can support communities to increase their sustainability by looking at renewable energy projects. This is also true of support through the various schemes that come under the Minister for Environment, Sustainability and Housing's responsibility, on microgeneration at a community level with Ynni'r Fro. There are many funding opportunities available to rural and other communities to look at how they can get together, use the natural resources that they have, and use them to benefit their community and provide income for their community.

Andrew R.T. Davies: One aspect of the rural development plan is the delivery of agri-environment schemes. The Minister is well versed in Members' views on the Glastir programme that she is putting forward. I ask for the Minister's assurances, particularly in relation to lowland farmers and their ability to have confidence that Glastir will give sufficient returns on the conservation developments that they might wish to undertake on their farms. While a lot of the effort around Glastir has focused on Tir Mynydd and replacing it, 20 per cent of Wales's land mass is regarded as lowland and does not get those enhancements. Is the Minister confident that lowland farmers will have the confidence to enter the revised Glastir scheme?

Elin Jones: One of the objectives of

adnewyddadwy i ddod â buddsoddiad i ardaloedd gwledig? A gytunwch â mi y dylem gefnogi cynlluniau, megis y fenter Cymoedd Gwyrdd yn Aberhonddu, sy'n galluogi grwpiau cymunedol i ganfod a sefydlu prosiectau microgynhyrchu y gall y gymuned fod yn berchen arnynt er lles y gymuned gyfan, ac y byddai hynny'n helpu'r Llywodraeth i gyrraedd ei thargedau uchelgeisiol ar gyfer cynaliadwyedd, yn ogystal â rhoi hwb i'r economi leol?

Elin Jones: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi, Joyce, bod llawer o botensial yn ein cymunedau gwledig i wneud yn fawr o'u hadnoddau naturiol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Gall echel 3 a 4 y cynllun datblygu gwledig gynorthwyo cymunedau i ddod yn fwy cynaliadwy trwy edrych ar brosiectau ynni adnewyddadwy. Mae hynny hefyd yn wir am gymorth drwy'r cynlluniau amrywiol sy'n perthyn i gyfrifoldeb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ynghylch microgynhyrchu ar lefel gymunedol gydag Ynni'r Fro. Mae llawer o gyfleoedd ariannu ar gael i gymunedau gwledig a chymunedau eraill i ystyried sut y gallant ddod ynghyd, defnyddio'r adnoddau naturiol sydd ar gael iddynt, a'u defnyddio mewn modd sydd o fudd i'w cymuned ac sy'n darparu incwm iddi.

Andrew R.T. Davies: Un agwedd ar y cynllun datblygu gwledig yw cyflwyno cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae'r Gweinidog yn gyfarwydd iawn â safbwyntiau'r Aelodau ar y rhaglen Glastir a gyflwynir ganddi. Gofynnaf i'r Gweinidog roi sicrwydd, yn enwedig yng nghyswllt ffermwyr yr iseldir, a'u gallu i deimlo'n hyderus y bydd Glastir yn rhoi elw digonol iddynt ar y datblygiadau cadwraeth y gallent fod yn dymuno ymgymryd â hwy ar eu ffermydd. Er bod llawer o'r ymdrech a wnaed yng nghyswllt Glastir wedi canolbwyntio ar Tir Mynydd a disodli'r cynllun hwnnw, caiff 20 y cant o dir Cymru ei ystyried yn iseldir, ac nid yw'n cael y taliadau chwyddo hynny. A yw'r Gweinidog yn ffyddiog y bydd ffermwyr yr iseldir yn teimlo'n ddigon hyderus i ymuno â'r cynllun Glastir diwygiedig?

Elin Jones: Un o amcanion cyflwyno Glastir

introducing Glastir in the first place was to have a scheme that would be applicable to all areas of Wales. There are around 40 prescriptions within Glastir, some of which will be applicable to lowland farmers and vice versa. Therefore, I am confident that lowland farmers can look to access Glastir to meet some of the prescriptions within the scheme. This summer, as a Government, we will be spreading the message about Glastir to farms and rural communities in Wales, with on-farm demonstrations on how to get into Glastir right across Wales. As a result, we hope that lowland farmers who may not have been in any kind of agri-environment scheme before will look proactively to see whether this is an opportunity for them. However, it may not be something that individual farmers want to pursue, and that will be a business decision for them at that time. However, the intention is certainly to make it as possible for lowland farmers as it is for upland farmers to access certain prescriptions within the scheme and receive agri-environment payments for managing their land in a particular way.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, to go back to axis 4 and issues around sustainable rural communities, a key element is delivering affordable local-needs housing in rural communities, especially in areas of outstanding natural beauty or national parks, given that developing housing in such areas incurs significant additional costs. Have you had any discussions with your colleague the Deputy Minister for Housing and Regeneration about acceptable cost guidelines for delivering the social housing grant in rural areas, where we are often dealing with small-scale developments with additional building demands placed upon them, so that we can ensure that people living in such areas have access to low-cost, affordable, local-needs housing?

Elin Jones: I am reliably informed that the matter is being reviewed by the Deputy Minister for housing.

yn y lle cyntaf oedd cael cynllun a fyddai'n berthnasol i bob rhan o Gymru. Mae oddeutu 40 o amodau yn Glastir, y bydd rhai ohonynt yn berthnasol i ffermwyr yr iseldir, ac i'r gwrthwyneb. Felly, yr wyf yn ffyddiog y gall ffermwyr yr iseldir geisio cael mynediad i Glastir i fodloni rhai o amodau'r cynllun. Yr haf hwn, fel Llywodraeth, byddwn yn mynd â'r neges am Glastir i ffermydd a chymunedau gwledig yng Nghymru, a bydd arddangosiadau'n cael eu cynnal ar ffermydd ledled Cymru i ddangos sut i ymuno â Glastir. O ganlyniad, gobeithiwn y bydd ffermwyr yr iseldir, nad ydynt, efallai, wedi bod yn rhan o unrhyw fath o gynllun amaeth-amgylcheddol o'r blaen, yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried a yw'r cynllun hwn yn gyfle iddynt. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd ffermwyr unigol yn dymuno dilyn y trywydd hwnnw, a phenderfyniad busnes iddynt hwy fydd hynny ar yr adeg dan sylw. Fodd bynnag, y bwriad yn sicr yw ei gwneud yr un mor bosibl i ffermwyr yr iseldir ag y mae i ffermwyr yr ucheldir gael mynediad i rai amodau yn y cynllun, a chael taliadau amaeth-amgylcheddol am reoli eu tir mewn ffordd benodol.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, gan ddychwelyd at echel 4 a'r materion sy'n ymwneud â chymunedau gwledig cynaliadwy, un elfen allweddol yw darparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol mewn cymunedau gwledig, yn enwedig mewn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol neu barciau cenedlaethol, o gofio bod costau ychwanegol sylweddol ynghlwm wrth ddatblygu tai mewn ardaloedd o'r fath. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'ch cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, am ganllawiau ynghylch costau derbyniol ar gyfer darparu'r grant tai cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, lle'r ydym yn aml yn ymdrin â datblygiadau bach y mae gofynion adeiladu ychwanegol ynghlwm wrthynt, er mwyn inni allu sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd o'r fath yn cael mynediad i dai fforddiadwy, isel eu cost, sy'n diwallu anghenion lleol?

Elin Jones: Caf ar ddeall o ffynhonnell ddibynadwy bod y mater yn cael ei adolygu gan y Dirprwy Weinidog dros dai.

The Welsh Agriculture Industry

Q5 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on her priorities for the Welsh agriculture industry? OAQ(3)1144(RAF)

Elin Jones: ‘Farming, Food and Countryside—Building a Secure Future’ sets the Government’s strategic framework for a sustainable and profitable agriculture industry. At its core, farming is about food production and appropriate land management.

Lynne Neagle: Thank you for that answer, Minister. Much of the debate in the Chamber over the past few weeks has been dominated by talk of cuts, but as well as looking at ways of reducing budgets now, surely we must all do what we can to avoid unnecessary spending in the future. We all know of the tremendous impact and financial pain that outbreaks of foot and mouth disease and bluetongue disease, for example, have had on rural communities over the past decade, and it is right that the Assembly Government does all that it can to help those who have suffered. However, we must also recognise the heavy burden that that has placed on every taxpayer in the form of compensation payments. In light of the current financial situation, is it not time to look again at cost sharing in respect of such diseases? I know that you were against the introduction of a cost-sharing regime in Wales when it was last looked at, at UK level, and that such a move would be unpopular in some quarters, but when we are asking people throughout Wales to tighten their belts and prepare for tough times ahead, surely it is only fair for those in the agriculture industry to do the same.

Elin Jones: I have never been against the principle of sharing the costs and responsibility of dealing with animal diseases between Government and the farming industry. I had concerns about the proposals that were made by the UK Government. At the time, I was comfortable with the principle, but it was the putting it into

Diwydiant Amaethyddol Cymru

C5 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer diwydiant amaethyddiaeth Cymru? OAQ(3)1144(RAF)

Elin Jones: Mae ‘Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad—Creu Dyfodol Cadarn’ yn pennu fframwaith strategol y Llywodraeth ar gyfer diwydiant amaethyddol cynaliadwy a llewyrchus. Yn ei hanfod, mae a wnelo ffermio â chynhyrchu bwyd a rheoli tir yn briodol.

Lynne Neagle: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, mae’r sôn am doriadau wedi cael lle amlwg iawn mewn llawer o drafodaethau yn y Siambr, ond yn ogystal ag edrych ar ffyrdd o leihau cyllidebau’n awr, siawns nad oes yn rhaid i bob un ohonom wneud yr hyn a allwn i osgoi gwariant diangen yn y dyfodol. Gwyddom i gyd am yr effaith aruthrol a’r gofid ariannol a welwyd mewn cymunedau gwledig dros y degawd diwethaf yn sgil achosion o glwy’r traed a’r genau a chlefyd y tafod glas, er enghraifft, ac mae’n iawn i Lywodraeth y Cynulliad wneud popeth o fewn ei gallu i helpu’r rheini sydd wedi dioddef. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod y pwysau mawr y mae hynny wedi’i roi ar bob trethdalwr, ar ffurf taliadau iawndal. O gofio’r sefyllfa ariannol sydd ohoni, onid yw’n bryd edrych eto ar rannu costau yng nghyswllt clefydau o’r fath? Gwn ichi wrthwynebu cyflwyno cyfundrefn rhannu costau yng Nghymru pan ystyriwyd y mater ddiwethaf ar lefel y DU, ac y byddai cam o’r fath yn amhoblogaidd ymysg rhai carfanau, ond, a ninnau’n gofyn i bobl ledled Cymru dynhau eu gwregys a pharatoi ar gyfer y cyfnod anodd sydd i ddod, siawns nad yw ond yn deg i’r rheini yn y diwydiant amaeth wneud yr un fath.

Elin Jones: Nid wyf erioed wedi gwrthwynebu’r egwyddor o rannu’r costau a’r cyfrifoldeb sy’n ymwneud ag ymdrin â chlefydau anifeiliaid, rhwng y Llywodraeth a’r diwydiant amaeth. Yr oeddwn yn pryderu am y cynigion a wnaed gan Lywodraeth y DU. Ar y pryd, yr oeddwn yn gyfforddus â’r egwyddor, ond yn pryderu i raddau ynghylch

practice in Wales that I had a certain degree of concern over.

We are also discussing with the UK Government the devolution of the animal health budget. We have devolved powers over animal health at this point, but the budgets are not wholly devolved. If that were to happen over the next year, we would need to be assured that we were getting the appropriate funding in Wales for that purpose, as I would not want it to be at the expense of the current Assembly Government or Assembly budget. That raises a question about the long-term funding of animal disease and animal health controls in Wales. I know that the farming industry is keen to address those issues with us, and I am not shutting the door on discussions about sharing the costs.

1.50 p.m.

Having said that, we already share costs—on TB testing, for example. The farming industry takes on board some of that cost, and the Government shoulders other parts of it. Therefore, the principle and the practice are already in place, but we need to ensure that that is robust in the event of significant disease outbreaks, such as those that you outlined, with the 2001 foot and mouth disease outbreak being one such instance. I would not want the Assembly Government to have to fund entirely the handling of a disease outbreak such as that one—whether it falls to the Treasury, or a combination of the Treasury and the farming industry is a matter that will continue to be discussed by the Assembly Government and the new UK Government.

Brynle Williams: Prynawn da, Weinidog. I am sure that you are as concerned as I am regarding the announcement last week by the Health and Safety Executive that farming is now the most dangerous industry and that the number of deaths and serious injuries is rising at a time when all other sectors are improving on their records. Minister, can you assure us that you and your officials are fully engaged with the industry, farmers' unions and the HSE to raise awareness about the

gweithredu'r gyfundrefn yng Nghymru.

Yr ydym hefyd yn trafod datganoli'r gyllideb iechyd anifeiliaid â Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd, mae gennym bwerau datganoledig dros iechyd anifeiliaid, ond nid yw'r cyllidebau wedi'u datganoli'n llawn. Pe bai hynny'n digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf, byddai angen inni gael sicrwydd ein bod yn cael y cyllid priodol yng Nghymru at y diben hwnnw, oherwydd ni fyddwn am i hynny fod ar draul cyllideb gyfredol Llywodraeth y Cynulliad, neu'r Cynulliad. Mae hynny'n codi cwestiwn ynghylch ariannu dulliau o reoli clefydau anifeiliaid ac iechyd anifeiliaid yng Nghymru yn y tymor hir. Gwn fod y diwydiant amaeth yn awyddus i fynd i'r afael â'r materion hynny gyda ni, ac nid wyf yn diystyru'r trafodaethau ynghylch rhannu'r costau.

Wedi dweud hynny, yr ydym eisoes yn rhannu costau—ar gyfer profion TB, er enghraifft. Mae'r diwydiant amaeth yn talu rhan o'r gost honno, ac mae'r Llywodraeth yn talu rhannau eraill ohoni. Felly, mae'r egwyddor a'r arfer eisoes ar waith, ond mae angen inni sicrhau bod y gyfundrefn yn gadarn pe cyfyd achosion sylweddol o glefydau, megis y rhai y bu ichi gyfeirio atynt, gyda'r achosion o glwy'r traed a'r genau a welwyd yn 2001 yn un enghraifft o'r fath. Ni fyddwn am i Lywodraeth y Cynulliad fod yn gwbl gyfrifol am ariannu'r gwaith o ymdrin ag achosion tebyg i hynny—bydd Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth newydd y DU yn parhau i drafod ai'r Trysorlys, ynteu gyfuniad o'r Trysorlys a'r diwydiant amaeth, a ddylai fod yn gyfrifol am hynny.

Brynle Williams: Prynawn da, Weinidog, Yr wyf yn siŵr eich bod chithau'n pryderu lawn cymaint â minnau am y cyhoeddiad a wnaed gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yr wythnos diwethaf, sef mai ffermio yw'r diwydiant mwyaf peryglus erbyn hyn, a bod nifer y marwolaethau a'r anafiadau difrifol ar gynnydd ar adeg pan fo'r sefyllfa'n gwella ym mhob sector arall. Weinidog, a allwch roi sicrwydd inni eich bod chi a'ch swyddogion yn ymgysylltu'n

dangers and to disseminate best practice in relation to safety, so that the number of these tragic accidents can be reduced? It is particularly tragic that a number of children have been hurt and maimed.

Elin Jones: I share your concern that tragic accidents that could sometimes have been avoided continue to happen on farms. It is the responsibility of Government to ensure that we work with the Health and Safety Executive to ensure that appropriate training is available to prevent such a high number of deaths and injuries from occurring on farms, but there is only so much that can be expected of the Government in a situation like this. However, as you have outlined, there is a need to ensure—which we do through our training work—that the best advice is available to farmers and those who work on farms regarding the need to protect themselves in what is often quite an industrialised base around the farmyard.

Brynle Williams: If I may, Minister, I will change tack. Welsh sheep producers are losing up to half the value of their animals at slaughter because of the requirements of splitting carcasses. Producers in France have a competitive advantage, because their abattoirs are allowed to use a vacuum method, which is fully compliant with European Union regulations and which leaves the carcass intact. Minister, do you agree that there are legitimate grounds for amending these regulations while continuing to safeguard public health so that Welsh producers can compete, once again, on a level playing field?

Elin Jones: I would not want to respond to that here without taking advice from the Food Standards Agency and the Meat Hygiene Service on the appropriate interpretation of EU regulations in Wales. I am sure that there must be a reason why this is the case, which I cannot recall at the moment. However, if you want to pursue this further, please do so and I would be happy to meet you to discuss this further.

llawn â'r diwydiant, undebau amaethwyr a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon a rhannu arfer gorau o ran diogelwch, fel y gellir lleihau nifer y damweiniau trasig hyn? Mae'n arbennig o drasig bod nifer o blant wedi'u hanafu a'u clwyfo.

Elin Jones: Yr wyf innau, fel chithau, yn pryderu bod damweiniau trasig, y gellid bod wedi'u hosgoi weithiau, yn dal i ddigwydd ar ffermydd. Cyfrifoldeb y Llywodraeth yw sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i atal nifer mor fawr o farwolaethau a damweiniau rhag digwydd ar ffermydd, ond dim ond hyn a hyn y gellir disgwyl i'r Llywodraeth ei wneud mewn sefyllfa fel hon. Fodd bynnag, fel y bu ichi amlinellu, mae angen sicrhau—ac yr ydym yn gwneud hynny trwy ein gwaith hyfforddi—bod y cyngor gorau ar gael i ffermwyr, a'r rheini sy'n gweithio ar ffermydd, ynghylch yr angen i'w diogelu eu hunain mewn amgylchedd sydd, yn aml, yn eithaf diwydiannol o amgylch clos y fferm.

Brynle Williams: Hoffwn newid cyfeiriad, os caf, Weinidog. Mae cynhyrchwyr defaid Cymru yn colli hyd at hanner gwerth eu hanifeiliaid wrth iddynt gael eu lladd, oherwydd y gofynion o ran hollti'r carcass. Mae gan gynhyrchwyr yn Ffrainc fantais o safbwynt eu gallu i gystadlu, am fod eu lladd-dai hwy'n cael defnyddio dull sugno, sy'n cydymffurfio'n llawn â rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ac sy'n golygu bod modd cadw'r carcass mewn un darn. Weinidog, a ydych yn cytuno bod rhesymau dilys dros newid y rheoliadau hyn, gan barhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd, er mwyn i gynhyrchwyr Cymru allu cystadlu unwaith eto mewn marchnad deg?

Elin Jones: Ni fyddwn am ymateb i hynny yn y fan hon heb gael cyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Gwasanaeth Hylendid Cig ynghylch y dehongliad priodol o reoliadau'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru. Rhaid bod rheswm i egluro pam mae'r sefyllfa fel y mae, yr wyf yn siŵr, ond ni allaf ei gofio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os ydych am fynd ar drywydd y mater ymhellach, gwnewch hynny ar bob cyfrif a byddwn yn falch o gyfarfod â chi i'w drafod

ymhellach.

Gareth Jones: Wrth gadarnhau pwysigrwydd canolog amaethyddiaeth i economi'r Gymru wledig, a wnewch gadarnhau'r angen i barhau i roi cefnogaeth ariannol gyhoeddus ddigonol i'r fferm deuluol, er gwaethaf yr amheuon sydd wedi cael eu mynegi o bryd i'w gilydd gan rai Aelodau Cynulliad? Wrth gydnabod rhai o'r pryderon ymysg y gymuned amaethyddol ynghylch rhai agweddau ar y cynllun amaeth-amgylcheddol, Glastir, a allwch roi ymrwymiad y bydd y cynllun yn cael ei ddiwygio mewn ffordd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau dyfodol y fferm deuluol yng Nghymru?

Elin Jones: Yr wyf am ein gweld yn cyrraedd sefyllfa lle mae'r fferm deuluol yn cael ei hincwm yn bennaf o'r farchnad ac o'r bwydydd y mae'r fferm deuluol honno yn eu cynhyrchu, gyda'r farchnad yn sicrhau digon o elw i gynnal y fferm honno. Mae lle, pan nad yw hynny'n digwydd yng Nghymru—neu mewn nifer o fannau yn Ewrop—i gyllid cyhoeddus roi cefnogaeth i incwm fferm. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd drwy'r taliad sengl. Mae lle hefyd i ddefnyddio arian y Llywodraeth ac arian Ewropeaidd i dalu ffermwyr i weithredu'r cynlluniau amaeth amgylcheddol ar eu ffermydd, i reoli'r tir mewn ffordd arbennig, ac i dderbyn arian am wneud hynny, er budd rhai o flaenoriaethau cymdeithas. Glastir yw'r cynllun yr ydym yn ei ddatblygu yn awr. Yr wyf yn ffyddiog y bydd Glastir yn cael ei ddefnyddio gan ffermwyr yng Nghymru i dderbyn arian i ffermio rhannau o'u tiroedd mewn ffordd benodol. Yr ydym wedi neilltuo £90 miliwn o arian y cynllun datblygu gwledig yn flynyddol ar gyfer Glastir a bydd yr arian hwnnw yn gyfraniad pwysig i incwm nifer o ffermwyr ar hyd a lled Cymru.

Peter Black: Minister, now that the cull of badgers in north Pembrokeshire has been suspended because of the court action, do you agree that this is an opportunity to revisit your policies on this issue? In particular, will you take note of the fact that there are currently trials of vaccinations taking place in England and Ireland? What have you done to look at vaccination as a possible alternative to a cull? Will you consider introducing a

Gareth Jones: In confirming the central importance of agriculture to the economy of rural Wales, will you confirm the need to continue to provide adequate public financial support to the family farm, despite the doubts that have been expressed from time to time by some Assembly Members? While recognising some of the concerns among the farming community about certain aspects of the agri-environment scheme, Glastir, can you give a commitment that the scheme will be amended in a way that will give priority to ensuring the future of the family farm in Wales?

Elin Jones: I want to see us reach a situation where the family farm income comes mainly from the market and from the foods that the family farm has produced, with the market securing adequate profits to maintain that farm. There is scope, where that is not happening in Wales—or in many places in Europe—for public funding to support farm income. This is happening at the moment through the single payment. There is also scope to use Government money and European money to pay farmers to implement agri-environment schemes on their farms, to manage land in a certain way, and to receive money for doing so, for the benefit of society's priorities. Glastir is the scheme that we are developing now. I am confident that Glastir will be used by farmers in Wales to receive money to farm some of their land in a particular way. We have allocated £90 million of rural development plan funding annually for Glastir and that money will make an important contribution to the income of many farmers throughout Wales.

Peter Black: Weinidog, gan i'r rhaglen difa moch daear gael ei gohirio yng ngogledd Sir Benfro oherwydd yr achos llys, a ydych yn cytuno bod hwn yn gyfle i ailystyried eich polisiau ar y mater hwn? Yn benodol, a wnewch chi nodi'r ffaith bod cynlluniau brechu'n cael eu treialu yn Lloegr ac Iwerddon ar hyn o bryd? Beth yr ydych wedi'i wneud i ystyried brechu fel opsiwn posibl yn lle difa? A wnewch chi ystyried

pilot scheme on vaccination in place of that cull as a way forward, given that, once the cull starts in north Pembrokeshire, it will not be possible to call it to a halt for several years because of the perturbation effect?

Elin Jones: I am not revisiting anything on my TB eradication policy until the Court of Appeal has fully deliberated and I expect its response next week.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Minister, could we have an update on the position of Rachel's dairy at Aberystwyth? I know that you have looked at this issue previously and I have raised this issue with you in the past. The situation obviously puts a question mark over 140 private sector jobs in Aberystwyth—the dairy is the largest private sector employer in Aberystwyth, as you know. I am aware, as I am sure are you, that Calon Wen dairy co-operative tried to put together a consortium to bid for it, but were met with a very unrealistic timescale from Dean Foods, the American holding company. I hope that you can provide some reassurance or update the Assembly on the very serious position in relation to Rachel's dairy.

Elin Jones: I share your interest in the future of Rachel's dairy and in it remaining an important employer in the Aberystwyth area. It is an important company that uses Welsh milk for the purposes of yogurt production and is, indeed, one of Welsh food's iconic brands. I am hugely keen for its base to remain in Wales. I am aware of the issues that have been raised by Calon Wen. I can confirm that there are commercial discussions taking place between interested parties and my officials, but I am not in a position to give details on those discussions. Some companies like to have their affairs discussed in public, but others are reluctant to allow that to happen. As Minister, I do not want to jeopardise anything at this point by giving a verbatim account of what I know to be happening, and I am sure that you understand that. You can rest assured that I challenge my officials at all times to ensure that they are continuing with their work to

cyflwyno cynllun brechu peilot yn lle'r rhaglen ddifa fel ffordd o symud ymlaen, o gofio na fydd modd dod â'r rhaglen ddifa i ben am sawl blwyddyn, wedi iddi ddechrau yng ngogledd Sir Benfro, oherwydd yr effaith aflonyddu?

Elin Jones: Ni fyddaf yn ailystyried dim o ran fy mholisi ar ddileu TB nes i'r Llys Apêl ystyried y mater yn llawn, ac yr wyf yn disgwyl ymateb ganddo'r wythnos nesaf.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Weinidog, a allem gael y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Rachel's dairy yn Aberystwyth? Gwn ichi edrych ar y mater o'r blaen, ac yr wyf wedi codi'r mater gyda chi yn y gorffennol. Mae'n amlwg bod y sefyllfa'n codi amheuan ynghylch 140 o swyddi yn y sector preifat yn Aberystwyth—fel y gwyddoch, Rachel's dairy yw'r cyflogwr mwyaf yn y sector preifat yn Aberystwyth. Gwn, fel y gwyddoch chithau, yr wyf yn siŵr, fod cwmni cydweithredol hufenfa Calon Wen wedi ceisio llunio consortiwm i gynnig am Rachel's dairy, ond cafodd amserlen afrealistig iawn gan Dean Foods, y cwmni dal o America. Gobeithiaf y byddwch yn gallu rhoi rhyw sicrwydd i'r Cynulliad neu roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am y sefyllfa ddifrifol iawn o ran Rachel's dairy.

Elin Jones: Mae gennyf innau, fel chithau, ddiddordeb yn nyfodol Rachel's dairy, ac mewn cadw'r cwmni fel cyflogwr pwysig yn ardal Aberystwyth. Mae'n gwmni pwysig sy'n defnyddio llaeth o Gymru i gynhyrchu iogwrt, ac yn wir, mae'n un o frandiau eiconig bwyd o Gymru. Yr wyf yn awyddus iawn i weld y cwmni'n aros yng Nghymru. Yr wyf yn ymwybodol o'r materion a godwyd gan Calon Wen. Gallaf gadarnhau bod trafodaethau masnachol yn cael eu cynnal rhwng y rhai sydd a wnelont â'r sefyllfa a'm swyddogion, ond nid wyf mewn sefyllfa i roi manylion y trafodaethau hynny. Mae rhai cwmnïau'n hoffi i'w busnes gael ei drafod yn gyhoeddus, ond mae eraill yn gyndyn o ganiatáu i hynny ddigwydd. Fel Gweinidog, nid wyf am beryglu dim ar hyn o bryd trwy roi adroddiad air am air ynghylch yr hyn y gwn ei fod yn digwydd, ac yr wyf yn siŵr y gallwch ddeall hynny. Gallwch fod yn dawel eich meddwl fy mod yn herio fy

provide the support that is required to ensure that Rachel's continues to thrive with a base in Wales.

Mick Bates: Minister, I am certain that you would say that one of your priorities for agriculture is to improve the health of the dairy sector in Wales. That is why I welcome very much the £3.3 million that you announced for the dairy sector supply chain efficiency project. In undertaking this project, how much emphasis will be placed on ensuring that dairy farmers in Wales get a fair return from the supermarkets? That is where a lot of the money goes. Will you ensure that Welsh schoolchildren, when they have milk in school, drink Welsh milk and not milk imported many hundreds of miles into Wales, when we have a perfectly good industry right here?

2.00 p.m.

Elin Jones: I announced the award of £3.3 million from the rural development fund for the supply chain of the dairy sector last week in Gelli Aur. It will look to work with various interested parties, dairy processors, dairy producers and colleges to see how greater efficiency can be brought in to the supply chain. The role of retailers in providing a fair price and return for milk produced in Wales is ever so slightly outside my control, as it is wholly within the control of retailers and their commercial decisions. However, the more that we strengthen the supply sector in Wales, and encourage as much collaboration as possible within that sector, the greater its strength in negotiations with retailers. I want to make it clear to all retailers in Welsh milk and cheese that, if they want to see milk continue to be produced in Wales and on Welsh farms, farmers need a sustainable return from the market for that milk or they will leave the sector, and Welsh milk will no longer be available to retailers. Therefore, retailers have a responsibility to retain the supply chain and to provide the funding that that requires.

swyddogion yn gyson i sicrhau eu bod yn parhau i weithio i ddarparu'r cymorth y mae ei angen i sicrhau bod Rachel's yn parhau i ffynnu gyda chanolfan yng Nghymru.

Mick Bates: Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddech yn dweud mai un o'ch blaenoriaethau ar gyfer amaethyddiaeth yw gwella cyflwr y sector llaeth yng Nghymru. Dyna pam yr wyf yn croesawu'n fawr iawn y £3.3 miliwn a gyhoeddwyd gennych ar gyfer prosiect effeithlonrwydd cadwyn gyflenwi'r sector llaeth. Wrth gynnal y prosiect hwn, faint o bwyslais a gaiff ei roi ar sicrhau bod ffermwyr llaeth yng Nghymru yn cael elw teg gan yr archfarchnadoedd? Yno y mae llawer o'r arian yn mynd. Pan fydd plant ysgol Cymru yn cael llaeth yn yr ysgol, a wnewch chi sicrhau mai llaeth o Gymru y maent yn ei yfed, ac nid llaeth a fewnforiwyd i Gymru o wlad sydd gannoedd o filltiroedd i ffwrdd, a ninnau â chystal diwydiant yma?

Elin Jones: Yng Ngelli Aur yr wythnos diwethaf, bu imi gyhoeddi y byddai'r cynllun datblygu gwledig yn rhoi £3.3 miliwn i gadwyn gyflenwi'r sector llaeth. Bydd y prosiect yn ceisio gweithio gydag amrywiol garfanau sydd â diddordeb, proseswyr llaeth, cynhyrchwyr llaeth a cholegau i weld sut y gellir gwneud y gadwyn gyflenwi'n fwy effeithlon. Mae rôl y manwerthwyr o ran darparu pris ac elw teg ar gyfer llaeth a gynhyrchwyd yng Nghymru ryw fymryn y tu hwnt i'm rheolaeth i, gan fod y mater yn gyfan gwbl dan reolaeth y manwerthwyr a'u penderfyniadau masnachol. Fodd bynnag, po fwyaf y byddwn yn cryfhau'r sector cyflenwi yng Nghymru, ac yn annog cymaint o gydweithredu ag sy'n bosibl ynddo, y cryfaf y bydd y sector hwnnw wrth iddo drafod â manwerthwyr. Yr wyf am ddweud yn glir wrth yr holl fanwerthwyr sy'n gwerthu llaeth a chaws o Gymru, os ydynt am weld llaeth yn parhau i gael ei gynhyrchu yng Nghymru ar ffermydd Cymru, mae angen i ffermwyr gael elw cynaliadwy gan y farchnad am y llaeth hwnnw, neu fel arall byddant yn gadael y sector, ac ni fydd llaeth o Gymru ar gael i'r manwerthwyr mwyach. Felly, mae gan y manwerthwyr gyfrifoldeb i gadw'r gadwyn gyflenwi a darparu'r arian y mae ei angen i wneud hynny.

For a long time, we have been having discussions on Welsh milk for Welsh schools. The public procurement process continues to challenge all of us in various parts of Wales, but I can give you a commitment, from my department, that I want to see the public procurement of food ensure that it comes from sustainable sources. We need to develop that further, and it is part of our local sourcing action plan, of course. We are seeing progress on this, but it is not always straightforward.

Welsh Produce

Q6 Brian Gibbons: Will the Minister make a statement on the promotion of Welsh produce in major retail outlets in Wales? OAQ(3)1109(RAF)

Elin Jones: The Assembly Government is committed to promoting Welsh produce through a number of trade development programmes. Only last month, an Asda meet-the-buyer event and supplier showcase was hosted here at the Senedd. I expect most large retailers to be present at the Royal Welsh Show.

Brian Gibbons: I was at the Asda event last week, and very enjoyable it was. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

Brian Gibbons: The Wales The True Taste website is probably worth a visit by people interested in Welsh food. The website includes recipes, though I must admit that it is quite fiddly to find the individual recipes—you cannot easily search for them without the name of a specific recipe. It also includes lists of primary suppliers of Welsh agricultural produce, food markets and farm shops. However, what it does not have is a list of retail outlets that sell substantial amounts of Welsh produce. It was highlighted in the debate on your food strategy yesterday that up to a third of Welsh consumers are interested in purchasing Welsh produce and are willing to pay a premium for such produce, but the fact that the true taste

Yr ydym wedi bod yn trafod llaeth o Gymru ar gyfer ysgolion Cymru ers amser. Mae'r broses caffael cyhoeddus yn dal yn her inni i gyd mewn gwahanol rannau o Gymru, ond gallaf roi ymrwymiad ichi, gan fy adran, fy mod am weld y broses o gaffael bwyd i'r sector cyhoeddus yn sicrhau bod y bwyd hwnnw'n dod o ffynonellau cynaliadwy. Mae angen inni ddatblygu hynny ymhellach, ac mae'n rhan o'n cynllun gweithredu cyrchu lleol, wrth gwrs. Yr ydym yn gweld cynnydd o ran hynny, ond nid yw bob amser yn hawdd.

Cynnyrch Cymru

C6 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo cynnyrch Cymru mewn siopau mawr yng Nghymru? OAQ(3)1109(RAF)

Elin Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i hybu cynnyrch o Gymru trwy nifer o raglenni datblygu masnach. Mor ddiweddar â'r mis diwethaf, cynhaliodd Asda ddigwyddiad cwrdd â'r prynwr yma yn y Senedd, a oedd yn gyfle i gyflenwyr arddangos eu cynnyrch. Yr wyf yn disgwyl y bydd mwyafrif y manwerthwyr mawr yn y Sioe Frenhinol.

Brian Gibbons: Mynychais ddigwyddiad Asda yr wythnos diwethaf, a mwynheais yn fawr iawn. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn.

Brian Gibbons: Mae'n werth i bobl sydd â diddordeb mewn bwyd o Gymru droi at wefan Cymru: Y Gwir Flas, fwy na thebyg. Mae'r wefan yn cynnwys ryseitiau, er rhaid imi gyfaddef ei bod yn eithaf trafferthus dod o hyd i'r ryseitiau unigol—ni allwch chwilio amdanynt yn hawdd heb wybod enw rysait benodol. Mae hefyd yn cynnwys rhestrau o brif gyflenwyr cynnyrch amaethyddol o Gymru, marchnadoedd bwyd a siopau fferm. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n ei gynnwys yw rhestr o siopau sy'n gwerthu cryn dipyn o gynnyrch o Gymru. Nodwyd yn y ddatl ar eich strategaeth fwyd ddoe bod gan hyd at draean defnyddwyr Cymru ddiddordeb mewn prynu cynnyrch o Gymru, a'u bod yn barod i dalu pris uwch am gynnyrch o'r fath, ond

website does not include a list of retail outlets is unfortunate for people who wish to exercise that choice.

Elin Jones: Thank you, Brian. [*Interruption.*] I am sure that there is Welsh guacamole available somewhere out there. To focus first of all on the role and importance of supermarkets—most consumers in Wales and elsewhere buy their food from supermarkets—we have increased considerably our role as a Government in working with, and being the conduit between, producers of food and supermarkets. The true taste brand, in particular, is being taken up by a number of large retailers and is being highlighted in a number of supermarkets. I am not as familiar as you are with the true taste website, much to my shame. I will look at it to see how easy it is to find the recipes, and I will discuss with my officials the need to provide information on it about the retail outlets where consumers can access true taste award winners.

Brynle Williams: Minister, will you join me in welcoming the UK Government's commitment to establishing a supermarket ombudsman with the right powers to enforce the grocery supply code of conduct and to put an end to practices such as retrospective discounting, which will ensure that the interests of consumers are protected in the long run? Can you confirm the willingness of your Government to work in partnership with an ombudsman to put fairness back into the supply chain?

Elin Jones: Thank you for your question. There is all-party support for this, and the previous UK Government indicated the need—as has the new UK Government—to establish a supermarket ombudsman. As I outlined in my speech yesterday, I have a degree of concern that the proposals that are emerging from the UK Government do not quite satisfy the criteria that I feel are necessary for a fully independent ombudsman, but I give you a commitment that I want to continue discussions with the UK Ministers to ensure that a robust ombudsman is put in place who can protect food producers in Wales from some of the

mae'r ffaith nad yw gwefan y gwir flas yn cynnwys rhestr o siopau yn anffodus i bobl sy'n dymuno arfer y dewis hwnnw.

Elin Jones: Diolch, Brian. [*Torri ar draws.*] Yr wyf yn siŵr bod modd cael guacamole o Gymru yn rhywle. Gan ganolbwyntio'n gyntaf ar rôl a phwysigrwydd archfarchnadoedd—mae mwyafrif y defnyddwyr sydd yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn prynu eu bwyd o archfarchnadoedd—yr ydym wedi cynyddu'n sylweddol ein rôl fel Llywodraeth o safbwynt gweithio gyda chynhyrchwyr bwyd ac archfarchnadoedd a bod yn gyswllt rhyngddynt. Mae nifer o fanwerthwyr mawr yn derbyn brand y gwir flas, yn enwedig, a thynnir sylw ato mewn nifer o archfarchnadoedd. Nid wyf mor gyfarwydd â chi â gwefan y gwir flas, er cywilydd imi. Edrychaf arni i weld pa mor hawdd yw dod o hyd i'r ryseitiau, a byddaf yn trafod â'm swyddogion yr angen i ddarparu gwybodaeth arni am y siopau lle gall defnyddwyr gael gafael ar gynnyrch sydd wedi ennill gwobrau'r gwir flas.

Brynle Williams: Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i sefydlu ombwdsmon archfarchnadoedd gyda'r pwerau iawn i orfodi'r cod ymarfer ar gyflenwi bwydydd, a rhoi diwedd ar arferion megis cael gostyngiad ar ôl prynu, a fydd yn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu gwarchod yn y tymor hir? A allwch gadarnhau bod eich Llywodraeth yn barod i weithio mewn partneriaeth ag ombwdsmon i ddod â thegwch yn ôl i'r gadwyn gyflenwi?

Elin Jones: Diolch am eich cwestiwn. Ceir cefnogaeth hollbleidiol i hyn, ac yr oedd Llywodraeth flaenorol y DU—yn yr un modd ag y mae Llywodraeth newydd y DU—wedi awgrymu bod angen sefydlu ombwdsmon archfarchnadoedd. Fel y dywedais yn fy araith ddoe, yr wyf yn pryderu i raddau nad yw'r cynigion sy'n dod o du Llywodraeth y DU yn bodloni'n union y meini prawf y teimlaf eu bod yn angenrheidiol ar gyfer ombwdsmon cwbl annibynnol, ond rhoddaf ymrwymiad ichi fy mod am barhau i drafod â Gweinidogion y DU i sicrhau ein bod yn cael ombwdsmon cadarn a fydd yn gallu amddiffyn cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru

bad practice that has taken place in the past.

Jenny Randerson: Minister, you mentioned earlier the fact that Asda displayed its range of Welsh produce here recently. It was interesting to see the range of Welsh produce that it sells, and, indeed, to see the distribution mechanism that is used to ensure that it is as convenient as possible for small producers to participate. The great pity, however, was that other large supermarkets were not doing the same thing on the same day. What work is your department doing to ensure that the type of work that Asda is doing is undertaken by all large supermarkets? Although considerable progress has been made over the years, we still have a long way to go in comparison with such countries as Scotland in terms of the range of local produce that is for sale in large supermarkets.

Elin Jones: The fact that Asda held an event here does not mean that considerable progress has not been made by certain other large supermarkets over the last few years in developing their range of Welsh food and in having true taste winners on their shelves. In fact, most supermarkets now see the opportunity for them in increasing their range of Welsh produce. That is not to say that we are exactly where we want to be, and quite often there are logistical issues involved in supplying a supermarket chain for 52 weeks a year. There is a real need, as I think that Brynle mentioned, for regional hubs or wholesale distributors to be involved in making the link between food producers and supermarkets. In the case of Asda, a company from the Valleys is providing the distribution opportunity for a number of small producers. However, there is still much work to be done. I know from my discussions with Asda that it is keen to increase the range of Welsh food that it has on its shelves in Wales, and a number of other supermarkets will no doubt take the opportunity at the Royal Welsh Show to look around the new food hall in Llanelwedd to see the Welsh food that is available. I am keen for Welsh food to be on supermarket shelves not only in Wales, but outside Wales.

rhag rhai o'r arferion gwael a welwyd yn y gorffennol.

Jenny Randerson: Weinidog, bu ichi grybwyll yn gynharach y ffaith i Asda arddangos ei ystod o gynnyrch Cymreig yma yn ddiweddar. Yr oedd yn ddiddorol gweld yr ystod o gynnyrch Cymreig a werthir ganddo, ac, yn wir, y dull dosbarthu a ddefnyddir i sicrhau ei bod mor hwylus ag sy'n bosibl i gynhyrchwyr bach gymryd rhan. Y trueni mawr, fodd bynnag, oedd nad oedd archfarchnadoedd mawr eraill yn gwneud yr un peth ar yr un diwrnod. Beth y mae eich adran yn ei wneud i sicrhau bod y math o waith y mae Asda yn ymgymryd ag ef yn cael ei gyflawni gan bob un o'r archfarchnadoedd mawr? Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y blynyddoedd, mae gennym ffordd bell i fynd o hyd o'n cymharu â gwledydd megis yr Alban, o ran yr ystod o gynnyrch lleol sydd ar werth mewn archfarchnadoedd mawr.

Elin Jones: Nid yw'r ffaith i Asda gynnal digwyddiad yma'n golygu nad oes cynnydd sylweddol wedi'i wneud gan rai archfarchnadoedd mawr eraill dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ran datblygu eu hystod o fwyd Cymreig ac o ran cynnwys buddugwyr y gwir flas ar eu silffoedd. Yn wir, mae mwyafrif yr archfarchnadoedd yn gweld yn awr bod cynyddu eu hystod o gynnyrch Cymreig yn gyfle iddynt. Nid yw hynny'n golygu ein bod wedi cyrraedd y nod yr ydym am ei gyrraedd, ac yn eithaf aml, bydd problemau logistaidd yn gysylltiedig â chyflenwi cadwyn o archfarchnadoedd drwy'r flwyddyn gron. Fel y crybwyllodd Brynle, mi gredaf, mae gwir angen canolfannau rhanbarthol neu ddsbarthwyr cyfanwerthol i fod yn rhan o'r broses o greu cyswllt rhwng cynhyrchwyr bwyd ac archfarchnadoedd. Yn achos Asda, mae cwmni o'r Cymoedd yn darparu gwasanaeth dosbarthu i nifer o gynhyrchwyr bach. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Gwn o'm trafodaethau ag Asda ei fod yn awyddus i gynyddu'r ystod o fwyd o Gymru sydd ganddo ar ei silffoedd yng Nghymru, ac mae'n siŵr y bydd nifer o archfarchnadoedd eraill yn cymryd y cyfle i edrych o gwmpas y neuadd fwyd newydd yn Llanelwedd yn ystod y Sioe Frenhinol, i weld y bwyd o Gymru sydd ar gael. Yr wyf yn awyddus i

weld bwyd o Gymru ar silffoedd archfarchnadoedd, nid yn unig yng Nghymru ond y tu allan i Gymru hefyd.

2.10 p.m.

Blaenoriaethau

C7 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad? OAQ(3)1130(RAF)

Elin Jones: Yr wyf wedi ymrwymo o hyd i gyflawni'r amcanion a amlinellwyd yng nghytundeb 'Cymru'n Un', a gweithio i ddarparu diwydiannau ffermio, coedwigaeth, bwyd a physgodfeydd cynaliadwy er lles Cymru a chymunedau gwledig.

Eleanor Burnham: Mae gan eich adran rôl flaenllaw wrth hybu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ac mae'r cynllun yn 'Cymru'n Un' yn datgan bydd gwybodaeth a chyngor ar gael i ffermwyr drwy Farming Connect. Beth yw cost y rhaglen hyd yn hyn a sut yr ydych yn monitro llwyddiant y rhaglen wrth annog ffermwyr i gynhyrchu ynni adnewyddadwy? Os bydd ffermwyr yn derbyn grant i osod system ynni adnewyddadwy, a fyddant yn cael yr hyn y mae'r Sais yn cyfeirio ato fel '*feed-in tariffs*'? Mae'n ddrwg gennyf, nid oes syniad gennyf beth yw hwnnw yn Gymraeg.

Elin Jones: O dan Cyswllt Ffermio, mae rhaglen benodol yn darparu cyngor i ffermwyr ar sut y gellid datblygu'r potensial sydd ganddynt i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm. Gosodwyd y gwaith hwnnw i dendr ac fe'i henillwyd gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig a Phrifysgol Bangor, felly hwy sydd yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor i ffermwyr ac am ddatblygu'r gwaith o osod ffermydd fel esiampl dda i ffermwyr eraill. Mae gan ffermwyr botensial sylweddol i fanteisio ar y *feed-in tariffs* yr ydych wedi cyfeirio atynt, drwy edrych ar botensial cynhyrchu ynni ar eu ffermydd. Gwn fod nifer o ffermwyr yn defnyddio'r cyngor sydd ar gael drwy ein rhaglen Cyswllt Ffermio ac yn edrych i weld sut y gallant fel unigolion fuddsoddi er mwyn denu arian drwy *feed-in tariffs*.

Priorities

Q7 Eleanor Burnham: Will the Minister outline her priorities for the remainder of the third Assembly? OAQ(3)1130(RAF)

Elin Jones: I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement and working to deliver sustainable farming, forestry, food and fisheries industries to the benefit of Wales and rural communities.

Eleanor Burnham: Your department has an important role in promoting energy efficiency and renewable energy, and the scheme in 'One Wales' states that information and advice will be available to farmers through Farming Connect. What is the cost of the programme to date and how do you monitor the success of the programme in encouraging farmers to produce renewable energy? If farmers receive a grant for setting up a renewable energy system, are they given what are referred to in English as feed-in tariffs? I am sorry, but I have no idea what the Welsh term is for that.

Elin Jones: Under Farming Connect, there is a specific programme providing advice to farmers on how to develop the potential that they have on the farm to generate renewable energy. That work was put out to tender and it was won by the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences and Bangor University, therefore they are responsible for providing the information and advice to farmers and for developing the work of setting up exemplar farms. Farmers have great potential to take advantage of the feed-in tariffs that you have referred to, through looking at the potential for producing energy on their farms. I know of farmers that are using the advice available through our Farming Connect programme and are looking to see how they as individuals can invest in order to attract money through the feed-in tariffs.

Lorraine Barrett: While we are awaiting the result of the High Court appeal on the badger cull, as one of your priorities for the remainder of this Assembly, will you give your consideration, and maybe your assessment, of some of the figures that have been produced by the Department for Environment, Food and Rural Affairs that show a decline in bovine TB, probably based on some of the cattle-based measures that you have put in place yourself, rather than concentrating on the badger cull?

Elin Jones: As it happens, today I laid the annual report on TB eradication on the Assembly website and delivered it formally to the Rural Development Sub-committee. That provides our analysis as a Government of all the statistics that are available and the interpretation of where we think we are after a full year's work on TB eradication. You are right to say that we have done far more testing; the annual health check of all cattle in Wales has given us a better indication of the extent of the disease and has allowed us to remove disease quicker from the cattle population, which means that infection, both within the cattle population and within wildlife sources, is being removed before it has had any significant effect in particular areas in Wales. A great deal has been achieved to date. I urge you to consider that report. I am fully committed to an annual report on TB eradication and our policy in Wales.

Mohammad Asghar: There seems to be a recurrent problem in the Welsh countryside centered on the illegal, underground rave scene. The latest high-profile example took place in Pembrokeshire over the May bank holiday with the event, attended by some 2,500 people, requiring an expensive police response. The trespassing nature of these raves causes clear upset for farmers, not least because of the clean-up costs involved and because of the harm that they can do to crops and animals. Has the Minister received any representations regarding this issue? Considering the damage such illegal raves can do to livestock and crops, and the upset that they have caused many farmers, what

Lorraine Barrett: A ninnau'n disgwyl canlyniad yr apêl i'r Uchel Lys ynghylch y rhaglen difa moch daear, a wnewch chi, fel un o'ch blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn, ystyried, ac efallai asesu, rhai o'r ffigurau sydd wedi'u cynhyrchu gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sy'n dangos gostyngiad yn nifer yr achosion o TB buchol, sydd i'w briodoli, fwy na thebyg, i rai o'r mesurau sy'n gysylltiedig â gwartheg, yr ydych chi eich hun wedi'u gweithredu, yn hytrach na chanolbwyntio ar y rhaglen difa moch daear?

Elin Jones: Fel mae'n digwydd, gosodais yr adroddiad blynyddol ar ddileu TB ar wefan y Cynulliad heddiw, a'i gyflwyno'n ffurfiol i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Mae'r adroddiad yn rhoi ein dadansoddiad ni fel Llywodraeth o'r holl ystadegau sydd ar gael, a'r dehongliad o ble'r ydym yn credu yr ydym arni ar ôl blwyddyn gyfan o waith ar ddileu TB. Yr ydych yn iawn wrth ddweud inni wneud llawer mwy na chynnal profion; mae'r archwiliad iechyd blynyddol a gynhelir ar holl wartheg Cymru wedi rhoi gwell syniad inni o hyd a lled y clefyd, ac wedi caniatáu inni gael gwared ar y clefyd ynghynt o'r boblogaeth gwartheg, sy'n golygu bod yr haint yn cael ei ddileu o blith gwartheg ac o blith bywyd gwyllt, cyn iddo gael unrhyw effaith sylweddol mewn ardaloedd penodol o Gymru. Mae llawer iawn wedi'i gyflawni hyd yma. Yr wyf yn eich annog i ystyried yr adroddiad hwnnw. Yr wyf wedi ymrwymo'n llwyr i adroddiad blynyddol ar ddileu TB, a'n polisi yng Nghymru.

Mohammad Asghar: Ymddengys fod problem byth a hefyd yng nghefn gwlad Cymru ynghylch rêfs anghyfreithlon ac answyddogol. Cafwyd yr enghraifft amlwg ddiweddaraf yn Sir Benfro dros benwythnos gŵyl y banc ym mis Mai. Daeth rhyw 2,500 o bobl i'r digwyddiad, a bu'n rhaid gwario'n sylweddol ar ymateb gan yr heddlu. Mae natur y digwyddiadau hyn, lle mae pobl yn tresmasu ar dir, yn achosi gofid amlwg i ffermwyr, ac un o achosion pennaf y gofid hwnnw yw'r costau glanhau a'r niwed y gallant ei achosi i gnydau ac anifeiliaid. A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sylwadau ynghylch y mater hwn? O ystyried y niwed y gall digwyddiadau anghyfreithlon o'r fath ei

role does the Minister believe the Welsh Assembly Government can play, together with local councils, in easing the concerns of members of Wales's rural communities?

Elin Jones: I heard some of the comments made off-mike, so I will confirm that I was not at the rave in question. [*Laughter.*]

Just to respond to that question, no direct representations had been made to me by Assembly Members or by farmers from that area on this matter. I have seen some of the press coverage, and I am sure that the private landowners will take up the matters that you raised, to do with any impact that events such as this have on private land, with the police and the appropriate authorities.

Helen Mary Jones: Cyn imi ofyn fy nghwestiwn, hoffwn ddiolch ichi, Weinidog, am ymweld â dwy fferm yn Llanelli gyda fi. Nid yw pobl efallai yn meddwl am ardal Llanelli fel rhywle lle mae llawer o ffermydd, ond gwn ichi fwynhau ymweld â'r teulu Dangerfield a'u moch arbennig, a hefyd y teulu Phillips sy'n tyfu llysiau.

Mae'n amlwg mai un o'ch blaenoriaethau yn y flwyddyn nesaf fydd datblygu a gweithredu'r strategaeth fwyd yn sgîl y ddadl a gawsom ddoe. Yn ystod y drafodaeth ynghylch datblygu'r strategaeth, a wnewch sicrhau bod bwyd lleol a werthir ym marchnadoedd traddodiadol ein trefi yn cael eu cynnwys yn ogystal â chyfeiriadau pwysig at bethau megis marchnadoedd ffermwyr? Fel y gwyddoch, mae'r teulu Phillips yn gwerthu'r rhan fwyaf o'i gynnyrch lleol o'r stonin yn y farchnad yn Llanelli. Efallai fod pethau tebyg yn digwydd drwy Gymru gyfan nad ydym yn ymwybodol ohonynt.

Elin Jones: Diolch, Helen, am y gwahoddiad i ymweld â'r ddwy fferm hynny yn Llanelli. Nid wyf yn credu imi weld na dafad na buwch ar fy ymweliad â'r ddwy fferm, ac mae'n galonogol gweld bod gennym ystod eang o ffermydd yn cynhyrchu ystod eang o fwydydd. Mae angen inni adeiladu ar y cryfder hwnnw a'r amrywiaeth honno.

achosi i anifeiliaid a chnydau, a'r gofid y maent wedi'i achosi i lawer o ffermwyr, pa rôl y gall Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â chynghorau lleol, ei chwarae, ym marn y Gweinidog, i leddfu pryderon pobl yng nghymunedau gwledig Cymru?

Elin Jones: Clywais rai o'r sylwadau a wnaed yn dawel bach, felly hoffwn gadarnhau nad oeddwn yn bresennol yn y rēf dan sylw. [*Chwerthin.*]

I ymateb i'r cwestiwn hwnnw, nid wyf wedi cael dim sylwadau uniongyrchol ynghylch y mater gan Aelodau'r Cynulliad na chan ffermwyr o'r ardal honno. Yr wyf wedi gweld rhywfaint o'r hanes yn y wasg, ac yr wyf yn siŵr y bydd y tîrfeddianwyr preifat yn codi'r materion a grybwyllwyd gennych, ynghylch unrhyw effaith a gaiff digwyddiadau o'r fath ar dir preifat, gyda'r heddlu a'r awdurdodau priodol.

Helen Mary Jones: Before I ask my question, I would like to thank you, Minister, for visiting two farms in Llanelli with me. People may not think about the Llanelli area as a place where there are many farms, but I know that you enjoyed visiting the Dangerfield family and their special pigs, and the Phillips family who grow vegetables.

It is clear that one of your priorities in the coming year will be to develop and implement the food strategy in light of yesterday's debate. During the discussion on developing the strategy, will you ensure that local food sold in our traditional town markets is included as well as references to important things like farmers markets? As you know, the Phillips family sells the bulk of its local produce from a stall in Llanelli market. Similar things may be happening across Wales of which we are not aware.

Elin Jones: Thank you, Helen, for the invitation to visit those two farms in Llanelli. I do not think that I saw a cow or a sheep on either farm, and it is encouraging to see that we have a wide range of farms producing a wide range of foods. We need to build on that strength and that variety.

Yr ydych yn codi cwestiwn teg. Wrth gwrs, yr ydym yn canolbwyntio dipyn fel Llywodraeth ac fel Aelodau Cynulliad yn gyffredinol ar y pwyslais a'r pwysigrwydd yr ydym yn ei roi ar farchnadoedd ffermwyr, sy'n gymharol newydd i'n trefi. Mae hen farchnadoedd traddodiadol lle mae bwydydd yn parhau i gael eu gwerthu, ac felly mae'n rhaid imi edrych yn y gwaith yr ydym yn ei wneud i hyrwyddo marchnadoedd ffermwyr newydd ar sut y gallwn hefyd gynnwys y marchnadoedd mwy traddodiadol. Efallai nad oeddwn wedi codi'r pwynt hwnnw tan yn awr, felly byddaf yn bwrw ymlaen â'r sylw hwnnw gyda'm swyddogion.

Y Llywydd: Diolch yn fawr, Weinidog. Efallai y clywn gennych yn nes ymlaen.

You raise a fair question. Of course, as a Government and as Assembly Members in general, we focus quite a bit on the emphasis and the importance that we place on farmers markets, which are relatively new to our towns. Food continues to be sold in our traditional markets, so I must look, in the work that we do to promote new farmers markets, at how we can also include the more traditional markets. I may not have raised that point until now, so I will proceed with that with my officials.

The Presiding Officer: Thank you, Minister. We may hear from you later.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing

Environment in Local Communities

Q1 Christine Chapman: What is the Welsh Assembly Government doing to improve the quality of the environment in local communities across Wales?
OAQ(3)1345(ESH)

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): Improving local environmental quality is central to our policy agenda. We provide the statutory framework to support clean environments and, through Fly-tipping Action Wales and Tidy Towns, funded by the Assembly Government, we work with key stakeholders to change public attitudes and empower communities to improve their own local environments.

Christine Chapman: A key concern for many of our constituents is the need to improve the local environment. For that reason, your recent announcement of £3.8 million for local environmental projects is welcome, and in particular the £15,000-worth of funding for the friends of Miskin Primary School in my constituency to enable them to develop an area of wasteland to the rear of the school that had until now been subject to

Amgylchedd Mewn Cymunedau Lleol

C1 Christine Chapman: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella ansawdd yr amgylchedd mewn cymunedau lleol ar draws Cymru?
OAQ(3)1345(ESH)

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Mae gwella ansawdd amgylchedd lleol yn ganolog i'n hagenda o ran polisi. Yr ydym yn darparu'r fframwaith statudol i hybu amgylcheddau glân, a thrwy Taclo Tipio Cymru a Threfi Taclus, a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i newid agweddau'r cyhoedd a grymuso cymunedau i wella'u hamgylcheddau lleol eu hunain.

Christine Chapman: Un pryder allweddol i lawer o'n hetholwyr yw'r angen i wella'r amgylchedd lleol. Am y rheswm hwnnw, croesewir eich cyhoeddiad diweddar ynghylch £3.8 miliwn ar gyfer prosiectau amgylcheddol lleol, ac yn enwedig y cyllid gwerth £15,000 i gyfeillion Ysgol Gynradd Meisgyn yn fy etholaeth i i'w galluogi i ddatblygu ardal o dir gwastraff y tu cefn i'r ysgol, lle gwelwyd fandaliaeth, tipio anghyfreithlon a thanau cysylltiedig tan yn

acts of vandalism, fly-tipping and related fires. I understand that part of the land will be transformed into allotments for school and community use, which is very welcome. Would you therefore agree, Minister, that providing assistance to local communities to change the quality of their local environment brings not only long-term environmental benefit, but also encourages a greater sense of community regeneration?

2.20 p.m.

Jane Davidson: It has been interesting to note the change in the types of projects bidding for funding in terms of local environmental quality. Previous projects used to focus much more on litter picking, for example, whereas people are now much more conscious of issues around developing community gardens, developing allotments, biodiversity development, habitat creation, path maintenance and improving access. Such projects are important for community regeneration, because it is about where people live and trying to create a much closer relationship between residents and their environment.

Nick Bourne: Minister, a key aspect of our environment is water, and as you travel around Wales, as I have done, I am sure that you have seen the low level of many reservoirs. I have seen the reasonable advice given by Dŵr Cymru saying that people should use water sensibly, and I appreciate that there is no occasion for immediate concern. However, given the fact that farmers are concerned about the dry weather and that people are raising this issue because of the low level of reservoirs—there was also some fish in distress on the feeder river into the Taff, which had to be rescued—will the Minister provide reassurance on this issue, and give some timely advice in relation to the water situation, although there appear to be rain clouds above us today?

Jane Davidson: You raise an important point. The model data in the context of climate change told us that we would face hotter, drier summers and that we would have

awr. Deallaf y bwriedir trawsnewid rhan o'r tir yn rhandiroedd i'w defnyddio gan yr ysgol a'r gymuned, a chroesewir hynny'n fawr. Felly, a fyddech yn cytuno, Weinidog, bod darparu cymorth i gymunedau lleol newid ansawdd eu hamgylchedd lleol nid yn unig yn esgor ar fudd amgylcheddol hirdymor, ond hefyd yn annog ymdeimlad mwy amlwg o adfywiad cymunedol?

Jane Davidson: Mae wedi bod yn ddiddorol gweld y newid yn y mathau o brosiectau sy'n ymgeisio am arian yng nghyswllt ansawdd yr amgylchedd lleol. Arferai prosiectau blaenorol ganolbwytio gryn dipyn yn fwy ar gasglu sbwriel, er enghraifft, ond mae pobl yn awr yn fwy ymwybodol o lawer o faterion sy'n ymwneud â datblygu gerddi cymunedol, datblygu rhandiroedd, datblygu bioamrywiaeth, creu cynefinoedd, cynnal a chadw llwybrau a gwella mynediad. Mae prosiectau o'r fath yn bwysig ar gyfer adfywio cymunedol, oherwydd mae a wnelo â'r man lle mae pobl yn byw, a cheisio creu perthynas agosach o lawer rhwng trigolion a'u hamgylchedd.

Nick Bourne: Weinidog, mae dŵr yn agwedd allweddol ar ein hamgylchedd, ac wrth ichi deithio ar hyd a lled Cymru, fel yr wyf innau wedi gwneud, yr wyf yn siŵr ichi weld lefel isel llawer o Gronfeydd dŵr. Yr wyf wedi gweld y cyngor rhesymol a roddwyd gan Dŵr Cymru, sy'n dweud y dylai pobl ddefnyddio dŵr yn synhwyrol, ac yr wyf yn sylweddoli nad oes achos i bryderu'n syth. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod ffermwyr yn pryderu am y tywydd sych a bod pobl yn codi'r mater hwn oherwydd lefel isel y cronfeydd dŵr—yr oedd rhai pysgod hefyd mewn trafferth yn llednant Afon Taf, y bu'n rhaid eu hachub—a wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd ynghylch y mater hwn, a rhoi rhywfaint o gyngor amserol ynghylch y sefyllfa o ran dŵr, er ei bod yn ymddangos bod cymylau glaw uwch ein pennau heddiw?

Jane Davidson: Yr ydych yn codi pwynt pwysig. Dywedodd y data model yng nghyd-destun y newid yn yr hinsawdd wrthym y byddem yn wynebu hafau poethach

less regular supplies of water. You will also probably know that, today or yesterday, the first restrictions were imposed in Cumbria in relation to a hosepipe ban. We may yet see drought orders in Wales this summer, depending on what happens during the rest of the summer. So, there needs to be a strong message about people using water wisely. We should be treating water in exactly the same way as we do any other resource, which means that you do not just leave the tap on, the plug out and pour it down the sink, but that you should be careful how you use it. We also want to strongly encourage people to meter their water supply. It is far more beneficial for them as customers, and I am in discussions with Dŵr Cymru, the Consumer Council for Water and the Drinking Water Inspectorate in terms of any proposals that would have to be put in place in Wales during the summer.

Kirsty Williams: Minister, one of the great problems that can be experienced by communities across Wales is fly-tipping. We had the opportunity yesterday to discuss your proposals with regards to landfill bans. While the proposed Measure received support yesterday for the principle of landfill bans, there is some concern that landfill bans could lead to an increase in fly-tipping activity. What steps will your Government take to prevent that from happening?

Jane Davidson: There have always been concerns that any restrictions on landfill or changing waste collection arrangements would lead to an increase in fly-tipping. The critical way to respond to that is exactly as we have done through Fly-tipping Action Wales, which is about the Environment Agency Wales, Keep Wales Tidy, the Countryside Council for Wales, three national park authorities, the Forestry Commission Wales, Network Rail, Dŵr Cymru, police forces and the 22 Welsh local authorities working together to look at a long-term reduction in fly-tipping. Greater penalties can also be used by the Environment Agency in terms of

a sychach ac y byddai gennym gyflenwadau llai rheolaidd o ddŵr. Mae'n debyg y byddwch yn gwybod hefyd bod y cyfyngiadau cyntaf wedi cael eu cyflwyno heddiw neu ddoe yn Cumbria, ar ffurf gwaharddiad ar ddefnyddio pibelli dyfrhau. Efallai y gwelwn orchmynion sychder yng Nghymru yr haf hwn eto, yn dibynnu ar yr hyn a fydd yn digwydd yn ystod gweddill yr haf. Felly, mae angen cyflwyno neges gref ynghylch cael pobl i ddefnyddio dŵr yn ddoeth. Dylem fod yn trin dŵr yn yr un ffordd yn union ag yr ydym yn trin unrhyw adnodd arall, sy'n golygu na ddylid gadael y tap ar agor a'r plwg allan a'i dywallt i lawr y sinc, ond y dylid ei ddefnyddio'n ofalus. Yr ydym hefyd am annog pobl yn daer i ddefnyddio mesurydd ar gyfer eu cyflenwad dŵr. Mae'n fwy manteisiol o lawer iddynt hwy fel cwsmeriaid, ac yr wyf wrthi'n cynnal trafodaethau â Dŵr Cymru, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ynghylch unrhyw gynlluniau y byddai'n rhaid eu rhoi ar waith yng Nghymru yn ystod yr haf.

Kirsty Williams: Weinidog, un o'r problemau mawr y gall cymunedau ledled Cymru eu dioddef yw tipio anghyfreithlon. Ddoe, cawsom gyfle i drafod eich cynigion ynghylch gwaharddiadau tirlenwi. Er i'r Mesur arfaethedig gael cefnogaeth ddoe o blaid egwyddor gwaharddiadau tirlenwi, ceir rhywfaint o bryder y gallai gwaharddiadau tirlenwi arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Pa gamau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i atal hynny rhag digwydd?

Jane Davidson: Cafwyd pryderon erioed y gallai unrhyw gyfyngiadau ar dirlenwi, neu unrhyw newid mewn trefniadau casglu gwastraff, arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Y ffordd hollbwysig o ymateb i hynny yw'r union ffordd yr ydym wedi ymateb drwy Taclo Tipio Cymru, sy'n golygu bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y tri awdurdod parc cenedlaethol, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Network Rail, Dŵr Cymru, heddluoedd, a'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cydweithio â'i gilydd i ystyried sut i leihau achosion o dipio anghyfreithlon yn y tymor hir. Gall Asiantaeth yr

enforcement. Strong messages have been put out by the use of those enforcement penalties as they demonstrate that we will take action in Wales.

Kirsty Williams: You are right to say that one of the ways in which we can prevent this from happening is to ensure that strong action is taken against those who deliberately look to harm our countryside by fly-tipping. I know that the Environment Agency will have the power to issue spot fines in some cases. However, there was a call by the Environment Agency for such fines to be applied uniformly in relation to a number of issues. Will you be looking at that in the context of your proposed Measure?

Jane Davidson: A total of 20,412 enforcement actions were carried out in 2008-09, which increased from 18,118 in 2007-08, and 78 prosecutions were completed, which was an increase. We will remain in contact with the Environment Agency and all the partners that are involved in Fly-tipping Action Wales to keep what needs to be done continually under review in the future.

Litter

Q2 David Melding: What measures are in place to reduce the level of litter in Wales? OAQ(3)1343(ESH)

Jane Davidson: The Assembly Government takes littering seriously and tackling it is central to our policy agenda. Through the Tidy Towns programme, funded by the Assembly Government, we work with local authorities and Keep Wales Tidy to change public attitudes and empower communities to improve their own local environments.

David Melding: The problem of littering has been much in the news this year. The problem of beach litter in Wales is growing and is considerably worse than in Scotland, for example. You mentioned the Tidy Towns initiative, which we welcome, but voluntary

Amgylchedd ddefnyddio cosbau llymach hefyd wrth gymryd camau gorfodi. Mae negeseuon cryf wedi cael eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r cosbau gorfodi hynny, oherwydd maent yn dangos y byddwn yn gweithredu yng Nghymru.

Kirsty Williams: Yr ydych yn iawn wrth ddweud mai un o'r ffyrdd y gallwn atal hynny rhag digwydd yw sicrhau bod camau gweithredu llym yn cael eu cymryd yn erbyn y sawl sy'n ceisio niweidio ein cefn gwlad yn fwiadol drwy dipio anghyfreithlon. Gwn y bydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd y grym i roi dirwyon yn y fan a'r lle mewn rhai achosion. Fodd bynnag, cafwyd cais gan Asiantaeth yr Amgylchedd i ddirwyon o'r fath gael eu rhoi'n gyson yng nghyswllt nifer o broblemau. A fyddwch yn edrych ar hynny yng nghyd-destun eich Mesur arfaethedig?

Jane Davidson: Cymerwyd cyfanswm o 20,412 o gamau gorfodi yn 2008-09, a oedd yn fwy na'r 18,118 yn 2007-08, a chyflawnwyd 78 erlyniad, a oedd yn gynydd. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad ag Asiantaeth yr Amgylchedd, a phob partner sy'n ymwneud â Thaclo Tipio Cymru, er mwyn sicrhau bod yr hyn y mae angen ei wneud yn cael ei adolygu'n barhaus yn y dyfodol.

Sbwriel

C2 David Melding: Pa fesurau sydd ar waith i leihau lefel sbwriel yng Nghymru? OAQ(3)1343(ESH)

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd achosion o daflu sbwriel o ddifrif, ac mae mynd i'r afael ag achosion o'r fath yn ganolog i'n hagenda o ran polisi. Drwy'r rhaglen Trefi Taclus, a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Cadwch Gymru'n Daclus i newid agweddau'r cyhoedd a grymuso cymunedau i wella'u hamgylcheddau lleol eu hunain.

David Melding: Mae taflu sbwriel yn broblem sydd wedi bod yn y newyddion droeon eleni. Mae sbwriel ar draethau yng Nghymru yn broblem sy'n tyfu, ac mae'n waeth o lawer yma nag yn yr Alban, er enghraifft. Yr oeddech yn sôn am y fenter

groups are also involved in cleaning up the Taff and other river courses. The involvement of local people, as much as possible, is at the heart of a good anti-littering strategy. What will the Welsh Assembly Government do to improve those measures? I was recently in Baden-Württemberg, where it was obvious that local communities were intensely involved and that litter was seen as a resource. There was even a federal tax on all plastic bottles, for instance. We need comprehensive and aggressive measures, because a minority of people make life unpleasant for all of us through the level of litter they discard.

Jane Davidson: I can say unequivocally that the money that we have provided and the integration of many thousands of volunteers into the projects across Wales have been immensely beneficial to local communities. An independent evaluation of our local environmental quality improvement projects by Wavehill Consulting is about to be published and that demonstrates the tangible benefits that the grant funding brings to the local environment and communities. I have to note that, factually, through the local environmental audit management system, the LEAMS system, we fund Keep Wales Tidy to carry out independent audit surveys in each local authority, which show that, overall, Wales is getting cleaner. Those are longitudinal data. Every year, it surveys 8 per cent of the streets of Wales, and 4 per cent twice a year, to allow for seasonal changes, and then it grades those streets based on the presence and amounts of litter and refuse. It also picks up issues around fly-posting, graffiti, dog-fouling, vandalism, weeds and detritus. It is an important statistical tool for us to continue to look at when we consider the state of Wales.

Joyce Watson: I want to take this opportunity to highlight the effect that litter has on tourism. You will know that large parts of rural Wales are highly dependent on tourism to boost their local economy, but that

Trefi Taclus, yr ydym yn ei chroesawu, ond mae grwpiau gwirfoddol yn ymwneud hefyd â glanhau Afon Taf a chyrsiau afonydd eraill. Mae cynnwys pobl leol gymaint ag sy'n bosibl wrth wraidd strategaeth dda ar gyfer atal sbwriel. Beth y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i wella'r mesurau hynny? Yn ddiweddar, yr oeddwn yn Baden-Württemberg, lle'r oedd yn amlwg bod cymunedau lleol yn cael eu cynnwys yn ddwys a bod sbwriel yn cael ei ystyried yn adnodd. Er enghraifft, yr oedd treth ffederal ar bob potel blastig hyd yn oed. Mae angen mesurau cynhwysfawr ac ymosodol arnom, oherwydd ceir lleiafrif sy'n gwneud bywyd yn amhleserus inni i gyd oherwydd y sbwriel y maent yn ei daflu.

Jane Davidson: Gallaf ddweud yn hollol bendant bod yr arian yr ydym wedi'i ddarparu, a'r gwaith o integreiddio miloedd lawer o wirfoddolwyr yn y prosiectau ledled Cymru, wedi bod yn hynod o fuddiol i gymunedau lleol. Mae gwerthusiad annibynnol o'n prosiectau ar gyfer gwella ansawdd yr amgylchedd lleol, gan Wavehill Consulting, ar fin cael ei gyhoeddi, ac mae'n dangos y manteision pendant y mae'r arian grant yn eu cynnig i'r amgylchedd a chymunedau lleol. Rhaid imi nodi ein bod, yn ffeithiol, drwy'r system reoli ar gyfer archwilio'r amgylchedd lleol, yn ariannu Cadwch Gymru'n Daclus i gynnal arolygon archwilio annibynnol ym mhob awdurdod lleol, sy'n dangos bod Cymru yn dod yn lanach ar y cyfan. Data hydredol yw'r rheini. Bob blwyddyn, bydd yn cynnal arolwg o 8 y cant o strydoedd Cymru, a 4 y cant ohonynt ddwywaith y flwyddyn, i ystyried newidiadau tymhorol. Yna, bydd yn graddio'r strydoedd hynny ar sail presenoldeb sbwriel a faint ohono sydd yno. Mae hefyd yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â phosteri a osodir yn anghyfreithlon, graffiti, cŵn yn baeddu, fandaliaeth, chwyn a malurion. Mae'n adnodd ystadegol pwysig y gallwn barhau i edrych arno pan fyddwn yn ystyried cyflwr Cymru.

Joyce Watson: Hoffwn gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at yr effaith y mae sbwriel yn ei chael ar dwristiaeth. Byddwch yn gwybod bod rhannau eang o Gymru wledig yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth i roi hwb

is definitely not boosted by the sight of lots of litter strewn across the countryside. Will you join me in condemning the careless disposal of rubbish and give your support to local authorities in tackling this issue, Minister? It is vitally important that those authorities are backed up so that they take the appropriate action. I have done a little research into this and I have found that Pembrokeshire and other authorities are not taking the action that they could, certainly in cases of fly-tipping, which was previously mentioned. I also ask you to join the Minister for Rural Affairs in looking at the environmental benefits of nice and tidy towns and communities, because it is an animal welfare issue when our hedgerows and fields are strewn with litter that is picked up by the animals that occupy those spaces.

i'w heconomi leol, ond yn bendant ni chaiff twristiaeth ei hybu pan fydd pobl yn gweld llawer o sbwriel wedi'i wasgaru ar draws cefn gwlad. A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r arfer o daflu sbwriel yn ddiofal, a chynnig eich cefnogaeth i awdurdodau lleol wrth iddynt fynd i'r afael â'r broblem hon, Weinidog? Mae'n hanfodol bwysig bod yr awdurdodau hynny'n cael cefnogaeth, er mwyn iddynt gymryd y camau gweithredu priodol. Yr wyf wedi gwneud rhywfaint o ymchwil i'r mater hwn, ac wedi gweld nad yw Sir Benfro ac awdurdodau eraill yn cymryd y camau y gallent eu cymryd, yn bendant o safbwynt tipio anghyfreithlon, y soniwyd amdano eisoes. Gofynnaf hefyd ichi ymuno â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig i edrych ar fanteision amgylcheddol trefi a chymunedau braf a thaclus, oherwydd mae'n broblem i les anifeiliaid pan fo'n gwrychoedd a'n caeau yn frith o sbwriel y bydd anifeiliaid sy'n byw yno'n ei godi.

2.30 p.m.

Jane Davidson: Tidy Towns has assisted 901 groups across Wales and 431 are now self-sufficient and able carry on their good work and environmental improvements without assistance in the future because they are so motivated as members of the community. You mentioned Pembrokeshire, but I point out that 632 clean-ups have taken place in conjunction with Keep Wales Tidy. In Pembrokeshire alone, 38 groups in the county are already self-sufficient and 28 beach areas have been adopted by volunteers. We must continue to use our money wisely and well, and we want to ensure that as many groups can become as self-sufficient as possible, but we need to ensure that we have enough money to work with local authorities to support groups that are not self-sufficient to keep this agenda going. It is critically important in the context of tourism. We do not want people to go away and think that our absolutely wonderful landscape is also a dirty one.

Jane Davidson: Mae Trefi Taclus wedi cynorthwyo 901 o grwpiau ledled Cymru. Mae 431 ohonynt bellach yn hunangynhaliol, a byddant yn gallu parhau â'u gwaith da a'u gwelliannau amgylcheddol heb gymorth yn y dyfodol, oherwydd eu bod mor frwdfrydig fel aelodau'r gymuned. Yr oeddech yn sôn am Sir Benfro, ond hoffwn nodi bod 632 o brosiectau glanhau wedi cael eu cynnal ar y cyd â Cadwch Gymru'n Daclus. Yn Sir Benfro yn unig, mae 38 o grwpiau yn y sir eisoes yn hunangynhaliol, ac mae 28 o draethau wedi cael eu mabwysiadu gan wirfoddolwyr. Rhaid inni barhau i ddefnyddio ein harian yn ddoeth ac yn dda, ac yr ydym am sicrhau y gall cynifer ag sy'n bosibl o grwpiau fod mor hunangynhaliol ag sy'n bosibl, ond mae angen inni sicrhau bod gennym ddigon o arian i weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi grwpiau nad ydynt yn hunangynhaliol, er mwyn parhau â'r agenda hon. Mae'n hollbwysig yng nghyd-destun twristiaeth. Nid ydym am i bobl adael a meddwl bod ein tirwedd hollol fendigedig hefyd yn frwnt.

Eleanor Burnham: I am absolutely delighted that you are taking such a strong view on this. I happen to live on a rural road—and there are many similar ones—

Eleanor Burnham: Yr wyf wrth fy modd eich bod yn mynegi barn mor gryf am hyn. Yr wyf yn digwydd byw ar ffordd wledig—a cheir llawer o rai tebyg—a phryd bynnag y

where whenever the local authority comes to do its best to clean up or whatever, it often cuts the grass, but that exacerbates the situation because it cuts up all the plastic. It is a very sad thing to confess, but last Sunday, within 10 minutes of cleaning up and down my road, I got two whole plastic bags of—if I may use the word—crap and it was rather disgusting. It was really foul; all sorts of stuff that people have thrown out of car windows, including quantities of McDonald's such as a whole cardboard container, a very large cup and everything else. I hope that you can help local authorities because they are doing their best. There are all kinds of areas I could show you in north Wales, as I am sure you are aware. Even on the A55, when the grass cutting happens, the situation is often exacerbated because no-one has been there to pick up the litter. You then get the wind blowing it all in one fell swoop. All that people who come over the border to visit Wales see—and I must not use the word again, in case I get thrown out—is litter. It is really sad and I hope that you can do your best to help local authorities, particularly now that they are under the financial cosh.

Jane Davidson: We have been very clear as a Government about supporting local authorities through the Tidy Towns initiative, where some of the money goes to local authorities, and some of the money goes to Keep Wales Tidy in terms of taking forward initiatives in the local area. However, a very strong message is put out to the public in Wales. There are enforcement opportunities for local authorities; they take them differentially. Members of the Assembly have asked me questions previously in the Chamber about the performance of local authorities in this area. There are still issues around the way in which we work with retailers to discuss the nature of their products, so that we are not bringing products that are not in any way recyclable or reusable into our landscape. So, there is a very big agenda here. However, in the context of your individual work in your own road, I am sure many Assembly Members do something similar. You should take the issue up with your local authority in terms of making

daw'r awdurdod lleol i wneud ei orau i lanhau neu unrhyw beth felly, bydd yn aml yn torri'r glaswellt, ond mae hynny'n gwaethygu'r sefyllfa oherwydd mae'n malu'r plastig i gyd. Mae'n beth trist iawn i'w gyfaddef, ond ddydd Sul diwethaf, o fewn 10 munud i lanhau i fyny ac i lawr fy ffordd, cesglais ddau lond bag plastig o—os caf ddefnyddio'r gair—'crap', ac yr oedd yn eithaf ffaidd. Yr oedd yn wirioneddol afiach; pob math o bethau yr oedd pobl wedi eu taflu allan o ffenestri ceir, gan gynnwys nwyddau McDonalds, megis blwch cardbord cyfan, cwpan mawr iawn a phopeth arall. Gobeithiaf y gallwch helpu awdurdodau lleol, oherwydd maent yn gwneud eu gorau. Mae pob math o ardaloedd y gallwn eu dangos ichi yn y gogledd, fel yr ydych yn ymwybodol, yr wyf yn siŵr. Hyd yn oed ar yr A55, pan gaiff y glaswellt ei dorri, caiff y sefyllfa ei gwaethygu'n aml oherwydd nad oes neb wedi bod yno i gasglu'r sbwriel. Daw'r gwynt wedyn i'w chwythu i gyd ar unwaith. Y cyfan a wêl pobl sy'n dod dros y ffin i ymweld â Chymru—a rhaid imi beidio â defnyddio'r gair eto, rhag imi gael fy nhaflu allan—yw sbwriel. Mae'n wirioneddol drist, a gobeithiaf y gallwch wneud eich gorau i helpu awdurdodau lleol, yn enwedig gan eu bod yn awr dan bwysau ariannol.

Jane Davidson: Yr ydym wedi bod yn glir iawn fel Llywodraeth ynghylch cefnogi awdurdodau lleol drwy'r fenter Trefi Taclus, lle mae rhywfaint o'r arian yn mynd i awdurdodau lleol, a lle mae rhywfaint ohono'n mynd i Cadwch Gymru'n Daclus i hybu mentrau yn yr ardal leol. Fodd bynnag, caiff neges gref iawn ei chyflwyno i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae gan awdurdodau lleol gyfleoedd i orfodi; byddant yn manteisio ar y cyfleoedd hynny'n wahanredol. Mae Aelodau'r Cynulliad wedi gofyn cwestiynau imi o'r blaen yn y Siambr am berfformiad awdurdodau lleol yn y maes hwn. Ceir problemau o hyd o ran y ffordd yr ydym yn gweithio gyda manwerthwyr i drafod natur eu cynnyrch, er mwyn sicrhau nad ydym yn dod â chynnyrch na ellir ei ailgylchu na'i aildefnyddio o gwbl i mewn i'n tirwedd. Felly, mae agenda fawr iawn yma. Fodd bynnag, yng nghyd-destun eich gwaith unigol ar hyd eich ffordd chi, yr wyf yn siŵr bod llawer o Aelodau'r Cynulliad yn gwneud rhywbeth tebyg. Dylech godi'r mater gyda'ch

absolutely sure that the work that it is undertaking is contributing to a cleaner local environment.

awdurdod lleol er mwyn gwneud yn hollol siŵr bod y gwaith y mae'n ei wneud yn cyfrannu at amgylchedd lleol glanach.

Blaenoriaethau

Priorities

Q3 Paul Davies: Will the Minister make a statement on her priorities for the remainder of the third Assembly? OAQ(3)1338(ESH)

C3 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad? OAQ(3)1338(ESH)

Jane Davidson: I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement, which include tackling climate change, flood-risk management, waste reduction, biodiversity protection and an effective planning system, which will be framed by sustainable development, which is the central organising principle of this Government.

Jane Davidson: Yr wyf wedi ymrwymo o hyd i gyflawni'r amcanion a amlinellwyd yng nghytundeb 'Cymru'n Un', sy'n cynnwys mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, rheoli perygl llifogydd, lleihau gwastraff, gwarchod bioamrywiaeth a chael system gynllunio effeithiol, a wneir yng nghydestun datblygu cynaliadwy, sef prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth hon.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that answer. One of her main responsibilities is to protect the environment and ensure that sustainable economies are developed at the same time.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Un o'i phrif gyfrifoldebau yw gwarchod yr amgylchedd a sicrhau bod economïau cynaliadwy'n cael eu datblygu ar yr un pryd.

I recently received representations regarding dredging in areas of Pembrokeshire, and I am aware that there are some dredging licences awaiting approval. A general concern is that if dredging restrictions are made more onerous, it could have a negative effect on the operation of some businesses in the area. While I appreciate that environmental issues must be fully considered, I also urge the Welsh Assembly Government to recognise the economic benefits of these businesses and ensure that it is given proper consideration. In the circumstances, will the Minister outline what assurances the Welsh Assembly Government is providing to those awaiting their dredging licences, especially given that jobs are dependent on these decisions? Will she also tell us how the Welsh Assembly Government is balancing environmental issues with the need to protect and develop local economies?

Yn ddiweddar, cefais sylwadau ynghylch echdynnu tywod mewn rhannau o Sir Benfro, ac yr wyf yn ymwybodol bod rhai trwyddedau echdynnu'n disgwyl am gymeradwyaeth. Un pryder cyffredinol yw y gallai cyfyngiadau llymach ar echdynnu tywod gael effaith negyddol ar waith rhedeg rhai busnesau yn yr ardal. Er fy mod yn sylweddoli bod yn rhaid ystyried materion amgylcheddol yn llawn, yr wyf hefyd yn annog Llywodraeth y Cynulliad i gydnabod manteision economaidd y busnesau hyn, a sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried yn briodol. Dan yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog amlinellu'r sicrwydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi i'r rheini sy'n disgwyl am eu trwyddedau echdynnu, yn enwedig o ystyried bod swyddi'n dibynnu ar y penderfyniadau hyn? A wnaiff ddweud wrthym hefyd sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau cydbwysedd rhwng materion amgylcheddol a'r angen i amddiffyn a datblygu economïau lleol?

Jane Davidson: I can give you a broad answer, Paul, because I cannot comment on individual applications, which have to go through the proper process. As an Assembly

Jane Davidson: Gallaf roi ateb cyffredinol ichi, Paul, oherwydd ni allaf wneud sylwadau am geisiadau unigol, sy'n gorfod mynd drwy'r broses briodol. Fel Llywodraeth y

Government, we have been clear about ensuring that our decisions lead to the sustainable use of resources. However, we have also been clear that there are times when that needs to include dredging. We need to ensure that, on those occasions when we dredge, the dredging is undertaken in as responsible a fashion as possible. Therefore, there is a major obligation on any company that proposes dredging to ensure that it has all the environmental assurances in place when making its application. I have had discussions on this issue before, for example, with my colleague, Edwina Hart, in relation to dredging off the Gower peninsula, where she was arguing a different proposition in the context of the environmental importance. Therefore, it is a balance that needs to be achieved. I am sure that you would want to see that balance appropriately achieved, not least since one of our environmental jewels is the nature reserve off the coast of Pembrokeshire.

Mick Bates: I welcome the priority you give to bio-waste. I have also long welcomed the progress of the plastic bag levy, which will offer huge environmental benefits, by challenging our single-use, throwaway behaviour. However, I am concerned that the current consultation states that compostable bags are not to be excluded from the levy, as that may give mixed messages to consumers. As you know, local authorities use compostable bags for recycling food waste. Therefore, every compostable bag that a customer purchases, which is reused in a kitchen caddy, is a potential saving for the local authority that will not have to supply that bag. Will you re-examine this issue and consider the co-operative scheme in Oldham, which is trialling a similar scheme for customers who reuse compostable bags? Simple labelling could overcome your concern, which is noted in the consultation, and could also provide environmental benefits, as well as a cost saving—it has been calculated that reusable bags could cost local authorities £10 million.

Cynulliad, yr ydym wedi bod yn glir ynghylch sicrhau bod ein penderfyniadau'n arwain at ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Fodd bynnag, yr ydym hefyd wedi nodi'n glir bod adegau pan fydd angen i hynny gynnwys echdynnu tywod. Mae angen inni sicrhau, ar yr adegau hynny pan fyddwn yn echdynnu tywod, bod y gwaith yn cael ei gyflawni mewn modd mor gyfrifol ag sy'n bosibl. Felly, mae dyletswydd enfawr ar unrhyw gwmni sy'n bwriadu echdynnu tywod i wneud yn siŵr, wrth gyflwyno ei gais, ei fod wedi cael pob sicrwydd amgylcheddol. Yr wyf wedi cael trafodaethau am y mater hwn o'r blaen, er enghraifft, gyda fy nghydweithiwr, Edwina Hart, ynghylch echdynnu tywod oddi ar benrhyn Gŵyr, pan oedd yn dadlau ynghylch cynnig gwahanol yng nghyd-destun pwysigrwydd amgylcheddol. Felly, mae'n gydbwysedd y mae angen ei sicrhau. Yr wyf yn siŵr y byddech am weld y cydbwysedd hwnnw'n cael ei sicrhau'n briodol, yn anad dim gan mai un o'n trysorau amgylcheddol yw'r warchodfa natur oddi ar arfordir Sir Benfro.

Mick Bates: Yr wyf yn croesawu'r flaenoriaeth yr ydych yn ei rhoi i fiowastraff. Yr wyf hefyd, ers tro, wedi croesawu datblygiad yr ardoll ar fagioau plastig, a fydd yn cynnig manteision amgylcheddol enfawr drwy herio ein harfer o ddefnyddio pethau unwaith a'u taflu. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu bod yr ymgynghoriad presennol yn dweud na ddylai bagiau y gellir eu compostio gael eu heithrio o'r ardoll, am y gallai hynny roi negeseuon cymysg i ddefnyddwyr. Fel y gwyddoch, mae awdurdodau lleol yn defnyddio bagiau y gellir eu compostio i ailgylchu gwastraff bwyd. Felly, mae pob bag y gellir ei gompostio, y mae cwsmer yn ei brynu ac a gaiff ei aildefnyddio mewn bocs yn y gegin, yn arbediad posibl i'r awdurdod lleol na fydd yn gorfod darparu'r bag hwnnw. A wnewch chi ailarchwilio'r mater hwn ac ystyried y cynllun cydweithredol yn Oldham, sy'n treialu cynllun tebyg ar gyfer cwsmeriaid sy'n aildefnyddio bagiau y gellir eu compostio? Gallai label syml ymdrin â'ch pryder, a gaiff ei nodi yn yr ymgynghoriad, a gallai hefyd gyflwyno manteision amgylcheddol yn ogystal ag arbediad o ran cost—cyfrifwyd y gallai bagiau y gellir eu haildefnyddio gostio £10 miliwn i awdurdodau lleol.

Jane Davidson: It has been interesting to note, during the process of defining what we include in the consultation, which bags are sometimes so-called compostable bags, and others that are degradable, biodegradable, or a whole range of other descriptions. We want to continue to strongly support our work on the food waste agenda, and appropriate bags will need to be available for use in that agenda, through the caddy system. However, that is different from supermarkets selling individual, single-use bags. I would suggest that, not only can this exchange be factored into the consultation, but you may wish to make further representations yourself during the consultation.

Angela Burns: I read the statement that you issued yesterday on environmental delivery options with great interest. According to what was said on the surface of your statement, I welcome that news. You mentioned that, if a compelling case is made for restructuring, any plans that are developed would require not only the full involvement of those affected, but also further legislation. Would that be under the legislative competence Order process or would that involve a Measure? I am trying to understand the timescales around this, and whether you are able to move it forward or not.

Jane Davidson: We are only at an early stage in the sense that all I announced yesterday, along with Elin Jones, was that, as a result of moving towards a natural environment framework, which is about developing and reshaping our policies within the wider natural environment, taking sustainable development as the guiding principle, we must establish whether that can be properly delivered under existing arrangements, or whether we need a change in arrangements. Therefore, the review is about looking at the delivery partners' ability to deliver those future environmental requirements in the most effective manner for the environment, for the people of Wales, for

Jane Davidson: Mae wedi bod yn ddiddorol gweld, yn ystod y broses o ddiffinio'r hyn y byddwn yn ei gynnwys yn yr ymgynghoriad, pa fagiau sy'n rhai a ddisgrifir weithiau fel bagiau y gellir eu compostio, a pha rai eraill sy'n ddiraddiadwy, sy'n fiogdiraddiadwy, neu sy'n cyd-fynd â llawer iawn o ddisgrifiadau eraill. Yr ydym am barhau i gefnogi'n frwd ein gwaith ar yr agenda gwastraffu bwyd, a bydd angen i fagiau priodol fod ar gael i'w defnyddio yn yr agenda honno, drwy'r system focsys. Fodd bynnag, mae hynny'n wahanol i archfarchnadoedd yn gwerthu bagiau unigol i'w defnyddio unwaith. Yn ogystal ag awgrymu y gallai'r cyfnewid hwn gael ei ystyried yn yr ymgynghoriad, byddwn hefyd yn awgrymu yr hoffech, efallai, gyflwyno sylwadau pellach eich hun yn ystod yr ymgynghoriad.

Angela Burns: Darllenais gyda diddordeb mawr y datganiad a gyhoeddasoch ddoe am opsiynau cyflenwi amgylcheddol. Yn ôl yr hyn a ddywedwyd ar yr wyneb yn eich datganiad, yr wyf yn croesawu'r newyddion dan sylw. Yr oeddech yn sôn, pe bai achos grymus yn cael ei gyflwyno dros ailstrwythuro, y byddai unrhyw gynlluniau a ddatblygir yn golygu y byddai angen deddfwriaeth newydd yn ogystal â chamau i gynnwys yn llawn y sawl yr effeithir arnynt. A fyddai hynny dan y broses ar gyfer Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, ynteu a fyddai'n golygu Mesur? Yr wyf yn ceisio deall yr amserlenni ar gyfer hyn, a ph'un a allwch ei symud ymlaen ai peidio.

Jane Davidson: Megis dechrau yr ydym, yn yr ystyr mai'r cyfan a gyhoeddais i, ynghyd ag Elin Jones, ddoe oedd bod yn rhaid inni weld, yn sgil symud tuag at fframwaith amgylchedd naturiol, sy'n ymwneud â datblygu ac ail-lunio ein polisiau yn yr amgylchedd naturiol ehangach gan ddefnyddio datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor arweiniol, a ellir cyflawni hynny'n briodol dan y trefniadau presennol, ynteu a oes angen newid mewn trefniadau arnom. Felly, mae a wnelo'r adolygiad ag edrych ar allu'r partneriaid cyflenwi i gyflawni'r gofynion amgylcheddol hynny yn y dyfodol, yn y modd mwyaf effeithiol ar gyfer yr amgylchedd, ar gyfer pobl Cymru, ar gyfer

business, and for the public purse.

busnes, ac ar gyfer pwrs y wlad.

2.40 p.m.

Whether there would need to be legislative arrangements that might require legislative support from Westminster in the context of delivery will depend on the outcome of the review. So, in a sense, that would happen later in the process. If we did go for a full consultation in the autumn, we would set out very clearly whether there were legislative requirements and, if so, which legislative requirements they would be in this context.

Canlyniad yr adolygiad fydd yn penderfynu a fyddai angen trefniadau deddfwriaethol a allai olygu bod angen cefnogaeth ddeddfwriaethol o San Steffan, yng nghydestun cyflenwi. Felly, ar un ystyr, byddai hynny'n digwydd yn ddiweddarach yn y broses. Pe baem yn anelu at gynnal ymgynghoriad llawn yn yr hydref, byddem yn nodi'n glir iawn a fyddai gofynion deddfwriaethol yn bodoli, ac os felly, pa ofynion deddfwriaethol fyddai'n bodoli yn y cyd-destun hwn.

Planning System

System Gynllunio

Q4 Darren Millar: Will the Minister make a statement on the planning system? OAQ(3)1340(ESH)

C4 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y system gynllunio? OAQ(3)1340(ESH)

Jane Davidson: The planning system helps to support economic renewal, develop affordable housing and tackle climate change through our renewable energy policies. We have agreed a programme of improvements to address the recommendations made in the independent study of the planning application process, which we hope will lead to greater consistency.

Jane Davidson: Mae'r system gynllunio yn helpu i gefnogi'r adfywiad economaidd, yn darparu tai fforddiadwy, ac yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy ein polisiau ynni adnewyddadwy. Yr ydym wedi cytuno ar raglen o welliannau i ddelio â'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr astudiaeth annibynnol o'r broses o wneud cais cynllunio, a fydd yn arwain at fwy o gysondeb.

Darren Millar: Thank you for that answer, Minister, and thank you for referring to the improvements that you hope to make to the planning system. Have you had any discussions with your colleague, the Minister for Social Justice and Local Government, about the potential to involve to a greater extent the town and community councils of Wales in the planning process? You will be aware that, at present, they are merely statutory consultees in the planning process and that they do not have decision-making powers in respect of planning applications. Minister, will you look at the possibility of extending decision-making powers over smaller or, shall we say, inconsequential planning decisions and applications in future?

Darren Millar: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, a diolch am gyfeirio at y gwelliannau yr ydych yn gobeithio'u gwneud i'r system gynllunio. A ydych wedi cael trafodaethau â'ch cydweithiwr, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ynghylch y posibilrwydd o gynnwys cynghorau tref a chymuned Cymru i raddau mwy helaeth yn y broses gynllunio? Byddwch yn ymwybodol mai ymgynghoreion statudol yn unig ydynt yn y broses gynllunio ar hyn o bryd, ac nad oes ganddynt bwerau gwneud penderfyniadau o safbwynt ceisiadau cynllunio. Weinidog, a wnewch chi edrych ar y posibilrwydd o ymestyn pwerau gwneud penderfyniadau, sy'n ymwneud â cheisiadau a phenderfyniadau cynllunio llai o faint, neu lai pwysig, dyweder, yn y dyfodol?

Jane Davidson: We have no plans to take

Jane Davidson: Nid oes gennym gynlluniau

any powers away from local authorities in relation to the exercise of their responsibilities in the planning system. We think that it is very important that local authorities take full account of the concerns, objections or support of the town and community councils in determining planning applications at local authority level.

Alun Davies: Minister, I would like to ask you about the future of town centres. Most people in Wales live in towns and, over the past few years, we have seen a relative decline in town centres and have seen the social, economic and environmental consequences of that. There are many people who now want to see the Assembly Government taking proactive action through the planning system to enable planning advice to revitalise and renew town centres, to recreate the sense of place that will integrate the work of public bodies already involved in town planning as well as revitalising town centres as places where people can shop, socialise and enjoy a better quality of life. Minister, are you prepared to consider how the planning process can be used proactively to achieve these objectives?

Jane Davidson: Thank you, Alun. The Assembly Government's planning policies support the development of sustainable and vibrant town centres with a choice of retail outlets. Small supermarkets should be located in district, local and village centres, while planning proposals for out-of-centre food supermarkets should not be allowed if their provision is likely to lead to the loss of general food retailing in the centre of small towns. That is a very important aspect of our policy. I am very happy to continue discussions with other Ministers about the way in which the planning system can support the development of vibrant town centres.

Jenny Randerson: Minister, on Monday, at the launch of the economic renewal document, you stated that you were working on changes to the planning system in order to make it more streamlined and business-friendly, to briefly paraphrase. Streamlining

i gymryd pwerau oddi wrth awdurdodau lleol o safbwynt y modd y maent yn arfer eu cyfrifoldebau yn y system gynllunio. Yr ydym o'r farn ei bod yn bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn ystyried pryderon, gwrthwynebiadau neu gefnogaeth y cynghorau tref a chymuned yn llawn wrth ddod i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio ar lefel awdurdodau lleol.

Alun Davies: Weinidog, hoffwn eich holi am ddyfodol canol trefi. Mae mwyafrif pobl Cymru yn byw mewn trefi, a thros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi gweld dirywiad cymharol yng nghanol trefi, ac wedi gweld canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hynny. Ceir llawer o bobl yn awr sydd am weld Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau rhagweithiol, drwy'r system gynllunio, i alluogi cyngor cynllunio i adfywio ac adnewyddu canol trefi, er mwyn ail-greu'r ymdeimlad o le a fydd yn integreiddio gwaith cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn ymwneud â chynllunio trefol, yn ogystal ag adfywio canol trefi fel lleoedd y gall pobl siopa, cymdeithasu a mwynhau ansawdd bywyd gwell ynddynt. Weinidog, a ydych yn barod i ystyried sut y gellir defnyddio'r broses gynllunio'n rhagweithiol i fodloni'r amcanion hyn?

Jane Davidson: Diolch, Alun. Mae polisiau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi gwaith datblygu canol trefi cynaliadwy a bywiog sydd â dewis o siopau. Dylai archfarchnadoedd bach gael eu lleoli yng nghanol bröydd, ardaloedd lleol a phentrefi, ac ni ddylid caniatáu ceisiadau cynllunio ar gyfer archfarchnadoedd bwyd y tu allan i drefi os yw eu darpariaeth yn debygol o arwain at golli siopau bwyd cyffredinol yng nghanol trefi bach. Mae honno'n agwedd bwysig iawn ar ein polisi. Yr wyf yn fodlon iawn parhau â thrafodaethau â Gweinidogion eraill am y ffordd y gall y system gynllunio gefnogi gwaith datblygu canol trefi bywiog.

Jenny Randerson: Weinidog, ddydd Llun, yn lansiad y ddogfen adnewyddu'r economi, dywedasoich eich bod yn gweithio ar newidiadau i'r system gynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn symlach ac yn fwy caredig i fusnesau, i'ch aralleirio'n fyr. Symleiddio ym

to one person is overlooking local objections to another. I recognise fully the importance of providing a planning system that is business-friendly, easier for people to understand, less bureaucratic in many ways, and certainly more consistent—a word that is used in this document. However, how exactly are you going to manage to balance safeguarding the rights of local people to object to developments with the needs of business for a swifter and more streamlined system?

Jane Davidson: In fact, that is always the test of a planning system. We are not, in any way, looking to deprive local people of the ability to object to a planning application. That is a fundamental right enshrined within the planning system.

However, the planning application process work discovered that we have 25 planning authorities, and there might be 25 different interpretations of delivery. Therefore, there is a big commitment on the part of those who look to the planning application process independently of Government to move towards greater consistency, and I am glad that that was strongly supported by the Welsh Local Government Association. We can get greater consistency by making sure that the planning policy from the Assembly Government that underpins the considerations of local authorities is clearer. Therefore, just as I am looking for that consistency in the renewable energy planning policy, we will be looking at the economic planning policy, and that will then be a material consideration in the decisions that local authorities take.

Nerys Evans: Yn dilyn cwestiwn Jenny, yr oeddwn yn falch o weld y rhaglen adnewyddu'r economi newydd a gyhoeddwyd ddydd Llun. Rhoddir ffocws pwysig ar isadeiledd a datblygu isadeiledd cynaliadwy ar gyfer Cymru, sydd â goblygiadau mawr i bob adran, fel yr amlinellwyd gennych. A wneuch chi ymhelaethu ar y newidiadau a wneir yn eich adran, ac a fydd yn y system gynllunio yn sgîl y rhaglen?

Jane Davidson: In addition to the work that we will be undertaking on the planning

marn un unigolyn yw anwybyddu gwrthwynebiadau lleol ym marn unigolyn arall. Yr wyf yn cydnabod yn llawn mor bwysig yw darparu system gynllunio sy'n garedig i fusnesau, sy'n haws i bobl ei deall, sy'n llai biwrocraataidd ar sawl cyfrif, ac sy'n bendant yn fwy cyson—gair a ddefnyddir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, sut yn union yr ydych am sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu hawliau pobl leol i wrthwynebu datblygiadau, ac angen byd busnes am system gyflymach a symlach?

Jane Davidson: A dweud y gwir, dyna yw'r prawf ar system gynllunio bob amser. Nid ydym, mewn unrhyw ffordd, yn ceisio amddifadu pobl leol o'r gallu i wrthwynebu cais cynllunio. Mae gallu gwneud hynny'n hawl sylfaenol yn y system gynllunio.

Fodd bynnag, canfu gwaith ar y broses ceisiadau cynllunio fod gennym 25 awdurdod cynllunio, ac y gallai fod gennym 25 dehongliad gwahanol o sut mae cyflawni'r broses. Felly, mae'r rheini sy'n ystyried y broses ceisiadau cynllunio'n annibynnol ar y Llywodraeth wedi ymrwymo'n helaeth i symud tuag at fwy o gysondeb, ac yr wyf yn falch bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cefnogi hynny'n frwd. Gallwn gael mwy o gysondeb drwy sicrhau bod polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad, sy'n sail i ystyriaethau awdurdodau lleol, yn gliriach. Felly, yn yr un modd ag y byddaf yn chwilio am y cysondeb hwnnw yn y polisi cynllunio ynni adnewyddadwy, byddwn yn edrych ar y polisi cynllunio economaidd, a bydd hynny wedyn yn ystyriaeth bwysig yn y penderfyniadau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud.

Nerys Evans: Further to Jenny's question, I was pleased to see the new economic renewal programme that was published on Monday. There is an important focus on infrastructure and the development of a sustainable infrastructure for Wales, which will have significant repercussions for all departments, as you have outlined. Can you expand on the changes to be made within your own department, and those made to the planning system as a result of the programme?

Jane Davidson: Yn ogystal â'r gwaith y byddwn yn ei wneud ar y polisi cynllunio

economic policy, there are probably two further ways in which we will fully enshrine all our sustainability agendas. We need to make sure that there is the appropriate infrastructure in Wales in the context of waste, energy and water which will be the three primary ones. However, there will also be the transport infrastructure. I am actively considering how we might develop an infrastructure unit that is able to take that forward.

We also need to assist relatively small local authorities that are dealing with some very difficult applications on their doorstep and may not have the people with the appropriate skills. When I met the planning leads at an all-Wales meeting last week, I offered to provide, financially, some technical support to local authorities, so that local authorities could draw on independent experts to take their planning applications through in the proper timescale. Therefore, that is another way of streamlining the system, while making sure that the fundamental right of people to object is maintained.

The Arbed Scheme

Q5 Christine Chapman: Will the Minister make a statement on the Arbed scheme? OAQ(3)1349(ESH)

Jane Davidson: Arbed co-ordinates investment into the energy performance of Welsh homes in deprived communities. The programme is designed to maximise the environmental, social and economic benefits of this energy efficiency investment, and help to deliver the 'One Wales' commitments to reduce the effects of climate change, eradicate fuel poverty and boost economic development and regeneration in Wales.

Christine Chapman: I welcome those developments. Combining the Arbed scheme with the other successful schemes introduced by the Welsh Assembly Government, such as the boiler scrappage scheme and the home energy efficiency scheme, which have benefited many of my constituents, will mean that thousands more homes across Wales are

economaidd, mae'n debyg bod dwy ffordd arall y byddwn yn cynnwys pob un o'n hagendaau cynaliadwyedd yn llawn. Mae angen inni sicrhau bod y seilwaith priodol yn bodoli yng Nghymru yng nghyd-destun gwastraff, ynni a dŵr, sef y tri sylfaenol. Fodd bynnag, bydd gennym y seilwaith trafniadaeth hefyd. Yr wyf wrthi'n ystyried sut y gallem ddatblygu uned seilwaith sy'n gallu bwrw ymlaen â hynny.

Mae angen inni hefyd gynorthwyo awdurdodau lleol cymharol fach sy'n ymdrin â rhai ceisiadau anodd iawn ar stepen eu drws, ac nad oes ganddynt y bobl â'r sgiliau priodol efallai. Pan gyfarfûm ag arweinwyr cynllunio mewn cyfarfod ar lefel Cymru gyfan yr wythnos diwethaf, cynigiais ddarparu rhywfaint o gefnogaeth dechnegol i awdurdodau lleol, o safbwynt ariannol, er mwyn iddynt allu defnyddio arbenigwyr annibynnol i brosesu eu ceisiadau cynllunio o fewn yr amserlen briodol. Mae honno'n ffordd arall o symleiddio'r system, felly, gan sicrhau bod hawl sylfaenol pobl i wrthwynebu'n cael ei chynnal.

Y Cynllun Arbed

C5 Christine Chapman: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Arbed? OAQ(3)1349(ESH)

Jane Davidson: Mae Arbed yn cydlynu buddsoddiad mewn perfformiad cartrefi Cymru o ran ynni, mewn cymunedau difreintiedig. Bwriad y rhaglen yw sicrhau cynifer ag sy'n bosibl o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn sgil y buddsoddiad hwn mewn effeithlonrwydd ynni, a helpu i gyflawni ymrwymadau 'Cymru'n Un' i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, dileu tlodi tanwydd a hybu gwaith datblygu ac adfywio economaidd yng Nghymru.

Christine Chapman: Yr wyf yn croesawu'r datblygiadau hynny. Bydd cyfuno cynllun Arbed â'r cynlluniau llwyddiannus eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, megis y cynllun sgrapio boeleri a'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, sydd wedi bod o fudd i lawer o'm hetholwyr, yn golygu bod miloedd yn rhagor o gartrefi ledled Cymru yn

cheaper to heat and will be improved. What are you doing to ensure that as many local businesses as possible, whether they are small, medium-sized or large, are encouraged to tender for any work that may happen as a result?

Jane Davidson: The boiler scrappage scheme, which we closed this week because of its success in delivering on 5,000 boilers, and the home energy efficiency scheme are demand-led schemes, but what we are doing with Arbed specifically is looking at an area-based scheme and taking a whole-house approach, to pick up the public sector and the private sector. Work in the social housing sector primarily involves contracts with registered social landlords, and so picking up private sector houses too means that we can take that whole-area approach and get the critical mass in delivery.

2.50 p.m.

Procurement is ultimately the responsibility of the social landlords who receive the grants, but we are making every effort to broker relationships between different tiers of the supply chain, so that we can build capacity in the Welsh supply chain and emphasise to grantees the importance of local economic benefits. There have been three meet-the-buyer events; 100 mainly Welsh businesses attended, and contractors were able to outline their capabilities and capacities to grantees before tendering took place. We will be enforcing targeted recruitment and training clauses in grant offer letters.

I recently announced support for Welsh small and medium-sized enterprises, including heating engineers and electricians, to help them to gain the appropriate accreditation to install renewable technologies and to take advantage not just of the opportunities provided by Arbed, but also by feed-in tariffs. We are also looking at the likely delivery structure of many Arbed projects, including the appointment of a design and management contractor whose purpose will

rhatach i'w gwresogi ac yn cael eu gwella. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod cynifer o fusnesau lleol ag sy'n bosibl, p'un a ydynt yn rhai bach, canolig neu fawr eu maint, yn cael eu hannog i dendro am unrhyw waith a allai ddigwydd o ganlyniad?

Jane Davidson: Mae'r cynllun sgrapio boeleri, a gaewyd gennym yr wythnos hon oherwydd ei lwyddiant yn cyflenwi 5,000 o foeleri, a'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn gynlluniau a gaiff eu harwain gan alw, ond yr hyn yr ydym yn ei wneud gydag Arbed yn benodol yw edrych ar gynllun sy'n seiliedig ar ardal, a gweithredu gan ganolbwyntio ar y tŷ cyfan, er mwyn cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae gwaith yn y sector tai cymdeithasol yn ymwneud yn bennaf â chontractau gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, felly mae cynnwys tai'r sector preifat yn ogystal yn golygu y gallwn weithredu gan ganolbwyntio ar ardal gyfan a sicrhau'r mäs critigol o safbwynt cyflenwi.

Y landlordiaid cymdeithasol a gaiff y grantiau sy'n gyfrifol yn y pen draw am gaffael, ond yr ydym yn gwneud pob ymdrech i hwyluso cydberthnasau rhwng gwahanol haenau'r gadwyn gyflenwi, er mwyn inni allu adeiladu capasiti yng nghadwyn gyflenwi Cymru a phwysleisio, wrth y sawl a gaiff grantiau, bwysigrwydd manteision economaidd lleol. Cynhaliwyd tri digwyddiad cwrdd-â'r-prynwr; mynychodd 100 o fusnesau, o Gymru yn bennaf, a gallai contractwyr amlinellu eu galluedd a'u capasiti i'r sawl a gaiff grantiau, cyn i'r tendro ddigwydd. Byddwn yn gorfodi cymalau recriwtio a hyfforddi a dargedir, mewn llythyrau cynnig grant.

Yn ddiweddar, cyhoeddais gymorth i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, gan gynnwys peirianwyr gwresogi a thrydanwyr, i'w helpu i gael yr achrediad priodol i osod technolegau ynni adnewyddadwy, a manteisio ar gyfleoedd a ddarperir nid yn unig gan Arbed, ond gan dariffau cyflenwi trydan hefyd. Yn ogystal, yr ydym yn edrych ar strwythur cyflenwi tebygol llawer o brosiectau Arbed, gan gynnwys penodi contractwr dylunio a rheoli, y bydd ei ddiben

include levering in additional funding from other sources, such as energy suppliers, and sub-contracting to Welsh installers. Therefore, the focus is on using Welsh labour to deliver the right environmental and social outcomes to Welsh homes. That is a major way of taking Wales out of recession.

Mark Isherwood: As you indicated, the Arbed programme works with social housing providers to make communities in deprived areas of Wales more energy efficient. You state that one of the Welsh Government's ambitions is to eradicate fuel poverty, which we very much support. Have you assessed how many households you envisage this helping and how many of those would be vulnerable people—people in poor health, older people and children? Will this be holistic, tying into the broader issues of fuel poverty, such as social isolation and poor benefit take-up? I know that earlier today you spoke at the National Energy Action Cymru launch of The Heat is On campaign about using local authority scrutiny committees to assist in reducing fuel poverty. When I was there earlier, one of the speakers told us that, for example, the take-up of the attendance allowance by people aged over 85 in Wales is only 59 per cent. Therefore, do you envisage using this to identify broader causes and signpost on to other providers?

Jane Davidson: Fuel poverty represents a huge challenge over the next few years. We know that the long-term trend of energy prices is for them to go up, and there is a critical issue about the level of household income. If there are draconian cuts within the benefits system, people will be forced into fuel poverty. Make no mistake about that. We will see large numbers of people go into fuel poverty as a result of major changes in the benefits system. Therefore, I hope that you and your coalition partners will be clear about taking that up with your Government at Westminster, because on a brief trawl through everything that your Government has said so far, no mention has been made of fuel poverty. It was not in the coalition

yn cynnwys denu arian ychwanegol o ffynonellau eraill, megis cyflenwyr ynni, ac is-gontractio i osodwyr yng Nghymru. Felly, mae'r ffocws ar ddefnyddio gweithwyr yng Nghymru i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol cywir i gartrefi Cymru. Mae'n ffordd bwysig o dynnu Cymru allan o ddirwasgiad.

Mark Isherwood: Fel y dywedasoch, mae rhaglen Arbed yn gweithio gyda darparwyr tai cymdeithasol i wneud cymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru yn fwy effeithlon o ran ynni. Yr ydych yn dweud mai un o uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yw dileu tlodi tanwydd, ac yr ydym yn cefnogi hynny'n fawr. A ydych wedi asesu faint o aelwydydd yr ydych yn rhagweld y bydd y rhaglen yn eu helpu, a faint o'r rheini a fyddai'n bobl sy'n agored i niwed—pobl ag afiechyd, pobl hŷn a phlant? A fydd yn gyfannol, ac a fydd yn cysylltu â'r materion ehangach sy'n ymwneud â thlodi tanwydd, megis unigedd cymdeithasol a'r ffaith mai nifer bach o bobl sy'n manteisio ar fudd-daliadau? Gwn ichi sôn yn gynharach heddiw, yn lansiad ymgyrch The Heat is On gan Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru, am ddefnyddio pwyllgorau craffu awdurdodau lleol i gynorthwyo i leihau tlodi tanwydd. Pan oeddwn yno'n gynharach, dywedodd un o'r siaradwyr wrthym mai 59 y cant yn unig o bobl dros 85 oed yng Nghymru sy'n manteisio ar y lwfans gweini, er enghraifft. Felly, a ydych yn rhagweld y byddwch yn defnyddio hyn i nodi achosion ehangach a'u cyfeirio at ddarparwyr eraill?

Jane Davidson: Bydd tlodi tanwydd yn her enfawr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gwyddom fod prisiau ynni'n tueddu i godi yn y tymor hir, a cheir problem hollbwysig ynghylch lefel incwm aelwydydd. Os bydd toriadau llym yn y system fudd-daliadau, bydd pobl yn cael eu gwthio i dlodi tanwydd. Peidied neb ag amau hynny. Byddwn yn gweld nifer mawr o bobl yn mynd i dlodi tanwydd o ganlyniad i newidiadau mawr yn y system fudd-daliadau. Felly, yr wyf yn gobeithio y byddwch chi a'ch partneriaid yn y glymblaid yn glir ynghylch codi'r mater hwnnw gyda'ch Llywodraeth yn San Steffan, oherwydd wrth fwrw cipolwg ar bopeth y mae eich Llywodraeth wedi'i ddweud hyd yma, ni chlywyd sôn am dlodi tanwydd. Nid

agreement. It is a critically important area, which you, personally, have championed. I hope that you will continue to champion it to others.

We know that Arbed is benefiting more than 21 projects, targeted at low-income communities, as regeneration areas, in Wales. Therefore, we know that there is a strong match with fuel poverty. We know, for example, that the NEA strongly supports our area-based approach under Arbed. The first phase is under way, and a second phase with further European funding will be announced in due course. I understand that there will be a report, probably in the autumn, which gives us the figures on the houses that have benefited.

Gareth Jones: Weinidog, yr wyf am ddechwyn at eich ateb i gwestiwn Christine Chapman yn gynharach pan oeddech yn cyfeirio at gytundebau lleol. Nid wyf yn amau eich ymrwymiad chi na'r Llywodraeth i sicrhau, hyd eithaf ein gallu, gytundebau cyflenwi lleol. O barchu'r rheoliadau, gallai hyn wneud cyfraniad arbennig i ddatblygu'r economi leol. Yr ydych wedi ateb i ddweud eich bod yn canolbwyntio ar hynny, ond a fydddech mor garedig â rhannu gyda ni y wybodaeth yr ydych wedi'i chael i fonitro hyn, inni gael gweld i ba raddau y mae contractwyr lleol yn dod yn rhan o'r cynllun Arbed, fel y gallwn gloriannu yr hyn sy'n digwydd?

Jane Davidson: Mae'n bwysig iawn bod pobl yn gallu gweld hyn, a'i fod yn hysbys, ac felly pan fydd yr adroddiad ar gael, byddwn yn hapus i'w rannu yn gyhoeddus.

Waste Burning

Q6 Bethan Jenkins: Will the Minister make a statement on the Covanta waste-burning proposal for Merthyr Tydfil? OAQ(3)1352(ESH)

Jane Davidson: As this proposed project is likely to generate more than 50 MW of energy, the application would be submitted to the Infrastructure Planning Commission. As Minister for planning, I never discuss individual applications.

oedd yng nghytundeb y glymblaid. Mae'n faes hollbwysig yr ydych chi, yn bersonol, wedi'i hyrwyddo. Gobeithiaf y byddwch yn parhau i'w hyrwyddo gerbron eraill.

Gwyddom fod Arbed o fudd i dros 21 o brosiectau, sydd wedi eu hanelu at gymunedau incwm isel, ar ffurf ardaloedd adfywio, yng Nghymru. Felly, gwyddom fod cysylltiad cryf â thlodi tanwydd. Gwyddom, er enghraifft, fod Gweithredu Ynni Cenedlaethol yn cefnogi'n frwd ein dull sy'n seiliedig ar ardal, dan Arbed. Mae'r cam cyntaf yn mynd rhagddo, a chaiff ail gam gyda rhagor o arian Ewropeaidd ei gyhoeddi maes o law. Deallaf y ceir adroddiad, yn yr hydref, mae'n debyg, a fydd yn rhoi'r ffigurau inni am y tai sydd wedi cael budd o'r rhaglen.

Gareth Jones: Minister, I wish to return to your response to the question that Christine Chapman asked earlier when you referred to local contracts. I do not doubt your commitment or that of the Government to award local supply contracts, wherever possible. While respecting the regulations, that could make a particular contribution to the development of the local economy. You have said that you are focusing on that, but would you be so kind as to share with us the information that you receive to monitor this, so that we can see to what extent local contractors are becoming a part of the Arbed scheme, and so that we can evaluate what is happening?

Jane Davidson: It is very important that people can see this, and that it is noted, and so when the report is available, I would be happy to share it publicly.

Llogi Gwastraff

C6 Bethan Jenkins: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun Covanta i losgi gwastraff ym Merthyr Tudful? OAQ(3)1352(ESH)

Jane Davidson: Gan fod y prosiect arfaethedig hwn yn debygol o gynhyrchu mwy na 50 MW o ynni, byddai'r cais yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Fel y Gweinidog dros gynllunio, ni fyddaf byth yn trafod ceisiadau unigol.

Bethan Jenkins: As you will know, waste incinerators are being sold to the public and local authorities as a viable source of disposing waste, when in fact they often produce fossil-fuel derived greenhouse gases. Scientific studies have shown that modern incinerators still emit significant dangerous chemicals and by-products, and a study into incineration by the University of Exeter found that rising levels of ill health can be found in communities living in close proximity to incinerators. These decisions are determined by the Westminster Government, but I would like to know what you are doing to devolve decisions on energy consent for projects over 50 MW to Wales. Do you agree that waste incineration should be used as a last resort in Wales, especially given the ongoing development of the Welsh Government's Proposed Waste (Wales) Measure?

Jane Davidson: We continue to seek to devolve energy consent powers to Wales. I have written to a number of my counterparts, both in the Department for Energy and Climate Change and the Department of Communities and Local Government, to make that case. I hope, following your party's support for this issue, which was once again demonstrated in the debate we had last week, that an opportunity will be taken under the localism and decentralisation Bill to bring consents to us. I want to make it absolutely clear that the Welsh Assembly Government does not endorse simple waste burning; it is about generating heat and power from waste that cannot be recycled.

William Graham: Minister, proposals for a major waste processor often raise strong local public interest. It is therefore welcome to note the extensive consultation that Covanta energy has conducted with communities in Merthyr Tydfil and the upper Rhymney valley via its community liaison panel. While being aware of concerns, the prospect of producing energy from waste is attractive on the grounds of environmental protection and cost. Although the matter is not devolved, how is your department able to monitor the

Bethan Jenkins: Fel y byddwch yn gwybod, mae llosgyddion gwastraff yn cael eu gwerthu i'r cyhoedd ac awdurdodau lleol fel ffordd ddichonol o gael gwared ar wastraff, er eu bod mewn gwirionedd yn aml yn cynhyrchu nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o danwydd ffosil. Mae astudiaethau gwyddonol wedi dangos bod llosgyddion modern yn parhau i ryddhau cemegion a sgil-gynhyrchion peryglus sylweddol, a chanfu astudiaeth ar losgi, gan Brifysgol Caerwysg, y gellir gweld lefelau cynyddol o afiechyd mewn cymunedau sy'n byw yn agos i losgyddion. Llywodraeth San Steffan sy'n gwneud y penderfyniadau hyn, ond hoffwn wybod beth yr ydych chi'n ei wneud i ddatganoli penderfyniadau am ganiatâd o ran ynni ar gyfer prosiectau dros 50 MW i Gymru. A ydych yn cytuno mai dim ond yn niffyg popeth arall y dylid llosgi gwastraff yng Nghymru, yn enwedig o ystyried datblygiad parhaus Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) Llywodraeth Cymru?

Jane Davidson: Yr ydym yn parhau i geisio datganoli pwerau dros ganiatâd o ran ynni i Gymru. Yr wyf wedi ysgrifennu at nifer o'm cymheiriaid, yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, i gyflwyno'r achos hwnnw. Gobeithiaf, yn dilyn cefnogaeth eich plaid i'r mater hwn, a ddangoswyd unwaith eto yn y ddadl a gawsom yr wythnos diwethaf, y manteisir ar gyfle dan y Mesur datganoli a gweithredu'n lleol i ddatganoli caniatâd o ran ynni i ni. Yr wyf am ddatgan yn gwbl glir nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn cymeradwyo proses llosgi gwastraff syml; mae a wnelo â chynhyrchu gwres ac ynni o wastraff na ellir ei ailgylchu.

William Graham: Weinidog, bydd cynigion ynghylch prosesydd gwastraff mawr yn aml yn ennyn diddordeb mawr ymhlith y cyhoedd yn lleol. Felly, mae'n braf nodi'r ymarfer ymgynghori helaeth y mae Covanta Energy wedi'i gynnal gyda chymunedau ym Merthyr Tudful a chwam Rhymni uchaf drwy ei banel cyswllt â chymunedau. Er bod y cwmni'n ymwybodol o bryderon, mae'r posibilrwydd o gynhyrchu ynni o wastraff yn ddeniadol o safbwynt cost ac o safbwynt amddiffyn yr amgylchedd. Er nad yw'r mater wedi ei

scheme, particularly as it sets a precedent in south-east Wales?

Jane Davidson: I must make it clear that we have no involvement in this scheme. Covanta has bid for local authority waste treatment contracts and what happens is a matter for that company and the local authorities concerned.

Veronica German: Given that your strategy, 'Towards Zero Waste', states that the number of energy-from-waste plants will be reduced, or their capacity reduced, by 2025-50, is there any need for such plants on this scale? I am not asking about this particular plant, which I realise you will not comment on. Is it your preferred strategy to have a number of smaller plants spread throughout the country?

Jane Davidson: We have been very clear in our strategy about the proximity principle in taking forward contracts between local authorities and the private sector.

Fish-friendly Hydropower

Q7 Nick Ramsay: Will the Minister outline her policies for the promotion of fish-friendly hydropower? OAQ(3)1354(ESH)

Jane Davidson: 'A Low Carbon Revolution', which I published in March, sets out our support for small-scale hydro schemes where they are environmentally acceptable. Our new Ynni'r Fro programme will specifically target advice and financial support for community renewable energy schemes, including hydroelectricity projects.

Nick Ramsay: Thank you, Minister, for that response. I am aware of that scheme, which you have announced. I am sure that you will agree that Welsh rivers play a key role, and can continue to do so, in providing hydropower for thousands of homes in Wales. I raise this question today because of a hydropower scheme in my constituency, at Osbaston weir on the river Monnow, which

ddatganoli, sut mae eich adran yn gallu monitro'r cynllun, yn enwedig gan ei fod yn gosod cysail yn y de-ddwyrain?

Jane Davidson: Rhaid imi egluro nad oes a wnelom o gwbl â'r cynllun hwn. Mae Covanta wedi cynnig am contractau trin gwastraff awdurdodau lleol, ac mae'r hyn sy'n digwydd yn fater i'r cwmni hwnnw a'r awdurdodau lleol dan sylw.

Veronica German: O ystyried bod eich strategaeth, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yn datgan y bwriedir lleihau nifer y canolfannau troi gwastraff yn ynni, neu leihau eu capasiti, erbyn 2025-50, a oes angen canolfannau o'r fath ar y raddfa hon? Nid wyf yn gofyn am y ganolfan benodol hon, yr wyf yn sylweddoli nad ydych yn fodlon gwneud sylw arni. Ai eich hoff strategaeth yw cael nifer o ganolfannau llai o faint wedi eu gwasgaru ledled y wlad?

Jane Davidson: Yr ydym wedi bod yn glir iawn yn ein strategaeth ynghylch yr egwyddor agosatrwydd wrth fwrw ymlaen â chontractau rhwng awdurdodau lleol a'r sector preifat.

Ynni Dŵr sy'n Ystyriol o Bysgod

C7 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gyfer hyrwyddo ynni dŵr sy'n ystyriol o bysgod? OAQ(3)1354(ESH)

Jane Davidson: Mae 'Chwyldro Carbon Isel', a gyhoeddais ym mis Mawrth, yn nodi ein cymorth i gynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach, os ydynt yn dderbyniol o safbwynt amgylcheddol. Bydd ein rhaglen newydd, Ynni'r Fro, yn targedu cyngor a chefnogaeth ariannol yn benodol ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol, gan gynnwys prosiectau trydan dŵr.

Nick Ramsay: Diolch, Weiniidog, am yr ymateb hwnnw. Yr wyf yn ymwybodol o'r cynllun hwnnw yr ydych wedi'i gyhoeddi. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod afonydd Cymru yn chwarae rôl allweddol, ac y gallant barhau i wneud hynny, o ran darparu ynni dŵr i filoedd o gartrefi yng Nghymru. Yr wyf yn codi'r cwestiwn hwn heddiw oherwydd cynllun ynni dŵr yn fy

has an eco-friendly turbine that has been successful in reducing carbon dioxide emissions and in delivering environmental benefits. It generates enough power for around 152 homes in a year. Combined with that, several species of fish, including Wye salmon, have been observed in the Monnow, upstream of the scheme, for the first time in living memory.

3.00 p.m.

Do you commend the scheme and do you agree that it is an example of how hydropower and increasing biodiversity and sustainability can go hand in hand? What assurance can you give that, in promoting hydropower in Wales in the future, such designs that have provided these benefits will be rolled out across Wales?

Jane Davidson: Thank you for that example. We know that it is possible to have fish-friendly hydropower, but it is still important that the Environment Agency operates its proper role in ensuring that hydropower is fish friendly. We are currently working with the Environment Agency on how we can provide advice and support to communities that want to go down this route to make the process easier and more transparent. However, I warmly welcome such local initiatives and the money from our Ynni'r Fro programme can also provide financial incentive in terms of people taking up hydropower options.

Air Quality

Q8 Brian Gibbons: Will the Minister make a statement on air quality in Aberavon? OAQ(3)1341(ESH)

Jane Davidson: The Assembly Government closely monitors levels of particulate matter, known as PM10, in Aberavon. European Union limit values for PM10 were met in 2008 and 2009 in Wales, and levels so far this year are low. My officials continue to work with the regulators and industry to improve the situation further.

etholaeth i, yng nghored Tre-osbon ar afon Mynwy, sydd â thyrbin ecogyfeillgar sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau allyriadau carbon deuocsid a sicrhau manteision amgylcheddol. Mae'n cynhyrchu digon o ynni ar gyfer oddeutu 152 o gartrefi mewn blwyddyn. Ynghyd â hynny, gwelwyd sawl rhywogaeth o bysgod, gan gynnwys eog afon Gwy, yn afon Mynwy, i fyny'r afon o'r cynllun, am y tro cyntaf o fewn cof.

A ydych yn canmol y cynllun, ac a ydych yn cytuno ei fod yn enghraifft o'r modd y gall ynni dŵr a chynyddu bioamrywiaeth a chynaliadwyedd fynd law yn llaw? Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd cynlluniau o'r fath sydd wedi cynnig y manteision hyn yn cael eu cyflwyno ledled Cymru, wrth hyrwyddo ynni dŵr yng Nghymru yn y dyfodol?

Jane Davidson: Diolch am yr enghraifft honno. Gwyddom ei bod yn bosibl cael ynni dŵr sy'n ystyriol o bysgod, ond mae'n dal yn bwysig bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyflawni ei rôl briodol wrth sicrhau bod ynni dŵr yn ystyriol o bysgod. Ar hyn o bryd, yr ydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i weld sut y gallwn ddarparu cyngor a chefnogaeth i gymunedau sydd am ddilyn y trywydd hwn, er mwyn gwneud y broses yn haws ac yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, yr wyf yn croesawu mentrau o'r fath yn gynnes, a gall yr arian o'n rhaglen Ynni'r Fro ddarparu cymhelliad ariannol hefyd o safbwynt cael pobl i fanteisio ar opsiynau o ran ynni dŵr.

Ansawdd Aer

C8 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ansawdd aer yn Aberafan? OAQ(3)1341(ESH)

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro'n agos lefelau deunydd gronynnol, a elwir yn PM10, yn Aberafan. Cafodd gwerthoedd terfyn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer PM10 eu bodloni yn 2008 a 2009 yng Nghymru, ac mae'r lefelau hyd yma eleni yn isel. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddwyr a'r diwydiant i wella'r sefyllfa ymhellach.

Brian Gibbons: I am pleased and that is certainly good news, although I am sure that you would agree that a slight caveat needs to be introduced, in that some of that may have been due to the economic downturn and, given that Port Talbot in particular is an industrial area, that decline may be reflected in that fact. I am pleased that the Assembly Government has driven that and that, in the next week, you will be in Port Talbot to speak at a conference on the progress that is being made. Are you able to summarise what your headline message will be to that conference in advance?

Jane Davidson: I will certainly want to tell the community that we retain a close interest in ensuring that the short-term air quality action plan in respect of particulate matter is properly delivered. We commissioned a review, as you know, of the environmental permits, held at the steelworks site by the regulators; that review is complete and my officials are monitoring progress on the resulting actions. We also commissioned an independent expert review on the PM10 modelling and monitoring work in the Neath Port Talbot area from the University of the West of England. That provides advice on further measures to pinpoint sources of particulate matter. There are detailed recommendations for further work that my officials are currently implementing and they are also currently reviewing the action plan in light of recent progress.

I congratulate the local service board on holding this session on air quality in Neath Port Talbot to which stakeholders and members of the community are being invited. It is the first time in Wales that such an event has been held. I hope that, together, we will be able to reassure the communities in Neath and Port Talbot that we will look to work together on ensuring that we keep the particulate levels as low as possible. I also welcome the opportunity to hear your speech on the community's perspective.

Brian Gibbons: Yr wyf yn falch, ac mae hynny'n bendant yn newyddion da, ond yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod angen cyflwyno cafeat bach, yn yr ystyr y gallai rhywfaint o hynny fod oherwydd y dirywiad economaidd, ac o ystyried bod Port Talbot yn enwedig yn ardal ddiwydiannol, y gallai'r gostyngiad hwnnw fod yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith honno. Yr wyf yn falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi hybu hynny, ac y byddwch ym Mhort Talbot yn ystod yr wythnos nesaf i siarad mewn cynhadledd ar y cynnydd a wneir. A allwch grynhoi o flaen llaw beth fydd eich prif neges i'r gynhadledd honno?

Jane Davidson: Byddaf yn bendant am ddweud wrth y gymuned bod gennym ddi-ddordeb agos o hyd mewn sicrhau bod y cynllun gweithredu tymor byr ar gyfer ansawdd aer, o ran deunydd gronynnol, yn cael ei gyflawni'n briodol. Fel y gwyrddoch, bu inni gomisiynu adolygiad o'r trwyddedau amgylcheddol, a gynhaliwyd ar safle'r gwaith dur gan y rheoleiddwyr; mae'r adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau, ac mae fy swyddogion yn monitro cynnydd ar sail y camau gweithredu a ddeilliodd ohono. Bu inni hefyd gomisiynu adolygiad arbenigol annibynnol o'r gwaith modelu a monitro PM10 yn ardal Castell-nedd Port Talbot, gan Brifysgol Gorllewin Lloegr. Mae hwnnw'n darparu cyngor ynghylch mesurau pellach i ganfod ffynonellau deunydd gronynnol. Ceir argymhellion manwl ar gyfer gwaith pellach, y mae fy swyddogion yn eu gweithredu ar hyn o bryd, ac maent hefyd wrthi'n adolygu'r cynllun gweithredu yng ngoleuni cynnydd diweddar.

Yr wyf yn llongyfarch y bwrdd gwasanaethau lleol ar gynnal y sesiwn hon ar ansawdd aer yng Nghastell-nedd Port Talbot, y mae rhanddeiliaid ac aelodau'r gymuned yn cael eu gwahodd iddi. Hwn yw'r tro cyntaf yng Nghymru i ddigwyddiad o'r fath gael ei gynnal. Gobeithiaf y byddwn, gyda'n gilydd, yn gallu rhoi sicrwydd i gymunedau yng Nghastell-nedd a Phort Talbot y byddwn yn ceisio cydweithio i sicrhau ein bod yn cadw lefelau'r gronynnau mor isel ag sy'n bosibl. Yr wyf hefyd yn croesawu'r cyfle i glywed eich araith ar safbwynt y gymuned.

The Presiding Officer: I am sure that they will both be very good speeches.

Y Llywydd: Yr wyf yn siŵr y bydd y ddwy araith yn dda iawn.

Cyfrif Refeniw Tai

C9 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfrif refeniw tai yng Nghymru? OAQ(3)1355(ESH)

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): Our review of the housing revenue account regime in Wales is continuing and will take into consideration the outcome from the English review. We are in discussions with the UK Government to ensure that provisions in the forthcoming decentralisation and localism Bill meet the needs of Wales.

Rhodri Glyn Thomas: Un peth a fydd yn siŵr o godi yn yr arolwg hwn yw'r ffaith bod system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yn golygu bod miliynau o bunnoedd yn cael eu dychwelyd gan awdurdodau yng Nghymru i San Steffan bob blwyddyn. Byddai'r arian hwnnw yn werthfawr o ran adeiladu a chynnal a chadw tai yng Nghymru. Cododd fy nghydweithiwr Jonathan Edwards y pwynt hwn â Grant Shapps, y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol yn San Steffan. Cydnabu ei fod yn gweld bod y system yn annheg a bod dadl dros gadw'r arian yng Nghymru. A wnewch ymrwymo i gynnal trafodaethau â Gweinidogion San Steffan i weld a oes modd sicrhau bod yr arian hwnnw yn aros yng Nghymru?

Jocelyn Davies: Yes, I will undertake to do that. In fact, I am delighted to say that I am meeting with Grant Shapps next Wednesday, and this is one thing that I intend to discuss with him. There is probably just a handful of people in the UK who understand the housing revenue account subsidy system. I do not think that I am one of them and I do not think that anyone else in the Chamber can claim to understand it. [*Interruption.*] Well, if any of you do, you are probably deluded. [*Laughter.*] Rhodri Glyn makes a good point. Currently, £76 million is drawn back to the UK Treasury from rent paid to local authorities in Wales under annual managed expenditure. In England, the figure is £200 million, so we have far more than our Barnett share going back to the UK Treasury. So, if

Housing Revenue Account

Q9 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on the housing revenue account in Wales? OAQ(3)1355(ESH)

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Mae ein hadolygiad o gyfundrefn y cyfrif refeniw tai yng Nghymru yn parhau, a bydd yn ystyried canlyniad yr adolygiad yn Lloegr. Yr ydym yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU i sicrhau bod darpariaethau yn y Mesur datganoli a gweithredu'n lleol, sydd ar ddod, yn diwallu anghenion Cymru.

Rhodri Glyn Thomas: One thing that will surely arise in this survey is the fact that the housing revenue account subsidy system means that millions of pounds are returned by authorities in Wales to Westminster each year. That money would be valuable for building and maintaining housing in Wales. My colleague Jonathan Edwards raised this point with Grant Shapps, the Minister for Housing and Local Government in Westminster. He acknowledged that he sees that the system is unfair and that there is an argument for keeping the money in Wales. Will you commit to holding discussions with Westminster Ministers to try to ensure that that money stays in Wales?

Jocelyn Davies: Gwnaf, yr wyf yn addo gwneud hynny. A dweud y gwir, mae'n bleser gennyf ddweud y byddaf yn cyfarfod â Grant Shapps ddydd Mercher nesaf, ac mae hwn yn un peth yr wyf yn bwriadu ei drafod ag ef. Mae'n debyg mai dim ond llond llaw o bobl yn y DU sy'n deall system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Nid wyf yn credu fy mod i'n un ohonynt, ac ni chredaf y gall neb arall yn y Siambr honni eu bod yn ei deall. [*Torri ar draws.*] Wel, os oes rhai ohonoch yn honni hynny, mae'n debyg eich bod yn eich twyllo eich hunain. [*Chwerthin.*] Mae Rhodri Glyn yn gwneud pwynt da. Ar hyn o bryd, caiff £76 miliwn ei gymryd yn ôl i Drysorlys y DU o rent a delir i awdurdodau lleol yng Nghymru dan wariant blynyddol a reolir. Yn Lloegr, £200 miliwn yw'r ffigur, felly mae

Grant Shapps thinks that this is unfair in England, he must think that it is grossly unfair in Wales.

Jonathan Morgan: As the Deputy Minister has confessed to not completely understanding the housing revenue account system, I will follow suit and say that I do not pretend to understand it either. However, I know that in 2008-09, Cardiff Council paid in excess of £12.7 million to the Treasury from the surplus that it made through the housing revenue account system. It seems to me that a system that operates in this way is grossly unfair on those local authorities that are managing housing stock. It does not apply to authorities that have transferred their housing stock to housing association control, but for a local authority such as Cardiff, which has a backlog of repairs within its housing stock, it would make far more sense for that money to stay in Wales, as you said, and for that money to be spent by Cardiff Council upgrading its housing stock and ensuring that its homes are safe, that people can enjoy a good quality of housing stock, and that that money is not lost to subsidising local authorities elsewhere. I look forward to the outcome of the conversations that you will be having with Grant Shapps, and I look forward to the outcome of the review.

Jocelyn Davies: I do not understand it completely, but I can understand quite a bit about it. It is a ring-fenced account, so if Cardiff were able to keep that money, it could only spend it on its own stock. Therefore, we could be perfectly confident that it would be reinvested where we say that it was needed the most. The subsidy system was set up by the Local Government and Housing Act 1989, and I am delighted that my Tory colleagues here now agree that it is high time that that is revisited. It was introduced in a different era and we should now, perhaps, revisit it. It is in primary legislation, it is something that we do not have control over, and we have to make up the cost of any change to it from other budgets.

I want to put on record that we have a parallel system that is slightly different; in

mwy o lawer na'n cyfran o ran Barnett yn mynd yn ôl i Drysorlys y DU. Felly, os yw Grant Shapps yn credu bod hynny'n annheg yn Lloegr, rhaid ei fod yn credu ei fod yn ofnadwy o annheg yng Nghymru.

Jonathan Morgan: Gan fod y Dirprwy Weinidog wedi cyfaddef nad yw'n deall system y cyfrif refeniw tai yn llwyr, gwnaf innau'r un peth a dweud nad wyf innau'n smalio ei deall ychwaith. Fodd bynnag, gwn i Gyngor Caerdydd, yn 2008-09, dalu dros £12.7 miliwn i'r Trysorlys o'r gwarged a greodd drwy system y cyfrif refeniw tai. Ymddengys i mi fod system sy'n gweithredu fel hyn yn ofnadwy o annheg ar yr awdurdodau lleol hynny sy'n rheoli stoc tai. Nid yw'n berthnasol i awdurdodau sydd wedi trosglwyddo eu stoc tai i reolaeth cymdeithasau tai, ond i awdurdod lleol megis Caerdydd, y mae gwaith atgyweirio wedi ôl-gronni yn ei stoc tai, byddai'n gwneud mwy o lawer o synnwyr i'r arian hwnnw aros yng Nghymru, fel y dywedaso, ac iddo gael ei wario gan Gyngor Caerdydd i uwchraddio ei stoc tai, a sicrhau bod ei gartrefi'n ddiogel, y gall pobl fwynhau stoc tai o ansawdd da, ac nad yw'r arian hwnnw'n cael ei golli drwy roi cymhorthdal i awdurdodau lleol mewn mannau eraill. Edrychaf ymlaen at ganlyniad y sgysiau y byddwch yn eu cael â Grant Shapps, ac edrychaf ymlaen at ganlyniad yr adolygiad.

Jocelyn Davies: Nid wyf yn deall y system yn iawn, ond gallaf ddeall cryn dipyn amdani. Mae'n gyfrif wedi'i neilltuo, felly pe gallai Caerdydd gadw'r arian hwnnw, dim ond ar ei stoc ei hun y gallai ei wario. Felly, gallem fod yn gwbl hyderus y byddai'n cael ei ailfuddsoddi lle dywedwn ni y mae ei angen fwyaf. Sefydlwyd y system gymhorthdal gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac yr wyf wrth fy modd bod fy nghydweithwyr Toriaidd yma yn cytuno'n awr ei bod yn hen bryd ailedrych arni. Fe'i cyflwynwyd mewn oes wahanol, ac efallai y dylem ailedrych arni'n awr. Mae mewn deddfwriaeth sylfaenol, mae'n rhywbeth nad ydym yn ei reoli, a rhaid inni dalu'r gost sy'n ymwneud ag unrhyw newid iddi o gyllidebau eraill.

Yr wyf am gofnodi'n swyddogol bod gennym system gyfatebol sydd ychydig yn wahanol;

England, the major repairs allowance is treated as part of the housing revenue account system, but in Wales, the major repairs allowance is part of our capital regime. In Scotland, they do not get the subsidy at all, and they are not required to make this transfer in the same way. Their investment borrowing is not treated against the Scottish Government budget as it is here. When you take all that in the round, I cannot justify my previous understanding that our councils with stock were not at a disadvantage when compared with Scotland and England.

3.10 p.m.

Peter Black: I do not understand it either, but I do believe that the Welsh housing subsidy system is separate from the English one, and the cost of negotiating that separation was this annual payment to the Treasury—I not sure how this payment is calculated—so that you, as Deputy Minister, have much greater control over the Welsh housing subsidy system than you would have if it were part of the system currently presided over by Grant Shapps.

As Rhodri Glyn has alluded to, it is understood that the Minister for Housing and Local Government in England has indicated that he is prepared to carry on the previous Government's review of the housing system. There is, therefore, a clear opportunity for you to negotiate a reduction in this payment or to have it stopped altogether. As has been said, that would benefit a great many councils.

The other part of this is that that subsidy reduces every time councils transfer their housing stock. Therefore, the more housing stock transfers that go ahead, the less money that becomes available to the UK Treasury through this payment. Part of the stock transfer process, however, is the agreement by the UK Treasury to pay off the council's debt to make the transfer worthwhile. When you come to discuss these issues with Grant Shapps, as well as discussing the housing subsidy system with him and the payment that goes from Wales, will you also raise with him whether the Treasury will continue to pay off a council's debt on transfer to a

yn Lloegr, caiff y lwfans atgyweiriadau mawr ei drin yn rhan o system y cyfrif refeniw tai, ond yng Nghymru, mae'r lwfans atgyweiriadau mawr yn rhan o'n cyfundrefn gyfalaf. Yn yr Alban, nid ydynt yn cael y cymhorthdal o gwbl, ac nid oes gofyn iddynt wneud y trosglwyddiad hwn yn yr un ffordd. Nid yw eu benthyciadau buddsoddi'n cael eu hystyried yn erbyn cyllideb Llywodraeth yr Alban, fel sy'n digwydd yma. Pan ystyriwch hynny i gyd yn gyffredinol, ni allaf gyfiawnhau fy nealltwriaeth flaenorol, sef nad oedd ein cynghorau sydd â stoc dan anfantis o'u cymharu â'r Alban a Lloegr.

Peter Black: Nid wyf innau'n ei deall ychwaith, ond credaf fod system cymhorthdal tai Cymru ar wahân i'r un yn Lloegr, a chost trafod y gwahanu hwnnw oedd y taliad blynyddol hwn i'r Trysorlys—nid wyf yn siŵr sut y caiff y taliad hwn ei gyfrifo—er mwyn i chi, fel Dirprwy Weinidog, gael mwy o reolaeth o lawer ar system cymhorthdal tai Cymru nag a fyddai gennyhych pe bai'n rhan o'r system y mae Grant Shapps yn ei llywyddu ar hyn o bryd.

Fel y soniodd Rhodri Glyn, deallir bod y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol yn Lloegr wedi dweud ei fod yn barod i barhau ag adolygiad y Llywodraeth flaenorol o'r system dai. Felly, mae cyfle clir ichi drafod gostyngiad yn y taliad hwn neu roi diwedd arno'n gyfan gwbl. Fel y dywedwyd, byddai hynny o fudd i nifer mawr o gynghorau.

Yr elfen arall o hyn yw bod y cymhorthdal hwnnw'n gostwng bob tro y bydd cynghorau'n trosglwyddo eu stoc tai. Felly, po fwyaf o drosglwyddiadau stoc tai a fydd yn digwydd, y lleiaf o arian a fydd ar gael i Drysorlys y DU drwy'r taliad hwn. Fodd bynnag, rhan o'r broses o drosglwyddo stoc yw'r cytundeb gan Drysorlys y DU i dalu dyled y cyngor er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiad yn werth chweil. Wrth drafod y materion hyn â Grant Shapps, yn ogystal â thrafod y system cymhorthdal tai a'r taliad sy'n mynd o Gymru, a wnewch chi hefyd ofyn iddo a fydd y Trysorlys yn parhau i dalu dyled cyngor wrth drosglwyddo i gwmni

housing stock transfer company and whether, also, it will continue to suspend the tax that is payable on the transfer?

Jocelyn Davies: We already have the Treasury's assurance that overhanging debt for local authorities on transfer will still be written off in Wales and that the VAT shelter will still be provided.

Are there no more questions on the housing revenue accounting system?

The Presiding Officer: No. I thank both Ministers for very informative answers today. It has been a learning curve.

trosoglwyddo stoc tai, ac a fydd hefyd yn parhau i atal y dreth sydd i'w thalu ar y trosglwyddiad?

Jocelyn Davies: Yr ydym eisoes wedi cael sicrwydd gan y Trysorlys y bydd dyled sydd heb ei thalu ar gyfer awdurdodau lleol wrth drosglwyddo'n dal i gael ei dileu yng Nghymru, ac y bydd y lloches TAW yn dal i gael ei chynnig.

A oes mwy o gwestiynau am system y cyfrif refeniw tai?

Y Llywydd: Nac oes. Diolchaf i'r ddau Weinidog am atebion llawn gwybodaeth heddiw. Mae wedi bod yn addysg.

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Wasanaethau Cadeiriau Olwynion

The Health, Wellbeing and Local Government Committee's Report on Wheelchair Services

Darren Millar: I move that

the National Assembly for Wales:

notes the report of the Health, Wellbeing and Local Government Committee on its inquiry into wheelchair services in Wales, which was laid in the Table Office on 19 May 2010. (NDM4514)

I am very pleased to be able to open this debate today on the Health, Wellbeing and Local Government Committee's inquiry into wheelchair services in Wales. For the many thousands of wheelchair users in Wales, having the right equipment at the right time means everything. People who do not need wheelchairs take being able to leave the house, going to work and socialising with friends for granted, but wheelchair users cannot do these things if they do not have the right wheelchair. Having the right wheelchair means being able to live a full life and play an active part in Welsh society. This is why having a wheelchair service in Wales that delivers for its users is so important, and it is also why the committee decided to undertake an inquiry into this important subject.

Darren Millar: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i wasanaethau cadeiriau olwynion yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2010. (NDM4514)

Mae'n bleser mawr gennyf allu agor y ddadl hon heddiw ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i wasanaethau cadeiriau olwynion yng Nghymru. I'r miloedd lawer o bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion yng Nghymru, mae cael yr offer cywir ar yr adeg gywir yn golygu popeth. Mae pobl nad oes angen cadeiriau olwynion arnynt yn cymryd y gallu i adael y tŷ, mynd i'r gwaith a chymdeithasu gyda ffrindiau'n ganiataol, ond ni all pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion wneud y pethau hynny os nad oes ganddynt y gadair gywir. Wrth gael y gadair gywir, gall pobl fyw bywyd llawn a bod yn weithgar yn y gymdeithas yng Nghymru. Dyna pam mae cael gwasanaeth cadeiriau olwynion yng Nghymru sy'n darparu ar gyfer ei ddefnyddwyr mor bwysig, a dyna pam hefyd y penderfynodd y pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r pwnc pwysig hwn.

During the course of the inquiry, we heard a range of evidence from wheelchair users, parents and carers, health professionals and special interest groups. I thank everyone who took the time to provide written or oral evidence during the inquiry. The comments and observations that we received formed an important part of our discussions and our deliberations when we drew up our recommendations.

There are 23 recommendations contained in the report, and they cover a range of issues raised during the inquiry, including the structure and strategic direction of the service, the operation of the service, joint working, and meeting service users' needs. I am pleased to say that the Minister has accepted all 23 recommendations.

It is clear that the greatest challenges faced by the service are those of reducing waiting times and meeting users' needs. These challenges will be compounded in future years by increasing demands on the service and pressures on resources. The committee felt that improvements to the service could only be achieved and sustained with a more strategic approach. With this in mind, we have made a number of recommendations about the structure and strategic direction of the wheelchair service. As a first step, a national service specification should be developed, to set out the service's approach to joint working and joint funding, and to performance targets. This will ensure that the service, stakeholders and users are all clear about what the service is able to deliver. Following on from this, we have recommended that a strategic action plan should be drawn up, to outline how the service will be improved over the coming years and how improvements can be sustained.

In relation to performance targets, we felt that meeting the standards in the children's national standards framework should be a priority. An action plan for meeting those standards needs to form a central part of the service's strategy. We have also recommended that a communication strategy

Yn ystod yr ymchwiliad, clywsom ystod o dystiolaeth gan bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion, rhieni a gofawyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a grwpiau diddordeb arbennig. Diolchaf i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar yn ystod yr ymchwiliad. Yr oedd y sylwadau a'r arsylwadau a gawsom yn rhan bwysig o'n trafodaethau a'n hystyriaethau wrth inni lunio ein hargymhellion.

Mae 23 o argymhellion yn yr adroddiad, ac maent yn ymdrin ag ystod o faterion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys strwythur a chyfeiriad strategol y gwasanaeth, gwaith gweithredu'r gwasanaeth, cydweithio, a diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n bleser gennyf ddweud bod y Gweinidog wedi derbyn pob un o'r 23 o argymhellion.

Mae'n amlwg mai'r heriau mwyaf y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu yw lleihau amseroedd aros a diwallu anghenion defnyddwyr. Bydd yr heriau hynny'n gwaethygu yn ystod y blynyddoedd a ddaw yn sgil galwadau cynyddol ar y gwasanaeth a phwysau ar adnoddau. Yr oedd y pwyllgor o'r farn mai dim ond trwy weithredu'n fwy strategol y byddai modd sicrhau a chynnal gwelliannau i'r gwasanaeth. Gan gofio hynny, yr ydym wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch strwythur a chyfeiriad strategol y gwasanaeth cadeiriau olwynion. Fel cam cyntaf, dylid datblygu manyleb gwasanaeth ar lefel genedlaethol, er mwyn nodi dull y gwasanaeth o gydweithio a chydgyllido ac ymdrin â thargedau perfformiad. Bydd hynny'n sicrhau bod y gwasanaeth, y rhanddeiliaid a'r defnyddwyr i gyd yn deall yr hyn y gall y gwasanaeth ei ddarparu. Yn dilyn hynny, yr ydym wedi argymhell y dylid llunio cynllun gweithredu strategol i amlinellu sut y caiff y gwasanaeth ei wella yn ystod y blynyddoedd nesaf, a sut y gellir cynnal gwelliannau.

O ran targedau perfformiad, teimlem y dylai bodloni'r safonau yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant fod yn flaenoriaeth. Mae angen i gynllun gweithredu ar gyfer bodloni'r safonau hynny fod yn rhan ganolog o strategaeth y gwasanaeth. Yr ydym hefyd wedi argymhell y

should be introduced as a matter of urgency, so that users and stakeholders are better informed about the service, and so that users in particular do not feel as if they have been abandoned once they are in the system. I am pleased that the Minister has accepted these recommendations, which the committee feels will give the service direction in the coming years.

The next group of recommendations relate to the operation of the service. Many users have positive experiences of the service, as we heard during the course of our inquiry, but it is also clear that there are problems in many areas. For example, there was criticism around long waiting times, particularly in north Wales and for users with complex needs. Those with complex needs often include children, who are the most vulnerable of service users and those who suffer the most if they cannot get the right equipment at the right time. We believe that that needs to be addressed urgently. Wheelchair users should be able to access a high-quality and timely service, regardless of their age and no matter where they live in Wales.

We accept that there will sometimes be delays in providing the most complex wheelchairs. However, in those circumstances, users need to have access to suitable interim solutions. We have therefore recommended that the Welsh Government should explore options for providing the best possible interim solutions for users when it is expected or identified that there will be a delay.

We were told by a number of witnesses that many of the problems encountered by the service, including long waiting times, had arisen simply because the service has been historically underfunded. Given the increase in demands on the service, and the need to deliver sustained improvements for users, we have recommended that the Government should undertake an assessment of the long-term resource needs of the wheelchair service in Wales, giving particular consideration to the resources required to sustain improved

dylid cyflwyno strategaeth gyfathrebu ar fyrder, er mwyn i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid gael gwybodaeth well am y gwasanaeth, a sicrhau nad yw defnyddwyr, yn enwedig, yn teimlo'u bod yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain cyn gynted ag y byddant yn y system. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion hyn, a fydd yn rhoi cyfeiriad i'r gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf, ym marn y pwyllgor.

Mae'r grŵp nesaf o argymhellion yn ymwneud â gweithredu'r gwasanaeth. Mae llawer o ddefnyddwyr yn cael profiadau cadarnhaol wrth ddefnyddio'r gwasanaeth, fel y clywsom yn ystod ein hymchwiliad, ond mae hefyd yn amlwg bod problemau mewn sawl maes. Er enghraifft, beirniadwyd amseroedd aros hir, yn enwedig yn y gogledd ac ar gyfer defnyddwyr sydd ag anghenion cymhleth. Yn aml, bydd y sawl sydd ag anghenion cymhleth yn cynnwys plant, sef y defnyddwyr gwasanaeth sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n dioddef fwyaf os na allant gael yr offer cywir ar yr adeg gywir. Credwn fod angen mynd i'r afael â hynny ar fyrder. Dylai pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion allu cael mynediad i wasanaeth amserol o'r safon uchaf, ni waeth beth fo'u hoedran ac ni waeth ymhle y maent yn byw yng Nghymru.

Yr ydym yn derbyn y bydd oedi weithiau wrth ddarparu'r cadeiriau olwynion mwyaf cymhleth. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hynny, mae angen i ddefnyddwyr gael mynediad i atebion dros dro sy'n addas. Felly, yr ydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer darparu'r atebion dros dro gorau posibl i ddefnyddwyr, pan ddisgwyllir neu pan nodir y bydd oedi.

Dywedwyd wrthym gan nifer o dystion i lawer o'r problemau y mae'r gwasanaeth yn dod ar eu traws, gan gynnwys amseroedd aros hir, godi'n syml iawn am nad yw'r gwasanaeth wedi cael digon o gyllid yn y gorffennol. O ystyried y cynnydd o ran galwadau ar y gwasanaeth, a'r angen i sicrhau gwelliannau parhaus i ddefnyddwyr, yr ydym wedi argymhell y dylai'r Llywodraeth gynnal asesiad o anghenion y gwasanaeth cadeiriau olwynion yng Nghymru o ran adnoddau hirdymor, gan ystyried yn benodol

waiting times, to provide regular reviews for some users, and to clear the waiting list backlog in north Wales.

One of the major themes to emerge from the inquiry was the importance of effective joint working. The committee felt that the service could deliver a number of improvements if it undertook more and better joint working. That could involve working with community therapists, charities and other voluntary organisations. In particular, we have made a number of recommendations for the service to make better use of the skills of local community therapists, including streamlining the referrals process and improved access to training.

Linked to that, a number of witnesses also raised the issue of joint funding with other services, charities and individuals. They felt that that would lead to greater choice for users and the possibility of meeting not just clinical needs, as is currently the case in terms of the NHS provision, but the lifestyle needs of wheelchair users.

The committee felt that more needs to be done to explore the possibility of pooling existing budgets, particularly education budgets, in order to provide equipment. The Government should also clarify its policies in relation to joint funding with charities and with individuals. The Minister has addressed part of this recommendation in her written response, but I ask the Minister to clarify whether or not the wheelchair service is able to joint fund equipment provision with individuals. That is still not clear.

In relation to short-term loans of equipment, we took evidence from the British Red Cross, which told us of the increasing demand on its services and the impact that that will have in the longer term. We have therefore recommended that the Welsh Government should review the arrangements for short-term loans of wheelchairs to ensure that this service is adequately resourced. We have also recommended that the wheelchair service

yr adnoddau y mae eu hangen i gynnal amseroedd aros gwell, darparu adolygiadau rheolaidd ar gyfer rhai defnyddwyr, a chlririo'r ôl-gronni yng nghyswllt y rhestr aros yn y gogledd.

Un o'r prif themâu a ddeilliodd o'r ymchwiliad oedd pwysigrwydd cydweithio effeithiol. Yr oedd y pwyllgor o'r farn y gallai'r gwasanaeth gyflawni nifer o welliannau pe bai'n cydweithio'n amlach ac yn well. Gallai hynny olygu gweithio gyda therapyddion cymunedol, elusennau a mudiadau gwirfoddol eraill. Yn benodol, yr ydym wedi gwneud nifer o argymhellion i'r gwasanaeth ddefnyddio sgiliau therapyddion cymunedol lleol yn well, gan gynnwys symleiddio'r broses atgyfeirio a gwella mynediad i hyfforddiant.

Yn gysylltiedig â hynny, cyfeiriodd llawer o dystion at y broblem ynghylch cyllido ar y cyd â gwasanaethau, elusennau ac unigolion eraill. Yr oeddent o'r farn y byddai hynny'n arwain at fwy o ddewis i ddefnyddwyr, a'r posibilrwydd o fodloni nid yn unig anghenion clinigol, fel y gwneir ar hyn o bryd o safbwynt darpariaeth y GIG, ond yr anghenion o ran ffordd o fyw, sydd gan bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion.

Yr oedd y pwyllgor o'r farn bod angen gwneud mwy i archwilio'r posibilrwydd o gyfuno cyllidebau cyfredol, yn enwedig cyllidebau addysg, er mwyn darparu offer. Yn ogystal, dylai'r Llywodraeth egluro ei pholisïau o ran cyllido ar y cyd ag elusennau ac unigolion. Mae'r Gweinidog wedi rhoi sylw i ran o'r argymhelliad hwn yn ei hymateb ysgrifenedig, ond gofynnaf i'r Gweinidog egluro a all y gwasanaeth cadeiriau olwynion gyllido darpariaeth o ran offer ar y cyd ag unigolion. Nid yw hynny'n glir o hyd.

O ran benthycia offer ar gyfer y tymor byr, cawsom dystiolaeth gan y Groes Goch Brydeinig, a ddywedodd wrthym am y galw cynyddol sydd ar ei gwasanaethau, a'r effaith a gaiff hynny yn y tymor hwy. Felly, yr ydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau ar gyfer benthycia cadeiriau olwynion ar gyfer y tymor byr, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cael adnoddau digonol. Yr ydym hefyd wedi

should work more closely with organisations such as the British Red Cross that provide short-term wheelchair loans.

Our final set of recommendations relates to meeting service users' needs and covers the choice of equipment, repairs, reviews and training. We heard evidence during the inquiry about the need for the service to meet users' holistic needs, and about the health benefits and the wider benefits to society of users having the right equipment. It is important to meet the lifestyle needs of users wherever possible. However, we recognise that that is a particular challenge when resources are limited. That is why we feel that it is so important to explore opportunities for joint working and funding in order to maximise the range of equipment available to users.

We heard a number of complaints from witnesses during the inquiry about the repairs service in Wales, with some users being bed-ridden or house-bound for days while awaiting a minor repair. That is totally unacceptable. We have therefore recommended that the repairs service should be kept under review in both north and south Wales to ensure that it is meeting the necessary standards. Further to that, many witnesses felt that regular reviews were particularly important, as users' needs can change.

3.20 p.m.

That is particularly the case for children or people with degenerative or deteriorating conditions. Routine reviews should be a central part of the service for those categories of people in particular. Reviews can have long-term health and wider benefits. We accept that the service is not currently resourced sufficiently to provide routine reviews for everyone, but we feel that routine reviews should be delivered and we have therefore recommended that the Welsh Government should explore ways to enable those reviews to take place.

argymell y dylai'r gwasanaeth cadeiriau olwynion weithio'n agosach gyda sefydliadau megis y Groes Goch Brydeinig, sy'n benthyca cadeiriau olwynion ar gyfer y tymor byr.

Mae ein set olaf o argymhellion yn ymwneud â diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, ac mae'n ymdrin â'r dewis o offer, gwaith trwsio, adolygiadau a hyfforddiant. Clywsom dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad am yr angen i'r gwasanaeth ddiwallu anghenion cyfannol defnyddwyr, ac am y manteision i iechyd a'r manteision ehangach i'r gymdeithas pan fydd gan ddefnyddwyr yr offer cywir. Mae'n bwysig diwallu anghenion defnyddwyr o ran ffordd o fyw, pryd bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod bod hynny'n her benodol pan fydd adnoddau'n gyfyngedig. Dyna pam y teimlwn ei bod yn bwysig iawn archwilio cyfleoedd i gydweithio a chyllido ar y cyd, er mwyn sicrhau bod yr ystod orau posibl o offer ar gael i ddefnyddwyr.

Clywsom nifer o gwynion gan dystion yn ystod yr ymchwiliad ynghylch y gwasanaeth trwsio yng Nghymru, a rhai defnyddwyr yn gaeth i'r gwely neu'n gaeth i'r tŷ am ddyddiau wrth aros am waith trwsio syml. Mae hynny'n gwbl annerbyniol. Felly, yr ydym wedi argymell y dylid adolygu'r gwasanaeth trwsio'n barhaus yn y gogledd a'r de er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau angenrheidiol. Yn ogystal, yr oedd nifer o dystion o'r farn bod adolygiadau rheolaidd yn arbennig o bwysig, oherwydd gall anghenion defnyddwyr newid.

Mae hynny'n arbennig o wir yn achos plant neu bobl sydd â chyflyrau dirywiol neu gyflyrau sy'n gwaethygu. Dylai adolygiadau rheolaidd fod yn rhan ganolog o'r gwasanaeth ar gyfer y categorïau hynny o bobl yn benodol. Gall adolygiadau arwain at fanteision hirdymor o ran iechyd, a manteision hirdymor ehangach. Yr ydym yn derbyn nad yw'r gwasanaeth yn cael adnoddau digonol ar hyn o bryd i ddarparu adolygiadau rheolaidd i bawb, ond credwn y dylai adolygiadau rheolaidd gael eu darparu. Felly, yr ydym wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o

alluogi'r adolygiadau hynny i fynd rhagddynt.

As I mentioned earlier, the Minister has accepted all of the committee's recommendations, many of which will be taken forward as part of the Government's ongoing review. I welcome this positive response, and would be grateful if the Minister would give an undertaking in her contribution to Plenary today to make a statement early in the autumn to update the Assembly on progress. Finally, I would like to thank all those who gave evidence to the committee, committee members, and the officials who helped to produce our report. I hope that it will constitute a step in the right direction to provide wheelchair users in Wales with the service that they deserve.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I am delighted, in the first instance, to guarantee to the Chair of the committee that I am more than prepared to make a statement in the Chamber in the autumn, providing an update on all the issues that have been raised in the report and on all the issues that are likely to be raised in today's debate.

Ensuring the development of a first-class service for all wheelchair users in Wales is a high priority for the Assembly Government and for Assembly Members. I recognise fully the importance of essential equipment being made available to those who need it and the impact on people's lives if the right equipment is not available at the right time. If I may digress from the topic, I was pleased to attend a post polio syndrome event, organised by Brynle Williams, today. The issue of wheelchairs was not raised at the event, but the nature of crutches and the quality of equipment and of the crutches required was. There is certainly a big issue about the aids required to enable people to get on with their lives. This is important not only for all wheelchair users, but especially for children, whose needs can change significantly as they grow. I know that the committee took a great deal of evidence on that.

Fel y soniais yn gynharach, mae'r Gweinidog wedi derbyn holl argymhellion y pwyllgor, a bydd llawer ohonynt yn cael eu symud yn eu blaen yn rhan o adolygiad parhaus y Llywodraeth. Croesawaf yr ymateb cadarnhaol hwn, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ymrwymo, yn ei chyfraniad i'r Cyfarfod Llawn heddiw, i wneud datganiad ddechrau'r hydref i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynnydd. I gloi, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, aelodau'r pwyllgor, a'r swyddogion a'n cynorthwyodd i lunio ein hadroddiad. Gobeithiaf y bydd yn gam i'r cyfeiriad cywir i ddarparu'r gwasanaeth y mae'r bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion yng Nghymru yn ei haeddu.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): I ddechrau, yr wyf yn falch iawn o allu rhoi sicrwydd i Gadeirydd y pwyllgor fy mod yn fwy na pharod i wneud datganiad yn y Siambr yn yr hydref, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl faterion a godwyd yn yr adroddiad a'r holl faterion sy'n debygol o gael eu codi yn y ddadl heddiw.

Mae sicrhau ein bod yn datblygu gwasanaeth o'r radd flaenaf i bawb sy'n defnyddio cadeiriau olwynion yng Nghymru yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad. Yr wyf yn cydnabod yn llawn mor bwysig yw darparu offer hanfodol i'r sawl y mae arnynt eu hangen, a'r effaith ar fywydau pobl os nad yw'r offer cywir ar gael ar yr adeg gywir. Os caf grwydro am eiliad, yr oeddwn yn falch o fynychu digwyddiad yn ymwneud â syndrom ar ôl polio, a drefnwyd gan Brynle Williams, heddiw. Nid oedd cadeiriau olwynion yn fater a godwyd yn y digwyddiad, ond trafodwyd natur ffyn baglau, ac ansawdd yr offer a'r ffyn baglau y mae eu hangen. Yn sicr, mae'r cymhorthion y mae eu hangen i alluogi pobl i fyw eu bywydau yn broblem fawr. Mae'r mater hwn yn bwysig nid yn unig i bawb sy'n defnyddio cadeiriau olwynion, ond i blant yn enwedig, y gall eu hanghenion newid yn sylweddol wrth iddynt dyfu. Gwn i'r pwyllgor gasglu cryn dipyn o

dystiolaeth am hynny.

I therefore welcome this report and the opportunity to set out what we are doing to provide an effective and efficient wheelchair service across Wales. The recommendations contained in the report fit closely with my current work programme and direction of travel. As Members are aware, I initiated a review into wheelchair services last year that identified several key recommendations. Those recommendations have shown the way forward, and the task for phase 2, which I announced in March this year, is to identify specific actions that will improve wheelchair services from this year onwards. I have therefore established a project board under the chairmanship of Sue Kent, the vice chair of the Aneurin Bevan Local Health Board, to lead this work. Members of the project board have been identified for their expertise, knowledge and insight into wheelchair services. The project board has established seven work streams that are working to take this forward. They are looking at waiting times and waiting list management, which was a key issue; key performance and quality indicators, because it is also about the quality of performance indicators; the evidence base; short-term loans; future organisational arrangements; service development; and, finally, communication.

The project board is already taking forward a number of the committee's recommendations, and I would like to highlight some of them today. The board has specified, in its terms of reference, the development of a service specification and robust key performance indicators to support performance improvement. Work is ongoing by the two work streams that are covering waiting times and waiting list management and key performance and quality indicators. In addition, in its report to me next month, the board will advise on the strategic priorities for service development and delivery. I will ensure that that is done in conjunction with the service providers, users and stakeholders. The project board is already being supported by a wider reference group. That group's membership includes

Felly, croesawaf yr adroddiad a'r cyfle i nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud i ddarparu gwasanaeth cadeiriau olwynion effeithiol ac effeithlon ledled Cymru. Mae'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â'm rhaglen waith gyfredol a'r cyfeiriad yr wyf yn mynd iddo. Fel y gŵyr yr Aelodau, cychwynnais adolygiad o wasanaethau cadeiriau olwynion y llynedd, a nododd lawer o argymhellion. Mae'r argymhellion hynny wedi dangos y ffordd ymlaen, a'r dasg ar gyfer cam 2, a gyhoeddais ym mis Mawrth eleni, yw nodi camau gweithredu penodol a fydd yn gwella gwasanaethau cadeiriau olwynion o eleni ymlaen. Felly, yr wyf wedi sefydlu bwrdd prosiect dan gadeiryddiaeth Sue Kent, is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, i arwain y gwaith hwn. Dewiswyd aelodau'r bwrdd prosiect oherwydd eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wasanaethau cadeiriau olwynion. Mae'r bwrdd prosiect wedi sefydlu saith ffrwd waith sy'n gweithio i symud y mater yn ei flaen. Maent yn edrych ar amseroedd aros a gwaith rheoli rhestrau aros, a oedd yn fater allweddol; perfformiad allweddol a dangosyddion ansawdd, oherwydd mae a wnelo hefyd ag ansawdd dangosyddion perfformiad; y sylfaen dystiolaeth; benthyciadau tymor byr; trefniadau cyfundrefnol y dyfodol; gwaith datblygu'r gwasanaeth; ac, yn olaf, cyfathrebu.

Mae'r bwrdd prosiect wrthi eisoes yn symud nifer o argymhellion y pwyllgor yn eu blaen, a hoffwn amlygu rhai ohonynt heddiw. Yn ei gylch gorchwyl, mae'r bwrdd wedi nodi gwaith datblygu manyleb gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol cadarn er mwyn cefnogi'r broses o wella perfformiad. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo gan y ddwy ffrwd waith sy'n ymdrin ag amseroedd aros a gwaith rheoli rhestrau aros, a dangosyddion perfformiad allweddol ac ansawdd. Yn ogystal, yn ei adroddiad imi fis nesaf, bydd y bwrdd yn rhoi cyngor ynghylch y blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau. Byddaf yn sicrhau y gwneir hynny ar y cyd â darparwyr gwasanaethau, defnyddwyr a rhanddeiliaid. Mae'r bwrdd prosiect eisoes yn cael cymorth gan grŵp cyfeirio ehangach. Mae aelodau'r

representatives from health and social care bodies, professional advisory groups and third sector patient and user groups. I rely on that wider reference group to aid and assist the project board.

I particularly welcome recommendation 6, which sets out the need for the development of performance measures. They will set out what service users can expect to receive. Those performance measures will be included in the service specification, and local health boards will be held to account for delivering the required performance standards. The project board, as I indicated, is due to report to me next month.

In conclusion, I welcome the report and the committee's recommendations and reiterate my commitment to bringing about improvements in this area and ensuring that essential equipment is made available in a timely way. My strong intention remains to develop a service in Wales in which the accountability for delivery is quite clear, in which there are clear and uniform standards that must be met and in which we have the right infrastructure in place to ensure that that happens. I look forward to the debate, and to taking any words of wisdom that may come from it with regard to implementing the committee's report.

Andrew R.T. Davies: I welcome the publication of this report and its recommendations. I am pleased that the Minister accepts all 23 recommendations as a way forward. What was most striking in the evidence that we took from wheelchair users and lobby groups for wheelchair services was the hopelessness that many of them felt and the way that they had been cast adrift. There was little or no accountability in the service. It was a very depressing piece of evidence, and I hope that the Minister will address this deficit in accountability. She is accepting the recommendations on paper, but a real step change is now needed in the delivery and accountability of the service for the benefit of service users. In the evidence that we gathered for the report, it was touched on that some five or six years ago, before I became an Assembly Member, there was a five-year plan with a national service framework

grŵp hwnnw'n cynnwys cynrychiolwyr cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, grwpiau cynghori proffesiynol, a grwpiau defnyddwyr a chleifion y trydydd sector. Yr wyf yn dibynnu ar y grŵp cyfeirio ehangach hwnnw i roi cymorth i'r bwrdd prosiect.

Yr wyf yn croesawu argymhelliad 6 yn arbennig, sy'n nodi'r angen i ddatblygu mesurau perfformiad. Byddant yn egluro'r hyn y gall defnyddwyr gwasanaeth ddisgwyl ei gael. Bydd y mesurau perfformiad hynny'n cael eu cynnwys yn y fanyleb gwasanaeth, a bydd byrddau iechyd lleol yn cael eu dwyn i gyfrif am fodloni'r safonau perfformiad gofynnol. Fel y nodais, disgwylir i'r bwrdd prosiect adrodd yn ôl imi fis nesaf.

I gloi, croesawaf yr adroddiad ac argymhellion y pwyllgor, a nodaf unwaith eto fy ymrwymiad i gyflwyno gwelliannau yn y maes hwn a sicrhau bod offer hanfodol ar gael yn brydlon. Fy mwriad pendant o hyd yw datblygu gwasanaeth yng Nghymru lle mae'r atebolrwydd am ddarparu gwasanaeth yn glir iawn, lle ceir safonau clir ac unffurf y mae'n rhaid eu bodloni, a lle mae'r seilwaith cywir gennym ar waith i sicrhau bod hynny'n digwydd. Edrychaf ymlaen at y ddadl, ac at glywed unrhyw eiriau doeth a allai ddeillio ohoni ynghylch gweithredu adroddiad y pwyllgor.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod yr adroddiad hwn a'i argymhellion wedi'u cyhoeddi. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog yn derbyn pob un o'r 23 o argymhellion fel ffordd o symud ymlaen. Yr hyn a oedd fwyaf trawiadol yn y dystiolaeth a gawsom gan bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion, a grwpiau sy'n lobio dros wasanaethau cadeiriau olwynion, oedd yr anobaith yr oedd llawer ohonynt yn ei deimlo, a'r modd yr oeddent wedi cael eu lluchio o'r neilltu. Nid oedd fawr ddim atebolrwydd yn y gwasanaeth. Yr oedd yn ddarn digalon iawn o dystiolaeth, a gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r diffyg atebolrwydd hwnnw. Mae'n derbyn yr argymhellion ar bapur, ond mae angen newid gwirioneddol sydyn yn awr, o ran y modd y cyflenwir y gwasanaeth ac o ran ei atebolrwydd, er lles defnyddwyr gwasanaeth. Yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym ar gyfer

document in place. However, regrettably, many of the aspirations in those documents were not met. It now falls to this report to push the service forward and ensure that we get service improvement.

I am very grateful to the service and everyone who came in to give us first-hand detailed accounts of their experiences, and to have been able to go out to the factory in Pencoed where the wheelchairs are made so that we could get a complete understanding of the situation in Wales. We found that there was a postcode lottery and a great difference between the service delivery in the north and the south, something that, in a country the size of Wales, really should not be tolerated and must be addressed as a matter of urgency. I also found the evidence from the Red Cross rather dispiriting. It said that it felt that it was treated as a very junior partner, if a partner at all, in trying to work with the service to deliver wheelchairs to the community and to stop duplication. In her response, the Minister touched on the importance of the third sector and of collaborative working—something that the committee referred to in the report. At a time when resources are going to be scarce, this must be addressed so that we get a joined-up approach and partnership working to ensure a better service delivered to the community. I think that that is recommendation 19. I hope that that recommendation in particular is pushed forward as a matter of urgency as it seems that these bodies are looking to work with the service.

Recommendation 23 touches on something very basic: training. When I visited the centre in Wrexham before the inquiry was undertaken—I was very grateful to the staff there for showing me around—staff said that they were unable to offer much, if any, training. If anything, all they were able to do was signpost people to various places where they might be able to get some form of training on using the wheelchair that they had

yr adroddiad, soniwyd bod cynllun pum mlynedd gyda dogfen fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar waith ryw bum neu chwe mlynedd yn ôl, cyn imi ddod yn Aelod o'r Cynulliad. Yn anffodus, fodd bynnag, ni chafodd llawer o'r dyheadau yn y dogfennau hynny eu gwireddu. Bellach, rhaid i'r adroddiad hwn wthio'r gwasanaeth yn ei flaen a sicrhau ein bod yn gweld gwelliannau ynddo.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r gwasanaeth ac i bawb a ddaeth i roi disgrifiadau manwl personol o'u profiadau, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn imi allu mynd i'r ffatri ym Mhen-coed, lle caiff y cadeiriau olwynion eu gwneud, er mwyn inni ddeall y sefyllfa yng Nghymru yn llawn. Gwelsom fod loteri cod post, a gwahaniaeth sylweddol rhwng y gogledd a'r de o ran y modd y cyflenwir gwasanaethau, sy'n rhywbeth na ddylid ei oddef mewn gwlad o faint Cymru, ac sy'n rhywbeth y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef ar fyrder. Yn ogystal, yr oedd y dystiolaeth gan y Groes Goch yn dorcalonnus braidd, yn fy marn i. Dywedodd ei bod yn teimlo'i bod yn cael ei thrin fel partner dibwys iawn, os oedd yn bartner o gwbl, wrth geisio gweithio gyda'r gwasanaeth i gyflenwi cadeiriau olwynion i'r gymuned ac osgoi achosion o ddyblygu. Yn ei hymateb, soniodd y Gweinidog am bwysigrwydd y trydydd sector a chydweithio—rhywbeth y cyfeiriodd y pwyllgor ato yn yr adroddiad. Ar adeg pan wyddys y bydd adnoddau'n brin, rhaid mynd i'r afael â hynny er mwyn cael dull gweithredu cydgysylltiedig a dulliau o weithio mewn partneriaeth, i sicrhau bod gwell gwasanaeth yn cael ei gyflenwi i'r gymuned. Credaf mai dyna yw argymhelliad 19. Gobeithiaf y caiff yr argymhelliad hwnnw'n benodol ei hybu ar fyrder, oherwydd ymddengys fod y cyrff hyn am weithio gyda'r gwasanaeth.

Mae argymhelliad 23 yn sôn am rywbeth sylfaenol iawn: hyfforddiant. Pan ymwelais â'r ganolfan yn Wrecsam cyn i'r ymchwiliad gael ei gynnal—yr oeddwn yn ddiolchgar iawn i'r staff yno am fy nhywys o amgylch y ganolfan—dywedodd y staff nad oedd modd iddynt gynnig llawer o hyfforddiant, os o gwbl. Y cyfan yr oeddent yn gallu ei wneud oedd cyfeirio pobl at amryw fannau lle byddent efallai'n gallu cael rhyw fath o

been given. In some cases, these are complicated pieces of equipment that require quite a bit of getting used to. To me, that summed up the very basic nature of what we should be trying to provide, but it is just not available. I would be most grateful if the Minister, in responding to the debate, could say how she believes a more comprehensive package of training could be put in place. She mentioned the fact that the policy board is going to look into this issue, but it would obviously be good to get an understanding of exactly how that very simple project could be implemented, again as a matter of urgency.

The committee has produced various reports that have made clear recommendations. A fortnight ago, there was the report on stroke services. We have now produced this report on wheelchair services. If the recommendations are implemented in their entirety we will see a step change in the delivery of the service here in Wales. I welcome the Minister's saying that she will come back to the Chamber in the autumn to inform us about the deliberations. There has been a task and finish group looking into wheelchair services. Stage 1 of that work has been completed, and the group is moving on to stage 2.

3.30 p.m.

However, some of the witnesses that we talked to, names which you would have thought would have been part of the group that was working to improve services, were unaware of the outcomes and the deliberations of the task and finish group that the Minister had set up. That demonstrates, once again, the importance of communication, not only to users of the service, but to partners within the field who can help the service deliver. No-one wants to see a failing service in Wales, especially when that service is serving some of the most vulnerable in our society. I hope, therefore, that this report is taken in the spirit in which it is intended and that there will be a step change in the delivery and a blueprint showing the way forward. That was offered five years ago, and while it looked good on

hyfforddiant ynghylch defnyddio'r gadair olwynion a roddwyd iddynt. Mewn rhai achosion, mae'r darnau hyn o offer yn gymhleth, ac mae'n cymryd amser i ddod i arfer â hwy. I mi, yr oedd hynny'n crynhoi natur sylfaenol iawn yr hyn y dylem fod yn ceisio'i ddarparu, ond nid yw ar gael, yn syml iawn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl, ddweud sut y gellid rhoi pecyn hyfforddi mwy cynhwysfawr ar waith, yn ei barn hi. Soniodd am y ffaith bod y bwrdd polisi'n bwriadu ymchwilio i'r mater hwn, ond mae'n amlwg y byddai'n braf deall sut yn union y gellid gweithredu'r prosiect syml iawn hwnnw, ar fyrder unwaith eto.

Mae'r pwyllgor wedi llunio amryw adroddiadau sydd wedi nodi argymhellion clir. Bythefnos yn ôl, cafwyd yr adroddiad ar wasanaethau strôc. Yr ydym bellach wedi llunio'r adroddiad hwn ar wasanaethau cadeiriau olwynion. Os caiff yr argymhellion eu gweithredu i gyd, byddwn yn gweld newid sydyn yn y modd y caiff y gwasanaeth ei gyflenwi yma yng Nghymru. Croesawaf y ffaith i'r Gweinidog ddweud y bydd yn dychwelyd i'r Siambr yn yr hydref i roi gwybodaeth inni am y trafodaethau. Cafwyd grŵp gorchwyl a gorffen a fu'n ymchwilio i wasanaethau cadeiriau olwynion. Mae cam 1 y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, ac mae'r grŵp yn symud ymlaen i gam 2.

Fodd bynnag, yr oedd rhai o'r tystion y buom yn siarad â hwy, pobl y byddech wedi meddwl y byddent yn rhan o'r grŵp a oedd yn gweithio i wella gwasanaethau, yn anymwybodol o ganlyniadau a thrafodaethau'r grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan y Gweinidog. Unwaith eto, mae hynny'n dangos pwysigrwydd cyfathrebu, nid yn unig â defnyddwyr y gwasanaeth, ond â phartneriaid yn y maes, a all helpu'r gwasanaeth i gyflenwi. Nid oes neb am weld gwasanaeth sy'n methu yng Nghymru, yn enwedig pan fo'r gwasanaeth hwnnw'n gwasanaethu rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Felly, gobeithiaf y caiff yr adroddiad hwn ei dderbyn yn yr ysbryd a fwriadwyd, ac y bydd newid sydyn yn y modd y cyflenwir y

paper, it was not delivered. It is important that we get it right this time, so that we do not end up revisiting this in a few years' time. I hope the Minister will take the report in the spirit in which it is meant.

Val Lloyd: I was quite amazed when we were undertaking this report to find that it is estimated that around 70,000 people in Wales need the use of a wheelchair. That equates to roughly 1 in every 43 of the Welsh population. It is important to be clear that the vast majority of wheelchairs are delivered to patients within 21 days of referral. However there are, undoubtedly, long, and sometimes very long, waiting times for users with complex needs, especially children. It is crucial, therefore, that these services improve in terms of assessment times, waiting times and, more importantly, delivery times, to meet the needs of the service users. I was very pleased to hear the Minister's earlier contribution about the project board and the work that it has done to date, especially in relation to waiting times and waiting list management, and even more, the focused work that it will carry out.

Clear and effective communication between the NHS, local health boards, the artificial limbs and appliance centres and the Artificial Limb and Appliance Service, carers, therapists, and of course, users, is essential to improving the delivery of the service, and improved communication should progress not just from the assessment process, but right up until the user receives the wheelchair. The committee's recommendation 8 addresses this by suggesting the implementation of a clear communication strategy. Patients must have confidence in the service in order for the service to be successful and effective. When we took evidence from wheelchair users, I felt sometimes that there was a breakdown in direct communication and that patients should be able to contact the service providers and likewise, the service provides should be in regular contact with the service

gwasanaeth, ac y bydd glasbrint i ddangos y ffordd ymlaen. Cynigiwyd hynny bum mlynedd yn ôl, ac er iddo ymddangos yn dda ar bapur, ni chafodd ei wireddu. Mae'n bwysig ein bod yn llwyddo'r tro hwn, fel na fyddwn yn ailystyried y mater hwn eto ymhen ychydig flynyddoedd. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn derbyn yr adroddiad yn yr ysbryd a fwriadwyd.

Val Lloyd: Yr oeddwn yn synnu braidd, wrth inni ymgymryd â'r gwaith o lunio'r adroddiad hwn, o ganfod yr amcangyfrif bod ar oddeutu 70,000 o bobl yng Nghymru angen defnyddio cadeiriau olwynion. Mae hynny'n cyfateb i oddeutu 1 o bob 43 o boblogaeth Cymru. Mae'n bwysig egluro y caiff mwyafrif helaeth y cadeiriau eu cyflenwi i gleifion cyn pen 21 diwrnod iddynt gael eu hatgyfeirio. Fodd bynnag, yn ddiau, mae defnyddwyr ag anghenion cymhleth, yn enwedig plant, yn gorfod aros am amser hir, a hir iawn ar brydiau. Felly, mae'n hollbwysig bod y gwasanaethau hyn yn gwella, o ran amseroedd asesu, amseroedd aros, ac yn bwysicach fyth, amseroedd cyflenwi, er mwyn diwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Yr oeddwn yn falch iawn o glywed cyfraniad y Gweinidog yn gynharach ynghylch y bwrdd prosiect a'r gwaith y mae wedi'i wneud hyd yn hyn, yn enwedig o ran amseroedd aros a gwaith rheoli rhestrau aros, ac yn fwy na hynny, y gwaith penodol y bydd yn ei gyflawni.

Mae cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng y GIG, y byrddau iechyd lleol, y canolfannau aelodau artiffisial a chyfarpar a'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, gofawyr, therapyddion, a'r defnyddwyr, wrth gwrs, yn hanfodol er mwyn gwella'r modd y cyflenwir y gwasanaeth, a dylai gwell cyfathrebu ddigwydd nid yn unig o'r broses asesu, ond tan yr adeg pan gaiff y defnyddiwr y gadair olwynion. Mae argymhelliad 8 y pwyllgor yn mynd i'r afael â hyn drwy awgrymu y dylid gweithredu strategaeth gyfathrebu glir. Rhaid i gleifion deimlo'n hyderus yn y gwasanaeth er mwyn i'r gwasanaeth fod yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Pan gasglwyd tystiolaeth gan bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion, yr oeddwn yn teimlo weithiau bod dulliau cyfathrebu uniongyrchol yn methu, ac y dylai'r cleifion allu cysylltu â darparwyr y gwasanaeth, ac yn yr un modd, y dylai

users to keep them informed of progress, which would go some way to alleviating their anxieties. That also links into our recommendation 3, which highlights the need for better integration between the ALAS centres and social services departments. We heard from the MS Society Cymru that social workers from various local authorities have approached the society with queries about how to refer someone suffering with multiple sclerosis for a wheelchair. That seems to point to a lack of understanding of the current system by those healthcare workers, and also demonstrates the lack of integration between the services. Better integration should see local authorities and health boards working together to pool resources and share expertise, which will lead to patients' needs to be identified and dealt with faster.

I also look forward to seeing the implementation of recommendation 22, which specifies the need for regular reviews into service delivery, particularly—as the Minister mentioned—when the service is for children, young people and those users with long term conditions. The needs of such users will vary over time and sometimes the excessive waits for delivery of a wheelchair can impede the personal development of the user. The Chartered Society of Physiotherapists told us of problems in relation to users waiting for parts or adaptations. They had a really lovely wheelchair, but it was out of use because of a lack of a part. Such problems left the users immobile while waiting for their wheelchair to be maintained or repaired. By incorporating this recommendation and introducing regular reviews, the service providers would be able to combat any replacement or delivery problems in advance, so that patients are not be left immobilised or inconvenienced. I welcomed the announcement earlier this year by the Minister for Health and Social Services regarding the new measures that will speed up the delivery of wheelchairs to users. These measures include establishing a single organisation with responsibility for managing

darparwyr y gwasanaeth fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r defnyddwyr gwasanaeth er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd, a ddylai helpu i leddfu eu pryderon i ryw raddau. Mae hynny hefyd yn cysylltu ag argymhelliad 3, sy'n amlygu'r angen am well integreiddio rhwng canolfannau'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Clywsom gan MS Cymru fod gweithwyr cymdeithasol o amryw awdurdodau lleol wedi dod at y gymdeithas i ymholi ynghylch sut y dylid atgyfeirio rhywun sy'n dioddef o sglerosis ymlledol er mwyn cael cadair olwynion. Ymddengys fod hynny'n dangos diffyg dealltwriaeth o'r system gyfredol ar ran y gweithwyr gofal iechyd hynny, ac mae hefyd yn dangos diffyg integreiddio rhwng y gwasanaethau. Dylai gwell integreiddio olygu bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithio i gyfuno adnoddau a rhannu arbenigedd, a fyddai'n arwain at adnabod anghenion cleifion ac ymdrin â hwy'n gynt.

Edrychaf ymlaen hefyd at weld argymhelliad 22 yn cael ei weithredu, sy'n nodi'r angen am adolygiadau rheolaidd o'r modd y cyflenwir y gwasanaeth, yn enwedig—fel y soniodd y Gweinidog—pan fo'r gwasanaeth hwnnw ar gyfer plant, pobl ifanc a defnyddwyr sydd â chyflyrau hirdymor. Bydd anghenion defnyddwyr o'r fath yn amrywio gydag amser, a gall aros yn ormodol am gadair olwynion rwystro datblygiad personol y defnyddiwr weithiau. Soniodd Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion wrthym am broblemau wrth i ddefnyddwyr orfod aros am gydrannau neu addasiadau. Yr oedd ganddynt gadair hyfryd, ond nid oedd modd ei defnyddio am fod cydran ar goll. Yr oedd problemau o'r fath yn golygu bod y defnyddwyr yn methu â symud wrth aros i'w cadair olwynion gael ei thrwsio neu'i chynnal a'i chadw. Drwy ymgorffori'r argymhelliad hwn a chyflwyno adolygiadau rheolaidd, byddai modd i ddarparwyr y gwasanaeth ddatrys ymlaen llaw unrhyw broblemau o ran newid neu gyflenwi cadair olwynion, fel na chaiff cleifion eu gadael mewn sefyllfa lle na allant symud, neu sefyllfa sy'n peri anghyfleustra iddynt. Croesewais gyhoeddiad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gynharach eleni ynghylch y mesurau newydd a fydd yn cyflymu'r broses

and delivering the equipment to service users, with a view to creating a specialist, dedicated service. I also welcome the Minister's decision to review the waiting list processes so that waits are brought within overall waiting time targets. Like my fellow committee members, I look forward to seeing these improvements to the service, in order to better meet the needs of users.

Peter Black: I support all that has been said so far by committee members. I thank the Minister, in particular, for her response to this review. She accepts all of its recommendations, which is particularly useful. However, I note that that acceptance depends on the project board's report, but, as she told the committee Chair, she will make a statement in the autumn. It is important that, although the project board is working on many of the committee's recommendations, we try to implement them as quickly as possible. I hope that the project board will be working expeditiously to deliver on that. That is crucial, given that the committee received compelling evidence from service users and from the organisations that have contact with those users, and with ALAC and ALAS—the organisations that deliver the wheelchairs.

The clear impression being given was that, in many places, the service was not fit for purpose, that people are having to wait for an excessively long time, particularly where their needs were complex, and that, in some instances, in terms of repairs and assessments, those delays seemed to be unreasonable in terms of the evidence that we received as a committee. I believe that every committee member was disturbed by that evidence, and felt strongly that something had to be done to put it right. Therefore, I am hopeful that the Minister, in responding so positively to the report, will be able to make a start on that.

o gyflenwi cadeiriau olwynion i ddefnyddwyr. Mae'r mesurau hynny'n cynnwys sefydlu un corff sy'n gyfrifol am reoli a chyflenwi'r offer i ddefnyddwyr gwasanaeth, gyda'r bwriad o greu gwasanaeth arbenigol, penodedig. Croesawaf hefyd benderfyniad y Gweinidog i adolygu prosesau'r rhestrau aros, er mwyn sicrhau bod y cyfnodau aros yn cyd-fynd â thargedau cyffredinol ar gyfer amseroedd aros. Fel fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor, edrychaf ymlaen at weld y gwelliannau hyn i'r gwasanaeth, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr yn well.

Peter Black: Yr wyf yn cefnogi popeth a ddywedwyd hyd yma gan aelodau'r pwyllgor. Diolchaf i'r Gweinidog, yn benodol, am ei hymateb i'r adolygiad hwn. Mae'n derbyn ei holl argymhellion, sy'n eithriadol o ddefnyddiol. Fodd bynnag, sylwaf fod derbyn yr argymhellion yn dibynnu ar adroddiad y bwrdd prosiect, ond, fel y dywedodd wrth Gadeirydd y pwyllgor, bydd yn gwneud datganiad yn yr hydref. Er bod y bwrdd prosiect yn gweithio ar nifer o argymhellion y pwyllgor, mae'n bwysig ein bod yn ceisio'u gweithredu cyn gynted ag sy'n bosibl. Gobeithiaf y bydd y bwrdd prosiect yn gweithio'n fuan i sicrhau hynny. Mae hynny'n hollbwysig, o ystyried i'r pwyllgor gael tystiolaeth bendant gan ddefnyddwyr gwasanaeth, a sefydliadau sydd mewn cysylltiad â'r defnyddwyr hynny a Chanolfannau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar a'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar—sef y sefydliadau sy'n cyflenwi'r cadeiriau olwynion.

Cafwyd yr argraff glir nad oedd y gwasanaeth yn addas i'w ddiben mewn nifer o fannau, bod yn rhaid i bobl aros am ormod o amser, yn enwedig os oedd eu hanghenion yn gymhleth, ac, mewn rhai achosion, o ran gwaith trwsio ac asesu, bod yr oedi hwnnw'n ymddangos yn afresymol o safbwynt y dystiolaeth a gawsom fel pwyllgor. Credaf fod y dystiolaeth honno wedi anesmwytho pob aelod o'r pwyllgor, a'u bod yn teimlo'n gryf bod yn rhaid gwneud rhywbeth i unioni'r sefyllfa. Felly, yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb mor gadarnhaol i'r adroddiad, yn gallu dechrau ar y gwaith hwnnw.

Val Lloyd has just referred to the MS Society Cymru briefing paper on this issue. That paper mentions the approach by different social workers, from different local authorities, and the failure to work together at a local level. It is crucial that social services and health services work much more closely together on this issue if we are to resolve the problem of delays, ensuring that everyone understands the process. That must be part of the communication strategy that the committee recommends. Although we have two bodies delivering the service—in the north and the south—some evidence suggested that it might be better to deliver it at a local level. I do not believe that the committee was convinced by that; I certainly was not. However, better working at a local level, with social services departments and with the health boards, would be beneficial for everyone. I would hope that, as part of the project board review of this issue, we will get some progress on that matter.

The other issue of concern that came out of the review—and I believe that several members were concerned by this—was the almost cavalier attitude towards the national service framework for children, young people and maternity services. On several occasions, the organisations that deliver these wheelchairs were asked about the targets in that framework. I believe that their response was inadequate—and I believe that other members thought so too—because they were not taking those framework targets into account. The reason that they gave was that they were not resourced to deliver those targets, but that matter needs to be resolved between ALAS, ALAC and the Ministers. However, in terms of ensuring that that service framework is delivered, it is crucial that they not only deliver on the targets that they set internally, but that they also deliver on the targets in that service framework. We felt that that was lacking in the response to the committee. Again, I hope that the Minister is able to knock some heads together on that issue, to try to sort that out.

Mae Val Lloyd newydd gyfeirio at bapur briffio MS Cymru ar y mater hwn. Mae'r papur dan sylw'n sôn am y dull gweithredu a ddefnyddir gan wahanol weithwyr cymdeithasol, o wahanol awdurdodau lleol, a'r methiant i gydweithio'n lleol. Mae'n hollbwysig bod gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn cydweithio'n agosach o lawer ar y mater hwn os ydym am ddatrys y broblem ynghylch oedi, gan sicrhau bod pawb yn deall y broses. Rhaid i hynny fod yn rhan o'r strategaeth gyfathrebu y mae'r pwyllgor yn ei hargymell. Er bod gennym ddau gorff sy'n cyflenwi'r gwasanaeth—yn y gogledd a'r de—yr oedd rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y byddai'n well ei gyflenwi ar lefel leol, efallai. Ni chredaf i'r pwyllgor gael ei argyhoeddi ynghylch hynny; ni chefais i fy argyhoeddi, yn sicr. Fodd bynnag, byddai gwell cydweithio ar lefel leol ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd yn fuddiol i bawb. Yr wyf yn gobeithio, yn rhan o adolygiad y bwrdd prosiect o'r mater hwn, y gwelwn ychydig o gynnydd i'r perwyl hwnnw.

Y mater arall sy'n peri pryder, a ddeilliodd o'r adolygiad—a chredaf iddo beri pryder i nifer o aelodau—oedd yr agwedd ddi-hid bron at y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth. Cafodd y sefydliadau sy'n cyflenwi'r cadeiriau olwynion hyn eu holi droeon ynghylch y targedau yn y fframwaith hwnnw. Credaf fod eu hymateb yn annigonol—a chredaf fod aelodau eraill o'r farn honno hefyd—oherwydd nid oeddent yn ystyried targedau'r fframwaith hwnnw. Y rheswm a roesant oedd nad oedd ganddynt adnoddau i fodloni'r targedau hynny, ond mae angen datrys y mater hwnnw rhwng y Canolfannau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, a'r Gweinidogion. Fodd bynnag, o ran sicrhau y caiff y fframwaith gwasanaeth ei weithredu, mae'n hollbwysig eu bod nid yn unig yn bodloni'r targedau a bennir ganddynt yn fewnol, ond eu bod hefyd yn bodloni'r targedau yn y fframwaith gwasanaeth dan sylw. Yr oeddem o'r farn bod hynny ar goll yn yr ymateb i'r pwyllgor. Unwaith eto, gobeithiaf y gall y Gweinidog ddod â rhai pobl ynghyd i ymdrin â'r mater hwnnw, er

mwyn ceisio'i ddatrys.

The other issue that I wanted to raise, which also came up in the review, was joint funding. I was particularly concerned because I asked the Cardiff ALAC whether it was prepared to fund jointly with individuals. It said that it was not able to do so because the Minister had issued guidance to this effect.

Y mater arall yr oeddwn am ei godi, a ddaeth i'r amlwg yn yr adolygiad hefyd, oedd cydgyllido. Yr oeddwn yn pryderu'n arbennig gan imi ofyn i Ganolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar Caerdydd a oedd yn fodlon cyllido ar y cyd ag unigolion. Dywedodd na allai wneud hynny am fod y Gweinidog wedi cyhoeddi arweiniad i'r perwyl hwnnw.

3.40 p.m.

However, later, when the Minister was asked about this, she made it clear to the committee that no such guidance had been issued. It is quite serious that a witness employed in the public sector was able to come to an Assembly committee and give evidence to that effect, which later turned out to be incorrect. It seems that the Minister needs to talk to those individuals to make sure that the information given to committees in such reviews is accurate and that we do not have this blame game where organisations are blaming the Minister—although that is not the case this time—and vice versa. We must work together to deliver this service.

Fodd bynnag, yn ddiweddarach, pan holwyd y Gweinidog ynghylch hynny, nododd yn glir wrth y pwyllgor na chyhoeddwyd yr un arweiniad o'r fath. Mae'n eithaf difrifol bod tyst a gyflogir yn y sector cyhoeddus wedi gallu dod at bwyllgor yn y Cynulliad a rhoi tystiolaeth i'r perwyl hwnnw, y canfuwyd yn ddiweddarach ei bod yn anghywir. Ymddengys fod angen i'r Gweinidog gael gair â'r unigolion hynny i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i bwyllgorau mewn adolygiadau fel hyn yn gywir, ac nad ydym yn gweld gêm o fwrw'r bai, lle mae'r sefydliadau yn beio'r Gweinidog—yn anghywir y tro hwn—ac i'r gwrthwyneb. Rhaid inni gydweithio i gyflenwi'r gwasanaeth hwn.

The point about joint funding is important in terms of individuals being able to contribute to the cost of repairs and towards the cost of the wheelchair, through a direct payment system perhaps. Perhaps the Minister could look at this issue as part of her review.

Mae'r pwynt ynghylch cydgyllido'n bwysig, o ran bod unigolion yn gallu cyfrannu at gost gwaith trwsio a chost y gadair, drwy system o daliadau uniongyrchol o bosibl. Efallai y gallai'r Gweinidog ystyried y mater hwn yn rhan o'i hadolygiad.

Helen Mary Jones: I will not repeat what others have said. This was a very useful review. As Peter Black and others have said, some of the evidence that we heard was pretty disturbing, particularly in terms of the impact on the lives of children. Wearing my other hat as Chair of the Children and Young People Committee, I wish to concentrate on those recommendations that refer particularly to children.

Helen Mary Jones: Nid wyf am ailadrodd yr hyn a ddywedwyd gan eraill. Yr oedd yr adolygiad hwn yn ddefnyddiol iawn. Fel y dywedodd Peter Black ac eraill, yr oedd rhywfaint o'r dystiolaeth a glywsom yn eithaf brawychus, yn enwedig o ran y modd yr effeithir ar fywydau plant. Gan wisgo fy het arall fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, hoffwn ganolbwyntio ar yr argymhellion hynny sy'n cyfeirio'n benodol at blant.

The Royal College of Physiotherapists told us about waits of up to 36 weeks for a child to be given an assessment for complex needs. If we think about our own lives and our own

Dywedodd Coleg Brenhinol y Ffisiotherapyddion wrthym y gall plentyn orfod aros am hyd at 36 wythnos am asesiad o anghenion cymhleth. Os meddylw'n am ein

families—and you are dealing here, perhaps, with a family whose child has a very serious and potentially deteriorating condition—perhaps we could consider how much a well child changes in 36 weeks, and how much they grow. Families told us about children unable to leave their beds at different crucial stages of their emotional development because those very complex needs could not be met. The services did give us reasons as to why it was sometimes difficult to meet these complex needs. One of the areas that I sincerely hope that the Minister will be able to get the project board to address effectively was the difficulties about co-funding with education. There were circumstances where a child or young person was using a state-of-the-art wheelchair in school that enabled them to participate fully in the life of the school, and then would be going home to a national health-funded wheelchair that did not meet their needs, and one that they had often outgrown.

We cannot allow this to go on. We are not talking about very large numbers of children, but we are talking about children whose lives potentially are wrecked in the long term if, for example, they end up missing large periods of school because they cannot get to the school, where there is a good wheelchair, because the wheelchair that they have at home is not of the right standard.

Peter Black has referred to the attitude of some witnesses towards the children's national service framework. I cannot remember whether it was in this review, or in another, as I seem to spend an inordinate amount of time these days with senior officers of our new local health boards, but we were told in one committee—either in the Health, Wellbeing and Local Government Committee or the Children and Young People Committee—by a senior manager that the national service framework did not apply to her service. She did not just say that she could not deliver it, as some others have said because it was not resourced, but she said that it did not apply. That national service framework has been in place for some years. My comments relate mainly to

bywydau a'n teuluoedd ein hunain—a gallech fod yn ymdrin â theulu, yn yr achos hwn, sydd â phlentyn sy'n dioddef o gyflwr difrifol iawn a allai ddirywio—efallai y gallem ystyried cymaint y mae plentyn iach yn newid mewn 36 wythnos, a chymaint y mae'n tyfu. Dywedodd teuluoedd wrthym am blant na allent adael eu gwely yn ystod amryw gyfnodau hollbwysig o ran eu datblygiad emosïynol, am na ellid diwallu'r anghenion cymhleth iawn hynny. Rhoddodd y gwasanaethau resymau inni i esbonio pam yr oedd yn anodd diwallu'r anghenion cymhleth hyn weithiau. Un o'r meysydd y gobeithiaf yn fawr y bydd y Gweinidog yn gallu cael y bwrdd prosiect i fynd i'r afael ag ef yn effeithiol yw'r anawsterau ynghylch cyllido ar y cyd ag addysg. Cafwyd amgylchiadau lle'r oedd plentyn neu berson ifanc yn defnyddio cadair olwynion o'r radd flaenaf yn yr ysgol, a oedd yn eu galluogi i gymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol, ac a oedd yn dychwelyd adref at gadair olwynion a ariennid gan y gwasanaeth iechyd gwladol, nad oedd yn diwallu eu hanghenion, ac a oedd yn aml yn rhy fach iddynt.

Ni allwn ganiatáu i hynny barhau. Nid ydym yn siarad am niferoedd mawr iawn o blant. Yr ydym yn siarad am blant y gallai eu bywydau gael eu dinistrio yn yr hirdymor pe baent, er enghraifft, yn colli cyfnodau hir o addysg am na allant gyrraedd yr ysgol, lle mae cadair olwynion dda ar gael, am nad yw'r gadair olwynion sydd ganddynt gartref o'r safon gywir.

Mae Peter Black wedi cyfeirio at agwedd rhai o'r tystion at y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant. Ni allaf gofio ai yn yr adolygiad hwn yr oedd, ynteu mewn adolygiad arall, gan yr ymddengys fy mod yn treulio llawer gormod o amser gydag uwchswyddogion ein byrddau iechyd lleol newydd y dyddiau hyn, ond dywedwyd wrthym mewn un pwyllgor—naill ai yn y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol neu'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc—gan uwchreolwr, nad oedd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn berthnasol i'w gwasanaeth hi. Nid dweud yr oedd nad oedd modd iddi ei weithredu, fel y mae eraill wedi dweud, am nad oes digon o adnoddau ar gael, ond dweud nad oedd yn berthnasol. Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol hwnnw wedi bod ar

recommendation 7, although we might also be able to look back to recommendation 6, I urge the Minister today to ensure that there are performance measures and targets, which should include sanctions for non-compliance. From my perspective as Chair of the Children and Young People Committee, anyone in the health service in Wales who says that the national service framework does not apply to them needs sanctions of some kind applied. We need to ensure that that is resourced over time. I am sure that how that resourcing can be achieved, particularly for the most vulnerable children with the most complex needs, will be something that the work of the project board will need to address. We can no longer tolerate any of our public services in Wales saying that they will not prioritise children's needs.

We are moving forward on the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure; however, I am sure that we would all agree that the right of a child to be able to get out of their own home and participate in their community is a fundamental right.

Val has already briefly referred to recommendation 22, which is about review. Again, this is absolutely crucial to children. The length of time that children and young people go between reviews, and particularly those with complex needs, can be quite shocking. One of the mothers who spoke to us referred to her child's wheelchair being like a pair of shoes: they could not leave the house without it. That image stayed in my mind. I was thinking of my own child when she was growing up, and I am sure that those of us who have children in our families will know that there are times when it seems as if they need new shoes every couple of weeks. Yet these children were waiting months, sometimes confined to their homes. It has to be possible, given the small number of children that we are talking about, to put systems in place so that they can be prioritised for review.

waith ers rhai blynyddoedd. Mae fy sylwadau'n ymwneud yn bennaf ag argymhelliad 7, er y gallem hefyd edrych yn ôl ar argymhelliad 6. Anogaf y Gweinidog heddiw i sicrhau bod targedau a mesurau perfformiad ar waith, a ddylai gynnwys cosbau am beidio â chydymffurfio. O'm safbwynt i fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, mae angen i bawb yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru sy'n dweud nad yw'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn berthnasol iddynt gael eu cosbi mewn rhyw ffordd. Mae angen inni sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer hynny gydag amser. Yr wyf yn siŵr y bydd y modd y gellir sicrhau'r adnoddau hynny, yn enwedig ar gyfer y plant sydd fwyaf agored i niwed ac sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, yn rhywbeth y bydd angen i waith y bwrdd prosiect fynd i'r afael ag ef. Ni allwn ganiatáu mwyach i'r un o'n gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ddatgan na fyddant yn rhoi blaenoriaeth i anghenion plant.

Yr ydym yn symud ymlaen o ran y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru); fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn cytuno bod hawl plentyn i allu gadael ei gartref ei hun a chymryd rhan yn ei gymuned yn hawl sylfaenol.

Mae Val eisoes wedi cyfeirio'n fras at argymhelliad 22, sy'n ymwneud ag adolygu. Unwaith eto, mae hynny'n hollbwysig i blant. Gall y cyfnod rhwng adolygiadau plant a phobl ifanc, yn enwedig y sawl sydd ag anghenion cymhleth, fod yn eithaf syfrdanol. Cyfeiriodd un o'r mamau a siaradodd â ni at y ffaith bod cadair olwynion ei phlentyn fel pâr o esgidiau: ni allent adael y tŷ hebddi. Arhosodd y ddelwedd honno yn fy nghof. Yr oeddwn yn meddwl am fy mhlentyn fy hun pan oedd yn tyfu, ac yr wyf yn siŵr y bydd y rheini ohonom sydd â phlant yn ein teuluoedd yn gwybod bod amseroedd pan ymddengys fod angen esgidiau newydd arnynt bob yn ail wythnos. Ond eto i gyd, mae'r plant hyn yn aros am fisoedd, gan fethu â gadael eu cartref weithiau. O ystyried y nifer bach o blant yr ydym yn siarad amdanynt, rhaid ei bod yn bosibl rhoi systemau ar waith fel y gellir rhoi blaenoriaeth iddynt wrth gynnal adolygiadau.

Others have referred to the fact that it is difficult to undertake regular reviews. For some older adults with stable conditions, those reviews may not need to happen more than once every couple of years; however, little children who are growing need their shoes—or, in the case of these children, their wheelchairs—to be tested every few months to see if they fit, and are fit for purpose. We heard evidence of children physically deteriorating because they did not have a chair that was right for their growing body, with their needs becoming more complex and their ability to participate being further impaired. I am sure that we will all agree—I know that the Minister will agree—that this is not acceptable.

I welcome the Minister's acceptance of our recommendations, and feel that this is a good example of the work of the parliamentary side of this Chamber strengthening the hand of the Government to do what it knows needs to be done. We took a great deal of objective evidence that I am sure will be of use to the Minister and her project board as we move this agenda forward. I look forward to her statement early in the next Assembly year, in the autumn. I also welcome her comments on urgent implementation, because the children and young people involved in this cannot wait. I hope that she will ask the project board to prioritise these children, particularly those with complex needs. We cannot leave them waiting any longer—it is just not fair.

Bethan Jenkins: Thank you for this comprehensive report and for its recommendations, which I will be supporting. As someone who was not a member of the committee, I will focus on two of the recommendations and base my comments on some of the issues that I have encountered in my area. Recommendation 5 says that the new performance measures should focus on outcomes for users, taking into account their wider needs; and recommendation 10 explores the possibility of involving voluntary organisations and charities in providing the best possible interim solutions for users who are waiting for significant periods for delivery or maintenance of a chair.

Mae eraill wedi cyfeirio at y ffaith ei bod yn anodd cynnal adolygiadau rheolaidd. I rai oedolion hŷn sydd â chyflyrau sefydlog, mae'n bosibl nad oes angen cynnal yr adolygiadau hynny'n amlach nag unwaith bob dwy flynedd; fodd bynnag, bob hyn a hyn, bydd angen gwirio esgidiau—neu, yn achos y plant hyn, cadeiriau olwynion—plant bach sy'n tyfu, i weld a ydynt yn ffitio ac yn addas i'w diben. Clywsom dystiolaeth am blant a oedd yn dirywio'n gorfforol am nad oedd ganddynt gadair a oedd yn iawn i'w cyrff sy'n tyfu, ac yr oedd eu hanghenion yn mynd yn fwy cymhleth, a'u gallu i gymryd rhan yn cael ei waethygu. Yr wyf yn siŵr y byddwn i gyd yn cytuno—gwn y bydd y Gweinidog yn cytuno—nad yw hynny'n dderbyniol.

Croesawaf y ffaith i'r Gweinidog dderbyn ein hargymhellion, a chredaf fod yma enghraifft dda lle mae gwaith ochr seneddol y Siambr hon yn cryfhau gallu'r Llywodraeth i wneud yr hyn y gŵyr y mae angen ei wneud. Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth wrthrychol yr wyf yn siŵr y bydd yn ddefnyddiol i'r Gweinidog a'i bwrdd prosiect wrth inni symud yr agenda hon ymlaen. Edrychaf ymlaen at ei datganiad ddechrau blwyddyn nesaf y Cynulliad, yn yr hydref. Yn ogystal, croesawaf ei sylwadau ynghylch gweithredu ar frys, oherwydd ni all y plant a'r bobl ifanc dan sylw aros. Gobeithiaf y bydd yn gofyn i'r bwrdd prosiect roi blaenoriaeth i'r plant hyn, yn enwedig y plant sydd ag anghenion cymhleth. Ni allwn eu gadael i aros rhagor—nid yw hynny'n deg.

Bethan Jenkins: Diolch am yr adroddiad cynhwysfawr hwn a'i argymhellion, y byddaf yn eu cefnogi. Fel unigolyn nad oedd yn aelod o'r pwyllgor, byddaf yn canolbwyntio ar ddau o'r argymhellion, ac yn seilio fy sylwadau ar rai o'r materion yr wyf wedi dod ar eu traws yn fy ardal i. Dywed argymhelliad 5 y dylai'r mesurau perfformiad newydd ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr, gan ystyried eu hanghenion ehangach; ac mae argymhelliad 10 yn archwilio'r posibilrwydd o gynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau i ddarparu'r atebion dros dro gorau posibl i ddefnyddwyr sy'n aros am gyfnodau hir am gadair, neu am waith cynnal a chadw.

I have a constituent who, for over a decade, has battled to have a specific kind of wheelchair given to his son, who was left needing a wheelchair following an NHS operation that went wrong. He has argued that for his son to enjoy some quality of life and to go out in the evening to socialise, the wheelchair requires lights and a seat riser. For much of that time he was told that the service could not cater for the unique needs of individual users. Time and again he was told, 'If we give you what you want, we'll have to do the same for everybody'. After years of campaigning, my constituent has since been given the lights for his son's wheelchair, but not the seat riser, which he is still asking for. He was told that his ceaseless campaigning had led to him getting what he had asked for. I therefore want to understand whether a policy is a policy, or if there is no such policy in this regard. If it is not resistant to intense individual lobbying, can it be called a policy?

Aside from such confusion, I understand that there are budgetary restrictions and that often, when reviews of this kind are completed, their recommendations cannot be implemented because of costs. I appreciate that. However it is vital that this service suits the users and not the deliverers. After all, what purpose has a service if it is constricted by what suits the deliverers best? I ask the Welsh Government, if it is unable to implement all the recommendations, to at least use recommendations 5 and 10 to provide a changed and improved service that puts the users first.

Health Commission Wales's new service that helps people with eating disorders, for example, follows an individual care pathway. However, with wheelchairs, it seems to me that there is collective provision rather than a service that is tailored to the individual's needs. Much more work is needed to put the patient at the centre of all discussions on wheelchair services. It is their right, after all.

Mae gennyf etholwr sydd wedi brwydro, ers dros ddegawd, i gael math penodol o gadair olwynion i'w fab, yr oedd angen cadair olwynion arno ar ôl i lawdriniaeth gan y GIG fynd o chwith. Mae wedi dadlau bod angen i gadair olwynion ei fab gael goleuadau a theclyn i godi'r sedd, er mwyn i'w fab fwynhau ansawdd bywyd boddhaol a mynd allan i gymdeithasu gyda'r hwyr. Yn amlach na pheidio yn ystod yr amser hwnnw, dywedwyd wrtho na allai'r gwasanaeth ddiwallu anghenion unigryw defnyddwyr unigol. Dro ar ôl tro, dywedwyd wrtho, 'Os cewch chi yr hyn yr ydych am ei gael, bydd yn rhaid inni wneud yr un peth i bawb arall'. Ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu, cafodd fy etholwr y goleuadau dan sylw ar gyfer cadair olwynion ei fab, ond ni chafodd y teclyn i godi'r sedd, y mae'n dal i ofyn amdano. Dywedwyd wrtho bod ei ymgyrchu parhaus wedi sicrhau ei fod yn cael yr hyn yr oedd wedi gofyn amdano. Felly, hoffwn ddeall a yw polisi yn bolisi, ynteu a oes polisi o gwbl yn y cyswllt hwn. Os nad yw'n gallu gwrthsefyll lobiö dwys gan unigolyn, a ellir ei alw'n bolisi?

Ar wahân i ddryswch o'r fath, deallaf fod cyfyngiadau cyllidebol, a deallaf, pan gwblheir adolygiadau fel hyn, na ellir gweithredu eu hargymhellion yn aml oherwydd costau. Yr wyf yn sylweddoli hynny. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y gwasanaeth hwn yn addas i'r defnyddwyr ac nid i'r cyflenwyr. Wedi'r cyfan, beth yw diben gwasanaeth os caiff ei gyfyngu gan yr hyn sydd fwyaf addas i'r cyflenwyr? Os na all weithredu'r argymhellion i gyd, gofynnaf i Lywodraeth Cymru ddefnyddio argymhelliad 5 a 10, o leiaf, er mwyn darparu gwasanaeth sydd wedi'i newid a'i wella, ac sy'n rhoi'r defnyddwyr yn gyntaf.

Mae gwasanaeth newydd Comisiwn Iechyd Cymru, sy'n helpu pobl ag anhwylderau bwyta, er enghraifft, yn dilyn llwybr gofal unigol. Fodd bynnag, yn achos cadeiriau olwynion, ymddengys i mi mai darpariaeth gyffredinol a geir yn hytrach na gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn. Mae angen gwneud llawer mwy o waith i sicrhau bod y claf yn ganolbwynt yr holl drafodaethau ynghylch gwasanaethau cadeiriau olwynion. Dyna yw eu hawl, wedi'r

cyfan.

I understand that there is currently a Welsh Assembly Government review called the all-Wales posture and mobility review. Could the Minister assure us that this review, unlike previous reviews, will take the considerations that I have outlined seriously?

3.50 p.m.

The Presiding Officer: Diolch yn fawr. The Minister has graciously indicated that she does not wish to speak further, but will make a statement. Therefore, I ask the committee Chair to reply to the debate.

Darren Millar: I am pleased with the debate today. We have touched on all the issues that were raised during the course of the inquiry, and the level of the debate has been constructive. I now pay tribute to the Minister, who has committed herself to delivering the 23 recommendations in our report, which I welcome. I also welcome your commitment today to make a statement in the autumn to update us on the implementation of those recommendations and to update us on the all-Wales posture and mobility service review, which is still ongoing. You are absolutely right that the wheelchair services in Wales are not stand-alone services; they are part of the artificial limb and appliance service, in which we found no fault or complaint with regard to the wider service. However, the wheelchair services in particular need to be improved. Therefore, I will be happy to receive that update in the autumn on the work of the project board.

Andrew R.T. Davies hit the nail on the head when he made his remarks about the need for accountability in this service. That was the major issue that we came across when we began to open this tin, as it were, and investigate and probe deeper. Not only did we find that the children's national service framework, as Helen Mary rightly pointed out, was not being met, but we also found that the work that the wheelchair service was being commissioned to do by Health Commission Wales was not actually being met. I would like to remind Members of the commitments in the children's national

Deallaf y cynhelir adolygiad gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd, a elwir yn adolygiad Cymru gyfan o ystum a symudedd. A all y Gweinidog ein sicrhau y bydd yr adolygiad hwn, yn wahanol i adolygiadau blaenorol, yn cymryd o ddifrif yr ystyriaethau a amlinellwyd gennyf?

Y Llywydd: Diolch yn fawr. Mae'r Gweinidog wedi nodi'n garedig nad yw am siarad ymhellach, ond y bydd yn gwneud datganiad. Felly, gofynnaf i Gadeirydd y pwyllgor ymateb i'r ddadl.

Darren Millar: Yr wyf yn falch o'r ddadl heddiw. Yr ydym wedi sôn am yr holl faterion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad, a bu'r ddadl yn adeiladol. Hoffwn roi teyrnged i'r Gweinidog, sydd wedi ymrwymo i weithredu'r 23 o argymhellion yn ein hadroddiad, a chroesawaf hynny. Croesawaf hefyd eich ymrwymiad heddiw i wneud datganiad yn yr hydref i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am weithredu'r argymhellion hynny, ac am adolygiad Cymru gyfan o ystum a symudedd, sy'n dal i fynd rhagddo. Yr ydych yn gwbl gywir wrth ddweud nad yw'r gwasanaethau cadeiriau olwynion yng Nghymru yn wasanaethau annibynnol; maent yn rhan o'r gwasanaeth aelodau artiffisial a chyfarpar, na ddaethom ar draws yr un gŵyn na'r un bai ynghylch ei wasanaeth ehangach. Fodd bynnag, mae angen gwella'r gwasanaethau cadeiriau olwynion yn benodol. Felly, byddaf yn falch o gael y wybodaeth ddiweddaraf honno yn yr hydref am waith y bwrdd prosiect.

Tarodd Andrew R.T. Davies yr hoelen ar ei phen pan wnaeth ei sylwadau ynghylch yr angen am atebolrwydd yn y gwasanaeth hwn. Dyna oedd y broblem fawr y daethom ar ei thraws pan ddechreuwyd archwilio'r mater hwn, ymchwilio iddo, a chraffu'n ddyfnach. Yn ogystal â gweld nad oedd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, fel y nododd Helen Mary yn gwbl gywir, yn cael ei fodloni, gwelsom hefyd nad oedd y gwaith yr oedd y gwasanaeth cadeiriau olwynion yn cael ei gomisiynu i'w wneud gan Gomisiwn Iechyd Cymru yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd. Hoffwn atgoffa'r Aelodau o'r

service framework, which states that a child should be assessed for a wheelchair within six weeks of referral, and that within eight weeks of that referral, a wheelchair should be provided. Yet, we found evidence that some children were waiting up to 24 months simply for an assessment. That is totally unacceptable. Children's needs can change dramatically in a two-year period and their conditions can deteriorate. Health Commission Wales was commissioning a service that delivered a wheelchair within 15 months for adults and 12 months for children. That is unacceptable, Minister, and I know that you accept that that is unacceptable, which is why I am pleased that you are taking on board our recommendations.

Andrew also referred to the postcode lottery that exists in Wales. It is not right that constituents of mine in north Wales, and constituents in other parts of Wales, should have to wait longer than people in south Wales for their equipment. We must work quickly to ensure that the level of service delivered from the Wrexham artificial limb and appliance centre is as good as the level of service delivered from the ALAC at Rookwood Hospital.

Another issue that was a theme throughout the debate was the poor communication within the service—not only from the service to the service users, but also communication within the NHS with regard to what it should be delivering and how quickly it should be delivering it. It was unclear, for example, Minister, as to whether you had issued an instruction, as Peter Black rightly pointed out, to ban joint funding of enhanced wheelchairs. You have now clearly indicated that you did not, and I look forward to people working together to provide wheelchairs that not only meet clinical needs, but also lifestyle needs, as Bethan Jenkins rightly pointed out. She has a constituent, as many of us do, with individual situations that require a little bit extra, over and above the meeting of their clinical needs, to ensure that they can live fulfilled lives. That is particularly important for young children who are in the education system, as Helen Mary pointed out, because they need to be able to access the education

ymrwymiadau yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, sy'n nodi y dylid asesu plentyn ar gyfer cadair olwynion cyn pen chwe wythnos iddo gael ei atgyfeirio, ac y dylid darparu cadair olwynion cyn pen wyth wythnos i'r atgyfeiriad hwnnw. Eto, gwelsom dystiolaeth a ddangosai fod rhai plant yn aros hyd at 24 mis i gael eu hasesu hyd yn oed. Mae hynny'n gwbl annerbyniol. Gall anghenion plant newid yn ddramatig yn ystod cyfnod o ddwy flynedd, a gall eu cyflyrau waethygu. Yr oedd Comisiwn Iechyd Cymru yn comisiynu gwasanaeth a oedd yn cyflenwi cadair olwynion cyn pen 15 mis i oedolion a 12 mis i blant. Mae hynny'n annerbyniol, Weinidog. Gwn eich bod yn derbyn bod hynny'n annerbyniol, a dyna pam yr wyf yn falch eich bod yn derbyn ein hargymhellion.

Cyfeiriodd Andrew hefyd at y loteri cod post sy'n bodoli yng Nghymru. Nid yw'n iawn bod fy etholwyr i yn y gogledd, ac etholwyr mewn rhannau eraill o Gymru, yn gorfod aros yn hwy na phobl yn y de am eu hoffer. Rhaid inni weithio'n gyflym i sicrhau bod lefel y gwasanaeth a gyflenwir gan ganolfan aelodau artiffisial a chyfarpar Wrecsam cystal â lefel y gwasanaeth a gyflenwir gan y ganolfan aelodau artiffisial a chyfarpar yn Ysbyty Rookwood.

Mater arall a oedd yn thema drwy gydol y ddadl oedd y cyfathrebu gwael yn y gwasanaeth—nid yn unig rhwng y gwasanaeth a'r defnyddwyr gwasanaeth, ond hefyd o fewn y GIG ynghylch yr hyn y dylai fod yn ei gyflenwi a pha mor gyflym y dylai fod yn gwneud hynny. Er enghraifft, yr oedd yn aneglur, Weinidog, a oeddech wedi rhoi cyfarwyddyd, fel y nododd Peter Black yn gwbl gywir, i atal cadeiriau olwynion gwell rhag cael eu cyllido ar y cyd. Yr ydych bellach wedi nodi'n glir na wnaethoch hynny, ac edrychaf ymlaen at weld pobl yn cydweithio i ddarparu cadeiriau olwynion sydd nid yn unig yn diwallu anghenion clinigol, ond sy'n diwallu anghenion o ran ffordd o fyw hefyd, fel y nododd Bethan Jenkins yn gywir ddigon. Mae ganddi etholwr, fel sydd gan nifer ohonom, sydd mewn sefyllfa unigryw lle mae angen rhywbeth bach ychwanegol arnynt, sy'n mynd y tu hwnt i ddiwallu eu hanghenion clinigol, er mwyn sicrhau y gallant fyw

system in equipment that meets their lifestyle needs as well as their clinical needs. However, that is just not happening at the moment.

Val Lloyd reminded everyone that 70,000 people are using wheelchairs in Wales, which is quite an astonishing figure. However, it is wonderful to be able to say that the majority of those have been given their equipment within an appropriate timescale. We were satisfied as a committee that the service was working well for standard wheelchairs. However, we need to ensure that people receive the more complex chairs within a much more appropriate timescale.

Val also reminded us of the lack of close working between social services departments and the NHS. That is a recurring theme in reports from our committee, Minister, which I know is not yet being tackled head on. The committee may need to consider this in the future as a general theme in terms of working between the NHS and local authorities. That is not good enough at the moment and it needs to improve.

Some Members referred to the disabled facilities grant system, which is not delivering on time either. When a piece of equipment is provided that meets the service user's needs, it sometimes cannot be used within the service user's home because that home requires adaptations that have not been made in a timely manner. All of these things need to be addressed in the round. While we were not specific about making recommendations on disabled facilities grants, I am sure that you will take those comments on board, Minister, and work through them with your officials.

Finally, I wish to refer to Peter Black's remarks about the cavalier attitude towards the children's national service framework among those who deliver wheelchair

bywyd llawn. Mae hynny'n arbennig o bwysig i blant ifanc sydd yn y system addysg, fel y nododd Helen Mary, oherwydd mae angen iddynt allu cael mynediad i'r system addysg mewn offer sy'n diwallu eu hanghenion o ran ffordd o fyw yn ogystal â'u hanghenion clinigol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Bu i Val Lloyd atgoffa pawb bod 70,000 o bobl yn defnyddio cadeiriau olwynion yng Nghymru, sy'n ffigur eithaf syfrdanol. Fodd bynnag, mae'n wych ein bod yn gallu dweud bod mwyafrif y bobl hynny wedi cael eu hoffer o fewn amserlen briodol. Yr oeddem yn fodlon fel pwyllgor bod y gwasanaeth yn gweithio'n dda ar gyfer cadeiriau olwynion cyffredin. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau bod pobl yn cael y cadeiriau mwy cymhleth o fewn amserlen sy'n llawer mwy priodol.

Bu i Val ein hatgoffa hefyd o'r diffyg cydweithio agos rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG. Dyna thema sy'n dod i'r amlwg dro ar ôl tro mewn adroddiadau gan ein pwyllgor, Weinidog, a gwn nad ydym eto'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â hi. Mae'n bosibl y bydd angen i'r pwyllgor ystyried y mater yn y dyfodol, fel thema gyffredinol sy'n ymwneud â gwaith rhwng y GIG ac awdurdodau lleol. Nid yw'n ddigon da ar hyn o bryd, ac mae angen iddo wella.

Cyfeiriodd rhai Aelodau at y system grantiau cyfleusterau i'r anabl, nad yw'n cyflenwi'n brydlon ychwaith. Pan ddarperir darn o offer sy'n diwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, ni ellir ei ddefnyddio yng nghartref y defnyddiwr gwasanaeth weithiau, am nad yw'r addasiadau y mae angen eu gwneud i'r cartref wedi'u gwneud yn brydlon. Mae angen mynd i'r afael â'r holl bethau hyn yn gyffredinol. Er nad oeddem yn gwneud argymhellion ynghylch grantiau cyfleusterau i bobl anabl yn benodol, yr wyf yn siŵr y byddwch yn ystyried y sylwadau hynny, Weinidog, ac yn gweithio drwyddynt gyda'ch swyddogion.

I gloi, hoffwn gyfeirio at sylwadau Peter Black am yr agwedd ddi-hid at y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, ymhlith y sawl sy'n cyflenwi gwasanaethau

services. He is absolutely right about that. The service providers did not accept that they had any responsibility whatsoever to fulfil the children's national service framework, which the Welsh Assembly Government wants to be able to deliver. I know, Minister, that you are committed to delivering that. Will you respond further to our committee, particularly on the suggestion to apply sanctions to those parts of the NHS that do not deliver the national service frameworks that you, as the Minister, have instructed them to deliver?

I thank everyone for their remarks during the debate; it has been an excellent debate and I look forward to the Minister's update in September.

Y Llywydd: Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Cymru Wledig Rural Wales

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

Brynle Williams: I move that

the National Assembly for Wales:

1. *notes the urgent need to improve rural economic competitiveness as a means to regenerate rural communities;*

2. *believes that the Welsh Assembly Government must ensure that public services take into account the particular needs of rural Wales. (NDM4515)*

cadeiriau olwynion. Mae'n gwbl gywir ynghylch hynny. Nid oedd darparwyr y gwasanaeth yn derbyn eu bod yn gyfrifol o gwbl am weithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, y mae Llywodraeth y Cynulliad am allu ei weithredu. Gwn, Weinidog, eich bod wedi ymrwymo i weithredu hwnnw. A wnewch chi ymateb ymhellach i'n pwyllgor, yn enwedig i'r awgrym y dylid cosbi'r rhannau hynny o'r GIG nad ydynt yn gweithredu'r fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol, yr ydych chi, fel y Gweinidog, wedi'u cyfarwyddo i'w gweithredu?

Diolchaf i bawb am eu sylwadau yn ystod y ddadl; bu'n ddadl ardderchog, ac edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ym mis Medi.

The Presiding Officer: The motion is to note the committee's report. Are there any objections? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

Brynle Williams: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. *yn nodi'r angen dybryd i wella cystadleurwydd economaidd gwledig fel ffordd o adfywio cymunedau gwledig;*

2. *yn credu ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried anghenion penodol Cymru wledig. (NDM4515)*

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (William Graham) i'r Gadair am 3.57 p.m.
The Temporary Deputy Presiding Officer (William Graham) took the Chair at 3.57 p.m.*

The Welsh Conservatives have brought this debate to the Assembly because we are optimistic about rural Wales—optimistic that thriving businesses have the potential to transform the fortunes of the countryside, as well as the lives of the people living in our rural communities. We are optimistic that if the Government, centrally, and at the local level, provide public services that are appropriate to these communities, enormous strides could be made in improving their quality of life.

Given that this covers such a broad area, I will only be able to pick out a few pertinent examples, but undoubtedly other speakers will be able to concentrate on specific areas. While it has this great potential, rural Wales has, unfortunately, lagged behind other areas. Poverty has been hidden and ignored for years because the Assembly has focused so closely on urban areas. Jobs, let alone good ones, are scarce and because there are so few opportunities, young people end up being forced out of the communities in which they grew up, and where they want to raise a family themselves.

What rural Wales needs, urgently, is the opportunity to let businesses thrive, and to encourage new entrepreneurs to start out. Therefore, we welcome the Deputy First Minister's announcement yesterday of the new economic renewal programme. That programme outlines a great deal that we would agree with, and could benefit businesses in rural areas. That programme is certainly a step in the right direction, and a step away from the policies that have failed Wales so badly over the past decade.

Broadband access is particularly important. The internet is becoming the major way for tourist businesses and niche food producers to take bookings and orders and without access to broadband, they are simply not on a level playing field with their competitors. So we are happy to support the amendment tabled by the Liberal Democrats on

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno'r ddadl hon i'r Cynulliad oherwydd ein bod yn obeithiol am ardaloedd gwledig Cymru—yn obeithiol bod gan fusnesau llewyrchus y potensial i drawsnewid tynged cefn gwlad, yn ogystal â bywydau'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau gwledig. Yr ydym yn obeithiol y gellid cymryd camau breision i wella ansawdd bywyd y cymunedau hyn, pe bai'r Llywodraeth, yn ganolog ac yn lleol, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n briodol iddynt.

O gofio bod rhychwant y maes hwn mor eang, dim ond at ychydig enghreifftiau perthnasol y byddaf yn gallu tynnu eich sylw, ond mae'n siŵr y bydd modd i siaradwyr eraill ganolbwyntio ar feysydd penodol. Er bod gan Gymru wledig y potensial gwych hwn, mae wedi bod ar ei hôl hi'n anffodus, o'i chymharu ag ardaloedd eraill. Mae tlodi wedi'i guddio a'i anwybyddu ers blynyddoedd oherwydd bod y Cynulliad wedi canolbwyntio mor fanwl ar ardaloedd trefol. Mae swyddi, ni waeth a ydynt yn dda ai peidio, yn brin, ac oherwydd bod cyn lleied o gyfleoedd, caiff pobl ifanc eu gorfodi i adael y cymunedau y cawsant eu magu ynddynt, a lle maent am fagu teulu eu hunain.

Yr hyn y mae ar Gymru wledig ei angen ar frys yw'r cyfle i adael i fusnesau ffynnu, ac annog entrepreneuriaid newydd i ddechrau busnesau. Felly, yr ydym yn croesawu cyhoeddiad y Dirprwy Brif Weinidog ddoe am y rhaglen newydd, sef rhaglen adnewyddu'r economi. Mae'r rhaglen honno'n nodi llawer iawn o bethau y byddem yn cytuno â hwy, a gallai fod o fudd i fusnesau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhaglen dan sylw'n bendant yn gam i'r cyfeiriad cywir, ac yn gam oddi wrth y polisiau sydd wedi gwneud cymaint o anghymwynas â Chymru dros y degawd diwethaf.

Mae mynediad i fand eang yn arbennig o bwysig. Y rhyngwyd yw'r brif ffordd erbyn hyn i fusnesau twristiaeth a chynhyrchwyr bwyd arbenigol gymryd archebion, a heb fynediad i fand eang, nid ydynt, yn syml iawn, yn cael cyfle teg i gystadlu â'u cystadleuwyr. Felly, yr ydym yn barod i gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd gan y

broadband access. I also welcome the fact that the new UK Government has scrapped the tax on landlines, and is fully committed to helping to roll out the best broadband access.

It goes without saying that the poor quality of the rural transport network makes it more difficult to do business there.

Alun Davies: Will you take an intervention?

Brynle Williams: No, I am not taking any interventions.

4.00 p.m.

I appreciate that it is not possible to bring that network up to the standard provided in urban areas, but if the Assembly Government is serious about boosting the rural economy, I believe that hard questions need to be asked about whether it has its priorities right, and whether it would be better to focus its limited resources on those improvements that bring the biggest benefits to business. A case that I have mentioned many times in the Chamber is that of St Asaph. I appreciate that the county council has to work with the Assembly Government to make sure that the bypass is built, but doing so would open up the Vale of Clwyd, get rid of congested bottlenecks through the town, and would be of benefit to the businesses in the Vale of Clwyd by improving access to it.

The Assembly Government and local government cannot take private enterprise for granted if they want to help rural Wales to prosper, and if they want communities to have a long-term future. I know, from dealing with cases in my own region—and other Members will have their own examples—that some people who are running rural businesses feel that the authorities are more interested in ticking boxes and squeezing rates from them than helping them to grow their businesses. I have spoken with a number of proprietors of small bed and breakfasts and

Democratiaid Rhyddfrydol ynghylch mynediad i fand eang. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth newydd y DU wedi dileu'r dreth ar linellau ffôn cyffredin, a'i bod wedi ymrwymo'n llawn i helpu i sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau band eang gorau.

Afraid dweud bod ansawdd gwael y rhwydwaith trafniadaeth mewn ardaloedd gwledig yn ei gwneud yn anos cyflawni busnes yno.

Alun Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Brynle Williams: Na wna, nid wyf am dderbyn ymyriadau.

Sylweddolaf nad yw'n bosibl codi safon y rhwydwaith hwnnw i'r safon a gynigir mewn ardaloedd trefol, ond os yw Llywodraeth y Cynulliad o ddifrif ynghylch rhoi hwb i'r economi wledig, credaf fod angen gofyn cwestiynau anodd ynghylch a yw ei blaenoriaethau'n iawn, ac a fyddai'n well pe bai ei hadnoddau cyfyngedig yn cael eu cyfeirio at y gwelliannau hynny sy'n sicrhau'r manteision mwyaf i fusnes. Un achos yr wyf wedi sôn amdano droeon yn y Siambr yw achos Llanelwy. Sylweddolaf fod yn rhaid i'r cyngor sir weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i wneud yn siŵr bod y ffordd osgoi'n cael ei hadeiladu, ond byddai gwneud hynny'n agor Dyffryn Clwyd, yn cael gwared ar dagfeydd drwy'r dref, ac yn fuddiol i fusnesau Dyffryn Clwyd wrth i'r ffordd wella mynediad i'r dyffryn.

Ni all Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol gymryd mentrau preifat yn ganiataol, os ydynt am helpu Cymru wledig i ffynnu, ac os ydynt am i gymunedau gael dyfodol hirdymor. O ymdrin ag achosion yn fy rhanbarth fy hun—a bydd gan Aelodau eraill eu henghreiffiau eu hunain—gwn fod rhai pobl sy'n rhedeg busnesau gwledig yn teimlo bod gan yr awdurdodau fwy o ddiddordeb mewn ticio blychau a gwasgu arian allan ohonynt, ar ffurf trethi, na'u helpu i ehangu eu busnesau. Yr wyf wedi siarad â llawer o berchnogion llety gwely a brecwast a gwestai

rural hotels who have come up against a brick wall of bureaucracy in trying to do something straightforward and simple such as having brown tourism road signs put up for their businesses, to help motorists to find their premises. That might seem trivial to many people but, for these businesses, doing so can have a huge impact on trade and can make the difference between hiring and laying off staff.

Another case that we were talking about here yesterday, which shows the importance of the food industry and local producers, is that of a very successful company in my region, Llaeth y Llan. It is a great success story and an example of a small farm that has become a major milk processor. However, the problem is that two local authorities are arguing over a bridge. Improving access to it would cost about £2,000, and one local authority is taking tens of thousands of pounds in rates from that small company. It has put its expansion on hold simply because of—

Joyce Watson: Because of Tory cuts.

Brynle Williams: Oh—never mind. That was not even worth a reply.

The Government needs to change the culture all the way down to local level, so that officials go out of their way to make business more, and not less, competitive. I hope that the economic renewal plan will be a step in the right direction. If businesses can thrive, rural communities have a future and all the benefits that go with it, young people have a chance to live in their towns and villages, and small schools will be preserved and not closed. Government also needs to play a part in ensuring that the services that it provides are appropriate. For example, in relation to public transport, there is no use in rolling out a service that is designed for big towns in small rural communities where there are narrow roads. In my village, for example, there used to be a popular 15-seater bus, which was used regularly and provided an essential service. Someone then thought that we should have a 52-seater that runs every hour, but no-one uses it, because it simply

gwledig, sydd wedi dod ar draws peth wmbredd o fiwrocratiaeth wrth geisio gwneud rhywbeth mor syml â gosod arwyddion twristiaeth brown ar y ffyrdd ar gyfer eu busnesau, er mwyn helpu modurwyr i ddod o hyd i'w heiddo. Efallai fod hynny'n ymddangos yn ddibwys i lawer o bobl, ond i'r busnesau hyn, gall gosod arwyddion o'r fath gael effaith enfawr ar eu masnach, a gall benderfynu a gaiff staff eu cyflogi ynteu eu diswyddo.

Achos arall y buom yn siarad amdano yma ddoe, sy'n dangos pwysigrwydd y diwydiant bwyd a chynhyrchwyr lleol, yw achos cwmni llwyddiannus iawn yn fy rhanbarth i, sef Llaeth y Llan. Mae'n stori wych am lwyddiant, ac yn enghraifft o fferm fach sydd wedi dod yn brosesydd llaeth o bwys. Fodd bynnag, y broblem yw bod dau awdurdod lleol yn dadlau ynghylch pont. Byddai gwella mynediad iddi'n costio oddeutu £2,000, ac mae un awdurdod lleol yn cymryd degau o filoedd o bunnoedd oddi wrth y cwmni bach dan sylw, ar ffurf trethi. Mae wedi gorfod gohirio ehangu, yn syml iawn oherwydd—

Joyce Watson: Oherwydd toriadau'r Toriaid.

Brynle Williams: O—peidiwch â phoeni. Nid oedd y sylw hwnnw'n werth ymateb iddo.

Mae angen i'r Llywodraeth newid diwylliant yr holl ffordd i lawr i lefel leol, er mwyn i swyddogion fynd i drafferth i wneud busnes yn fwy cystadleuol ac nid yn llai cystadleuol. Gobeithiaf y bydd cynllun adnewyddu'r economi yn gam i'r cyfeiriad cywir. Os gall busnesau ffynnu, bydd gan gymunedau gwledig ddyfodol a'r holl fanteision sy'n cyd-fynd â hynny, bydd gan bobl ifanc gyfle i fyw yn eu trefi a'u pentrefi, a bydd ysgolion bach yn cael eu cadw yn hytrach na'u cau. Yn ogystal, mae angen i'r Llywodraeth chwarae rhan o safbwynt sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddi'n briodol. Er enghraifft, o ran trafndiaeth gyhoeddus, nid oes diben i wasanaeth sydd wedi'i gynllunio ar gyfer trefi mawr gael ei gyflwyno mewn cymunedau gwledig bach lle ceir ffyrdd cul. Yn fy mhentref i, er enghraifft, arferem weld bws poblogaidd a allai gario 15 o bobl, a gâi ei ddefnyddio'n rheolaidd ac a oedd yn darparu gwasanaeth

cannot get to people. The planning service also needs to be appropriate—

Irene James *rose*—

Brynle Williams: No, I will not take any interventions from you.

The planning service also needs to be appropriate to the needs of local communities. Its planners focus development on a few limited areas, leaving no scope for small communities to grow naturally over time, resulting in a situation in which the average house price can be more than 10 times the local average income. Landowners have rightly been encouraged to diversify their business, but if key workers cannot afford houses or get recognition in the planning system, their business will be permanently held back. Rural communities have needs and requirements that are very different from those of urban areas. I appreciate that the Assembly Government has recognised that by commissioning research into deep rural areas.

Irene James: Will you take an intervention?

Brynle Williams: No, I do not take any interventions, thank you very much. In introducing—

Irene James and Joyce Watson *rose*—

Brynle Williams: It is getting to somebody.

David Melding: The fourth formers are here. [*Laughter.*]

Brynle Williams: The Government has commissioned research into deep rural areas and introduced rural-proofing. It is one thing to talk about delivering appropriate public services to these communities, but, on the ground, when small schools are being shut, post offices continue to close, and older people feeling isolated by the lack of public

hanfodol. Yna, meddyliodd rhywun y dylem gael bws bob awr, a allai gario 52 o bobl, ond nid oes neb yn ei ddefnyddio am na all gyrraedd pobl. At hynny, mae angen i'r gwasanaeth cynllunio fod yn briodol—

Irene James *a gododd*—

Brynle Williams: Na, nid wyf am dderbyn ymyriadau gennyh.

At hynny, mae angen i'r gwasanaeth cynllunio fod yn briodol i anghenion cymunedau lleol. Mae'r cynllunwyr yno'n canolbwyntio ar ddatblygu mewn ychydig o ardaloedd cyfyngedig, gan adael dim lle i gymunedau bach dyfu'n naturiol gydag amser, ac mae hynny'n arwain at sefyllfa lle gall cyfartaledd pris tŷ fod dros 10 gwaith yn uwch na'r cyfartaledd incwm lleol. Mae tîrfeddianwyr wedi cael eu hannog yn gywir ddigon i arallgyfeirio eu busnes, ond os na all gweithwyr allweddol fforddio prynu tai neu os na allant gael eu cydnabod yn y system gynllunio, bydd eu busnes yn cael ei lesteirio'n barhaol. Mae gan gymunedau gwledig anghenion a gofynion sy'n wahanol iawn i'r rheini sydd gan ardaloedd trefol. Sylweddolaf fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod hynny drwy gomisiynu ymchwil i ardaloedd gwledig anghysbell.

Irene James: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Brynle Williams: Na wna, nid wyf am dderbyn ymyriadau, diolch yn fawr iawn. Wrth gyflwyno—

Irene James a Joyce Watson *a gododd*—

Brynle Williams: Mae hynny'n mynd dan groen rhywrai.

David Melding: Mae disgyblion y pedwerydd dosbarth yma. [*Chwerthin.*]

Brynle Williams: Mae'r Llywodraeth wedi comisiynu ymchwil i ardaloedd gwledig anghysbell ac wedi cyflwyno system i brawfesur polisïau o safbwynt anghenion ardaloedd gwledig. Un peth yw siarad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus priodol i'r cymunedau hyn, ond ar lawr gwlad, pan fo ysgolion bach yn cael eu cau, pan fo

transport, these words ring hollow, and many of the people who live in rural Wales are left feeling like second-class citizens. What is needed are actions and results, with a commitment from government at all levels to provide public services that are appropriate, and an opportunity for business to thrive, so that it can revitalise rural communities and give them a secure long-term future.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales:

1. *welcomes the Welsh Assembly Government's work to improve rural economic competitiveness and regenerate rural communities, particularly through the rural development plan and the economic renewal programme;*

2. *welcomes the Welsh Assembly Government's rural health plan and the introduction of rural-proofing, designed to ensure that public services take into account the particular needs of rural Wales.*

Kirsty Williams: I move amendment 2 in the name of Peter Black. Add as a new point at the end of the motion:

believes that good quality broadband infrastructure is essential to the development of the rural economy and welcomes the UK Government's intention to make regulatory changes to reduce the cost of superfast broadband roll-out.

Despite the fact that the Conservatives have been allocated 120 minutes for this debate, there are so many issues and aspects related to developing public services in the economy of rural Wales that I do not think that we could cover them all in that time. I will therefore concentrate on four key issues, the first of which is the economy.

swyddfeydd post yn parhau i gau, a phan fo pobl hŷn yn teimlo'n unig oherwydd diffyg trafniadaeth gyhoeddus, geiriau gwag yw'r rheini i bob pwrpas, ac maent yn golygu bod llawer o'r bobl sy'n byw yn ardaloedd gwledig Cymru yn teimlo fel dinasyddion eilradd. Yr hyn y mae arnom ei angen yw camau gweithredu a chanlyniadau, gydag ymrwymiad gan lywodraeth ar bob lefel i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n briodol, a chyfle i fyd busnes ffynnu, er mwyn iddo allu adfywio cymunedau gwledig a sicrhau dyfodol hirdymor iddynt.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. *yn croesawu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella cystadleurwydd economaidd gwledig ac adfywio cymunedau gwledig, yn arbennig drwy'r cynllun datblygu gwledig a rhaglen adnewyddu'r economi;*

2. *yn croesawu cynllun iechyd gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyflwyno prawfesur gwledig a luniwyd gyda'r bwriad o sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth i anghenion arbennig Cymru wledig.*

Kirsty Williams: Cynigiau welliant 2 yn enw Peter Black. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu bod seilwaith band eang o ansawdd da yn hanfodol i ddatblygiad yr economi wledig ac yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i wneud newidiadau rheoleiddio er mwyn lleihau costau cyflwyno band eang cyflym iawn.

Er gwaethaf y ffaith i'r Ceidwadwyr gael 120 munud ar gyfer y ddadl hon, mae cynifer o faterion ac agweddau'n ymwneud â datblygu gwasanaethau cyhoeddus yn economi ardaloedd gwledig Cymru fel na chredaf y gallwn ymdrin â hwy i gyd yn yr amser hwnnw. Felly, hoffwn ganolbwyntio ar bedwar mater allweddol, a'r cyntaf o'r rhain yw'r economi.

There is much to celebrate about life in rural Wales, as there are many positive aspects to living there. There is no single way of describing an average rural community. It is simply not true to say that all rural communities are doing badly and are poor, but at the same time, it is not correct to say that they are all doing well. You will see a very mixed picture if you look at the statistics. Overall, however, we can see that many of our rural communities have gross value added figures below the Welsh average, and, while many rural communities have relatively high levels of employment compared with the Welsh average, many of them have relatively low individual wage levels. According to the Government's own study of deep rural areas, almost a quarter of those who responded had incomes of less than £10,000 a year. It can be very mixed picture, because in those same communities, some 8 per cent were reporting incomes of above £52,000 a year. You therefore find in rural areas that you can have very wealthy individuals and families living alongside those who are far less well off.

It is a mixed picture, but there is much to celebrate, as we generally have lower levels of crime, and education outcomes in many rural constituencies are better than the Welsh average. Therefore, there is much to celebrate and much good news. However, as I said, some rural communities are lagging behind, and I welcome the commitment given yesterday by the Welsh Assembly Government in the new economic renewal strategy to look at a regional approach to economic development and to recognise the specific needs of rural communities in driving forward the economy in those areas.

Two important sectors in the rural economy are agriculture and tourism. In the past 18 to 24 months, commodity prices in agriculture have been going up, but they can fluctuate wildly, and there is still some unease and concern about the future, especially about the introduction of Glastir and what that will mean for individual farming businesses, and that is in addition to the wider, long-range,

Mae llawer i'w ddathlu am fywyd yn ardaloedd gwledig Cymru, oherwydd mae llawer o agweddau cadarnhaol yn perthyn i fywyd yno. Nid oes modd disgrifio cymuned wledig gyffredin mewn un ffordd yn unig. Nid yw'n wir dweud bod pob cymuned wledig yn dioddef ac yn dlawd, ond ar yr un pryd, nid yw'n wir dweud eu bod yn ffynnu. Fe welwch ddarlun cymysg iawn wrth edrych ar yr ystadegau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, gallwn weld bod gan lawer o'n cymunedau gwledig ffigurau gwerth ychwanegol crynswth sydd islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac er bod gan lawer o gymunedau gwledig lefelau cyflogaeth sy'n gymharol uchel, o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, mae lefelau cyflogau unigol llawer ohonynt yn eithaf isel. Yn ôl astudiaeth y Llywodraeth ei hun o ardaloedd gwledig anghysbell, yr oedd gan bron i chwarter y rheini a ymatebodd incwm a oedd yn is na £10,000 y flwyddyn. Gall fod yn ddarlun cymysg iawn, oherwydd yn yr un cymunedau'n union, yr oedd gan oddeutu 8 y cant incwm a oedd yn uwch na £52,000 y flwyddyn. Felly, mewn ardaloedd gwledig, fe welwch fod modd ichi gael unigolion a theuluoedd cyfoethog iawn yn byw ochr yn ochr â'r rheini sydd dipyn yn dlotach.

Mae'n ddarlun cymysg, ond mae llawer i'w ddathlu hefyd, oherwydd mae gennym gyfraddau troseddu is fel rheol, ac mae canlyniadau addysg mewn llawer o etholaethau gwledig yn well na chyfartaledd Cymru. Felly, mae llawer i'w ddathlu a cheir llawer o newyddion da. Fodd bynnag, fel y soniais, mae rhai cymunedau gwledig ar ei hôl hi, a chroesawaf ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad ddoe, yn y strategaeth newydd ar gyfer adnewyddu'r economi, i ystyried agwedd ranbarthol at ddatblygu economaidd, a chydabod anghenion penodol cymunedau gwledig wrth hybu'r economi yn yr ardaloedd hynny.

Dau sector pwysig yn yr economi wledig yw amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae prisiau nwyddau ym maes amaethyddiaeth wedi bod yn codi yn ystod y 18 i'r 24 mis diwethaf, ond gallant amrywio'n ddifrifol, a cheir rhywfaint o anniddigrwydd a phryder o hyd ynghylch y dyfodol, yn enwedig ynghylch cyflwyno Glastir, a'r hyn y bydd yn ei olygu ar gyfer busnesau ffermio unigol. Mae hynny

unforeseen outcomes from CAP reform.

On tourism, there is still much to be done to make the season last longer in Wales and to develop the infrastructure of the Welsh tourism industry. That brings us to broadband, and I welcome very much indeed the announcements made recently by the Welsh Assembly Government on trying to address the long-standing issue of broadband not spots in rural communities. I also welcome the acknowledgement that we can no longer rely simply on enabling exchanges, but that we have to look at supporting different technologies as a way of overcoming the problems. I appreciate that it is not the department of the Minister for Rural Affairs that has made these announcements, but if she could give some further details on the scheme that is to be formally launched later this summer, its scope and the way in which individuals may apply for it, that would be welcomed. The news has been greatly welcomed in my constituency where communities have long been waiting for a move in this direction.

4.10 p.m.

On the health service, 50 per cent of respondents to the deep rural areas report had to travel more than 30 miles to the nearest hospital, and that was not to a specialist service. We all expect to travel some distance to obtain a specialist service, but these services are not specialist; they are services such as the accident and emergency department, the x-ray department, maternity services, and the place where the most routine surgery, such as on hips and knees, can be carried out. For most of us, fortunately, it is inconvenient enough to have to visit on a one-off basis or even over a short period during an illness. However, when you are a patient who needs regular contact with the health service, such journeys can be hugely difficult. I point to dialysis provision and chemotherapy as key issues in rural communities.

ar ben canlyniadau diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sy'n ganlyniadau ehangach, hirdymor ac annisgwyl.

O ran twristiaeth, mae cryn dipyn i'w wneud eto i ymestyn y tymor yng Nghymru, a datblygu seilwaith y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Daw hynny â ni at fand eang, a chroesawaf yn fawr iawn y cyhoeddiadau a wnaed yn ddiweddar gan Lywodraeth y Cynulliad ynghylch ceisio mynd i'r afael â'r cymunedau gwledig hynny nad oes ganddynt fand eang, sy'n broblem ers amser maith. Yn ogystal, croesawaf y gydnabyddiaeth na allwn ddibynnu mwyach ar alluogi cyfnewidfeydd yn unig, ond bod yn rhaid inni ystyried cefnogi gwahanol dechnolegau fel modd i oresgyn y problemau. Sylweddolaf nad adran y Gweinidog dros Faterion Gwledig sydd wedi gwneud y cyhoeddiadau hynny, ond byddwn yn falch pe gallai'r Gweinidog roi rhai manylion pellach am y cynllun, sydd i'w lansio'n ffurfiol yn ddiweddarach yr haf hwn, ei rychwant, a'r modd y gall unigolion wneud cais amdano. Mae'r newyddion wedi cael croeso cynnes iawn yn fy etholaeth i, lle mae cymunedau wedi bod yn disgwyl ers amser am gam i'r cyfeiriad hwn.

O ran y gwasanaeth iechyd, yr oedd yn rhaid i 50 y cant o ymatebwyr i adroddiad yr astudiaeth o ardaloedd gwledig anghysbell deithio dros 30 milltir i'r ysbyty agosaf, lle nad oedd modd cael gwasanaeth arbenigol. Yr ydym i gyd yn disgwyl teithio'n eithaf pell i gael gwasanaeth arbenigol, ond nid gwasanaethau arbenigol mo'r rhain; maent yn wasanaethau megis yr adran damweiniau ac achosion brys, yr adran pelydr X, gwasanaethau mamolaeth, a'r man lle gellir cyflawni'r llawdriniaethau mwyaf cyffredin, megis llawdriniaeth ar y cluniau a'r pengliniau. Yn ffodus, i'r mwyafrif ohonom, mae gwasanaeth o'r fath yn ddigon anghyfleus o orfod ymweld â'r ysbyty unwaith yn unig, neu dros gyfnod byr yn ystod salwch. Fodd bynnag, pan fydd arnoch angen cyswllt rheolaidd â'r gwasanaeth iechyd, gall siwrneiau o'r fath fod yn eithriadol o anodd. Hoffwn nodi bod y ddarpariaeth o ran dialysis a chemotherapi yn faterion allweddol mewn cymunedau

gwledig.

Alun Davies: Will you take an intervention?

Alun Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Kirsty Williams: Of course.

Kirsty Williams: Wrth gwrs.

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. You are out of time, I am afraid.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Yr wyf yn ofni bod eich amser ar ben.

Kirsty Williams: Sorry, Alun. I welcome the fact that we are making—

Kirsty Williams: Mae'n ddrwg gennyf, Alun. Croesawaf y ffaith ein bod yn gwneud—

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. You are out of time. That is the end.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Mae eich amser ar ben. Dyna hi.

Kirsty Williams: I welcome the fact that the Government is moving to address these issues.

Kirsty Williams: Croesawaf y ffaith bod y Llywodraeth yn gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to contribute to the two points of the debate, one noting the importance of economic activity to the countryside and of stimulating the countryside to be a more prosperous and pleasant place in which to live, and the second about the delivery of public services.

Andrew R.T. Davies: Croesawaf y cyfle i gyfrannu at ddau bwynt y ddadl. Mae yn nodi pwysigrwydd gweithgarwch economaidd i gefn gwlad, ac ysgogi cefn gwlad er mwyn iddo fod yn lle mwy llewyrchus a dymunol i fyw ynddo, ac mae'r llall yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

To deal with the second part of the motion, which was addressed during the earlier debate on wheelchair services and also in previous debates on stroke services following an inquiry by the Health, Wellbeing and Local Government Committee, we find time and again that many people living in rural areas are missing out on many of the services provided by the Assembly Government, via a national service framework or other guidance, because of the challenging environment in which they live. Although I appreciate that the Minister for Rural Affairs, who will be responding to the debate, does not have responsibility for many of these services, the Government as a whole should take seriously the concerns that have been raised. As we heard earlier, the large distances that people have to travel to get basic medical interventions can be a real obstacle to their ability to recuperate from conditions. You would recover from them much more quickly if you lived in Cardiff, for example.

I ymdrin ag ail ran y cynnig, y rhoddwyd sylw iddi yn ystod y ddadl a gafwyd yn gynharach ar wasanaethau cadeiriau olwynion, ac mewn dadleuon blaenorol hefyd ar wasanaethau strôc, yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, fe welwn dro ar ôl tro fod llawer o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn methu â manteisio ar lawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad, drwy fframwaith gwasanaeth cenedlaethol neu ganllawiau eraill, oherwydd yr amgylchedd heriol y maent yn byw ynddo. Er fy mod yn sylweddoli nad yw'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, a fydd yn ymateb i'r ddadl, yn gyfrifol am lawer o'r gwasanaethau hyn, dylai'r Llywodraeth yn gyffredinol ystyried o ddifrif y pryderon sydd wedi'u mynegi. Fel y clywsom yn gynharach, gall y pellteroedd mawr y mae'n rhaid i bobl eu teithio i gael ymyriadau meddygol sylfaenol fod yn rhwystr gwirioneddol i'w gallu i wella o anhwylderau. Byddech yn gwella'n gyflymach o lawer pe baech yn byw yng Nghaerdydd, er enghraifft.

I draw the Assembly's attention to the Tenovus mobile chemotherapy service. It is a great resource, but it is provided by the third sector. The voluntary sector has come in, working with the state sector, to provide a resource for rural areas. The Government really needs to work in tandem in this area. The committee report on wheelchair services showed that many people in the third sector felt that they were not seen as serious partners or as equals. I hope that the Minister and the Government will address those concerns. In a time of shrinking budgets, the third sector has an important role to play in delivering public services. In many rural areas, the sense of community means that people will rally to the cause to offer a real solution. That is the case with hospital transport and with conveying people to appointments that could be a considerable distance away from their homes, if they are offered the support that only Government and local health boards can offer.

The main industry in the rural economy is agriculture, and it now has many opportunities, to develop the market for added-value produce and to develop the tourism sector via bed-and-breakfast accommodation and holiday cottage lets. Above all, as I have raised with the Minister during questions, there is an interesting and innovative opportunity to tap into the feed-in tariffs for energy regeneration. I have asked the Minister whether she will do some work via Farming Connect on the agriculture industry's ability to understand what contracts are available and what needs to be done to access those contracts. That could offer a very valuable source of income to complement that of the main farm business, and it could be a sustainable model of employment for sons, daughters and others in the community to stay in the countryside. I hope that the Minister in her response can update us on the action that she has taken, because I asked my original question six or seven weeks ago. I hope that she is in possession of some information so that she can highlight what action she is taking to inform farmers and people who could benefit

Hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad at wasanaeth cemotherapi teithiol Tenovus. Mae'n adnodd gwych, ond caiff ei ddarparu gan y trydydd sector. Mae'r sector gwirfoddol wedi camu i'r adwy, gan weithio gyda'r sector gwladol, i ddarparu adnodd ar gyfer ardaloedd gwledig. Mae gwir angen i'r Llywodraeth gydweithio yn y maes hwn. Dangosodd yr adroddiad gan bwyllgor ar wasanaethau cadeiriau olwynion fod llawer o bobl yn y trydydd sector yn teimlo nad oeddent yn cael eu hystyried yn bartneriaid go iawn neu'n bartneriaid cyfartal. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog a'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny. Mewn cyfnod lle mae cyllidebau'n crebachu, mae gan y trydydd sector rôl bwysig i'w chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'r ymdeimlad o gymuned yn golygu y bydd pobl yn dod at ei gilydd i gynnig ateb go iawn. Mae hynny'n wir yn achos cludiant ysbyty, ac o safbwynt cludo pobl i apwyntiadau a allai fod yn bell iawn o'u cartrefi, os cânt gynnig y cymorth na all neb heblaw'r Llywodraeth a byrddau iechyd lleol ei gynnig.

Y prif ddiwydiant yn yr economi wledig yw amaethyddiaeth, ac mae gan y diwydiant lawer o gyfleoedd yn awr i ddatblygu'r farchnad ar gyfer cynnyrch yr ychwanegir gwerth ato, a datblygu'r sector twristiaeth drwy lety gwely a brecwast a bythynnod gwyliau. Yn anad dim, fel y soniais wrth y Gweinidog yn ystod y sesiwn gwestiynau, ceir cyfle diddorol ac arloesol i fanteisio ar y tariffau cyflenwi trydan ar gyfer cynhyrchu ynni. Yr wyf wedi gofyn i'r Gweinidog a fyddai'n fodlon gwneud rhywfaint o waith, trwy Cyswllt Ffermio, ynghylch gallu'r diwydiant amaeth i ddeall pa gontractau sydd ar gael a beth y mae angen ei wneud i gael mynediad i'r contractau dan sylw. Gallai hynny gynnig ffynhonnell werthfawr iawn o incwm i ategu incwm prif fusnes y fferm, a gallai fod yn fodel cynaliadwy o gyflogaeth a fyddai'n galluogi meibion, merched ac eraill yn y gymuned i aros yng nghefn gwlad. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog, yn ei hymateb, yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y camau gweithredu y mae wedi'u cymryd, oherwydd gofynnais fy nghwestiwn gwreiddiol chwe neu saith wythnos yn ôl. Gobeithiaf fod ganddi

from the feed-in tariffs. It is also crucial that local government understands the role that it can play in understanding the needs of rural communities. There is often a lack of understanding about the delivery of business models in the planning system, because it does not take rurality into account and is protective—for some reasons that are understandable—which can be restrictive if we are seeking an economic model that offers opportunities in our countryside. We must never forget that, while many locations in the countryside are beautiful, there is a great deal of poverty and deprivation in many of our rural communities, because of economic inactivity where many historic industries used to exist.

I welcome the Deputy First Minister's announcement on Monday about the Welsh Assembly Government's injection of capital into broadband and the use of broadband, because many new businesses and existing businesses that are looking to diversify require access to broadband, first, to market themselves and, secondly, to take important bookings that will maintain and sustain those businesses. If we are to have that opportunity in the countryside, it must be built on employment, because that leads to people staying in the countryside, creating demand for new services and sustaining existing services. Sadly, what we have seen to date is a gradual depopulation of many of our rural communities, because those employment opportunities are not there. I hope that the Minister will touch on the development of the rural development grant funding stream to enhance employment opportunities in our rural communities.

Joyce Watson: I am pleased to have the opportunity to speak in this debate and highlight the difference in policy between the Labour Party and the Tories when it comes to standing up for people in rural communities. I find it incredible that a party that is to impose the most painful and regressive fiscal plans

rywfaint o wybodaeth er mwyn iddi allu dangos pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i roi gwybodaeth i ffermwyr a phobl eraill a allai elwa o'r tariffau cyflenwi trydan. Mae hefyd yn hollbwysig bod llywodraeth leol yn deall y rôl y gall ei chwarae o safbwynt deall anghenion cymunedau gwledig. Yn aml, ceir diffyg dealltwriaeth ynghylch darparu modelau busnes yn y system gynllunio, oherwydd nid yw'n ystyried natur wledig ardaloedd ac mae'n amddiffynol—am rai rhesymau sy'n ddealladwy—a gall hynny fod yn gaethiwus os ydym yn ceisio sicrhau model economaidd sy'n cynnig cyfleoedd yn ein hardaloedd gwledig. Er bod llawer o leoliadau cefn gwlad yn brydferth, rhaid inni beidio byth ag anghofio bod cryn dipyn o dlodi ac amddifadedd mewn llawer o gymunedau gwledig, oherwydd anweithgarwch economaidd lle arferai diwydiannau hanesyddol fod.

Yr wyf yn croesawu cyhoeddiad y Dirprwy Brif Weinidog ddydd Llun ynghylch gwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad ar fand eang a'r modd y defnyddir band eang, oherwydd mae ar lawer o fusnesau newydd, a busnesau sy'n bodoli eisoes ac sy'n bwriadu arallgyfeirio, angen mynediad i fand eang, yn gyntaf er mwyn eu marchnata eu hunain, ac yn ail er mwyn cymryd archebion pwysig a fydd yn diogelu ac yn cynnal eu busnesau. Os ydym am gael y cyfle hwnnw yng nghefn gwlad, rhaid iddo gael ei adeiladu ar sail gwaith, oherwydd golyga hynny y bydd pobl yn aros yng nghefn gwlad, gan greu galw am wasanaethau newydd a chynnal gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Yn anffodus, yr hyn yr ydym wedi'i weld hyd yma yw diboblogi graddol mewn llawer o gymunedau gwledig, am nad yw'r cyfleoedd hynny o ran gwaith yn bodoli. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn cyfeirio at ddatblygu ffrwd ariannu grantiau datblygu gwledig i wella cyfleoedd o ran gwaith yn ein cymunedau gwledig.

Joyce Watson: Yr wyf yn falch o gael y cyfle i siarad yn y ddadl hon, a'r cyfle i dynnu sylw at y gwahaniaeth o ran polisi rhwng y Blaid Lafur a'r Toriaid pan ddaw'n fater o amddiffyn pobl mewn cymunedau gwledig. Mae'n anodd gennyf gredu bod plaid a fydd yn cyflwyno'r cynlluniau

ever seen in the United Kingdom has the audacity to bring forward a debate on the regeneration of rural areas. I therefore want to compare the policies of the Labour Party and of the Tory party—that is, to compare the progressive with the regressive—in three areas that are crucial to rural communities: transport, access to broadband services and apprenticeships.

There is no doubt that there is a need to invest in rural communities if they are to avoid being left behind. That is particularly true at a time when departments, such as the Department for Transport, are being instructed by the combination of a Conservative Chancellor of the Exchequer and a Lib Dem Chief Secretary to the Treasury to reduce their budgets by a mammoth 40 per cent. We are all aware of the importance of public transport in rural areas, and such cuts will impact considerably on rural families and their businesses. Labour, on the other hand, has continually invested in transport, particularly in rural areas. A prime example is the Bwcabus service, which runs and connects towns in Carmarthenshire in my region. It is a demand-responsive service that makes people more mobile, as well as cutting their carbon footprint by decreasing dependency on the car. It is clear that, in terms of providing people in rural areas with accessible transport, Labour has a record of progressive policies, while the Tories have only regressive ideas.

There is perhaps no better example of the cut-happy coalition approach to rural areas than the decision to scrap the levy on landlines, which would have guaranteed super-fast broadband in rural areas. That is a prime example of the Government disguising cuts to essential services as efficiency savings. The decision to scrap the levy will have a profoundly adverse effect on rural communities, specifically on rural businesses. The Tory-Lib Dem Westminster Government is placing a weight around the ankles of businesses that are attempting to stay afloat

ariannol mwyaf poenus a welwyd erioed yn y Deyrnas Unedig, sy'n mynd â ni tuag yn ôl, yn ddigon digywilydd i gyflwyno dadl ar adfywio ardaloedd gwledig. Felly, yr wyf am gymharu polisiau'r Blaid Lafur â pholisiau'r blaid Doriaidd—hynny yw, cymharu polisiau sy'n ein gyrru yn ein blaen â pholisiau sy'n mynd â ni tuag yn ôl—mewn tri maes sy'n hollbwysig i gymunedau gwledig: trafndiaeth, mynediad i wasanaethau band eang, a phrentisiaethau.

Nid oes amheuaeth nad oes angen buddsoddi mewn cymunedau gwledig os ydynt am osgoi cael eu gadael ar ôl. Mae hynny'n arbennig o wir ar adeg pan fo adrannau, megis yr Adran Drafndiaeth, yn cael cyfarwyddiadau gan ddau unigolyn, sef Canghellor y Trysorlys, sy'n Geidwadwr, a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, sy'n Ddemocrat Rhyddfrydol, i leihau eu cyllidebau 40 y cant, sy'n ostyngiad enfawr. Yr ydym i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd trafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, a bydd toriadau o'r fath yn effeithio'n sylweddol ar deuluoedd gwledig a'u busnesau. Ar y llaw arall, mae'r Blaid Lafur wedi buddsoddi'n barhaus mewn trafndiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Enghraifft wych yw'r gwasanaeth Bwcabus, sy'n gweithredu ac sy'n cysylltu trefi â'i gilydd yn Sir Gaerfyrddin, yn fy rhanbarth i. Mae'n wasanaeth sy'n ymateb i alw, sy'n gwella gallu pobl i fynd o un lle i'r llall, ac sydd hefyd yn lleihau eu hól troed carbon drwy leihau eu dibyniaeth ar gar. O safbwynt darparu trafndiaeth hygyrch i bobl mewn ardaloedd gwledig, mae'n amlwg bod gan y Blaid Lafur hanes o bolisiau sy'n ein gyrru yn ein blaen, tra mae'r unig syniadau sydd gan y Toriaid yw rhai sy'n mynd â ni tuag yn ôl.

Hwyrach mai'r enghraifft orau o agwedd parod-i-dorri'r glymblaid at ardaloedd gwledig yw'r penderfyniad i ddileu'r dreth ar linellau ffôn cyffredin, a fyddai wedi sicrhau bod ardaloedd gwledig yn cael gwasanaeth band eang eithriadol o gyflym. Dyna enghraifft wych o'r modd y mae'r Llywodraeth yn celu toriadau i wasanaethau hanfodol, ar ffurf arbedion effeithlonrwydd. Bydd y penderfyniad i ddileu'r dreth yn cael effaith andwyol tu hwnt ar gymunedau gwledig, yn enwedig busnesau gwledig. Mae Llywodraeth y Toriaid a'r Democratiaid

in difficult times. That levy is a clear example of how the Labour Party is committed to investing in rural areas, and the decision to scrap it by the Conservative-Liberal Democrat coalition is reminiscent of its decision to withdraw a loan to Sheffield Forgemasters.

4.20 p.m.

Their myopic approach in this instance, failing to see the long-term benefits, has cost a number of jobs. The Westminster coalition either cannot differentiate between eliminating waste and implementing harmful cuts or is aware of what it is doing and proceeding anyway. It is difficult to know which is worse. On the other hand, the Labour Party was committed to ensuring that that levy would lead to vital broadband services for rural areas.

Andrew R.T. Davies *rose*—

Joyce Watson: It would have put an end to the anomalies that you find in my constituency, where one company—*[Interruption.]*

Did I hear you say ‘Go on’, Brynle? You do not give way. You have got to be joking. In my region, one company will have perfect broadband access, while another only a few hundred yards away has no service at all. By depriving people of broadband access through that levy, what you are building in are the inequalities that you have created every single time that you have been in office.

Another foundation upon which the regeneration of rural communities can be achieved is the creation of apprenticeships. When we consider that the majority of young people in Wales do not go to university, it becomes apparent that there are many young people who remain in rural communities who are eager to gain professional experience and who could offer a valuable resource to local builders. Apprenticeships are, therefore,

Rhyddfrydol yn San Steffan yn llyffetheirio busnesau sy'n ceisio cadw i fynd mewn cyfnod anodd. Mae'r dreth yn enghraifft amlwg o ymrwymiad y Blaid Lafur i fuddsoddi mewn ardaloedd gwledig, ac mae penderfyniad clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'w dileu yn ein hatgoffa o'i phenderfyniad i dynnu benthygiad i Sheffield Forgemasters yn ôl.

Mae eu diffyg gweld yn yr achos hwn, wrth iddynt fethu â sylweddoli'r manteision hirdymor, wedi costio llawer o swyddi. Naill ai mae'r glymblaid yn San Steffan yn methu â gwahaniaethu rhwng cael gwared ar wastraff a chyflwyno toriadau andwyol, neu mae'n ymwybodol o'r hyn y mae'n ei wneud ac yn bwrw ymlaen beth bynnag. Mae'n anodd gwybod p'un sydd waethaf. Ar y llaw arall, yr oedd y Blaid Lafur wedi ymrwymo i sicrhau y byddai'r dreth honno'n arwain at wasanaethau band eang hanfodol ar gyfer ardaloedd gwledig.

Andrew R.T. Davies *a gododd*—

Joyce Watson: Byddai'n rhoi terfyn ar yr anghysondebau a welir yn fy etholaeth i, lle mae un cwmni—*[Torri ar draws.]*

A oeddwn yn eich clywed yn dweud ‘Dewch ymlaen’, Brynle? Ni fyddwch chi'n ildio. Rhaid nad ydych o ddifrif. Yn fy rhanbarth i, bydd gan un cwmni fynediad perffaith i fand eang, tra bydd gan gwmni arall, nad yw ond ychydig gannoedd o lathenni i ffwrdd, ddim gwasanaeth o gwbl. Drwy amddifadu pobl o fynediad i fand eang drwy'r dreth honno, yr hyn a gyflwynwch yw'r anghydraddoldebau yr ydych wedi'u creu bob tro ichi fod mewn grym.

Sail arall ar gyfer adfywio cymunedau gwledig yw creu prentisiaethau. Wrth ystyried nad yw mwyafrif pobl ifanc Cymru yn mynd i brifysgol, daw i'r amlwg bod llawer o bobl ifanc o hyd mewn cymunedau gwledig, sy'n awyddus i ennill profiad proffesiynol ac a allai gynnig adnodd gwerthfawr i adeiladwyr lleol. Felly, mae prentisiaethau'n cyd-fynd â'r agenda sgiliau sydd o fudd i bobl ifanc a busnesau mewn

consistent with the skills-based agenda that benefits young people and businesses in rural areas. I have worked closely with those who offer apprenticeships and those who have benefited from them. It is a mutually beneficial arrangement. The Welsh Assembly Government's young recruits programme is a prime example of how a Government should invest in young people and businesses by subsidising a wage for up to 12 months.

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. Wind up now please, Joyce.

Joyce Watson: That is a genuine and tangible investment of young people gaining crucial skills and businesses in rural communities also gain. Another example—

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. No. Thank you, Joyce. Your time is up.

David Melding: There are some very old-fashioned and rather quaint Welsh nationalists who argue that western Herefordshire and parts of Shropshire should be in Wales, but we must congratulate Joyce Watson for extending the borders of Wales as far as Sheffield and quoting industrial policy in Sheffield in a debate on the Welsh rural economy. [*Laughter.*] Joyce, I should not be rude about the passion and the spectacle of it—there is a certain art to it, I suppose—but I am a wicked old empirical Tory, and the truth is that the Government that you supported ran deficit budgets for nearly 10 years. That is why this country is suffering well above the average of western European countries from the world crisis. That is why it is hitting harder here, because of the actions, year in, year out, of your Government.

Another consequence of Labour's dilatory attitude towards the rural economy is that the competitiveness of rural parts of Wales has declined sharply. Indeed, the competitiveness of the Welsh economy in general has also declined compared with the English regions.

ardaloedd gwledig. Yr wyf wedi gweithio'n agos gyda phobl sy'n cynnig prentisiaethau a phobl sydd wedi cael budd ohonynt. Mae'n drefniant sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall. Mae rhaglen recriwtiaid ifanc Llywodraeth y Cynulliad yn enghraifft wych o sut y dylai Llywodraeth fuddsoddi mewn pobl ifanc a busnesau drwy roi cymhorthdal cyflog am hyd at 12 mis.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. A wnewch chi dynnu at y terfyn yn awr, os gwelwch yn dda, Joyce?

Joyce Watson: Mae'n fuddsoddiad gwirioneddol a phendant, lle mae pobl ifanc yn meithrin sgiliau hollbwysig, a lle mae busnesau mewn cymunedau gwledig ar eu hennill hefyd. Enghraifft arall—

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Na. Diolch, Joyce. Mae eich amser ar ben.

David Melding: Ceir rhai cenedlaetholwyr Cymreig hen ffasiwn iawn, ac eithaf hynod, sy'n dadlau y dylai rhan orllewinol Swydd Henffordd a rhannau o Swydd Amwythig fod yng Nghymru, ond rhaid inni longyfarch Joyce Watson am ymestyn ffiniau Cymru cyn belled â Sheffield a dyfynnu polisi diwydiannol yn Sheffield mewn dadl am economi wledig Cymru. [*Chwerthin.*] Joyce, ni ddylwn fod yn anghwrtais ynghylch yr angerdd a'r holl sioe yn eich araith—mae rhywfaint o grefft yn perthyn i hynny, am wn i—ond yr wyf yn hen Dori empiraidd, drwg, a'r gwir amdani yw i'r Llywodraeth yr oeddech chi'n ei chefnogi weithredu am oddeutu 10 mlynedd gyda chyllidebau a oedd wedi'u seilio ar fenthyciadau. Dyna pam mae'r wlad hon yn dioddef yn fwy o lawer na'r cyffredin ymhlith gwledydd gorllewin Ewrop, yn sgil yr argyfwng byd-eang. Dyna pam mae ei effeithiau'n waeth yn y fan hon, oherwydd camau gweithredu eich Llywodraeth chi flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Canlyniad arall agwedd hwyrfrydig y Blaid Lafur at yr economi wledig yw'r ffaith bod cystadleurwydd rhannau gwledig o Gymru wedi gostwng yn sydyn. Yn wir, mae cystadleurwydd economi Cymru yn gyffredinol wedi gostwng, o'i chymharu â

This is what we have inherited in terms of past Labour action, and it is this that we now, in this debate, urge the Minister—who, happily, is from another party—to attempt to tackle if she can throw off the incubus of the anti-rural prejudices that we so often hear from Labour Members.

There are specific policies that need to be improved so that we can gain the maximum rural competitiveness. We have heard about innovation, but let us re-emphasise the point, because the problems of distance and geography can be overcome somewhat by modern technology. This is why the digital revolution could be such an advance for rural areas. We need to ensure that the economic renewal programme with its welcome commitment to broadband is delivered as soon as possible and that rural areas take advantage of that in the early stages of the roll-out. I do not think that 2016 is soon enough; we could act more speedily than that.

Planning policy has to be flexible enough to meet local housing need, for instance. In this age, surely we should be able to come up with policies that deliver housing for local people where those communities agree to that housing being built. We may need to control that housing—let us face it, it cannot necessarily be a simple, open market approach—because those communities need that housing stock for future generations.

Alun Davies *rose*—

David Melding: I will give way—I think that he deserves his chance; he has been waiting patiently.

Alun Davies: Thank you for your courtesy in doing so. The biggest block on this Government delivering its housing policies over the last three years has been the Conservative Party.

rhanbarthau Lloegr. Dyma'r sefyllfa yr ydym wedi'i hetifeddu o safbwynt camau gweithredu'r Blaid Lafur yn y gorffennol, a dyma'r sefyllfa yr ydym yn awr, yn y ddadl hon, yn annog y Gweinidog—sydd, yn ffodus, yn perthyn i blaid arall—i geisio mynd i'r afael â hi os gall anwybyddu'r holl ragfarnau yn erbyn ardaloedd gwledig, yr ydym yn eu clywed mor aml gan yr Aelodau Llafur.

Ceir polisiau penodol y mae angen eu gwella er mwyn inni allu sicrhau bod ardaloedd gwledig mor gystadleuol ag sy'n bosibl. Yr ydym wedi clywed am arloesi, ond gadewch inni ailwysleisio'r pwynt, oherwydd gellir goresgyn i ryw raddau y problemau sy'n ymwneud â phellter a daearyddiaeth drwy ddefnyddio technoleg fodern. Dyna pam y gallai'r chwyldro digidol fod yn gymaint o hwb i ardaloedd gwledig. Mae angen inni sicrhau bod rhaglen adnewyddu'r economi, gyda'i hymrwymiad i fand eang, sydd i'w groesawu, yn cael ei gweithredu cyn gynted ag sy'n bosibl, a bod ardaloedd gwledig yn manteisio ar hynny'n gynnar ar ôl dechrau gweithredu'r rhaglen. Ni chredaf fod 2016 yn ddigon buan; gallem weithredu'n gyflymach na hynny.

Rhaid i bolisi cynllunio fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu angen lleol am dai, er enghraifft. Yn yr oes hon, rhaid bod modd inni gyflwyno polisiau sy'n darparu tai ar gyfer pobl leol, os yw'r cymunedau lleol dan sylw'n cytuno y dylid adeiladu'r tai hynny. Efallai fod angen inni reoli'r tai hynny—dylem sylweddoli na all, o angenrheidrwydd, fod yn ddull gweithredu syml sydd wedi'i seilio ar y farchnad agored—oherwydd mae ar y cymunedau hynny angen y stoc honno o dai ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Alun Davies *a gododd*—

David Melding: Yr wyf yn fodlon ildio—credaf ei fod yn haeddu ei gyfle; mae wedi bod yn aros yn amyneddgar.

Alun Davies: Diolch am eich cwртеisi wrth wneud hynny. Y rhwystr mwyaf sydd wedi atal y Llywodraeth hon rhag cyflawni ei pholisiau ar dai dros y tair blynedd diwethaf yw'r Blaid Geidwadol.

David Melding: The biggest block is, frankly, a planning system that is far too restrictive, which will not allow rural communities to make reasonable decisions about the size or the curtilage of their villages and where some reasonable development could take place. That is what we need to sort out, as well as having a little more land for appropriate business development.

Skills and learning have been mentioned. Again, there is a problem of distance when we close local facilities or do not have any outreach services that can take the necessary skills and learning to the more remote parts of Wales. Rural entrepreneurship is something that we need to see intensified in the new economic programme. I have no doubt that, with the right encouragement and support, there is a wonderful level of competitive spirit and entrepreneurship in our rural areas.

I will focus on a few areas that really stand out in Wales in terms of opportunities. I am a great lover of the table, and Welsh food has so much to offer. We do not eat enough of it ourselves, but we export quite a lot of it, and we need to build on that advantage. However, we need some of the higher value-stuff: more restaurants, more tourists visiting for our magnificent food and staying in wonderful boutique hotels. That is what people want. That is the level of economic regeneration that we need to see. Again, a big Welsh brand needs to extend to the offer that we have in rural areas for health, sport, wellbeing and everything that tourists yearn for.

Renewable energy needs to have communities at its heart, so that they benefit if they are backing windfarms, new marine technology or one of the many other schemes, including solar technology, that are advancing. We need to be there in partnership with rural communities to see the rural economy flourish.

Alun Davies: That was a very curious speech

David Melding: Y rhwystr mwyaf, a dweud y gwir, yw system gynllunio sy'n rhy gaethiwus o lawer, nad yw'n fodlon caniatáu i gymunedau gwledig wneud penderfyniadau rhesymol am faint neu ffiniau eu pentrefi a'r manau lle gallai rhywfaint o waith datblygu rhesymol ddigwydd. Dyna y mae angen inni ei ddatrys, yn ogystal â chael ychydig yn rhagor o dir ar gyfer datblygu busnesau'n briodol.

Mae rhai wedi sôn am sgiliau a dysgu. Unwaith yn rhagor, mae pellter yn broblem pan fyddwn yn cau cyfleusterau lleol neu pan nad oes gennym yr un gwasanaeth allgyrraedd a all fynd â'r sgiliau a'r dysgu angenrheidiol i ardaloedd mwyaf anghysbell Cymru. Mae entrepreneuriaeth wledig yn rhywbeth y mae angen inni ei weld yn dwysáu yn y rhaglen economaidd newydd. Yr wyf yn hollol siŵr bod lefel ardderchog o ysbryd cystadleuol ac entrepreneuriaeth yn bodoli yn ein hardaloedd gwledig, dim ond inni ddarparu'r anogaeth a'r cymorth iawn.

Yr wyf am ganolbwyntio ar rai meysydd sy'n cynnig cyfleoedd amlwg iawn yng Nghymru. Yr wyf yn un sydd wrth fy modd â'r bwrdd bwyd, ac mae gan fwyd o Gymru gymaint i'w gynnig. Nid ydym yn bwyta digon ohono ein hunain, ond yr ydym yn allforio cryn dipyn ohono, ac mae angen inni adeiladu ar y fantais honno. Fodd bynnag, mae angen ychydig o'r pethau mwy uchel eu gwerth arnom: rhagor o fwytai, rhagor o dwristiaid yn ymweld oherwydd ein bwyd ardderchog ac yn aros mewn gwystai bach unigryw. Dyna mae pobl am ei gael. Dyna lefel yr adfywio economaidd y mae angen inni ei gweld. Unwaith yn rhagor, mae angen i frand mawr o Gymru ymestyn yr hyn sydd gennym i'w gynnig yn ein hardaloedd gwledig ar gyfer iechyd, chwaraeon, lles a phopeth y mae twristiaid yn dyheu amdano.

Mae angen i gymunedau fod wrth wraidd ynni adnewyddadwy, fel y byddant yn elwa o gefnogi ffermydd gwynt, technoleg forol newydd neu un o'r cynlluniau niferus eraill sydd ar gynydd, gan gynnwys technoleg solar. Mae angen inni fod yno mewn partneriaeth â chymunedau gwledig i weld yr economi wledig yn ffynnu.

Alun Davies: Yr oedd honno'n araith ryfedd

on rural Wales. David managed to weave rural Wales into the last few sentences. I agreed with quite a bit of what he said, which was equally applicable to all parts of Wales. I certainly hope that it pays him well in the Vale of Glamorgan selection, but I do not think that it is a serious examination of the Government's priorities or the Government's record in office.

Having represented, for three years, a region of Wales that is largely rural in nature, I can tell David that the concerns of most people in rural Wales are exactly the concerns of most people in urban Wales: they are concerned about their livelihoods and about access to services. How you deliver both of those things is, of course, different in different contexts; but then again, they are different in the Valleys to what they would be in the city, in Cardiff. People are concerned about access to public transport, access to broadband, access to well-paid jobs, skills, opportunities to work, social issues and benefits. All of those things have in common the fact that they are facing tremendous cuts from the new Conservative and Liberal Government. There was a time when, driving through mid Wales, you would be under a severe threat of being run over by a runaway hospital bed carrying Kirsty Williams dressed in a white coat. Investment in the health service in rural Wales—in Brecon and Radnorshire, and in the rest of Wales—will suffer as a direct consequence of the policies that your Government is following.

4.30 p.m.

It is no longer good enough for the opposition, as we heard from Brynle in his opening statement—he did not make a speech; he read out a shopping list—to come here and demand greater expenditure when the finances of this Government are being strangled by the ideologically driven programme of the UK Government at Westminster. It is no longer good enough to

iawn am Gymru wledig. Llwyddodd David i weu Cymru wledig i mewn i'r ychydig frawddegau olaf. Yr oeddwn yn cytuno â chryn dipyn o'r hyn a ddywedodd, a oedd yr un mor berthnasol i bob rhan o Gymru. Gobeithiaf yn fawr y bydd yn talu ffordd iddo yn y broses ddewis ym Mro Morgannwg, ond ni chredaf i'r araith gynnig archwiliad difrifol o flaenoriaethau'r Llywodraeth na hanes y Llywodraeth mewn grym.

Wedi imi dreulio tair blynedd yn cynrychioli rhanbarth o Gymru sy'n wledig ei natur gan mwyaf, gallaf ddweud wrth David mai'r un pethau sy'n pryderu'r rhan fwyaf o bobl yn ardaloedd gwledig Cymru ag sy'n pryderu'r rhan fwyaf o bobl yn ardaloedd trefol Cymru: maent yn pryderu am eu bywoliaeth ac am y mynediad sydd ganddynt i wasanaethau. Wrth gwrs, mae'r modd yr ydych yn darparu'r ddau beth hyn yn wahanol mewn gwahanol gyd-destunau; ond eto i gyd, mae'r modd yr ydych yn eu darparu yn y Cymoedd yn wahanol i'r modd y byddech yn eu darparu yn y ddinas yng Nghaerdydd. Mae pobl yn pryderu am fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, mynediad i fand eang, mynediad i swyddi sy'n talu'n dda, sgiliau, cyfleoedd i weithio, materion cymdeithasol a budd-daliadau. Yr hyn sy'n gyffredin i'r holl bethau hyn yw'r ffaith eu bod yn wynebu toriadau dychrynlyd gan Lywodraeth newydd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Bu adeg pan fyddech, wrth yrru trwy'r canolbarth, yn wynebu perygl difrifol o gael eich taro gan wely ysbyty ar ffo yn cario Kirsty Williams a hithau wedi'i gwisgo mewn cot wen. Bydd buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru wledig—ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, ac yng ngweddill Cymru—yn dioddef o ganlyniad uniongyrchol i'r polisiau y mae eich Llywodraeth chi yn eu dilyn.

Fel y clywsom gan Brynle yn ei ddatganiad agoriadol—nid araith a gafwyd ganddo ond rhestr siopa—nid yw bellach yn ddigon da i'r wrthblaid ddod yma a mynnu rhagor o wariant pan fydd cyllid y Llywodraeth hon yn cael ei wasgu gan raglen Llywodraeth y DU yn San Steffan, a gaiff ei gyrru gan ideoleg. Nid yw hynny'n ddigon da bellach. Bydd toriadau Llywodraeth y DU yn cael

do that. The UK Government's cuts will have great consequences for rural Wales—perhaps greater than for urban Wales, because of the additional cost of the delivery of services and the greater dependence of the private sector on public spending in rural Wales. The cuts being pursued by the Liberal Democrats and Conservatives in Government at Westminster will be greater in rural Wales. The direct consequence will be the closure of a secondary school in Powys, and other services elsewhere. That has to be laid at the door of the Conservative and Liberal Democrat parties in office in London.

When I listen to Conservatives here talk about the future of post offices, I feel that I must remind you that the last time that you were in power you closed more post offices than have been closed at any time in history, even though the Post Office was actually making profit; that is the extraordinary thing. Then, two years ago, you voted against a subsidy to maintain the network as we have it today. That is pure hypocrisy. Of course, the Liberal Democrats voted for it at the time, but they have voted against it ever since. In the three years that I have been a Member, we have seen a Government in Wales that is committed to ensuring that people across the whole of Wales have access to excellent services and opportunities for employment and training. We have seen the introduction of a rural health plan and rural-proofing of policies. We have seen far greater investment in public transport, which was outlined by Joyce in part. Brynle Williams complained about bus services, but they were deregulated by the Conservatives; you have only yourselves to blame for the consequences of your policies.

As for housing, we were elected on a clear manifesto commitment and have been held up time and again by the Conservatives. We have only got the draft LCO through after three years. We have seen investment in economic growth and competitiveness, which David referred to. If you look at axis 1 investment into supply chain efficiency and

effaith fawr ar ardaloedd gwledig Cymru— yn fwy felly nag ar ardaloedd trefol Cymru efallai, oherwydd y gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau ac oherwydd bod y sector preifat yn dibynnu mwy ar wariant cyhoeddus yn yr ardaloedd gwledig. Bydd y toriadau y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn y Llywodraeth yn San Steffan yn ceisio'u cyflwyno yn fwy yn ardaloedd gwledig Cymru. Canlyniad uniongyrchol hynny fydd cau ysgol uwchradd ym Mhowys, a gwasanaethau eraill mewn mannau eraill. Rhaid rhoi'r bai am hynny ar y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol sydd mewn grym yn Llundain.

Pan wrandawaf ar y Ceidwadwyr yn y fan hon yn siarad am ddyfodol swyddfeydd post, teimlaf fod yn rhaid imi eich atgoffa i chi gau mwy o swyddfeydd post y tro diwethaf yr oeddech mewn grym nag a gafodd eu cau ar unrhyw adeg arall yn ein hanes, er bod Swyddfa'r Post yn gwneud elw mewn gwirionedd; dyna sy'n rhyfeddol. Yna, ddwy flynedd yn ôl, bu i chi bleidleisio yn erbyn cymhorthdal i gynnal y rhwydwaith fel y mae heddiw. Rhagrith llwyr yw hynny. Wrth gwrs, pleidleisiodd y Democratiaid Rhyddfrydol o blaid hynny ar yr adeg honno, ond maent wedi pleidleisio yn ei erbyn fyth ers hynny. Yn ystod y tair blynedd imi fod yn Aelod, yr ydym wedi gweld Llywodraeth yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ar draws Cymru gyfan yn cael mynediad i wasanaethau a chyfleoedd ardderchog ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant. Yr ydym wedi gweld cynllun iechyd gwledig yn cael ei gyflwyno, a pholisïau'n cael eu prawfesur o safbwynt anghenion cefn gwlad. Yr ydym wedi gweld llawer mwy o fuddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus, a amlinellwyd yn rhannol gan Joyce. Yr oedd Brynle Williams yn cwyno am wasanaethau bysiau, ond cawsant eu dad-reoleiddio gan y Ceidwadwyr; ni allwch feio neb ond chi eich hunain am ganlyniadau eich polisïau.

O safbwynt tai, cawsom ein hethol ar sail ymrwymiad clir yn ein manifesto, ac mae'r Ceidwadwyr wedi ein dal yn ôl dro ar ôl tro. Mae wedi cymryd tair blynedd i basio'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft. Yr ydym wedi gweld buddsoddi mewn twf a chystadleurwydd economaidd, fel y cyfeiriodd David ato. O edrych ar

Farming Connect, it is about efficiency and improving the product. Look at the axis 2 agri-environmental schemes, or the axis 3 or 4 diversification schemes that have invested £50 million in rural communities—that is real investment taking place in real communities for real people. It is improving the economy. The tragedy of all this and of this debate is that it is all at risk and could be lost because of the ideologically driven cuts being imposed by a UK Government dominated by people who not only do not give a damn about rural Wales, but do not care about urban Wales either.

Nick Ramsay: I think that the Minister for Social Justice and Local Government enjoyed that collection of fantasies just as much as I did. Alun Davies uses the word ‘listen’ a lot in his speeches, but I do not think that he listens at all to what we say. He has criticised others’ speeches today, but there was precious little in his speech to do with rural areas. I might have said there was nothing, but, to be generous, in the last few lines he did get around to the subject.

I am pleased to contribute to this debate, which focuses on the need to improve rural competitiveness as a means of regenerating our rural communities. We also call for public services to take account of rurality, which has not always happened in the past. We regret that, too often, the Assembly Government has failed to recognise rural poverty, and has failed to provide specific solutions—not in all areas, but in some. Let us be clear: when it comes to rural areas, a one-size-fits-all approach simply does not work, and if you try to impose that approach as a Government, as well-meaning as your intentions might be, you will not be successful.

Brynle Williams, in his opening contribution, spoke of the problems that we face in our

fuddsoddiad echel 1 mewn effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi a Cyswllt Ffermio, mae a wnelo ag effeithlonrwydd a gwella’r cynnyrch. Edrychwch ar y cynlluniau amaeth-amgylcheddol dan echel 2, neu’r cynlluniau arallgyfeirio dan echel 3 neu 4 sydd wedi buddsoddi £50 miliwn mewn cymunedau gwledig—dyna ichi fuddsoddiad go iawn mewn cymunedau go iawn ar gyfer pobl go iawn. Mae’n gwella’r economi. Y trueni am hyn i gyd, ac am y ddadl hon, yw bod y cyfan yn cael ei beryglu, a gallai gael ei golli oherwydd y toriadau, a gaiff eu gyrru gan ideoleg, a orfodir gan Lywodraeth y DU, sef Llywodraeth nad yw mwyafrif llethol ei haelodau yn poeni’r un iot am Gymru wledig, nac ychwaith am Gymru drefol.

Nick Ramsay: Credaf i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol fwynhau’r casgliad hwnnw o ffantasiau lawn cymaint â fi. Mae Alun Davies yn defnyddio cryn dipyn ar y gair ‘gwrando’ yn ei areithiau, ond ni chredaf ei fod yn gwrando ar yr hyn yr ydym ni’n ei ddweud o gwbl. Mae wedi beirniadu areithiau pobl eraill heddiw, ond ychydig iawn yn ei araith ef oedd yn ymwneud ag ardaloedd gwledig. Bu bron imi ddweud nad oedd dim yn ei araith yn ymwneud ag ardaloedd gwledig, ond a bod yn hael, daeth i ben â chyfeirio at y pwnc yn yr ychydig linellau olaf.

Yr wyf yn falch o gael cyfrannu at y ddadl hon, sy’n canolbwyntio ar yr angen i wella cystadleurwydd ardaloedd gwledig fel modd o adfywio ein cymunedau gwledig. Yr ydym hefyd yn galw ar wasanaethau cyhoeddus i ystyried anghenion ardaloedd gwledig, gan nad yw hynny bob amser wedi digwydd yn y gorffennol. Yn anffodus, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi methu â chydabod tlodi gwledig yn rhy aml, ac mae wedi methu â darparu atebion penodol—nid ym mhob ardal, ond mewn rhai ardaloedd. Gadewch inni wneud hyn yn glir: wrth ymdrin ag ardaloedd gwledig, nid yw gweithredu mewn modd sy’n tybio y bydd un ateb yn addas i bawb yn gweithio, ac os ceisiwch weithredu yn y modd hwnnw fel Llywodraeth, ni fyddwch yn llwyddiannus, ni waeth pa mor dda yw eich bwriadau.

Soniodd Brynle Williams yn ei gyfraniad agoriadol am y problemau yr ydym yn eu

rural areas. The key to them is the decline of agriculture, with Wales's agricultural GVA declining by around 68 per cent between 1997 and 2007. That compares with a national decline of 7 per cent. I know that the Government does not like it when we talk about GVA in any area—it does not like the overall figures for GVA, and I am sure that it will not like me using these specific figures—because the GVA figures are pretty appalling. There has been a 68 per cent decline, so something has clearly gone wrong over the last 10 years. I remind the Members opposite that the coalition Government in Westminster has been in place for six weeks. The previous Labour Government had over 10 years to put this situation right. *[Interruption.]* I was being generous again—it was 13 years. It is even worse than I said.

Is the coalition Government in Westminster supposed to have put all of this right in just six weeks? Are we, as an opposition here, who have not been in power in the Assembly in the past 10 years, supposed to be putting it right? No, that is totally unreasonable. Therefore, we need to put the blame where it lies. As my colleague David Melding said in his contribution, the problem that we are facing in all our communities, not just our rural communities, is the deficit. While this massive deficit is piling up, because action was not taken by the previous Westminster Government to deal with it, then of course we are going to have less money than we would like to put the problems right. Therefore, I, for one, am pleased that at least two parties in Westminster are doing their best to try to deal with this problem.

I have already mentioned farming, and tourism is another area where Wales has a lot to give.

Alun Davies: Will you give way?

hwynebu yn ein hardaloedd gwledig. Yr hyn sy'n allweddol i'r problemau hynny yw dirywiad amaethyddiaeth, wrth i werth ychwanegol crynswth amaethyddiaeth yng Nghymru ostwng oddeutu 68 y cant rhwng 1997 a 2007. Mae hynny'n cymharu â gostyngiad cenedlaethol o 7 y cant. Gwn nad yw'r Llywodraeth yn hoff o glywed sôn am werth ychwanegol crynswth mewn unrhyw faes—nid yw'n hoff o'r ffigurau cyffredinol ar gyfer gwerth ychwanegol crynswth, ac yr wyf yn siŵr na fydd yn hoffi'r ffaith imi ddefnyddio'r ffigurau penodol hyn—oherwydd mae ffigurau'r gwerth ychwanegol crynswth yn eithaf brawychus. Cafwyd gostyngiad o 68 y cant, felly mae'n amlwg i rywbeth fynd o'i le yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Hoffwn atgoffa'r Aelodau sydd ar y meinciau gyferbyn â mi i'r Llywodraeth glymbleidiol yn San Steffan fod mewn grym am chwe wythnos. Cafodd y Llywodraeth Lafur flaenorol dros 10 mlynedd i unioni'r sefyllfa. *[Torri ar draws.]* Yr oeddwn yn bod yn bod yn hael unwaith yn rhagor—cafodd 13 blynedd. Mae hyd yn oed yn waeth nag a ddywedais.

A oedd disgwyl i'r Llywodraeth glymbleidiol yn San Steffan ddatrys hyn i gyd mewn cwta chwe wythnos? A oes disgwyl inni ddatrys y sefyllfa, fel yr wrthblaid yn y fan hon sydd heb fod mewn grym yn y Cynulliad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf? Nac oes, mae hynny'n gwbl afresymol. Felly, mae angen inni roi'r bai ar y bobl iawn. Fel y dywedodd fy nghydweithiwr, David Melding, yn ei gyfraniad, y broblem yr ydym yn ei hwynebu ym mhob un o'n cymunedau, ac nid yn ein cymunedau gwledig yn unig, yw'r diffyg. Wrth i'r diffyg enfawr hwn dyfu, am i'r Llywodraeth flaenorol yn San Steffan fethu â chymryd camau i ymdrin ag ef, mae'n anorfod y bydd gennym lai o arian nag y byddem yn dymuno ei gael i ddatrys y problemau. Felly, yr wyf i, o leiaf, yn falch bod o leiaf dwy blaid yn San Steffan yn gwneud eu gorau i geisio ymdrin â'r broblem hon.

Yr wyf eisoes wedi sôn am ffermio, ac mae twristiaeth yn faes arall lle mae gan Gymru lawer i'w gynnig.

Alun Davies: A wnewch chi ildio?

Nick Ramsay: One moment, Alun. If you look at the number of people employed seasonally in our tourist industry, which is a large part of the Welsh economy as a whole, as well as of the rural economy, you will see that the figures are worrying. There is not enough permanent employment. I will give way to Alun Davies at this point, because I can see that Jeff Cuthbert is getting irate.

Alun Davies: Thank you for giving way. If you are being forced into these savage cuts in order to reduce the deficit and to retain the confidence of the markets, could you explain why the FTSE has crashed since the budget, although it did not do so before the budget?

Nick Ramsay: You talk about scaremongering from our side, but comments about the FTSE crashing show where you are coming from. The markets have been reassured by the emergency budget. The fact is that your party, Alun, had absolutely no solutions for the situation that we are in nationally. You have precious few here, but, all credit to the Ministers here, in some ways they probably have more idea than the previous Westminster Ministers did. However, people voted clearly in May for a necessary change.

Finally—[*Interruption.*]—I am trying my best to keep to the subject of rural poverty. There is a problem with hidden poverty. All of us who represent rural constituencies know that rural poverty is far more insidious in many ways than urban poverty. There is, for instance, the problem that it dispersed—by its very nature, rural poverty is not as concentrated as poverty in urban areas. [*Interruption.*] Well, that is the situation. The Government needs to address that problem and to tackle rural poverty at the level at which it is happening, which has not happened to date. I welcome this motion, and I also support the Liberal Democrat amendment. Let us as an Assembly take this issue seriously and not get sidetracked by some of Alun Davies's wilder fantasies, and let us all do what we can to send a clear message to our rural communities that we are really listening to them.

Nick Ramsay: Un funud, Alun. O edrych ar nifer y bobl a gyflogir yn dymhorol yn ein diwydiant twristiaeth, sy'n rhan fawr o economi Cymru'n gyffredinol, yn ogystal ag o'r economi wledig, fe welwch fod y ffigurau'n peri pryder. Ni cheir digon o swyddi parhaol. Ildiaf i Alun Davies yn awr, oherwydd gallaf weld bod Jeff Cuthbert yn dechrau gwylltio.

Alun Davies: Diolch ichi am ildio. Os cael eich gorfodi i wneud y toriadau dinistriol hyn yr ydych er mwyn lleihau'r diffyg a chynnal hyder y marchnadoedd, a allwch esbonio pam mae'r FTSE wedi cwmpo'n ddifrifol ers y gyllideb, er na wnaeth hynny cyn y gyllideb?

Nick Ramsay: Yr ydych yn sôn am godi bwganod o'n rhan ni, ond mae sylwadau ynghylch y FTSE yn cwmpo yn dangos beth yw eich safbwynt chi. Mae'r gyllideb frys wedi rhoi hyder i'r marchnadoedd. Y ffaith yw nad oedd gan eich plaid chi, Alun, ddim atebion o gwbl i'r sefyllfa yr ydym ynddi'n genedlaethol. Ychydig iawn o atebion sydd gennych yn y fan hon, ond a bod yn deg â'r Gweinidogion yma, mewn rhai ffyrdd mae'n debyg bod ganddynt fwy o glem nag oedd gan Weinidogion blaenorol San Steffan. Fodd bynnag, yr oedd pobl yn amlwg wedi pleidleisio am newid angenrheidiol ym mis Mai.

Yn olaf—[*Torri ar draws.*]—yr wyf yn gwneud fy ngorau i gadw at y pwnc, sef tlodi gwledig. Ceir problem gyda thlodi cudd. Gŵyr pob un ohonom sy'n cynrychioli etholaethau gwledig fod tlodi gwledig yn fwy llechwraidd o lawer na thlodi trefol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, ceir problem o ran ei fod yn wasgaredig—yn ei hanfod, nid yw tlodi gwledig wedi'i ganoli gymaint â thlodi mewn ardaloedd trefol. [*Torri ar draws.*] Wel, dyna'r gwirionedd. Mae angen i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r broblem honno ac ymdrin â thlodi gwledig ar y lefel y mae'n digwydd, ac nid yw hynny wedi digwydd hyd yn hyn. Croesawaf y cynnig hwn, a chefnogaf welliant y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd. Gadewch inni fel Cynulliad ystyried y mater hwn o ddifrif a pheidio â gadael i rai o ffantasiau mwyaf hurt Alun Davies ein harwain ar gyfeiliorn, a gadewch inni i gyd wneud popeth yn ein gallu i ddweud yn glir wrth ein cymunedau

gwledig ein bod yn gwranddo arnynt o ddirif.

Rhodri Glyn Thomas: Mae angen dweud, ar ôl clywed cyfres o areithiau oddi wrth y Blaid Geidwadol a'r Blaid Lafur, mai'r peth olaf mae'n ardaloedd cefn gwlad ei angen yw pleidiau gwleidyddol yn ymosod ar ei gilydd ac yn ceisio profi eu bod yn well na'i gilydd o ran ymwneud â phroblemau cefn gwlad. Y gwir amdani, yng nghyd-destun ardaloedd gwledig Cymru, yw mai newyddion da iawn oedd y refferendwm a sicrhodd ddatganoli i Gymru yn 1997, ffurfio'r Cynulliad hwn yn 1999, ac, yn sicr, ffurfio'r glymblaid a rhaglen 'Cymru'n Un' yn 2003. Holl sail yr agenda hwnnw oedd ei fod yn agenda ar gyfer Cymru gyfan, ac yr ydym wedi gweld yr agenda hwnnw'n datblygu dros y tair blynedd diwethaf. Yr oeddwn yn falch o glywed cydnabyddiaeth oddi wrth bron pawb sydd wedi cyfrannu at y ddatl hon y prynhawn yma am yr hyn sydd wedi'i wneud yn y portffolio datblygu economaidd, a'r cyhoeddiad y cawsom yn gynharach yr wythnos hon ynglŷn â'r modd y mae'r portffolio hwnnw a'r agenda ar gyfer datblygu economaidd wedi'i newid yn chwyldroadol gan y Gweinidog er mwyn cynnig cyfleoedd i fusnesau ledled Cymru lle bynnag y maent wedi eu sefydlu a chreu'r is-strwythurau sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt lwyddo.

4.40 p.m.

Wrth gwrs, rhoddwyd cydnabyddiaeth hefyd i'r ffaith y bydd band eang ar gael i fusnesau ledled Cymru a bod y Gweinidog hefyd yn mynd i'r afael â'r problemau ymarferol sy'n bodoli mewn ambell fan.

Mae'r un peth yn wir am y system drafnidiaeth, sydd wedi cael sylw ledled Cymru yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Credaf hefyd fod cydnabyddiaeth cyffredinol am yr hyn a wnaed gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Mae wedi bod yn ddigon dewr i fynd i'r afael â phroblemau ymarferol o fewn y diwydiant amaethyddol a oedd yn peryglu holl sail economaidd y diwydiant hwnnw. Mae wedi wynebu trafferthion wrth geisio gwneud hynny, ond mae wedi dyfalbarhau, sy'n newyddion da iawn i'r economi wledig.

Rhodri Glyn Thomas: We need to say, after hearing a series of speeches from the Conservative Party and Labour Party, that the last thing that rural areas need is political parties attacking each other and trying to prove they are better than each other in dealing with rural issues. The truth is that, in the context of rural Wales, the referendum that ensured devolution for Wales in 1997 was good news, as was the creation of the Assembly in 1999, and, certainly, the forming of the coalition and the 'One Wales' programme in 2003. The whole basis of that agenda was that it was an agenda for the whole of Wales, and we have seen that agenda develop over the past three years. I was pleased to hear recognition from almost everyone who has contributed to the debate this afternoon of what has been done in the economic development portfolio, and the announcement that we heard earlier this week about the way in which that portfolio and the agenda for economic development has been revolutionised by the Minister in order to provide opportunities for businesses across Wales wherever they are established and created the sub-structures that they need in order to succeed.

Of course, recognition was also given to the fact that broadband will be available to businesses across Wales and that the Minister will also address the practical problems that exist in some places.

The same is true of the transport system, which has received attention throughout Wales during the past three years. I also believe that there is general recognition of what has been done by the Minister for Rural Affairs. She has been brave enough to tackle practical problems within the agricultural industry that were risking the entire economic basis of that industry. She has faced difficulties in doing that, but she has persevered, which is very good news for the rural economy.

Mae'r economi wledig a'n cymunedau gwledig ni'n fwy na'r diwydiant amaethyddol. Er enghraifft, yr ydym wedi gweld strategaethau gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ar dwristiaeth—twristiaeth ddiwylliannol, a thwristiaeth sy'n arddangos Cymru ar ei gorau, yn gwerthu Cymru i'r byd ac yn denu twristiaid yma o bob rhan o'r byd.

The rural economy and our rural communities extend further than the agricultural industry. For example, we have seen strategies from the Minister for Heritage on tourism—cultural tourism, and tourism showcasing the best of Wales, selling Wales to the world and attracting tourists here from all over the world.

Yr wyf wedi gweld yn fy etholaeth sut y mae'r polisiau ProAct a ReAct, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un, wedi helpu busnesau yng nghefn gwlad yn ystod y dirwasgiad economaidd diweddar.

I have seen in my constituency how the policies of ReAct and ProAct, which were developed by the One Wales Government, have helped businesses in the countryside during the recent economic recession.

Andrew R.T. Davies: One issue that I hope would concern you as it concerns me is the proposed change from Tir Gofal to Glastir and the loss of capital works. The grants that have sustained capital works have provided employment and money-raising opportunities for third and fourth businesses that are not situated on the farm, but are located in villages and small rural communities. Surely, we should address that to make up that deficit.

Andrew R.T. Davies: Un mater yr wyf yn gobeithio ei fod yn peri pryder ichi, yn yr un modd ag y mae'n peri pryder imi, yw'r newid arfaethedig o Tir Gofal i Glastir, a cholli gwaith cyfalaf. Mae'r grantiau sydd wedi cynnal gwaith cyfalaf wedi darparu cyflogaeth a chyfleoedd codi arian i drydydd a phedwerydd busnes nad ydynt wedi'u lleoli ar y fferm, ond sydd mewn pentrefi a chymunedau bach gwledig. Siawns na ddylem fynd i'r afael â hynny er mwyn lleihau'r diffyg.

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydym wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog mewn dadl yn y Siambr yn gymharol ddiweddar ac y mae hi wedi ymateb i'r pryderon hynny ac wedi esbonio y bydd y cynllun newydd, Glastir, yn cynnig cyfleoedd yn y maes hwn. Bydd cyfleoedd o ran coedwigaeth ac, yn y cyddestun hwnnw, bydd cyfle i ddatblygu sgiliau newydd a chwmnïau newydd yng nghefn gwlad.

Rhodri Glyn Thomas: We have raised this issue with the Minister in a debate in the Chamber relatively recently and she has responded to those concerns and has explained that the new scheme, Glastir, offers opportunities in this field. There will be opportunities in forestry and, in that context, there will be an opportunity to develop new skills and new companies in the countryside.

Cyn cloi, hoffwn gyfeirio at feysydd sy'n eithriadol o bwysig, sef bwyd a diod, a'r hyn sydd wedi digwydd dros 10 mlynedd o ran marchnata bwyd a diod o Gymru. Mae'r broses honno'n mynd yn ei flaen o hyd, gyda'r is-adran datblygu bwyd a'r farchnad yn cynorthwyo busnesau a chynhyrchwyr ledled Cymru sy'n ceisio sicrhau bod ein bwydydd yn cyrraedd marchnadoedd newydd. Mae'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn lansio ei adroddiad ar y sector gwin, gwirodydd, cwrw a seidr yfory ac yr wyf yn mawr obeithio y bydd y Gweinidog, ynghyd â'r is-adran datblygu bwyd a'r farchnad, yn gallu ymateb i'r her sy'n bodoli yn y sector hwnnw ac yn gallu cyflawni'r hyn

Before closing, I would like to refer to areas that are extremely important, namely food and drink, and what has happened over 10 years in marketing food and drink from Wales. That process is still going ahead and the food and market development division assists businesses and producers across Wales that seek to ensure that our food is reaching new markets. The Rural Development Sub-Committee will launch its report on the wine, spirits, beer and cider sector tomorrow and I hope that the Minister, along with the food and market development division, is able to respond to the challenge that exists in that sector and can do what was done in relation to whisky in Scotland and

a ddigwyddodd yn yr Alban gyda chwisgi ac yn Iwerddon gyda Guinness a Baileys. Gobeithio bod yr un math o bosibiliadau ar gael i ddiodydd o Gymru ac y bydd y farchnad honno'n agor i fusnesau o gefn gwlad.

Mark Isherwood: Despite the days of devolved plenty that preceded the debt crisis, one in four households and one in five working people in rural Wales lives below the poverty level. European money was supposed to close the economic performance gap, but it has got worse, with Wales producing the lowest value of goods and services per head of population among the 12 UK nations and regions at just 74.4 per cent of the UK average. In Gwynedd, it is just 67 per cent, in Conwy and Denbighshire it is 60 per cent, and in Ynys Môn, 55 per cent. The Welsh Government failed to fix the roof when the sun was shining.

Wales, urban and rural, suffers the highest child poverty levels in the UK, yet there is an overdependence on initiatives to tackle child poverty within designated, higher population urban areas. The Joseph Rowntree Foundation commission on rural housing in Wales found that average house prices were unaffordable for local incomes in all rural local authority areas. Its chair said that, unless there are houses, workers will not stay in rural Wales. Even if the Welsh Government achieves its targets for affordable housing, the supply of new affordable homes will have been cut by 60 per cent since devolution.

Rhodri Glyn Thomas: I am sure that you would join me in welcoming the new initiative by the One Wales Government, namely the revised technical advice note 6, which will offer that local housing that you are calling for now. That will be announced in the next two weeks and will be implemented straight away.

Mark Isherwood: I was one of those who took part in the consultation. I welcome its publication and hope that it will help.

Guinness and Baileys in Ireland. I hope that similar possibilities are available to drinks from Wales and that the market will open for businesses from the countryside.

Mark Isherwood: Er gwaetha'r dyddiau o ddigonedd ar ôl datganoli a gafwyd cyn yr argyfwng dyled, mae un o bob pedwar aelwyd ac un o bob pum unigolyn sy'n gweithio yn ardaloedd gwledig Cymru yn byw o dan y trothwy tlodi. Yr oedd arian o Ewrop i fod i gau'r bwloch o ran perfformiad economaidd, ond mae'r bwloch wedi gwaethygu, gyda Chymru'n cynhyrchu'r nwyddau a'r gwasanaethau isaf eu gwerth i bob pen o'r boblogaeth o blith 12 cenedl a rhanbarth y DU, ar ddim ond 74.4 y cant o gyfartaledd y DU. Yng Ngwynedd, dim ond 67 y cant ydyw, mae'n 60 y cant yng Nghonwy a Sir Ddinbych, ac mae'n 55 y cant yn Ynys Môn. Methodd Llywodraeth Cymru â thrwsio'r to pan oedd yr haul yn gwenu.

Cymru, yn ardaloedd trefol a gwledig, sydd â'r lefelau uchaf o dlodi plant yn y DU, ac eto ceir gorddibyniaeth ar fentrau i fynd i'r afael â thlodi plant mewn ardaloedd trefol penodol lle ceir poblogaeth uwch. Gwelodd comisiwn Sefydliad Joseph Rowntree ar dai gwledig yng Nghymru fod prisiau tai ar gyfartaledd ym mhob ardal awdurdod lleol gwledig yn uwch nag y gall pobl sy'n ennill incwm lleol eu fforddio. Dywedodd cadeirydd y comisiwn na fydd gweithwyr yn aros yn ardaloedd gwledig Cymru oni bai bod tai ar gael iddynt. Hyd yn oed os bydd Llywodraeth Cymru'n cyrraedd ei thargedau ar gyfer tai fforddiadwy, bydd y cyflenwad o dai fforddiadwy newydd wedi'i dorri 60 y cant ers datganoli.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn siŵr y byddech yn ymuno â mi i groesawu'r fenter newydd gan Lywodraeth Cymru'n Un, sef y nodyn cyngor technegol 6 diwygiedig, a fydd yn cynnig y tai lleol yr ydych yn galw amdanynt yn awr. Bydd hynny'n cael ei gyhoeddi yn ystod y bythefnos nesaf, a bydd yn cael ei weithredu ar unwaith.

Mark Isherwood: Yr oeddwn yn un o'r rheini a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Croesawaf y ffaith y bydd yn cael ei

gyhoeddi, a gobeithiaf y bydd yn helpu'r sefyllfa.

As devolved budgets grew, irresponsible spending by the Welsh Government created the housing crisis that was identified by Homes for Cymru. In difficult economic times, we now face a funding black hole, notwithstanding the fact that there are better tools in the kit. On that basis, I will commend the Deputy Minister for Housing and Regeneration for seeking to maximise the limited resources that are available. We now need a long-term national housing recovery plan that extends beyond 2011, in which rural housing enablers are further empowered to identify and to deliver on local need.

Wrth i gyllidebau datganoledig gynyddu, gwario anghyfrifol gan Lywodraeth Cymru a greodd yr argyfwng tai a nodwyd gan Homes for Cymru. Mewn adeg anodd yn economaidd, yr ydym yn wynebu twll du o safbwynt ariannu yn awr, er gwaetha'r ffaith bod adnoddau gwell ar gael. Ar sail hynny, hoffwn gymeradwyo'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio am geisio gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau prin sydd ar gael. Mae angen cynllun adfer tai cenedlaethol arnom yn awr ar gyfer y tymor hir, sy'n ymestyn y tu hwnt i 2011, lle caiff swyddogion galluogi tai gwledig fwy o rym i adnabod anghenion lleol a darparu ar eu cyfer.

Post offices provide a vital public service and are an integral part of community life. For every £10 that is earned by a post office, £16.20 is generated for the local economy. Even in small communities, the closure of a post office incurs a cost of £50,000 a year through loss of business and increased travel costs. However, Labour in Westminster voted for, and implemented, a closure programme, and, sadly, Labour and Plaid Cymru voted against our motion in the Assembly that called on the UK Labour Government to stop its post office closure programme in Wales. Darren Millar and I visited Essex to see what was being done on the ground there to rescue community post offices. The county council had committed £1.5 million to reopen post offices that had been closed by Labour's closure programme, where there was community support and need. Post office closures had the greatest impact on the poorest and most vulnerable. Safeguarding and reopening post offices will save the council money on services for older people, disabled people and young families.

Mae swyddfeydd post yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, ac maent yn rhan annatod o fywyd cymunedol. Am bob £10 y mae swyddfa bost yn ei ennill, caiff £16.20 ei gynhyrchu ar gyfer yr economi leol. Hyd yn oed mewn cymunedau bach, mae cau swyddfa bost yn arwain at gost o £50,000 y flwyddyn trwy gollu busnes a chostau teithio uwch. Fodd bynnag, pleidleisiodd y Blaid Lafur yn San Steffan o blaid rhaglen cau swyddfeydd post, a gweithredwyd y rhaglen honno ganddynt, ac yn anffodus, pleidleisiodd y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn erbyn ein cynnig yn y Cynulliad a oedd yn galw ar Lywodraeth Lafur y DU i roi'r gorau i'w rhaglen cau swyddfeydd post yng Nghymru. Ymwelodd Darren Millar a finau ag Essex i weld beth oedd yn cael ei wneud ar lawr gwlad yn y fan honno i achub swyddfeydd post cymunedol. Yr oedd y cyngor sir wedi addo gwario £1.5 miliwn ar ailagor swyddfeydd post a gaewyd dan raglen gau'r Blaid Lafur, lle'r oedd angen a chefnogaeth gan y gymuned yn bodoli. Cafodd cau swyddfeydd post yr effaith fwyaf ar y bobl dlotaf a'r bobl fwyaf agored i niwed. Bydd diogelu ac ailagor swyddfeydd post yn arbed arian i'r cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn, pobl anabl a theuluoedd ifanc.

Alun Davies: I do not disagree with any of the points that you have just made about post offices, as it happens; I am just curious as to why the Conservatives, who were in opposition at that time, voted consistently

Alun Davies: Nid wyf yn anghytuno ag unrhyw un o'r pwyntiau yr ydych newydd eu gwneud am swyddfeydd post, fel mae'n digwydd; ond yr wyf yn awyddus i wybod pam i'r Ceidwadwyr, a oedd yn wrthblaid ar

against all the subsidies that were given by the then Labour Government to sustain the post office network.

Mark Isherwood: Post offices were in profit in 1997. The Labour Government turned that profit into an unsustainable loss, which led to the closure programme that we are talking about. That is unforgivable.

If Essex, which has half the population of Wales, can do this, why can it not be done in Wales, especially given that the UK coalition Government has committed itself to supporting the post office network, keeping post offices in public ownership and allowing them to offer a wide range of services to sustain the network?

Too much of the manufacturing industry in rural Wales has already been lost. Kronospan Ltd in Chirk, which is a member of the Wood Panel Industries Federation, directly employs nearly 600 people. The UK wood panel industry has warned that large-scale biomass energy plants do not represent the best environmental use of Welsh wood, and threaten the survival of that industry because they target cheaper domestic wood.

Tourism is a vital part of the Welsh economy, as it generates billions of pounds and supports jobs. However, booking levels for new overseas and business visitors are down. Flintshire Tourism Association has told me that rural tourism businesses' poor broadband speeds affect a visitor's decision about where to stay. To achieve its new commitment to ensuring that superfast broadband reaches every Welsh business by 2016, the Welsh Government must therefore adopt a technology-neutral approach that recognises that rural Wales has more hills and fewer people.

Holiday parks support rural jobs and local economies, and 95 per cent of north Wales's tourist bed spaces are in this sector—the

yr adeg honno, bleidleisio dro ar ôl tro yn erbyn yr holl gymorthdaliadau a roddwyd gan Lywodraeth Lafur y dydd i gynnal rhwydwaith y swyddfeydd post.

Mark Isherwood: Yr oedd swyddfeydd post yn gwneud elw yn 1997. Trodd y Llywodraeth Lafur yr elw hwnnw'n golled anghynaliadwy, a arweiniodd at y rhaglen gau yr ydym yn sôn amdani. Mae hynny'n anfaddeuol.

Os gall Essex wneud hyn, gyda hanner poblogaeth Cymru, pam na all Cymru ei wneud, yn enwedig o gofio i Lywodraeth glymbleidiol y DU ymrwymo i gefnogi rhwydwaith y swyddfeydd post, cadw swyddfeydd post yn eiddo cyhoeddus a chaniatáu iddynt gynnig ystod eang o wasanaethau i gynnal y rhwydwaith?

Mae gormod o'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru wledig wedi'i golli eisoes. Mae Kronospan Ltd yn y Waun, sy'n aelod o Ffederasiwn y Diwydiannau Paneli Pren, yn cyflogi bron i 600 o bobl yn uniongyrchol. Mae diwydiant paneli pren y DU wedi rhybuddio nad yw gweithfeydd ynni biomas mawr yn gwneud y defnydd gorau o bren o Gymru o safbwynt amgylcheddol, a'u bod yn bygwth parhad y diwydiant hwnnw oherwydd eu bod yn targedu pren domestig rhatach.

Mae twristiaeth yn rhan hanfodol o economi Cymru, ac mae'n cynhyrchu biliynau o bunnoedd ac yn cynnal swyddi. Fodd bynnag, mae nifer yr ymwelwyr newydd o dramor ac ymwelwyr busnes sy'n aros mewn llety yn is nag arfer. Mae Cymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint wedi dweud wrthyf bod darpariaeth band eang araf busnesau twristiaeth gwledig yn effeithio ar benderfyniad ymwelydd ynghylch ble i aros. Er mwyn cyflawni ei hymrwymiad newydd i sicrhau bod band eang cyflym iawn yn cyrraedd pob busnes yng Nghymru erbyn 2016, rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu sy'n niwtral o ran technoleg, sy'n cydnabod bod gan ardaloedd gwledig Cymru fwy o fryniau a llai o bobl.

Mae parciau gwyliau'n cynnal swyddi gwledig ac economïau lleol, ac yn y sector hwn y ceir 95 y cant o'r gwelyau sydd ar gael

figure for the whole of Wales is 65 per cent—and yet, Visit Wales’s marketing focuses on the remaining 5 per cent. The completion of a 32-berth basin in Llangollen in 2004 generated £250,000 of additional income for the town annually and created or safeguarded 17 jobs. Visitors to the waterways of Wales spend £34 million annually, and therefore waterways also merit a higher profile in the Welsh Government’s tourism marketing.

i dwristiaid yn y gogledd—65 y cant yw’r ffigur ar gyfer Cymru gyfan—ac eto, mae gwaith marchnata Croeso Cymru yn canolbwyntio ar y 5 y cant sy’n weddill. Yr oedd y ffaith i angorfa gyda lle i 32 o gychod gael ei chwblhau yn Llangollen yn 2004 wedi cynhyrchu £250,000 o incwm ychwanegol i’r dref bob blwyddyn, a bu’n gyfrifol am greu neu ddiogelu 17 o swyddi. Mae ymwelwyr â dyfrffyrdd Cymru’n gwario £34 miliwn bob blwyddyn, felly mae dyfrffyrdd hefyd yn haeddu proffil uwch yng ngwaith marchnata twristiaeth Llywodraeth Cymru.

4.50 p.m.

Nerys Evans: Diolch am y cyfle i gyfrannu. Mae’n dda cael cyfle i drafod pwysigrwydd cymunedau gwledig yn y Siambr. Mae’r cynnig yn sôn am bwysigrwydd gwella cystadleurwydd economïau gwledig. Cafodd y cynnig hwn ei ddrafftio yr wythnos diwethaf, cyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gyhoeddi rhaglen adfywio’r economi ddydd Llun yr wythnos hon. Mae cefnogaeth ar draws y Siambr i’r rhaglen hon, sy’n mynd i’r afael â chystadleurwydd economaidd Cymru wledig. Yr unig feirniadaeth a godwyd yn y ddatl yn y Siambr ddoe ynghylch y cynllun economaidd radical hwn oedd pam na chafodd ei wneud yn gynt. Gobeithiaf y bydd cydnabyddiaeth drawsbleidiol yn y Siambr y bydd y newidiadau hyn yn rhai buddiol i economi Cymru, gan gynnwys yr economi wledig.

Nerys Evans: Thank you for the opportunity to contribute. It is good to have the opportunity to discuss the importance of rural communities in the Chamber. The motion talks about the importance of enhancing the competitiveness of rural economies. This motion was drafted last week, before the Minister for the Economy and Transport announced the economic renewal programme last Monday. There is support across the Chamber for this programme, which addresses the economic competitiveness of rural Wales. The only criticism raised in the debate in the Chamber yesterday on this radical economic plan was that it had not been done sooner. I hope that Members from all parties in the Chamber will recognise that these changes will be beneficial to the Welsh economy, including the rural economy.

Mae isadeiledd yn ganolog i hyn, ac fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar fand eang yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, yr wyf wedi bod yn lobio a chadw llygad ar ddatblygiadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, ac wedi gweld canlyniadau positif iawn yn lleol drwy waith Llywodraeth Cymru a chytundeb BT drwy gytundeb cymorth band eang arloesol rhanbarthol. Yr wyf wedi gweld cymunedau ar draws Cymru’n cael eu cysylltu i fand eang trwy’r gwaith hynny. I gyd-fynd â hwn, yr wyf yn croesawu’n fawr iawn cyhoeddiad Ieuan Wyn ddydd Sadwrn am y cynllun cefnogaeth band eang, gyda chyllid o £2 miliwn, a fydd yn galluogi unigolion i gael grant o hyd at £1,000, sy’n ddatblygiad hynod o bwysig ar gyfer cael gwared â’r manau gwan.

Infrastructure is central to this, and as the chair of the cross-party group on broadband in mid and west Wales, I have been lobbying the Government and keeping an eye on Welsh Government developments in this area, and have seen very positive results locally as a result of the work of the Welsh Government through an agreement with BT through the regional innovative broadband support programme. I have seen communities across Wales being connected to broadband through that work. To coincide with this, I warmly welcome the announcement made on Saturday by Ieuan Wyn regarding the broadband support scheme, with funding of £2 million, which will enable individuals to receive a grant of up to £1,000, which is extremely important if we are to get rid of the weak areas.

Yn ogystal â'r cyhoeddiad hwn, yr ydym wedi gweld cynlluniau uchelgeisiol iawn yng nghynllun radical y Gweinidog ynglŷn â thechnoleg gwybodaeth. Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yw un o'r chwe blaenoriaeth yn y rhaglen economaidd newydd, ac mae targed uchelgeisiol ac angenrheidiol i gael band eang y genhedlaeth nesaf i bob busnes yng Nghymru erbyn canol 2016, ac i bob tŷ erbyn 2020. Yr wyf yn cymryd o'r cyfraniadau y prynhawn yma bod pobl yn cefnogi'r gwaith. Mae'r polisi hwn yn fwy uchelgeisiol na tharged y Comisiwn Ewropeaidd, felly hoffwn longyfarch y Llywodraeth ar ei gweledigaeth yn y maes hwn ac yr wyf yn edrych ymlaen at weld hynny'n cael ei weithredu. Os cymharwn hwn â pholisi Llywodraeth Llundain, mae'r gwahaniaethau yn dangos yn glir bod blaenoriaethau gwahanol. Dywed y Llywodraeth Ceidwadol a Rhyddfrydol mai'r farchnad dylai arwain yn y maes hwn, ond gwyddom nad yw'r farchnad byth yn rhoi'r hyn sydd ei hangen ar ein cymunedau gwledig.

Finally, Iain Duncan Smith's comments in the last few weeks that people should move to find work are an embarrassing reflection of the Tory 'get on your bike' mentality, which is shared by some of their Assembly Members.

Andrew R.T. Davies *rose*—

Nerys Evans: Let me make my point first. During a discussion in the Sustainability Committee two weeks ago, Angela Burns said that we should be building enormous economic hubs, make the jobs happen there and ensure that people can get there easily. She went on to say

'I wonder why we keep thinking that we have to take the jobs to the people when what we should logically be doing is taking the people to the jobs'.

This 'get on your bike' mantra reflects the Tory view that we should not expect jobs in our rural communities.

In addition to this announcement, we have seen very ambitious plans in the Minister's radical plan for information technology. Information technology and communication is one of six priorities in the new economic programme, and there is an ambitious but necessary target to supply the next generation broadband to every business in Wales by mid 2016, and to every house by 2020. I gather from the contributions this afternoon that people support that work. This policy is more ambitious than the target of the European Commission, so I congratulate the Government on its vision in this area and I look forward to seeing that being implemented. If we compare this with the policy of the London Government, the differences clearly show that there are different priorities. The Conservative and Liberal Democrat Government believes that the market should lead in this area, but we know that the market never gives our rural communities what they need.

Yn olaf, mae sylwadau Iain Duncan Smith yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, sef y dylai pobl symud i ddod o hyd i waith yn adlewyrchiad annifyr o feddylfryd 'neidiwch ar eich beic' y Torïaid, sydd hefyd yn feddylfryd i rai o Aelodau Cynulliad y Torïaid.

Andrew R.T. Davies *a gododd*—

Nerys Evans: Gadewch imi wneud fy mhwynt yn gyntaf. Yn ystod trafodaeth yn y Pwyllgor Cynaliadwyedd bythefnos yn ôl, dywedodd Angela Burns y dylem fod yn adeiladu canolfannau economaidd enfawr, yn sicrhau bod swyddi i'w cael yn y canolfannau hynny, ac yn sicrhau bod pobl yn gallu eu cyrraedd yn hawdd. Aeth yn ei blaen i ddweud

Tybed pam yr ydym yn meddwl o hyd bod yn rhaid inni fynd â swyddi at y bobl, pan mai'r hyn sy'n rhesymegol inni ei wneud yw mynd â'r bobl at y swyddi.

Mae'r mantra 'neidiwch ar eich beic' hwn yn adlewyrchu safbwynt y Torïaid na ddylem ddisgwyl cael swyddi yn ein cymunedau

gwledig.

Angela Burns: I listen to your reportage of my words with a great deal of interest and I note that you left out the subsequent conversation that occurred after your colleague Leanne Wood had her hissy fit and said, 'Oh my goodness, Norman Tebbit'. I was talking about distances of 15 or 20 miles, and the point that I was making was that, rather than trying to persuade an investing company to relocate or put a business into a tiny village, would it not be better if we had trains and buses that enabled people to go out and find work? That would be an easier win than trying to persuade someone to stick a company for 20, 10, or five employees in small hamlets. Please try to get the context right. I know that it is tricky, but I am sure that you can do it.

Nerys Evans: There is nothing tricky about your words, Angela. I wonder why we keep thinking that we have to take jobs to the people when what we should logically be doing is taking people to the jobs. Get on your bikes and find work; that is your mantra for rural communities. While you have no vision or economic plans for our rural communities, thankfully we have a Plaid Minister responsible for economic development, committed to investing in the future economic development of our rural communities.

Mohammad Asghar: Thank you for the opportunity to discuss this important issue in the Chamber. A commitment of the 'One Wales' agreement is to address the needs of rural areas, yet it is clear that significant work still needs to be done. A healthy, prosperous and competitive rural Wales is so important for the nation. A little under one third of the population live in rural communities and yet these communities face significant challenges, with many in need of considerable regeneration. The Welsh Assembly Government must do all that it can to ensure that rural areas are economically competitive, but despite the amendments tabled by the Government to this motion, the figures suggest that there is an urgent need for action.

Angela Burns: Gwrandawaf arnoch yn croniclo fy ngeiriau â chryn dipyn o ddi-ddordeb, a sylwaf ichi hepgor y sgwrs ddilynol a gafwyd ar ôl i'ch cydweithiwr Leanne Wood gael ffit binc a dweud, 'Bobl bach, Norman Tebbit'. Sôn yr oeddwn am bellter o 15 neu 20 milltir, a'r pwynt yr oeddwn yn ei wneud oedd oni fyddai'n well pe bai gennym drenau a bysiau a fyddai'n galluogi pobl i fynd allan i chwilio am waith, yn hytrach na cheisio perswadio cwmni sy'n buddsoddi i adleoli neu sefydlu busnes mewn pentref bach? Byddai hynny'n haws na cheisio perswadio rhywun i leoli cwmni sy'n cyflogi 20, 10 neu bum gweithiwr mewn pentref bach. Ceisiwch gael y cyd-destun yn iawn. Gwn fod hynny'n anodd, ond yr wyf yn siŵr y gallwch wneud hynny.

Nerys Evans: Nid oes dim byd yn anodd am eich geiriau chi, Angela. Tybed pam yr ydym yn dal i feddwl bod yn rhaid inni fynd â swyddi at y bobl, pan mai'r hyn y dylem fod yn ei wneud yn rhesymegol yw mynd â phobl at y swyddi. Neidiwch ar eich beic ac ewch i chwilio am waith; dyna eich mantra ar gyfer cymunedau gwledig. Gan nad oes gennych chi ddim gweledigaeth neu gynlluniau economaidd ar gyfer ein cymunedau gwledig, diolch byth bod gennym Weinidog o Blaid Cymru yn gyfrifol am ddatblygu economaidd, sydd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn natblygiad economaidd ein cymunedau gwledig yn y dyfodol.

Mohammad Asghar: Diolch ichi am y cyfle i drafod y pwynt pwysig hwn yn y Siambr. Un o ymrwymadau cytundeb 'Cymru'n Un' yw mynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig, ac eto mae'n amlwg bod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd. Mae cael Cymru wledig iach, lewyrchus a chystadleuol mor bwysig i'r genedl. Mae ychydig yn llai na thraean o'r boblogaeth yn byw mewn cymunedau gwledig, ac eto mae heriau sylweddol yn wynebu'r cymunedau hyn, ac mae angen adfywio cryn dipyn ar lawer ohonynt. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad wneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod ardaloedd gwledig yn gystadleuol yn economaidd, ond er gwaetha'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth i'r cynnig hwn, mae'r ffigurau'r awgrymu bod angen

gweithredu ar fyrder.

Rural areas tend to enjoy better employment levels than our urban communities, and statistics show that people living in rural Wales also tend to possess higher levels of qualifications than in other areas, demonstrating their great potential. However, despite that, poverty levels are worryingly high. Research from the Wales Rural Observatory has found that 25 per cent of households in rural Wales are living below the 60 per cent national median income level.

Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i fwynhau lefelau cyflogaeth gwell na'n cymunedau trefol, ac mae ystadegau'n dangos bod pobl sy'n byw yn ardaloedd gwledig Cymru hefyd yn tueddu i gael lefelau uwch o gymwysterau na phobl mewn ardaloedd eraill, sy'n dangos y potensial aruthrol sydd ganddynt. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny, mae lefelau tlodi yn peri pryder gan mor uchel ydynt. Mae gwaith ymchwil gan Arsyllfa Wledig Cymru wedi darganfod bod 25 y cant o aelwydydd yng Nghymru wledig yn byw ar incwm sy'n llai na 60 y cant o'r incwm canolrifol cenedlaethol.

The agricultural sector has suffered considerably for years. Between 1997 and 2007, Wales's agricultural GVA declined by 68.1 per cent, compared with the UK average of just 7 per cent. The majority of this decline took place between 2004 and 2007, so the foot and mouth disease outbreak cannot be blamed. The figures are truly shocking. The potential stagnation of industries so important to rural Wales is also a concern. Tourism, for example, is the lifeblood of many rural areas, but recent figures suggest that much of the accommodation sector has experienced a decline in trade.

Mae'r sector amaethyddol wedi dioddef yn sylweddol ers blynyddoedd. Gostyngodd Gwerth Ychwanegol Crynswth amaethyddol Cymru 68.1 y cant rhwng 1997 a 2007, o'i gymharu â chyfartaledd y DU, o ddim ond 7 y cant. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn rhwng 2004 a 2007, felly ni ellir rhoi bai ar glwy'r traed a'r genau. Mae'r ffigurau'n wirioneddol syfrdanol. Mae'r diffyg twf posibl mewn diwydiannau sydd mor bwysig i Gymru wledig hefyd yn peri pryder. Twristiaeth, er enghraifft, yw craidd llawer o gymunedau gwledig, ond mae ffigurau diweddar yn awgrymu i lawer o'r sector llety weld busnes yn dirywio.

One of the key issues here is transport. Age Concern Cymru has highlighted that many older people in rural Wales own a car purely because they feel that this is the only way that they can access key services. Effectively leaving older people with little choice but to run a car places an unnecessary strain on many. What about those who cannot run a car? Young people, for example, will find themselves unable to access part-time jobs or reach after-school activities. The risk of isolation is obvious. Promoting public transport and making it more integrated, accessible and readily available would be a considerable boost for rural communities. The Welsh Assembly Government must work with local authorities and service providers to make this happen, as this will make rural communities much more attractive for people and businesses.

Un o'r prif broblemau yn y fan hon yw trafndiaeth. Mae Age Concern Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o bobl hŷn yng Nghymru wledig yn berchen ar gar dim ond am eu bod yn teimlo mai dyna'r unig ffordd y gallant gael mynediad i wasanaethau allweddol. Mae gadael pobl hŷn heb fawr o ddewis, i bob pwrpas, ond rhedeg car, yn rhoi straen diangen ar lawer ohonynt. Beth am y bobl hynny nad ydynt yn gallu rhedeg car? Bydd pobl ifanc, er enghraifft, yn gweld na fyddant yn gallu cael swyddi rhan amser neu gyrraedd gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae'r perygl o unigedd yn amlwg. Byddai hybu trafndiaeth gyhoeddus a sicrhau ei bod yn fwy integredig, yn fwy hygyrch ac ar gael yn hwylus yn hwb sylweddol i gymunedau gwledig. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad weithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod hynny'n digwydd, gan y bydd yn gwneud cymunedau gwledig yn fwy deniadol o lawer i bobl a

busnesau.

I note that the Rural Development Sub-Committee's report highlighted the significant distances that many people in rural Wales must travel to attend local hospitals. This not only links back to the transport issue, but also highlights how the Welsh Assembly Government must ensure that health services consider the specific needs of people living in rural communities. The poor accessibility of hospitals has an obvious impact on the speed of emergency services in dealing with urgent calls, with the performance of the Welsh Ambulance Service NHS Trust in rural areas being considerably worse than it is in urban areas. This is particularly worrying when you note that Wales's rural communities tend to have an older population than our urban areas.

Sylwaf fod adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi tynnu sylw at y pellter sylweddol y mae'n rhaid i lawer o bobl yng Nghymru wledig ei deithio i fynd i ysbytai lleol. Nid yn unig y mae cysylltiad rhwng hynny â thrafnidiaeth, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y modd y mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn ystyried anghenion penodol pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae'r ffaith ei bod mor anodd cyrraedd ysbytai yn cael effaith amlwg ar gyflymder gwasanaethau brys wrth ymdrin â galwadau brys, ac mae perfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru mewn ardaloedd gwledig yn waeth o lawer nag ydyw mewn ardaloedd trefol. Mae hynny'n peri pryder arbennig pan feddylwch fod poblogaeth cymunedau gwledig Cymru'n tueddu i fod yn hŷn na phoblogaeth ein hardaloedd trefol.

Our many beautiful rural communities have long played a central role in Wales. It is sad to see them becoming less sustainable, with poverty levels, rising house prices and an increased sense of isolation taking their toll. I hope that the Welsh Assembly Government notes the urgent need to improve the economic competitiveness of our rural communities and acts accordingly. Minister, there are areas where the Government can help these communities tremendously, such as food—Welsh lamb, for example—Welsh water and tourism. If we concentrated on only these three areas, not only would our rural communities prosper, but the whole of Wales.

Mae'r llu o gymunedau gwledig prydfarth sydd gennym wedi chwarae rôl ganolog yng Nghymru ers amser. Mae'n drist eu gweld yn mynd yn llai cynaliadwy o ganlyniad i lefelau tlogi uwch, prisiau tai sy'n codi ac ymdeimlad cynyddol o unigedd. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'r angen dybryd i wella cystadleurwydd economaidd ein cymunedau gwledig, ac y bydd yn gweithredu'n unol â hynny. Weinidog, ceir meysydd lle gall y Llywodraeth helpu'r cymunedau hyn yn fawr, megis bwyd—cig oen o Gymru, er enghraifft—dŵr Cymru a thwristiaeth. O ganolbwyntio ar y meysydd hynny'n unig, nid dim ond ein cymunedau gwledig fyddai'n ffynnu, ond byddai Cymru gyfan yn ffynnu.

5.00 p.m.

Eleanor Burnham: Many interesting comments have been made during the debate, and it is difficult to come in at this stage of an emotional and emotive debate. When I look at the report on access to services in deep rural areas by the Welsh Government, certain things jump off the page. For instance, 23 per cent of respondents have an annual household income of less than £10,000, and we have the highest level of child poverty ever. Across four community areas, 37 per

Eleanor Burnham: Gwnaed llawer o sylwadau diddorol yn ystod y ddadl hon, ac mae'n anodd dod i gyfrannu at ddadl emosynol yn awr. Pan edrychaf ar adroddiad Llywodraeth Cymru ar gael mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig anghysbell, mae rhai pethau'n fy nharo yn syth. Er enghraifft, mae gan 23 y cant o ymatebwyr incwm o lai na £10,000 y flwyddyn ar gyfer yr aelwyd, ac mae gennym y lefel uchaf erioed o dlodi plant. Ar draws

cent rated general service provision as satisfactory, but 36 per cent rated it as poor or very poor.

Certain services are essential, one of which is the health service. Sixty-three per cent rated provision in hospitals as poor or very poor, which was mentioned by Kirsty. On policing, the overall perception was that services were under-resourced. Public transport was described as essential by 92 per cent of respondents. The TrawsCambria bus service was perhaps going to be changed between Corwen and Bala. It is important to ensure that links are particularly strong and that people are not waiting in Bala in the rain for a link that has gone about 10 minutes ago. This is basic common sense; they do not have any other mode of transport. When we think about the cost of fuel, while it is important that we consider sustainability, unfortunately, some people in deep rural areas have little choice. On post offices, I believe that my colleague, Mick, will—no, I beg your pardon, he will be speaking on banks. Eighty-two per cent of respondents considered a post office to be essential. I cannot see the figures for banks, but we know that they are important, and I am sure that Mick will expand on that later.

We have been talking about broadband, and I believe that we will improve broadband, but only if it ascends much higher than the aspiration of the Deputy First Minister will small businesses get any real benefit. More than that, in the survey, there was general concern about the long-term sustainability of these deep rural areas because of circumstances that include a lack of rural focus by the Welsh Government, unrealistic budgets for local authorities, no employment prospects, high house prices, little affordable housing and the withdrawal of services, particularly rural schools, which you will know is a very difficult scenario.

ardal pedair cymuned, dywedodd 37 y cant o bobl mai boddhaol oedd y ddarpariaeth gyffredinol o wasanaethau, ond dywedodd 36 y cant ohonynt ei bod yn wael neu'n wael iawn.

Mae rhai gwasanaethau'n hanfodol, ac un o'r rhain yw'r gwasanaeth iechyd. Yr oedd 63 y cant yn dweud bod y ddarpariaeth a geir mewn ysbytai'n wael neu'n wael iawn, a chyfeiriodd Kirsty at hyn. O ran yr heddlu, y canfyddiad cyffredinol oedd nad oedd gan y gwasanaethau ddigon o adnoddau. Disgrifiwyd trafndiaeth gyhoeddus fel gwasanaeth hanfodol gan 92 y cant o ymatebwyr. Yr oedd sôn y gallai gwasanaeth bws y TrawsCambria newid rhwng Corwen a'r Bala. Mae'n bwysig sicrhau bod y cysylltiadau'n arbennig o gryf ac nad yw pobl yn aros yn y glaw yn y Bala am gysylltiad sydd wedi mynd rhyw 10 munud yn gynharach. Synnwyr cyffredin yw hyn; nid oes ganddynt yr un dull arall o deithio. Pan fyddwn yn meddwl am gost tanwydd, er ei bod yn bwysig inni ystyried cynaliadwyedd, yn affodus nid oes gan rai pobl mewn ardaloedd gwledig anghysbell fawr o ddewis. O ran swyddfeydd post, deallaf y bydd fy nghydweithiwr, Mick—na, mae'n flin gennyf, bydd Mick yn siarad am fanciau. Yr oedd 82 y cant o ymatebwyr o'r farn bod swyddfa bost yn hanfodol. Ni allaf weld y ffigurau ar gyfer banciau, ond gwyddom eu bod yn bwysig, ac yr wyf yn siŵr y bydd Mick yn ehangu ar hynny yn nes ymlaen.

Buom yn sôn am fand eang, a chredaf y byddwn yn gwella band eang, ond ni fydd busnesau bach yn cael unrhyw fudd gwirioneddol oni bai y bydd y ddarpariaeth yn esgyn yn uwch o lawer na dyhead y Dirprwy Brif Weinidog. Yn ogystal, gwelwyd yn yr arolwg bod pryder cyffredinol ynghylch cynaliadwyedd hirdymor yr ardaloedd gwledig anghysbell hyn, oherwydd amgylchiadau sy'n cynnwys diffyg canolbwyntio ar ardaloedd gwledig ar ran Llywodraeth Cymru, cyllidebau afrealistig ar gyfer awdurdodau lleol, dim rhagolygon o ran cyflogaeth, prisiau tai uchel, ychydig o dai fforddiadwy a thynnu gwasanaethau yn ôl, yn enwedig ysgolion gwledig, sy'n sefyllfa anodd iawn, fel y gwyddoch.

One of the issues that have not been much touched on is the need for the Government to support more local businesses through procurement. The Government claims that 42 per cent of its procurement is from Welsh-based businesses, but the Welsh Government's definition of a Welsh business is one with a Welsh postcode on its application to tender. In reality, that means that many of the businesses with the largest contracts only have offices in Wales. I can name some companies that only happen to have offices in Wales—PricewaterhouseCoopers and DTZ—but the money that a lot of those firms are spending on their accountants, lawyers, consultants and suppliers goes elsewhere. We would like the Welsh Government to look at the definition of Welsh businesses and to do a little more to add more benefit to supporting secondary industries that are located in Wales.

It is difficult to get value for money, because the issue of cost-benefit analysis often rises—I remember discussing this with the Environment Agency, when we tried and succeeded in getting flood management systems into the Trefalun area of Rossett. Due to the cost-benefit analysis, this poor household, which was almost on its own on an island when the floods came, was not deemed to be sufficiently important to have some help. This is the issue with rurality, you are talking about smaller numbers of people benefiting, but the benefit to them is vital. I am not sure how we will get around this and I ask for the Minister's comments, because there are several relevant areas.

When you look at post office closures in a deep rural area, there is no option of going down the road. I remember going to quite a few of the Post Office's consultations, and it could not see how difficult it was to go even a mile, but if you do not have transport, it is almost impossible. Therefore, I urge the Government to do its best, because there is no use in standing here and blaming everyone else, when, to be frank, not enough has been done over the years. I hope that we can

Un o'r materion nad ydym wedi sôn llawer amdano yw'r angen i'r Llywodraeth roi mwy o gefnogaeth i fusnesau lleol trwy gaffael. Mae'r Llywodraeth yn honni bod 42 y cant o'r hyn y mae'n ei gaffael yn dod wrth fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ond diffiniad y Llywodraeth o fusnes o Gymru yw busnes sydd â chod post yng Nghymru ar ei gais am dendr. Mewn gwirionedd, mae hynny'n golygu mai dim ond swyddfeydd yng Nghymru sydd gan lawer o'r busnesau sydd â'r contractau mwyaf. Gallaf enwi rhai cwmnïau sydd, digwydd bod, â swyddfeydd yng Nghymru—PricewaterhouseCoopers a DTZ—ond mae'r arian y mae llawer o'r cwmnïau hyn yn ei wario ar eu cyfrifwyr, eu cyfreithwyr, eu hymgynghorwyr a'u cyflenwyr yn mynd i fannau eraill. Hoffem weld Llywodraeth Cymru'n ystyried y diffiniad o fusnesau o Gymru, ac yn gwneud ychydig yn fwy i ychwanegu mwy o fudd i gefnogi diwydiannau eilaidd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae'n anodd cael gwerth am arian, oherwydd mae'r mater ynghylch dadansoddiad cost a budd yn codi'n aml—cofiat imi drafod hyn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ystod ein hymgais llwyddiannus i gael systemau rheoli llifogydd i ardal Trefalun yn yr Orsedd. Oherwydd y dadansoddiad cost a budd, barnwyd nad oedd yr aelwyd druan hon, a oedd bron â bod yn ynys ar ei phen ei hun pan ddaeth y llifogydd, yn ddigon pwysig i gael rhywfaint o help. Dyna'r broblem â natur wledig rhai ardaloedd; yr ydych yn sôn am niferoedd llai o bobl yn elwa, ond mae'r budd iddynt hwy'n hanfodol. Nid wyf yn siŵr sut y byddwn yn goresgyn y broblem hon, a gofynnaf am sylwadau gan y Gweinidog, oherwydd ceir llawer o feysydd perthnasol.

Pan feddylwch am swyddfa bost yn cau mewn ardal wledig anghysbell, nid yw mynd i lawr y ffordd yn opsiwn. Cofiat fynd i gryn dipyn o ymgynghoriadau Swyddfa'r Post, ac ni allai weld pa mor anodd ydoedd i deithio milltir hyd yn oed, ond os nad oes gennych drafnidiaeth, mae bron yn amhosibl. Felly, anogaf y Llywodraeth i wneud ei gorau, oherwydd nid oes dim diben sefyll yn y fan hon yn beio pawb arall, pan nad oes digon wedi'i wneud dros y blynyddoedd, a siarad

survive these cuts and do a little bit more for deep rural areas.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl hon y prynhawn yma. Fel y gwŷr Aelodau, yr wyf yn cynrychioli etholaeth sy'n wledig i raddau helaeth ac mae'r bobl sy'n byw ynddi yn dibynnu'n fawr ar yr economi wledig. Yn anffodus, yr ydym wedi gweld dirywiad yn yr economi wledig dros y ddegawd neu ddwy ddiwethaf. Mae'n hanfodol cael economi wledig gryf ac iachus mewn ardaloedd fel fy etholaeth i er mwyn cefnogi pobl leol. Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod economïau cryf mewn cymunedau gwledig ledled Cymru a fydd yn cefnogi ac yn datblygu diwydiannau lleol, hanfodol er mwyn datblygu rhagor o gyfleoedd i'n pobl.

Mae economïau gwledig cadarn ac iachus hefyd yn hollbwysig er mwyn annog ein pobl ifanc i aros yng nghefn gwlad Cymru. Yn rhy aml, yr wyf yn gweld pobl ifanc yn symud o gymunedau gwledig i drefi mawr neu ddinasoedd oherwydd diffyg gwaith. Yn amlwg, ni allwn ddisgwyl i bobl ifanc aros yn eu hardaloedd lleol os nad oes digon o swyddi cynaliadwy yno. Yr wyf wedi dod ar draws nifer o bobl ifanc, a phobl yn gyffredinol, sydd eisiau mynd yn ôl i ardal eu cynefin, ond fe'u hanogir i beidio â dychwelyd oherwydd ni allant weld sut y byddant yn dod o hyd i swyddi mewn rhai o'r ardaloedd gwledig hyn. Dyna pam mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi busnesau, yn enwedig busnesau bach, gymaint ag sydd yn bosibl. Busnesau bach, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yw asgwrn cefn yr economi leol, gyda'r mwyafrif o fusnesau bach yn cyflogi 10 o bobl neu lai.

Yr wyf yn croesawu'r datganiad a wnaeth y Gweinidog dros yr economi ddydd Llun y bydd yn symud i ffwrdd o'r diwylliant grantiau. Fodd bynnag, yn ychwanegol, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod busnesau bach yn derbyn cymorth uniongyrchol a bod llai o ymyrraeth gan Lywodraeth er mwyn sicrhau adfywiad yn yr economi wledig. Byddai hynny'n cyflawni nod yr ydym i gyd am ei weld, sef creu sector preifat mwy er mwyn creu swyddi cynaliadwy. Yn bersonol, yr wyf am weld llywodraethau ar bob lefel yn

yn blaen. Gobeithiaf y byddwn yn gallu goroesi'r toriadau hyn a gwneud ychydig yn fwy dros ardaloedd gwledig anghysbell.

Paul Davies: I am grateful for the opportunity to participate in this afternoon's debate. As Members are aware, I represent a constituency that is largely rural and the people who live there depend very much on the rural economy. Unfortunately, we have seen a decline in the rural economy over the past decade or two. It is vital to have a strong and healthy rural economy in areas such as my constituency in order to support local people. It is vital that we ensure that there are strong economies in rural communities throughout Wales, economies that will support and develop local, essential industries, in order to develop more opportunities for people.

Strong and healthy rural economies are also vital to encourage our young people to stay in the rural areas of Wales. Too often, I see young people moving away from rural communities to large towns or cities because of a lack of work. Obviously, we cannot expect young people to remain in their local areas if there are not enough sustainable jobs for them. I have met many young people, and people in general, who want to go back to the area where they were brought up, but they are encouraged not to return because they cannot see how they would find jobs in some of these rural areas. That is why it is vital that we support businesses, particularly small businesses, as much as possible. Small businesses, particularly in rural areas, are the backbone of the local economy, with the vast majority employing 10 people or less.

I welcome the statement made by the Minister for the economy on Monday that he will be moving away from the grant culture. However, in addition, we need to ensure that small businesses receive direct support and that there is less intervention from Government to ensure the regeneration of the rural economy. This will achieve an end that we all want to see, namely the creation of a larger private sector in order to create sustainable jobs. Personally, I would like to see government at all levels being more

bod yn fwy creadigol er mwyn helpu busnesau bach. Er enghraifft, yr wyf o blaid gweld ardaloedd gwledig arbennig yn cael eu sefydlu er mwyn canolbwyntio ar greu mwy o swyddi. Er mwyn gwneud hyn, ni fyddai busnesau o fewn yr ardaloedd hynny yn gorfod talu ardrethi busnes, treth gorfforaethol, ardrethi busnes bach ac yn y blaen am gyfnod, er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r busnesau hynny greu swyddi.

Yn amlwg, mae'r sector twristiaeth yn chwarae rôl sylweddol o ran sicrhau cynaliadwyedd yr economi wledig. Mae'r diwydiant twristiaeth yn cyfrannu rhyw £1.5 biliwn i economi Cymru ac yn cynnal 100,000 o swyddi. Er bod nifer fawr o'r swyddi yn ymwneud â thwristiaeth yng Nghaerdydd ac Abertawe, mae twristiaeth yn gyfrifol am ganran uchel o'r swyddi yng nghefn gwlad Cymru. Yr wyf yn croesawu'r ffaith bydd cyfrifoldeb am ariannu'r sector twristiaeth yn awr yn gorwedd gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn gyfan gwbl, yn hytrach na chyfrifoldeb dros bolisi yn unig.

Darren Millar: Thank you for giving way, Paul. You mention tourism, which, of course, is extremely important in rural Wales. Do you agree that it is time for the Assembly Government to look again at its cultural tourism strategy with a view to widening its scope so that our religious heritage can be part of the showcase that Wales offers to visitors? For example, we all know that there is a huge network of holy wells, churches and pilgrim routes across Wales that could be exploited for tourism purposes.

Paul Davies: Yes, I quite agree. I think that it is important that we showcase all of our cultural heritage.

Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn sefydlu partneriaethau effeithiol gyda'r sector preifat ac yn sicrhau bod strwythurau effeithiol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'n allweddol bod Cymru'n cael ei marchnata'n briodol. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod cyllideb dwristiaeth Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo strategaeth farchnata

creative in the way that it helps small businesses. For example, I am in favour of seeing special rural areas established to concentrate on the creation of more jobs. In order to achieve this, businesses within those areas would not have to pay business rates, corporate tax, small business rates and so on, for a period of time, in order to make it easier for them to create jobs.

Obviously, the tourism sector plays a substantial role in ensuring the sustainability of the rural economy. The tourism industry contributes around £1.5 billion to Wales's economy and maintains 100,000 jobs. Although a large number of jobs related to tourism are based in Cardiff and Swansea, tourism is responsible for a high percentage of jobs in rural areas of Wales. I welcome the fact that the responsibility for funding the tourism sector will now rest with the Minister for Heritage in totality, rather than simply policy responsibility.

Darren Millar: Diolch ichi am ildio, Paul. Yr oeddech yn sôn am dwristiaeth, sy'n eithriadol o bwysig yng Nghymru wledig, wrth gwrs. A ydych yn cytuno ei bod yn bryd i Lywodraeth y Cynulliad ailystyried ei strategaeth ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol gyda'r bwriad o ymestyn ei ffiniau fel y gellir cynnwys ein treftadaeth grefyddol yn rhan o'r hyn y mae gan Gymru i'w gynnig i ymwelwyr? Er enghraifft, gŵyr pob un ohonom fod rhwydwaith enfawr o ffynhonnau sanctaidd, eglwysi a llwybrau pererindod ar draws Cymru a allai gael eu datblygu at ddibenion twristiaeth.

Paul Davies: Ydw, yr wyf yn cytuno â hynny. Credaf ei bod yn bwysig inni arddangos y cyfan o'n treftadaeth ddiwylliannol.

It is important that the Government establishes effective partnerships with the private sector to ensure that effective structures between the public and private sectors are in place. It is vital that Wales is marketed in an appropriate manner. We should ensure that the tourism budget of the Assembly Government promotes a long-term

hir dymor sy'n gysylltiedig ag atyniadau allweddol ac yn gwerthu Cymru a chefn gwlad Cymru fel lleoliad ar gyfer, er enghraifft, gwyliau cerdded a chwaraeon antur.

Un o'r prif ddiwydiannau eraill yn fy ardal i yw amaethyddiaeth. Yn anffodus, mae cyfraniad amaethyddiaeth i GVA Cymru wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi'r sector. Er fy mod yn cynrychioli etholaeth sy'n brydferth ac sy'n rhoi'r argraff o fod yn ardal gyfoethog, yn sicr mae ardaloedd tlawd yn bodoli ynddi hefyd. Yr wyf yn poeni nad yw rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad i ymdrin â thlodi bob amser yn cyrraedd ardaloedd gwledig.

5.10 p.m.

Os edrychwn ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gwelwn fod bron i bob un o'r prosiectau wedi'u sefydlu mewn ardaloedd trefol. Mae hyn yn eithaf amlwg imi gan nad oes un prosiect o'r fath wedi'i sefydlu yn fy etholaeth i. Caf ar ddeall fod swyddfa'r comisiynydd plant wedi codi'r pryderon ynglŷn â hyn a'i bod yn teimlo bod cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi plant wedi'u canolbwyntio yn llawer mwy mewn ardaloedd trefol.

Yn olaf, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi yn seilwaith cefn gwlad Cymru er mwyn gwella cystadleurwydd yr economi wledig, sy'n hanfodol i ddenu busnesau newydd a chreu swyddi cynaliadwy.

Angela Burns: I am delighted to speak in this debate. I particularly wish to address the second point of the motion, which is,

'that the Welsh Assembly Government must ensure that public services take into account the particular needs of rural Wales'.

When we are looking at this issue, I would like to pay particular attention to the very old and the very young. I talk to my constituents and when I partake of the Assembly committees that I sit on, I find that bits of information come towards me, and I read

marketing structure linked to key sites and sells Wales, including rural areas of Wales, as a location for walking and adventure sports holidays, for example.

One of the other main industries in my region is agriculture. Unfortunately, the contribution of agriculture to the GVA of Wales has declined substantially over the past 10 years, so it is vital that we do everything in our power to support the sector. Although I represent an area that is beautiful and that gives the impression of being a rich area, there are certainly poor areas within my constituency. I am concerned that the programmes of the Assembly Government to tackle poverty do not always reach rural areas.

If we look at the Communities First programme, we see that almost all of those projects have been set up in urban areas. That is quite obvious to me as there is not one such project in my constituency. I am given to understand that the office of the children's commissioner has raised concerns about this and feels that schemes to tackle child poverty are concentrated far more in urban areas.

Finally, it is essential that the Assembly Government invests in the infrastructure of rural Wales in order to improve the competitiveness of the rural economy, which is essential to attract new businesses and create sustainable jobs.

Angela Burns: Yr wyf yn falch iawn o gael siarad yn y ddadl hon. Yr wyf am fynd i'r afael ag ail bwynt y cynnig yn benodol, sef

'bod yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried anghenion penodol Cymru wledig'.

Pan fyddwn yn ystyried y mater hwn, hoffwn dalu sylw penodol i'r rhai sy'n hen iawn a'r rhai sy'n ifanc iawn. Yr wyf yn siarad â'm hetholwyr, a phan gymeraf ran ym mhwyllgorau'r Cynulliad yr wyf yn aelod ohonynt, gwelaf fod darnau o wybodaeth yn

research and have access to reports, and with reference to older people, particularly those living in rural areas, I have found that the world can close in on them: they lose the ability to use transport; they feel trapped in their homes because there is a lack of rural transport provision that they are able to access; and, they may have greater medical needs, and find it harder to get to medical centres. They need to go towards—*[Interruption.]*

Mohammad Asghar: It is the sound of the rural economy. *[Laughter.]*

Alun Davies: It sounds like brimstone, Angela.

Brynle Williams: Take no notice of him.

Mohammad Asghar: God is listening.

Angela Burns: I am delighted that the Lord is on my side. *[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']*

Older people have a real sense of exclusion in rural areas. It is harder for them to get access to medical attention. I have had cases, Minister, where an older person in their home has had trouble in being able to have care workers to come out to them because they live down an unmade, bumpy driveway and the care worker does not have the right kind of vehicle. Sometimes, the care workers are unable to visit on a regular basis, although perhaps they should be there four times a day, they can only go down there twice a day. There is a subtle pressure on people to move into centres of population, to go into a home, or move into a warden-assisted flat. As we are all aware from our own families, people often like to live where their memories are; they do not want to be shifted at that stage.

What discussions do you have with the Minister and Deputy Minister responsible for health and social services on the ability to provide those kinds of services to people in

dod tuag ataf, ac yr wyf yn darllen ymchwil ac yn cael gweld adroddiadau, ac o ran pobl hŷn, yn enwedig y sawl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yr wyf wedi gweld y gall y byd gau amdanynt: maent yn colli'r gallu i ddefnyddio trafndiaeth; maent yn teimlo'n gaeth i'w cartrefi oherwydd diffyg darpariaeth o ran trafndiaeth wledig y gallant ei defnyddio; ac mae'n bosibl bod ganddynt fwy o anghenion meddygol, a'u bod yn ei chael yn anos cyrraedd canolfannau meddygol. Mae angen iddynt fynd at—*[Torri ar draws.]*

Mohammad Asghar: Dyna sut beth yw'r economi wledig. *[Chwerthin.]*

Alun Davies: Mae'n swnio fel brwmstan, Angela.

Brynle Williams: Peidiwch â chymryd sylw ohono.

Mohammad Asghar: Mae Duw yn gwranddo.

Angela Burns: Yr wyf wrth fy modd bod yr Arglwydd ar fy ochr i. *[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']*

Mae pobl hŷn wir yn teimlo eu bod yn cael eu hallgáu mewn ardaloedd gwledig. Mae'n anos iddynt gael mynediad i gyfleusterau meddygol. Yr wyf wedi dod ar draws achosion, Weinidog, lle mae unigolyn hŷn sy'n byw yn ei gartref ei hun wedi cael trafferth cael gweithwyr gofal i ddod allan ato oherwydd bod y lôn i'w gartref yn anwastad a heb ei darmacio, ac nid oes gan y gweithiwr gofal gerbyd priodol. Weithiau, ni all y gweithwyr gofal ymweld yn rheolaidd, ac er y dylent fod yno bedair gwaith y dydd efallai, dim ond dwywaith y dydd y gallant fynd yno. Ceir pwysau cynnil ar bobl i symud i ganolfannau poblogaeth, symud i gartref, neu symud i fflat lle ceir cymorth warden. Fel y gŵyr pob un ohonom o'n teuluoedd ein hunain, yn aml mae'n well gan bobl fyw lle mae ganddynt atgofion; nid ydynt am gael eu symud ar yr adeg honno o'u bywyd.

Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ynghylch y gallu i ddarparu'r

deep rural areas, to the elderly, to those who are unable to stand up for themselves, perhaps, who need their advocate to really push their point? I was impressed to read that you and Jane Davidson, the Minister for Environment, Sustainability and Housing, are working together to look at environmental delivery options, but I wonder what you might do with people like the Minister for Health and Social Services to look at how we can deliver better healthcare to these people in more rural areas. As you will be aware, poverty and abuse, particularly elder abuse, are often hidden, but again, in a more rural area, it is often very well hidden and harder to discover and to do something about. I would be interested to hear your answer on that, Minister.

With regard to young children—

Jeff Cuthbert: I am grateful to you, Angela, for giving way. Labour created the Commissioner for Older People in Wales. Have you raised these matters with her?

Angela Burns: Indeed, I have. I have written to the older people's commissioner on a number of issues relating to my constituents. That is part of my job as an Assembly Member at the National Assembly for Wales.

Alun Davies spoke earlier about us just giving out endless shopping lists. I do not want to talk about shopping lists; I want to talk about the reports that have been produced by committees, such as the Public Accounts Committee and its report on ambulance services, and the Children and Young People Committee and its report on the eradication of child poverty through education, in which we highlighted again the difficulty that children in rural areas have joining in with the education system. They are sent off to school and perhaps the parents do not have a car, and there is no bus transport, so they cannot join the local football team or see their mates. They feel isolated, and the Children's Commissioner for Wales has expressed concerns about our apparent

mathau hynny o wasanaethau i bobl mewn ardaloedd gwledig anghysbell, i'r henoed, i'r sawl na allant ddadlau dros eu hunain, efallai, ac y mae angen eiriolwr arnynt i ddadlau eu hachos? Yr oeddwn yn falch iawn o ddarllen eich bod chi a Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yn gweithio gyda'ch gilydd i ystyried opsiynau cyflenwi amgylcheddol, ond tybed beth byddwch yn ei wneud gyda phobl megis y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i edrych ar sut y gallwn ddarparu gofal iechyd gwell i'r bobl hyn mewn ardaloedd mwy gwledig. Fel y gwyddoch, mae tlodi a chamdriniaeth, yn enwedig cam-drin pobl hŷn, yn aml yn bethau cudd, ond eto, mewn ardal fwy gwledig caiff ei guddio'n dda iawn ac mae'n anos ei ddarganfod ac yn anos gwneud rhywbeth yn ei gylch. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich ateb ynghylch hynny, Weinidog.

O ran plant ifanc—

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Angela, am ildio. Creodd y Blaid Lafur y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru. A ydych wedi codi'r materion hyn gyda hi?

Angela Burns: Yn wir, yr wyf wedi gwneud hynny. Yr wyf wedi ysgrifennu at y comisiynydd pobl hŷn ynghylch nifer o faterion yn ymwneud â'm hetholwyr. Mae hynny'n rhan o'm swydd fel Aelod Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Soniodd Alun Davies yn gynharach amdanom ni yn rhestru pethau'n ddiddiwedd fel rhestr siopa. Nid wyf am sôn am restrau siopa; yr wyf am sôn am yr adroddiadau a gynhyrchwyd gan bwyllgorau, megis y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'i adroddiad ar wasanaethau ambiwlans, a'r Is-bwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'i adroddiad ar ddileu tlodi plant trwy addysg, lle tynnwyd sylw unwaith yn rhagor at yr anhawster y mae plant mewn ardaloedd gwledig yn ei gael o ran cyfranogi yn y system addysg. Cânt eu hanfon i'r ysgol ac efallai nad oes car gan eu rhieni, ac nid oes gwasanaeth bysiau, felly ni allant ymuno â'r tîm pêl-droed lleol neu weld eu ffrindiau. Maent yn teimlo'n unig, ac mae Comisiynydd Plant Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch y ffaith ei bod yn

overdependence on initiatives designed to tackle child poverty within designated geographical and more densely populated areas. What discussions have you had with the Deputy Minister for Children, and also with Leighton Andrews, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, about how we can integrate children in rural areas more securely into mainstream society, so that that sense of social exclusion does not permeate their childhood? It can, and often does, lead to a sense of social exclusion when they are older. Your answers to these questions will be gratefully received.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Yr wyf yn ymateb i'r ddadl hon ar ran y Llywodraeth. Mae'r ddadl wedi cyffwrdd â nifer o feysydd gwahanol eisoes, ac mae Aelodau wedi dewis canolbwyntio ar feysydd gwahanol. Byddaf yn ymateb i'r rhan fwyaf, er ei bod yn bosibl na fyddaf yn cyfeirio at ddiwydiannau trwm Sheffield.

I ddechrau gyda fy mhortffolio i, credaf ei bod yn bwysig cydnabod rôl bwysig y taliad sengl wrth gynnal cefn gwlad, a'r ymdrech enfawr bob blwyddyn i dalu cynifer ohonynt â phosibl mor sydyn â phosibl. Taliadau i ffermwyr yw'r rhain, wrth gwrs, ond mae'r arian sy'n cyrraedd y ffermwyr yn y pen draw yn symud drwy'r economi wledig gyfan.

Mae'r cynllun datblygu gwledig hefyd yn elfen allweddol, a bydd yn dod â rhyw £795 miliwn i gefn gwlad erbyn 2013. Bydd yr arian hwnnw'n cefnogi gweithgarwch amaeth-amgylcheddol allweddol, ond bydd hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r sector bwyd-amaeth ac yn mynd tuag at adfywio cymunedau gwledig. Mae ychydig o dan £300 miliwn eisoes wedi'i wario ar elfennau gwahanol y cynllun datblygu gwledig.

Mae bwyd yn elfen bwysig yng nghefn gwlad ac i'r diwydiannau bwyd, wrth gwrs. Ddoe, lansiais yr ymgynghoriad ar y strategaeth fwyd newydd. Fel y dywedais bryd hynny, mae bwyd yn bwysig inni i gyd, ac mae yn awr yn adeg dda inni edrych ar ein blaenoriaethau ar gyfer yr holl system

ymddangos ein bod yn orddibynnol ar fentrau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â thlodi plant mewn ardaloedd daearyddol penodol ac ardaloedd mwy dwys eu poblogaeth. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r Dirprwy Weinidog dros Blant, a hefyd â Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ynghylch sut y gallwn gynnwys plant mewn ardaloedd gwledig yn well mewn cymdeithas brif-ffrwd, fel na fydd yr ymdeimlad hwnnw o allgáu cymdeithasol yn treiddio i'w plentyndod? Gall arwain at ymdeimlad o allgáu cymdeithasol pan fyddant yn hŷn, ac mae hynny'n digwydd yn aml. Byddwn yn ddiolchgar iawn i glywed eich atebion i'r cwestiynau hyn.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I am responding to this debate on behalf of the Government. This debate has touched on a number of different areas already, and Members have chosen to concentrate on different areas. I will respond to most of those, although it is possible that I will not refer to heavy industries in Sheffield.

To start with my own portfolio, I believe that it is important to acknowledge the important role that the single farm payment plays in sustaining rural areas, and the huge effort that is made every year to ensure that as many as possible are paid as quickly as possible. These are payments to farmers, of course, but the money that reaches farmers ultimately filters through the rural economy as a whole.

The rural development plan is another key element, which will bring some £795 million into rural areas by 2013. That money will support key agri-environment activity, but it will also contribute to the development of the agri-food sector and will go towards the regeneration of local communities. A little under £300 million has already been spent on the various elements of the rural development plan.

Food is an important element in rural areas, and in the food industry, of course. Yesterday, I launched the consultation on the new food strategy, and, as I said at that time, food is important to us all, and now is a good time for us to look at our priorities for the whole food system—food for Wales and food

fwyd—bwyd i Gymru a bwyd o Gymru. Mae'r strategaeth yn pwysleisio o'r newydd mor bwysig yw'n sector bwyd a diod i'n heconomi yn gyffredinol, a sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r diwydiant i'w wneud yn fwy proffidiol a gwella'i allu i gystadlu. Mae'r sector bwyd a diod yn arbennig o bwysig i'r economi wledig, gyda 70 y cant o'r swyddi yn y sector wedi'u lleoli yng nghefn gwlad. Mae'r strategaeth yn bwysig am ei bod yn amlinellu sut y byddwn yn adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mewn ardaloedd gwledig a'i fwyta, yn bennaf, mewn ardaloedd trefol.

Drwy wneud y gorau o'n rhagoriaethau, o'n sgiliau ac o'n hadnoddau lleol, mae'r diwydiant bwyd yng Nghymru mewn sefyllfa dda i ymateb yn gadarnhaol ac yn systematig i drywydd y strategaeth hon ac i'r heriau sy'n ein hwynebu i gyd. Fel y dywedais ddoe, strategaeth ddrafft yw hon a fydd yn llywio'r cynlluniau gweithredu presennol a'r rheini sydd i ddod. Byddaf yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi'r strategaeth derfynol yn nes ymlaen eleni.

Gan droi yn awr at faterion sydd y tu allan i fy mhortffolio i, y datblygiad diweddaraf yw rhaglen adnewyddu'r economi a gyflwynwyd i'r Siambr ddoe. Fel y dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, yr ydym fel Llywodraeth wedi ymgynghori â busnesau ac eraill ym mhob cwr o Gymru wrth ddatblygu ein trywydd newydd ar gyfer adnewyddu'r economi. Yr ydym wedi siarad â phob math o fusnesau: bach a mawr, cynhenid a rhyngwladol, gwledig a threfol. Ymysg yr heriau sy'n wynebu ein busnesau yw'r angen am sylfaen sgiliau gadarn, yr awydd i ennill mwy o gontractau'r sector cyhoeddus, a phryderon am y gyfundrefn gynllunio. Byddwn yn mynd ati i fynd i'r afael â'r rhain wrth geisio adnewyddu'r economi. Bydd y ffocws newydd ar isadeiledd o fantais i fusnesau gwledig, boed yn y sector bwyd, y sector twristiaeth neu fusnesau eraill. At hynny, mae rhaglen adnewyddu'r economi yn cydnabod bod rhai heriau yn benodol i ardaloedd cefn gwlad. Yr ydym yn ymrwymo i gydnabod nodweddion rhanbarthol neu leol o'r fath wrth adnewyddu'r economi.

from Wales. The strategy emphasises anew how important the food and drink sector is to our economy as a whole, and how the Welsh Assembly Government is working with the industry to make it more profitable and to improve its competitiveness. The food and drink sector is especially important to the rural economy, with 70 per cent of employment in that sector located in rural areas. The strategy is important as it outlines how we will build stronger links between foods that are produced in rural areas and are consumed, in the main, in urban areas.

By making the most of where we excel, of our skills and of our local resources, the food industry in Wales will be in a strong position to respond positively and systematically to the wake of this new strategy and to the challenges facing us all. As I said yesterday, this is a draft strategy that will guide current action plans and those that are to be implemented in future. I will consider the responses to this consultation and I will publish the final version of the strategy later this year.

Turning now to some of the issues outside my portfolio, the most important development recently is the new economic renewal programme, which was presented to the Chamber yesterday. As the Deputy First Minister said, we as a Government, have engaged with businesses and other stakeholders in all corners of Wales in developing our new direction for economic renewal. We have spoken to all kinds of businesses: large and small, indigenous and international, urban and rural. Among the challenges facing our businesses is the need for a strong skills base, the need to win more public service contracts, and concerns about the planning system. We will get to work tackling some of these problems in trying to renew the economy. The new focus on infrastructure will be of benefit to rural businesses, whether in the food sector, the tourism sector or other areas of business. To that end, the economic renewal programme recognises that some challenges are specific to rural areas. We are committed to recognising such regional or local elements in renewing the economy.

5.20 p.m.

O fewn rhaglen adnewyddu'r economi, mae ymrwymiad i wella isadeiledd band eang, a chyfeiriodd bron bob siaradwr at y mater hwnnw. Ar ddechrau'r wythnos hon, cyhoeddais i a'r Dirprwy Brif Weinidog gamau i fynd i'r afael â'r diffyg cyflenwad band eang yng nghefn gwlad. Bydd hynny'n defnyddio cyllid gwerth €1.6 miliwn o'r rhaglen Ewropeaidd i adfer yr economi, a ddaw drwy'r cynllun datblygu gwledig. Byddwn hefyd yn defnyddio arian o Adran yr Economi a Thrafnidiaeth i gyflwyno'r cynllun newydd i lenwi'r bylchau sydd yn y seilwaith band eang. Gall cymunedau, grwpiau ac unigolion fanteisio ar y cynllun hwn, ac mae'n gam arwyddocaol tuag at fynd i'r afael â phroblemau lleol â mynediad i'r rhyngwrdd. Yr wyf fi a'r Dirprwy Brif Weinidog hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o estyn gwahoddiad i gynnal rhai o dreialon y genhedlaeth newydd o wasanaethau band eang yng nghefn gwlad Cymru.

Gan fy mod wedi sôn am weithio ar y cyd, dyma'r adeg hefyd i sôn am ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i brawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad. Sefydlaais yr uned polisi gwledig ym mis Ebrill 2008 i brawfesur pob math o bolisïau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt o safbwynt anghenion cefn gwlad. Mae'r uned yn helpu ac yn cynghori holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad er mwyn tynnu sylw at y materion gwledig allweddol sy'n berthnasol i bob maes gwaith a dull gweithredu. Y nod yw sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn bodloni anghenion cefn gwlad yn llawn. Mae prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad hefyd yn rhan allweddol o broses y porth i bolisïau. Hyd yma, mae'r uned wedi cymryd rhan mewn 32 sesiwn o'r fath. Ymysg y polisïau sydd wedi'u prawfesur y mae'r strategaeth flodi plant, y cynllun trafndiaeth cenedlaethol a'r cynllun iechyd gwledig.

Gwaith pwysig arall yn y maes hwn yw gwireddu'r addewid yn 'Cymru'n Un' i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn nodi a mynd i'r afael ag anghenion perfeddion cefn gwlad. Cawsom ddadl am yr adroddiad ar y mater hwn yng Nghyfarfod

Within the economic renewal programme, there is a commitment to improving the broadband infrastructure, and almost everyone who spoke mentioned that issue. At the beginning of this week, the Deputy First Minister and I announced steps to tackle broadband not spots in rural areas. That will use funding worth €1.6 million from the European programme for economic regeneration, which comes via the rural development plan. We will also use funding from the Department for the Economy and Transport to introduce the new scheme to fill the gaps in the broadband infrastructure. Communities, groups and individuals can take advantage of that scheme, and it is a significant step towards getting to grips with local problems with internet access. The Deputy First Minister and I are also looking at the possibility of extending an invitation to hold some of the trials for the next generation of broadband services in rural Wales.

As I have talked about joint working, this is also the time to speak of the Government's commitment to rural-proof policies in respect of the needs of rural areas. I established the rural policy unit in April 2008 to rural-proof all sorts of policies that the Government of Wales is responsible for to take into account the needs of rural areas. The unit helps and advises all departments of the Assembly Government to draw attention to key rural issues that are relevant to all work areas and operational practices. The aim is to ensure that policies and programmes fully meet the needs of rural areas. The proofing of policies in respect of the needs of rural areas is also a key element of the process of the policy gateway. So far, the unit has participated in 32 such sessions. Among the policies that have been rural-proofed are the child poverty strategy, the national transport plan and the rural health plan.

Other important work in this area is the achievement of the 'One Wales' commitment to work together with local authorities to note and get to grips with the needs of deep rural areas. We had a debate on the report on that in a Plenary meeting of the Assembly in

Llawn y Cynulliad ym mis Mawrth, a chyfeiriodd nifer o Aelodau at ganfyddiadau a chanlyniadau'r adroddiad hwnnw a'r faterion a oedd yn bwysig i'r ardaloedd penodol, sef y duedd i gau siopau a chanoli gwasanaethau yn gyffredinol, prinder trafniadaeth gyhoeddus a'r angen i aelwydydd fod yn berchen ar sawl car, prinder tai fforddiadwy, a phrinder band eang.

Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at fand eang, ond o ran trafniadaeth gymunedol, yr wyf eisoes wedi datgan fy mod wedi ymrwymo i roi cyfleoedd i fentrau sy'n cynnal gweithgareddau o dan echelau 3 a 4 o'r cynllun datblygu gwledig. Bydd hyn yn golygu bod angen cydweithrediad y partneriaethau lleol i benderfynu sut orau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Llywodraeth eisoes yn cefnogi cynlluniau arloesol, megis Bwcabus yn sir Gaer a Cheredigion, ac yr ydym hefyd yn darparu'r grant cymhorthdal trafniadaeth lleol, gwerth £11.3 miliwn, i awdurdodau lleol. Ar ben hynny, yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau i ddarparu cynlluniau newydd ar gyfer y rhwydwaith TrawsCambria, ac yr ydym yn bwriadu cyhoeddi'r cynlluniau hynny erbyn 2011.

O ran y cynllun iechyd gwledig, mae'r grŵp cyflawni wedi'i sefydlu er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun. Caf ar ddeall mai tasg gyntaf y grŵp fydd ystyried y datblygiadau sydd eisoes ar y gweill, gan gynnwys trafniadaeth gymunedol yn y cyd-destun iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a chanolfannau integredig.

Angen allweddol arall yng nghefn gwlad sy'n haeddu sylw, ac sydd wedi'i godi sawl gwaith, yw hwnnw yn y maes tai. Ymrwymodd 'Cymru'n Un' i ychwanegu 6,500 at y cyflenwad o dai fforddiadwy erbyn 2011. Erbyn 2009, yr oedd 4,235 o'r rhain wedi'u datblygu ac yr oedd traean, bron, o'r rhain yn ardaloedd yr awdurdodau gwledig. Mae cynigion i atgyfnerthu'r polisi cynllunio ar dai fforddiadwy yng nghefn gwlad yn cael eu datblygu fel rhan o'r adolygiad sydd ar waith o dan nodyn cyngor technegol 6, 'Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy'. Bydd y Gweinidog sydd â

March, and many Members referred to that report's findings and outcomes, and the issues that were important to those specific areas, namely the tendency to close shops and to centralise services generally, the absence of public transport and the need for households to own more than one car, the shortage of affordable housing, and the lack of broadband provision.

I have already referred to broadband, but, on community transport, I have already stated that I have committed to give opportunities to enterprises that hold activities under axes 3 and 4 of the rural development plan. That will mean that we need the collaboration of local partnerships to decide how to make best use of the resources that are available. The Government has already supported innovative schemes, such as Bwcabus in Carmarthenshire and Ceredigion, and we have also provided the local transport support grant, worth £11.3 million, to local authorities. On top of that, we are working with local authorities and bus companies to provide new schemes for the TrawsCambria network, and we intend to publish those schemes by 2011.

On the rural health plan, the implementation group has been established to take that plan forward. I am given to understand that the first task of that group will be to consider the developments that are already under way, including community transport in the context of health and social services, information and communications technology, and integrated centres.

Another crucial need in rural areas that deserves our attention, and which has been referred to several times, is that in the field of housing. 'One Wales' committed to add 6,500 homes to the supply of affordable housing by 2011. By 2009, 4,235 of those had been developed and almost a third of them were in the areas of rural authorities. Proposals to strengthen the planning policy on affordable housing in rural areas are being developed as part of the review currently under way under technical advice note 6, 'Planning for Sustainable Rural Communities'. The Minister who has

chyfrifoldeb dros gynllunio yn cyhoeddi'r nodyn cyngor technegol 6 newydd yn Sioe Frenhinol Cymru.

Yn fy marn i, mae gan y Gymru wledig ddyfodol heriol ond cyffrous. Dangosais fy ymrwymiad i'r dyfodol hwnnw mewn sawl ffordd, gan gynnwys y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid i ffermio. Byddaf yn dal ati, fel y bydd y Llywodraeth hon, i roi blaenoriaeth i anghenion cefn gwlad.

Mae'r gorau o gefn gwlad ar fin cael ei arddangos yn ein sioe genedlaethol yn Llanelwedd. Yr wyf yn siŵr y bydd nifer o Aelodau'r Cynulliad yn y sioe, ac y bydd pobl o bob rhan o Gymru yn ymweld â'r sioe a gaiff ei gynnal ychydig yn llai na phythefnos i ffwrdd. Cymeraf y cyfle hwn i ddymuno'n dda i'r sioe frenhinol. Gobeithio y bydd y tywydd yn well nag ydyw uwch ein pennau ar hyn o bryd. Gyda llaw, hon fydd y sioe mwyaf llwyddiannus erioed gan mai hon yw sioe y cardis. [*Chwerthin.*]

Nick Bourne: I echo the Minister's last comments about the Ceredigion show, and I say with relief that my question to Jane Davidson on the drought seems to have done the trick, given the weather outside.

I thank the Minister for her response. Clearly, she was responding to a brief far broader than her own, but she will know that our group has given her strong support on many issues. She has had united support from us when she has perhaps not had united support from all Government parties on certain issues, and we recognise the hard job that she has had on many issues and her determination in carrying forward her brief.

I will first comment on the contributions made by the opposition parties and then focus on Government contributions. First, clearly, our economic plight was central and was outlined by Brynle Williams, who is a recognisable symbol of rural Wales. He identifies with it, and will be very much on show himself at the Royal Welsh Show. That is another reason why it will be such a massive success this year, although we cannot take that for granted yet. [*Laughter.*]

responsibility for planning will publish the new technical advice note 6 at the Royal Welsh Show.

In my opinion, rural Wales has a challenging but exciting future ahead. I have shown my commitment to that future in many ways, including the support scheme for new entrants to farming. I will continue, as will this Government, to give priority to the needs of rural areas.

The best of rural Wales is about to be put on display at our national show in Builth Wells. I am sure that many Assembly Members will be at the show, and that people from all parts of Wales will visit it, which is to be held in just under a fortnight's time. I take this opportunity to wish the royal Welsh well. I hope that the weather will be better than it is above our heads at the moment. By the way, this year's show will be the most successful ever, given that it is the show of the cardis—sponsored by Ceredigion. [*Laughter.*]

Nick Bourne: Yr wyf yn adleisio sylwadau olaf y Gweinidog am sioe Ceredigion, ac mae'n rhyddhad ei bod yn ymddangos i'm cwestiwn i Jane Davidson ynghylch y sychder weithio, o weld y tywydd y tu allan.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb. Yn amlwg, yr oedd yn ymateb i friff ehangach o lawer na'i briff ei hun, ond gŵyr i'n grŵp ni roi cefnogaeth gadarn iddi ar lawer o faterion. Mae wedi cael cefnogaeth unedig gennym ar adegau pan nad yw, efallai, wedi cael cefnogaeth unedig gan bob plaid yn y Llywodraeth ynghylch rhai materion, ac yr ydym yn cydnabod y gwaith anodd y mae wedi'i wneud ar lawer o faterion, a'i phenderfyniad wrth gyflawni ei briff.

Yn gyntaf, yr wyf am wneud sylw am y cyfraniadau a wnaed gan y gwrthbleidiau, cyn canolbwyntio ar gyfraniadau'r Llywodraeth. Yn gyntaf, yn amlwg, yr oedd ein sefyllfa economaidd yn ganolog i'r drafodaeth, ac fe'i hamlinellwyd gan Brynle Williams, sy'n symbol adnabyddus o Gymru wledig. Mae'n uniaethu â hi, a bydd yn bresenoldeb amlwg yn y Sioe Frenhinol. Dyna reswm arall pam y bydd yn llwyddiant mor ysgubol eleni, er na allwn gymryd

hynny'n ganiataol eto. [*Chwerthin.*]

Oscar, Nick and Angela also highlighted the importance of dealing with the economic plight of rural areas. Paul Davies focused on small businesses, and the importance of broadband was raised by many, not least by Andrew R.T. Davies. The importance of the food industry was raised, typically, but robustly, by David Melding.

This debate was not limited to the economic plight. Many others raised different points. Kirsty Williams rightly highlighted the problems of health in rural areas and the need to ensure that we get proper provision of general services in hospitals throughout rural Wales. That is a genuine issue. Mark Isherwood dealt with his area of expertise, namely housing, and Eleanor referred to the situation with post offices. Therefore, it is a broad range and the Minister recognised that in responding.

On the contributions of the Government parties here, Rhodri Glyn Thomas, to start with Plaid Cymru, made a balanced contribution about the challenges that we face and he rightly said that the Government has done some good things, and we have supported those good things. Nerys often makes sound contributions, but I thought that quoting Angela Burns out of context did not do her cause much justice, and she should not really have done that. The almost ritual reference to the London Government, which proved such a resounding success for Plaid Cymru in the general election, does not play terribly well with parties that are firmly wedded to the union of the United Kingdom and to a belief that that is the future of Wales.

From the Labour Party, we had two contributions from my fellow Assembly Members representing Mid and West Wales. First, Joyce seemed to think that Sheffield was a community in rural Wales, but the last time I looked, it was not. We know that Alun Davies would rather be representing an urban

Soniodd Oscar, Nick ac Angela hefyd am bwysigrwydd ymdrin â sefyllfa economaidd ardaloedd gwledig. Canolbwyntiodd Paul Davies ar fusnesau bach, a soniodd sawl un am bwysigrwydd band eang, yn enwedig Andrew R.T. Davies. Yr oedd yn nodweddiadol o David Melding i gyfeirio at bwysigrwydd y diwydiant bwyd, a gwnaeth hynny mewn modd grymus.

Ni chyfyngwyd y ddadl hon i'r sefyllfa economaidd yn unig. Cododd llawer o Aelodau eraill bwyntiau gwahanol. Yr oedd Kirsty Williams yn iawn i dynnu sylw at y problemau a geir o safbwynt iechyd mewn ardaloedd gwledig a'r angen i sicrhau ein bod yn cael darpariaeth briodol o wasanaethau cyffredinol mewn ysbytai trwy Gymru wledig. Mae honno'n broblem wirioneddol. Soniodd Mark Isherwood am y maes y mae'n arbenigo ynddo, sef tai, a chyfeiriodd Eleanor at y sefyllfa gyda swyddfydd post. Felly, mae'n ystod eang a chydabu'r Gweinidog hynny wrth ymateb.

O ran cyfraniadau'r pleidiau sydd mewn Llywodraeth yn y fan hon, yr wyf am ddechrau gyda Phlaid Cymru. Cafwyd cyfraniad cytbwys gan Rhodri Glyn Thomas ynghylch yr heriau yr ydym yn eu hwynebu, ac yr oedd yn iawn i ddweud i'r Llywodraeth wneud rhai pethau da, ac yr ydym wedi cefnogi'r pethau da hynny. Mae Nerys yn gwneud cyfraniadau cadarn yn aml, ond ni chredaf i'r ffaith iddi ddyfynnu Angela Burns allan o'r cyd-destun wneud llawer o gyfiawnder â'i hachos, ac ni ddylai fod wedi gwneud hynny mewn gwirionedd. Mae cyfeirio at Lywodraeth Llundain yn rhywbeth defodol, bron iawn, a bu'n gymaint o lwyddiant i Blaid Cymru yn yr etholiad cyffredinol, ond nid yw'n cael croeso cynnes iawn gan bleidiau sy'n credu'n gryf yn undeb y Deyrnas Unedig ac yn credu mai dyna'r dyfodol i Gymru.

O ran y Blaid Lafur, cawsom ddau gyfraniad gan fy nghyd-Aelodau yn y Cynulliad sy'n cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn gyntaf, yr oedd Joyce fe pe bai'n meddwl bod Sheffield yn gymuned yng Nghymru wledig, ond y tro diwethaf imi edrych, nid oedd hynny'n wir. Gwyddom y byddai'n well

community in south Wales than a rural one, and that was characterised by the fact that he thought that the problems of rural Wales were the same as those of urban Wales. That clearly is not the case: they both have their problems, but they are, essentially, different in kind.

5.30 p.m.

Alun Davies: Will you take an intervention?

Nick Bourne: Yes, if it is brief.

Alun Davies: As you have taken what I said out of context, Nick, I thought that I should correct you. When you speak to people in rural Wales, they will talk to you about issues that are similar to those in urban Wales. They talk to you about their livelihoods, their children's futures, public transport, access to public services, the economy—all those things that your Government is targeting for cuts.

Nick Bourne: What you omit to say is that the nature of the problem is very different. There is not a problem in large parts of urban Wales in getting to a hospital for routine operations, because it will be close by. There is not a problem in large parts of urban Wales in getting an ambulance to reach someone within a convenient period of time, whereas there is a problem of that nature in rural Wales. Therefore, your comment about the problems being the same and people raising the same issues is not true. There is no problem in respect of ambulance times in most of urban Wales, but there certainly is in most of rural Wales.

Let us look at some of the ways in which the Government could be improving its performance in delivering for the economy in rural Wales—and, indeed, throughout Wales, as some of these issues probably are uniform. On help for small businesses, which are much more important proportionately in rural

gan Alun Davies gynrychioli cymuned drefol yn y de yn hytrach na chymuned wledig, a nodweddwyd hynny gan y ffaith iddo feddwl bod y problemau sy'n bodoli yng Nghymru wledig yr un fath â'r problemau sy'n bodoli yn ardaloedd trefol Cymru. Mae'n amlwg nad yw hynny'n wir: ceir problemau yn y ddwy ardal, ond maent yn broblemau gwahanol, yn y bôn.

Alun Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Nick Bourne: Gwnaf, os yw'n gryno.

Alun Davies: Gan ichi gymryd yr hyn a ddywedais allan o'i gyd-destun, Nick, yr oeddwn yn meddwl y dylwn eich cywiro. Pan fyddwch yn siarad â phobl yng Nghymru wledig, byddant yn sôn am broblemau sy'n debyg i'r problemau a geir yn ardaloedd trefol Cymru. Byddant yn sôn wrthyhych am eu bywoliaeth, dyfodol eu plant, trafniadaeth gyhoeddus, mynediad i wasanaethau cyhoeddus, yr economi—yr holl bethau hynny y mae eich Llywodraeth yn eu targedu ar gyfer toriadau.

Nick Bourne: Yr hyn nad ydych wedi'i ddweud yw bod natur y broblem yn wahanol iawn. Nid yw cyrraedd yr ysbyty i gael llawdriniaeth arferol yn broblem mewn rhannau helaeth o ardaloedd trefol Cymru, gan na fydd yr ysbyty yn bell i ffwrdd. Nid yw cael ambiwlans i gyrraedd rhywun cyn pen cyfnod hwylus yn broblem mewn rhannau helaeth o ardaloedd trefol Cymru, ond ceir y math hwnnw o broblem yng Nghymru wledig. Felly, nid yw eich sylw bod y problemau yr un fath, a bod pobl yn codi'r un materion, yn wir. Nid yw'r amser y mae'n rhaid ei aros am ambiwlans yn broblem yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol Cymru, ond mae'n sicr yn broblem yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig Cymru.

Gadewch inni ystyried rhai o'r ffyrdd y gallai'r Llywodraeth fod yn gwella ei pherfformiad wrth ddarparu ar gyfer yr economi yn ardaloedd gwledig Cymru—a thrwy Gymru gyfan, yn wir, gan fod rhai o'r problemau hyn yn gyffredin, fwy na thebyg. O ran rhoi cymorth i fusnesau bach, sydd, yn

Wales than they are in urban Wales, there is much more generous rate relief for small businesses in England, Scotland and Northern Ireland than in Wales. We have been pushing for rate relief of that kind. Yesterday, David Melding rightly said, in relation to the new economic policy that has been carved out by the Government—and it is a change of policy—that we are largely supportive of the move away from grants and towards loans. That is good news. However, we are disappointed that more is not being made of the Business Partnership Council, for example, but we broadly welcome the economic policy that was set out yesterday.

More needs to be done on broadband. I think that all parties here acknowledge that, and it came up in virtually every contribution to this debate. One thing that was not touched upon, however, which I would like to raise, is the issue of small schools. It is an issue that is much more widespread in rural Wales than in urban Wales. It has a massive impact on the education of children in small rural communities as well as on the whole community. We have to carve out a different way of looking at this problem, because the same template cannot be used in urban Wales as in rural Wales. The nature of the problem is very different, not least as a result of the prevalence of the Welsh language in many of the communities that are losing their small rural schools.

A point that was made, rightly, by Kirsty Williams and others was that the provision of healthcare is different in rural Wales, in that there is no ready access to hospital services and that you cannot be confident that the ambulance will get you to the hospital as quickly as it would in urban Wales. Therefore, the fact that Members of the parties in Government, in their contributions, tried to characterise our approach as ideological—especially those from the party that is well to the left of the Labour Party in Westminster, which, for a reason that still escapes me, said that it will not even look at the merits of private finance initiatives in the health service—is beyond the pale. That is

ôl cyfran, yn fwy pwysig o lawer yng Nghymru wledig nag ydynt yn ardaloedd trefol Cymru, ceir rhyddhad ardrethi mwy hael o lawer i fusnesau bach yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon nag yng Nghymru. Yr ydym wedi bod yn ceisio sicrhau y math hwnnw o ryddhad ardrethi. Ddoe, yr oedd David Melding yn iawn i ddweud yng nghyswllt y polisi economaidd newydd sydd wedi'i lunio gan y Llywodraeth—sy'n newid polisi—ein bod yn gefnogol iawn o symud i ffwrdd wrth grantiau a thuag at fenthyciadau. Mae hynny'n newyddion da. Fodd bynnag, yr ydym yn siomedig nad oes rhagor yn cael ei wneud o'r Cyngor Partneriaeth Busnes, er enghraifft, ond yr ydym yn croesawu'r polisi economaidd a gyflwynwyd ddoe, yn fras.

Mae angen gwneud rhagor ynghylch band eang. Credaf fod pob plaid yma'n cydnabod hynny, a soniwyd am hyn ym mhob cyfraniad a gafwyd i'r ddadl hon, bron iawn. Fodd bynnag, hoffwn sôn am un peth na chafodd ei godi, sef ysgolion bach. Mae hwn yn fater sy'n llawer mwy cyffredin yn ardaloedd gwledig Cymru nag ydyw yn yr ardaloedd trefol. Caiff effaith enfawr ar addysg plant mewn cymunedau bach gwledig yn ogystal ag ar y gymuned gyfan. Rhaid inni chwilio am ffordd wahanol o edrych ar y broblem hon, oherwydd ni ellir defnyddio'r un patrwm yn ardaloedd trefol Cymru ag yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae natur y broblem yn wahanol iawn, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod yr iaith Gymraeg yn amlwg mewn llawer o'r cymunedau sy'n colli eu hysgolion bach gwledig.

Un pwynt a wnaed gan Kirsty Williams ac eraill, ac yr oeddent yn iawn i'w wneud, oedd bod y ddarpariaeth gofal iechyd yn wahanol yng Nghymru wledig, o ran nad oes mynediad hawdd i wasanaethau ysbytai ac ni allwch fod yn hyderus y bydd yr ambiwlans yn cyrraedd i'ch cludo i'r ysbyty mor gyflym ag y byddai yn ardaloedd trefol Cymru. Felly, mae'r ffaith i Aelodau'r pleidiau sydd mewn Llywodraeth geisio disgrifio ein dull gweithredu fel un ideolegol yn eu cyfraniadau yn anfaddeuol—yn enwedig gan y sawl o'r blaidd sydd ymhell i'r chwith o'r Blaidd Lafur yn San Steffan, na wnaiff hyd yn oed ystyried rhinweddau mentrau cyllido preifat yn y gwasanaeth iechyd, am resymau

ideology for you. There is nothing ideological about saying that you will look at the merits of a case; it is deeply pragmatic. Therefore, do not tell me about ideology until you drop yours and have a pragmatic approach to finding out what will work for the people of Wales. That is not happening in the Government here.

Let us ditch the Alun Davies approach of coming out with wild hyperbole to say, in a broad-brush manner, that it is all the fault of the wicked Tories for not putting right in six weeks the mess that Labour made in 13 years. Let us have some sense. Support the motion and amendment 2.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. Therefore, I defer voting on this item until voting time. Do any Members wish for the bell to be rung and the meeting to be adjourned? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4515: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 32.
Motion NDM4515: For 18, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

nad wyf yn eu deall o hyd. Dyna beth yw ideoleg. Nid oes dim byd ideolegol ynghylch dweud y byddwch yn ystyried rhinweddau achos penodol; mae'n ymarferol iawn. Felly, peidiwch â sôn wrthyf am ideoleg nes ichi ollwng eich ideoleg chi a mabwysiadu dull ymarferol o ddarganfod beth fydd yn gweithio i bobl Cymru. Nid yw hynny'n digwydd yn y Llywodraeth yn y fan hon.

Gadewch inni gael gwared ar ddull Alun Davies o ddefnyddio gormodiaith lwyr a dweud, mewn ffordd ysgubol, mai'r Torïaidd drwg sydd ar fai am beidio â datrys mewn chwe wythnos y llastr a wnaeth y Blaid Lafur mewn 13 blynedd. Gadewch inni gael ychydig o synnwyr cyffredin. Cefnogwch y cynnig a gwelliant 2.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn heb ei wella. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu ac i'r cyfarfod ddod i ben am y tro? Gwelaf nad oes.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred

Jones, Ann
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
 Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4515: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 17.
 Amendment 1 to NDM4515: For 33, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Veronica
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4515: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 2 to NDM4515: For 17, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Veronica
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4515 fel y'i diwygiwyd: bod

Motion NDM4515 as amended: that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

1. yn croesawu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella cystadleurwydd economaidd gwledig ac adfywio cymunedau gwledig, yn arbennig drwy'r cynllun datblygu gwledig a rhaglen adnewyddu'r economi;

1. welcomes the Welsh Assembly Government's work to improve rural economic competitiveness and regenerate rural communities, particularly through the rural development plan and the economic renewal programme;

2. yn croesawu cynllun iechyd gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyflwyno prawfesur gwledig a luniwyd gyda'r bwriad o sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth i anghenion arbennig Cymru wledig.

2. welcomes the Welsh Assembly Government's rural health plan and the introduction of rural-proofing, designed to ensure that public services take into account the particular needs of rural Wales.

*Cynnig NDM4515 fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 17.
 Motion NDM4515 as amended: For 32, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Veronica
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM4515 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4515 as amended agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Bancio Lleol, Hwylus: Rhywbeth o'r Oes a Fu yng Nghymru Wledig? Helpful, Local Banking: A Thing of the Past for Rural Wales?

Mick Bates: 'The world's local bank', 'helpful banking', 'for the journey', 'fluent in finance', 'another way'; just some of the catchphrases—expensive ones, I expect—that I am sure that you are familiar with, but how much truth is there behind these expensive advertising headlines? For many years now, rural areas have been the subject of systematic decline in our local services; post offices, shops, libraries, toilets and more. The image of our idyllic rural Wales often hides deep undertones of poverty, deprivation, declining populations, the loss of vital services and a relatively poor public transport system that leaves many feeling isolated.

Mick Bates: 'Banc lleol y byd', 'bancio hwylus', 'ar hyd y daith', 'hyddysg mewn cyllid', 'ffordd arall'; dim ond rhai o'r ymadroddion—rhai costus, mae'n debyg—yr wyf yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â hwy, ond faint o wirionedd sydd y tu ôl i'r penawdau hysbysebu costus hyn? Ers blynyddoedd bellach, mae ardaloedd gwledig wedi gweld dirywiad systematig yn ein gwasanaethau lleol; swyddfeydd post, siopau, llyfrgelloedd, toiledau a llawer mwy. Ynghudd dan y ddelwedd o Gymru wledig ddelfrydol ceir, yn aml, tlodi, amddifadedd, poblogaethau'n dirywio, colli gwasanaethau hanfodol a system trafndiaeth gyhoeddus gymharol wael sy'n gwneud i nifer o bobl deimlo'n ynysig.

It is often said that you do not appreciate something until it is taken away from you; I am holding this debate today because, sadly, in Montgomeryshire, this has become strikingly real with a recent wave of service cuts to our local banks, with rural Wales once again the victim of further rationalisation and centralisation. Access to banking services is key, not only to small businesses and retailers, but to individuals and voluntary and charitable groups in communities throughout the country. The closure of a local branch has resounding impacts, forcing customers elsewhere and changing the frequency and location of many customers' shopping habits. Multi-purpose trips are moved to nearby towns where people can access shops and services and visit their bank at the same time, driving more and more business away from the communities that have just suffered the loss of their local branch. I am sure that many of us remember the fateful day in 2000 when Barclays closed 171 branches in one day. What perhaps we have not noticed is the closure by stealth of many branches by its competitors. In fact, 40 per cent of bank branches have closed since 1990, and 1,500 communities have only one or two banks left and are in the firing line for other cuts and closures.

Let us look at the 'local bank'. With a rolling programme of closures, HSBC has shut over 180 branches across the UK between 2005 and 2009—more than any other bank over this period. More closures are planned for 2010, many of which are last-in-town outlets, leaving communities without any access to a local facility. So perhaps it is not 'the world's local bank' after all. In my constituency, we have seen service cuts in three NatWest branches – that is the 'helpful bank, by the way. They have taken place in three towns; Montgomery, Llanfair Caereinion and Llanidloes. In Llanfair and Llanidloes the branches now open for only four hours on two days, instead of five days from 9.30 a.m. until 3.30 p.m.. There was very little consultation about those changes. They have just said, more or less, good luck to the individuals, businesses and voluntary groups

Dywedir yn aml nad ydych yn gwerthfawrogi rhywbeth nes ichi ei gollu; yr wyf yn cynnal y ddadl hon heddiw oherwydd, yn anffodus, yn Sir Drefaldwyn, mae hyn wedi dod yn drawiadol o wir gyda thoriadau'n cael eu gwneud yn ddiweddar i wasanaethau yn ein banciau lleol, a Chymru wledig unwaith eto yn dioddef yn sgil rhesymoli a chanoli pellach. Mae gallu cael mynediad i wasanaethau bancio yn hollbwysig, nid yn unig i fusnesau a manwerthwyr bach, ond i unigolion a grwpiau gwirfoddol ac elusennol hefyd mewn cymunedau ledled y wlad. Mae cau cangen leol yn cael effeithiau pellgyrhaeddol, gan orfodi cwsmeriaid i fynd i leoedd eraill a chan newid arferion siopa llawer o gwsmeriaid o ran ble y maent yn siopa a pha mor aml. Gwneir teithiau amlbwrpas i drefi cyfagos lle gall pobl siopa a chael mynediad i wasanaethau ac ymweld â'u banc ar yr un pryd, sy'n golygu bod mwy a mwy o fusnes yn cael ei gollu o'r cymunedau sydd newydd weld eu cangen leol yn cau. Yr wyf yn siŵr bod llawer ohonom yn cofio'r diwrnod tyngedfennol hwnnw yn 2000 pan gaeodd Barclays 171 cangen mewn un diwrnod. Yr hyn nad ydym wedi sylwi arno o bosibl yw bod y banciau sy'n cystadlu â Barclays wedi cau nifer o'u canghennau hwythau yn llechwraidd. Yn wir, mae 40 y cant o ganghennau banc wedi cau er 1990, a dim ond un neu ddau o fanciau sydd ar ôl mewn 1,500 o gymunedau ac maent hwy'n wynebu toriadau a chael eu cau.

Gadewch inni edrych ar y 'banc lleol'. Gyda rhaglen dreigl o gau canghennau, mae HSBC wedi cau mwy na 180 o ganghennau ledled y DU rhwng 2005 a 2009—llawer mwy nag unrhyw fanc arall yn ystod y cyfnod hwn. Bwriedir cau mwy o ganghennau yn 2010, a llawer o'r rheini mewn mannau lle mae pob banc arall eisoes wedi cau, gan adael cymunedau heb fynediad i'r un cyfleuster lleol. Felly hwyrach nad 'banc lleol y byd' mohono wedi'r cyfan. Yn fy etholaeth i, yr ydym wedi gweld toriadau i wasanaethau mewn tair cangen NatWest—hwnnw, gyda llaw, yw'r 'banc hwylus'. Mae hyn wedi digwydd mewn tair tref; Trefaldwyn, Llanfair Caereinion a Llanidloes. Yn Llanfair a Llanidloes dim ond am bedair awr ar ddau ddiwrnod yr wythnos y mae'r canghennau ar agor bellach, yn hytrach nag o 9.30 a.m. tan 3.30 p.m. am bum diwrnod. Bach iawn o

that must now coincide their work and lives with banks' opening hours if they need to use their local facility.

5.40 p.m.

In Montgomery, the NatWest branch is now open only one day a week. A lack of consultation and local knowledge meant that NatWest did not even realise that Montgomery is a market town. One of the positive outcomes of our campaign locally was to change that day to the busiest weekday in Montgomery, which of course was market day. It is common sense, you would think—if only it had engaged in proper consultation. This change went ahead despite a strong campaign, with much lobbying and protests outside the bank—you can see a picture on the Chamber's screens of a group outside the bank, complete with quotations from many of the people there. We arranged a meeting with the NatWest retail manager and other senior NatWest representatives who came along to discuss with representatives of the three communities, in a rational discussion, what could be done to reverse part of this loss of service—very little, it seems. NatWest is forging ahead with its proposals, to the dismay of many local people.

Already, we have seen lengthy queues outside the premises, as people no doubt cram in to use the facilities during their lunch hour on the one or maybe two days a week on which the branch opens. Already, in my local town, Llanfair Caereinion, the post office has said that it has noticed a downturn in business, because instead of people coming to town five days a week to use the bank, they now only come in on the two days it is open.

Ironically, the service cuts came as NatWest launched its 14-point customer charter bearing the subheading—of course, you have guessed—'Becoming Britain's most Helpful Bank', in which the company aims to extend

ymgyngori a gafwyd ynghylch y newidiadau hyn. Maent wedi dweud, fwy neu lai, pob lwc i'r unigolion, busnesau a grwpiau gwirfoddol hynny sydd bellach yn gorfod trefnu eu gwaith a'u bywydau o amgylch oriau agor y banc os oes angen iddynt ddefnyddio eu cyfleuster lleol.

Yn Nhrefaldwyn, dim ond am un diwrnod yr wythnos y mae'r gangen NatWest ar agor erbyn hyn. Yr oedd diffyg ymgynghori a gwybodaeth leol yn golygu nad oedd NatWest hyd yn oed yn gwybod bod Trefaldwyn yn dref farchnad. Un o ganlyniadau cadarnhaol ein hymgyrch yn lleol oedd newid y diwrnod hwnnw i ddiwrnod prysuraf yr wythnos yn Nhrefaldwyn, sef diwrnod marchnad wrth gwrs. Byddech yn meddwl bod hynny'n synnwyr cyffredin—pe bai ond wedi ymgynghori'n briodol. Gwnaed y newid hwn er gwaethaf ymgyrch gref, gyda llawer o lobio a phrotestiadau y tu allan i'r banc—gallwch weld llun ar sgriniau'r Siambr o grŵp y tu allan i'r banc, gyda dyfyniadau gan nifer o'r bobl yno. Bu inni drefnu cyfarfod gyda rheolwr manwerthu ac uwchgynrychiolwyr eraill NatWest a ddaeth i drafod â chynrychiolwyr y tair cymuned, mewn trafodaeth resymol, yr hyn y gellid ei wneud i adfer rhan o'r gwasanaeth hwn a gollwyd—ymddengys mai ychydig iawn y gellir ei wneud. Mae NatWest yn bwrw ymlaen â'i gynigion, er mawr siom i lawer o bobl leol.

Yr ydym eisoes wedi gweld ciwiau hir y tu allan i'r banc, wrth i bobl wasgu i mewn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn ystod eu hawr ginio ar yr un neu efallai'r ddau ddiwrnod yr wythnos y mae'r gangen ar agor. Eisoes, yn fy nhref leol, Llanfair Caereinion, mae'r swyddfa bost wedi dweud ei bod wedi gweld busnes yn mynd am i lawr, oherwydd yn hytrach na chael pobl yn dod i'r dref bum diwrnod yr wythnos i ddefnyddio'r banc, dim ond ar y ddau ddiwrnod y mae'r banc ar agor y maent yn dod i'r dref yn awr.

Yn eironig, gwnaed y toriadau i'r gwasanaeth wrth i NatWest lansio ei siarter 14 pwynt i gwsmeriaid a oedd yn cynnwys yr is-bennawd—wrth gwrs, yr ydych wedi dyfalu'n gywir—'Dod yn Fanc mwyaf

opening hours, limit waiting times to five minutes and provide a friendly, helpful service. That is all very well if you have a branch.

Despite the excellent customer service that we get when we go our branches, too many of the commitments under the NatWest charter have already been broken, and I believe that that is because some bureaucrats far away, when they decided to slash service hours in our local community facilities, did not understand or consult local customers. Not only that, how much business will banks such as NatWest lose because customers move their accounts to the banks that remain?

Consumer Focus Wales is concerned that consumers who do not have access to certain financial products, services, knowledge and advice end up becoming excluded from many of the aspects of daily life that others take for granted, which it fears will be the inevitable consequence of the withdrawal of convenient banking services for NatWest customers in Montgomeryshire. Keeping a bank presence keeps people spending locally, brings people into the community and supports local businesses; it is, therefore, a crucial element to sustaining our communities. Of course, sustainability is an underlying principle of the One Wales Government.

In contrast, the rationalisation and centralisation of the past decades have become a catalyst in the decline of our rural communities. What does this mean? It means that the banks withdraw from the small villages to the small towns, and then to the bigger towns. This means that people are forced to travel further to get their services. That means extra costs in fuel and an increase in carbon emissions, and it leaves behind neglected towns with decreasing trade.

The phenomenon of branch closures is not confined to Montgomeryshire. It is already happening in neighbouring Ceredigion, in

Hwylus Prydain', lle mae'r cwmni'n bwriadu ehangu oriau agor, lleihau amseroedd aros i bum munud a darparu gwasanaeth cyfeillgar a defnyddiol. Mae hynny'n beth da iawn os oes gennych gangen.

Er gwaetha'r gwasanaeth cwsmeriaid gwych a gawn pan fyddwn yn ymweld â'n canghennau, mae gormod o'r ymrwymadau sydd yn siarter NatWest eisoes wedi'u torri, a chredaf mai'r rheswm am hynny yw nad oedd rhyw fiwrocratiaid yn bell i ffwrdd, wrth iddynt benderfynu cwtoegi oriau'r gwasanaeth yn ein cyfleusterau cymunedol lleol, wedi deall nac wedi ymgynghori â chwsmeriaid lleol. Yn ogystal â hynny, faint o fusnes y bydd banciau megis NatWest yn ei golli oherwydd bod cwsmeriaid yn symud eu cyfrifon i'r banciau sydd ar ôl?

Mae Llais Defnyddwyr Cymru yn poeni y bydd defnyddwyr nad oes ganddynt fynediad i rai mathau penodol o gynnyrch, gwasanaethau, gwybodaeth a chynghor ariannol yn cael eu heithrio o lawer o agweddau eraill ar fywyd pob dydd y mae pobl eraill yn eu cymryd yn ganiataol, ac mae'n pryderu mai dyna fydd canlyniad anochel diddymu gwasanaethau bancio cyfleus i gwsmeriaid NatWest yn Sir Drefaldwyn. Mae cadw presenoldeb banc yn sicrhau bod pobl yn gwario'n lleol, mae'n denu pobl i'r gymuned ac mae'n cefnogi busnesau lleol; felly, mae'n elfen hollbwysig o gynnal ein cymunedau. Wrth gwrs, mae cynaliadwyedd yn un o egwyddorion sylfaenol Llywodraeth Cymru'n Un.

Mewn cyferbyniad â hyn, mae'r rhesymoli a'r canoli a welwyd dros y degawdau diwethaf wedi bod yn gatalydd i ddirywiad ein cymunedau gwledig. Beth mae hyn yn ei olygu? Mae'n golygu bod y banciau yn gadael pentrefi bach ac yn mynd i'r trefi bach, ac yna i'r trefi mwy. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael eu gorfodi i deithio ymhellach i gael eu gwasanaethau. Mae hynny'n golygu costau tanwydd ychwanegol a chynnydd mewn allyriadau carbon, ac mae'n gadael trefi sydd wedi'u hesgeuluso, gyda llai o fusnes.

Nid yw'r ffenomen o gau canghennau wedi'i chyfyngu i Sir Drefaldwyn yn unig. Mae eisoes yn digwydd i'n cymdogion yng

Aberaeron and Newquay, where services have recently been cut. During the peak of the tourist season, huge queues developed outside branches, and there was no cash in the cashpoints. That happened in the busy summer months. That is a reflection of the lack of consultation on changes to service provision. It is not a phenomenon just in rural Wales. In Ferndale, in the Rhondda, the impact of such closures mirrors what I have seen in my constituency.

In fairness, the undeniable truth is that, over recent years, services and businesses have been forced to balance the competing objectives of high quality, wide access and low profits. According to the chief executive of HSBC at its annual general meeting in May 2009

‘the economics of running a major retail network in the UK no longer stack up’.

This stance was borne out by NatWest, which points out that, if you look at its accounts, you will see that the retail section of the bank is making a loss.

The banks go along with this line, but they are staunch in maintaining that they are going to reduce services, and they carry on with their closure programmes with reference to a decreasing footfall and the growing use of alternative banking methods, such as telephone banking, internet banking or ATM services. As I have often pointed out, encouraging people to use the internet is all very well, provided that they have an internet service, because there are still not spots and no broadband service in many places. The footfall data collected by our action group in Montgomeryshire has shown that some of the issues of declining footfall that we were told about by NatWest do not stack up.

The Wales Rural Observatory’s report, ‘Deep

Ngheredigion, yn Aberaeron a Chei Newydd, lle cafodd gwasanaethau eu torri’n ddiweddar. Yn ystod cyfnod prysuraf y tymor twristiaid, yr oedd ciwiau hir yn ffurfio y tu allan i’r canghennau, ac nid oedd dim arian yn y peiriannau arian. Digwyddodd hynny yn ystod misoedd prysur yr haf. Mae hynny’n adlewyrchu’r diffyg ymgynghori ynghylch newidiadau i’r ddarpariaeth o ran gwasanaeth. Nid yng nghefn gwlad yn unig y mae hyn yn digwydd. Yng Nglynrhedynog, yn y Rhondda, mae effaith achosion o’r fath o gau banciau yn debyg i’r hyn yr wyf wedi’i weld yn fy etholaeth i.

A bod yn deg, y gwirionedd na ellir ei wadu yw bod gwasanaethau a busnesau, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cael eu gorfodi i geisio cydbwysu amcanion sy’n cystadlu â’i gilydd, sef safon uchel, mynediad eang ac elw isel. Yn ôl prif weithredwr HSBC yn ei gyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Mai 2009

nid yw economeg rhedeg rhwydwaith manwerthu mawr yn y DU yn gwneud synnwyr mwyach.

Cadarnhawyd y safbwynt hwn gan NatWest, sy’n tynnu sylw at y ffaith y byddech, o edrych ar ei gyfrifon, yn gweld bod adran fanwerthu’r banc yn gwneud colled.

Mae’r banciau’n cytuno â hyn, ond maent yn dal i fynnu eu bod yn bwriadu lleihau gwasanaethau, ac maent yn bwrw ymlaen â’u rhaglenni cau gan gyfeirio at y ffaith bod llai o bobl yn dod i’r canghennau a bod mwy o bobl yn defnyddio dulliau eraill o fancio, megis bancio dros y ffôn, bancio ar y rhyngwrwyd neu wasanaethau’r peiriant arian. Fel yr wyf wedi crybwyll yn aml, mae’n iawn annog pobl i ddefnyddio’r rhyngwrwyd, ar yr amod bod ganddynt wasanaeth rhyngwrwyd, oherwydd ceir llawer o fannau gwan a mannau heb wasanaeth band eang o hyd. Mae’r data a gasglwyd gan ein grŵp gweithredu yn Sir Drefaldwyn am nifer y bobl sy’n dod i’r canghennau wedi dangos nad yw rhai o’r pethau y mae NatWest wedi’u dweud wrthym am y gostyngiad yn nifer y bobl sy’n ymweld â’r canghennau yn gwneud synnwyr.

Canfu adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru,

Rural Localities’, found that a third of people considered a bank or building society to be an essential feature of a local area, with 46 per cent deeming it desirable. There is clearly a demand for local financial services, so what are the solutions to the competing interests of commercial pressure for profit and customer needs? Derek French, director of the Campaign for Community Banking Services, states that:

‘Sustainability of communities, financial inclusion and reduction of carbon emissions are concerns deeply held by many people whatever their political persuasion. The closure of easily accessible neighbourhood bank branches and post offices inflicts damage in each of these areas but a solution is available, flexible in its formats, which has the capability to make a positive difference. It is called sharing, and Britain’s large retail banks could do this now and at little or no extra cost to benefit hundreds of vulnerable communities and at the same time give themselves the opportunity to gain operating experience of a business model, already proven in America, which promises substantial financial gains for their businesses in the future as the banking market develops.’

Let us examine the solutions in more detail. The excellent Campaign for Community Banking Services, supported by a host of organisations, such as the Federation of Small Businesses, Age Concern, Scope, and many more, has proposed some innovative alternatives to bank closures in local communities, particularly where the bank is the last or only bank in that community. It has identified solutions that satisfy public and political concerns, while recognising that banks are commercial businesses with a duty to their shareholders.

The first tier of its solution is a shared banking franchise, something that our post offices have tried to do. For some small rural communities with no banking presence, a limited shared banking franchise could sit alongside an existing post office, which would need to lose its franchise for financial content.

‘Ardaloedd Gwledig Anghysbell’, fod traean o bobl yn ystyried bod banc neu gymdeithas adeiladu yn nodwedd hanfodol ar ardal leol, gyda 46 y cant o’r farn ei fod yn ddymunol. Mae’n amlwg bod yna alw am wasanaethau ariannol lleol, felly beth yw’r atebion i sefyllfa lle mae pwysau masnachol i greu elw yn cystadlu ag anghenion cwsmeriaid? Yn ôl Derek French, cyfarwyddwr yr Ymgyrch ar gyfer Gwasanaethau Bancio Cymunedol:

Mae cynaliadwyedd cymunedau, cynhwysiant ariannol a lleihau allyriadau carbon yn peri pryder mawr i lawer o bobl, ni waeth beth yw eu credoau gwleidyddol. Mae cau canghennau banciau a swyddfeydd post hygyrch a lleol yn niweidiol i bob un o’r meysydd hyn ond mae ateb ar gael, sy’n hyblyg ac sydd â’r gallu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Fe’i gelwir yn rhannu, a gallai banciau manwerthu mawr Prydain wneud hyn yn awr heb fawr o gost ychwanegol, er lles cannoedd o gymunedau agored i niwed, gan roi cyfle iddynt, ar yr un pryd, gael profiad o weithredu model busnes, sydd eisoes wedi’i brofi yn America, sy’n addo enillion ariannol sylweddol i’w busnesau yn y dyfodol wrth i’r farchnad bancio ddatblygu.

Gadewch inni archwilio’r atebion yn fwy manwl. Mae’r Ymgyrch ar gyfer Gwasanaethau Bancio Cymunedol, sy’n ymgyrch wych ac sydd wedi’i chefnogi gan nifer o sefydliadau, megis y Ffederasiwn Busnesau Bach, Age Concern, Scope a llawer mwy, wedi cynnig rhai syniadau blaengar a fyddai’n osgoi gorfod cau banciau mewn cymunedau lleol, yn enwedig os mai’r banc hwnnw yw’r banc olaf neu’r unig fanc yn y gymuned. Mae wedi nodi atebion sy’n ymateb i bryderon cyhoeddus a gwleidyddol, gan gydnabod bod banciau yn fusnesau masnachol gyda dyletswydd i’w rhanddeiliaid.

Elfen gyntaf ei hateb yw rhyddfrait bancio a rennir, sef rhywbeth y mae ein swyddfeydd post wedi ceisio ei wneud. I rai cymunedau gwledig bach heb ddim cyfleusterau bancio, gallai rhyddfrait bancio a rennir gyfyngedig fodoli ochr yn ochr â swyddfa bost sy’n bodoli eisoes, a fyddai’n gorfod colli ei rhyddfrait ar gyfer cynnwys ariannol.

The second tier is a community bank, which would be a directly managed outlet, similar to a bank sub-branch, and would potentially take on suitable premises from, say, a closing bank. It would provide a standalone traditional service on behalf of the major banks. Loughborough University Banking Centre carried out a study that showed this to be a feasible and financially viable alternative.

The third tier is banking centres, suitable for larger communities. It is a concept based on airports or on cosmetics and fashion concessions in department stores, where services are outsourced. Management of counters, cash and deposit machines and interview rooms could be an outsourced responsibility. Shared overheads and responsibilities could potentially save millions for the banks. Shared branch technology developed by LINK has been proven to work in the UK and America. In this new financial and political climate, the Government and the banking sector can no longer stand by and let this decline continue in our communities, with continued cuts, the loss of associated trade and extra travel.

With such huge stakes in the financial sector—Government support once amounted to over a staggering £850 billion—central and local Government have a responsibility to talk to the banks to develop sustainable communities that provide innovative solutions to providing high street banking in order to meet the need already demonstrated. It is unacceptable that, after taking such huge sums of money from the taxpayer, many banks are failing to provide essential services for local people.

My challenge to the Welsh Government and to the banks is to work together to find solutions for our communities, rather than to simply cut local services. Taxpayers bailed out the banks, and it is time for some action in return. Rural residents should not be forced to pay double for banking blunders. We should have the same access to quality services as in urban areas, and not be disadvantaged by a postcode lottery. I will be

Yr ail elfen yw banc cymunedol, a fyddai'n safle a gaiff ei reoli'n uniongyrchol, yn debyg i is-gangen banc, ac mae'n bosibl y gallai gymryd safle addas, er enghraifft, gan fanc sy'n cau. Byddai'n darparu gwasanaeth traddodiadol annibynnol ar ran y banciau mawr. Cynhaliodd Canolfan Fancio Prifysgol Loughborough astudiaeth a ddangosodd bod hwn yn ddewis posibl a dichonadwy o safbwynt ariannol.

Y drydedd elfen yw canolfannau bancio, a fyddai'n addas ar gyfer cymunedau mwy. Mae'n gysyniad sy'n seiliedig ar feysydd awyr neu ar gownteri colur a ffasiwn mewn siopau adrannol, lle caiff cyfrifoldeb am wasanaethau ei roi i gwmnïau eraill. Gallai'r gwaith o reoli cownteri, peiriannau codi a chadw arian ac ystafelloedd cyfweld fod yn gyfrifoldeb a roddir i gwmnïau eraill. Gallai rhannu gorbenion a chyfrifoldebau arbed miliynau i'r banciau. Mae technoleg canghennau a rennir a ddatblygwyd gan LINK wedi llwyddo yn y DU ac yn America. Yn yr hinsawdd ariannol a gwleidyddol newydd sydd ohoni, ni all y Llywodraeth a'r sector bancio laesu dwylo mwyach a chaniatáu i'r dirywiad hwn barhau yn ein cymunedau, gyda thoriadau pellach, colli busnes cysylltiedig a theithio ychwanegol.

Gyda chymaint yn y fantol yn y sector ariannol—arferai'r cymorth a roddwyd gan y Llywodraeth fod yn fwy na'r swm aruthrol o £850 biliwn—mae gan Lywodraeth ganolog a lleol gyfrifoldeb i siarad â'r banciau er mwyn datblygu cymunedau cynaliadwy sy'n cynnig atebion blaengar i ddarparu gwasanaethau bancio'r stryd fawr er mwyn diwallu'r angen y profwyd eisoes ei fod yn bodoli. Mae'n annerbyniol, ar ôl cymryd cymaint o arian gan y trethdalwr, bod llawer o fanciau'n methu â darparu gwasanaethau hanfodol i bobl leol.

Fy her i Lywodraeth Cymru ac i'r banciau yw cydweithio er mwyn dod o hyd i atebion i'n cymunedau, yn hytrach na dim ond torri gwasanaethau lleol. Achubwyd y banciau gan y trethdalwyr, ac mae'n bryd iddynt gymryd camau i gydnabod hynny. Ni ddylai trigolion mewn ardaloedd gwledig orfod talu ddwywaith am gamgymeriadau'r byd bancio. Dylem gael yr un mynediad i wasanaethau o safon â thrigolion mewn ardaloedd trefol, heb

writing today—I have the letter here—to all the banks urging them to investigate ways of keeping their local services open, and I hope that the Government will work with them to find the best solutions for the people of Wales.

5.50 p.m.

There is an appetite in our communities to stand up and challenge the forces that seek to change them. Banks, by working with communities and an enabling Government, have a golden opportunity to reverse the disgraceful legacy of banking blunders and bonuses. If the Government and the banks were to sit down and consider this, they could act with social responsibility and reject the diktat of top-down, one-size-fits-all solutions that close local facilities to the detriment and continued decline of our communities. They must act now, before the taglines of helpful, local banks become a distant memory and a thing of the past for rural Wales. I hope that the Minister, in her response today, will commit the Government to working with the banks so that we can retain a service that is essential to sustainable communities.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Fel Mick Bates yn cyflwyno'r ddadl hon, yr wyf yn pryderu am yr effaith andwyol bosibl ar wasanaethau o leihau oriau agor banciau, a'r effaith bosibl ar fusnesau a phobl yng nghefn gwlad. Yr wyf yr un mor awyddus ag unrhyw un yn y Siambr i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod modd i'r mwyafrif o drigolion gwledig barhau i gael ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau bancio.

Yn adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru, 'Ardaloedd Gwledig Anghysbell', a gyhoeddwyd ym mis Hydref, cafodd trigolion mewn pedair cymuned eu holi am y ffordd y maent yn amgyffred â'r gwasanaethau yn yr ardal leol. Yr oedd hyn yn cynnwys gwasanaethau banciau, cymdeithasau adeiladu a pheiriannau twll yn y wal. Cyfeiriodd Mick at y ffaith bod 31 y cant o'r sawl a ymatebodd o'r farn bod banc neu gymdeithas adeiladu yn 'hanfodol' i'w hardal

wynebu anfantais loteri cod post. Byddaf yn ysgrifennu heddiw—mae'r llythyr gennyf yma—at yr holl fanciau yn eu hannog i ymchwilio i ffyrdd o gadw eu gwasanaethau lleol ar agor, a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda hwy i ddod o hyd i'r atebion gorau i bobl Cymru.

Ceir awydd yn ein cymunedau i sefyll a herio'r grymoedd sy'n ceisio eu newid. Mae gan fanciau, drwy weithio gyda chymunedau a Llywodraeth sy'n galluogi, gyfle delfrydol i wrthdroi etifeddiaeth warthus camgymeriadau a thaliadau bonws y byd bancio. Pe bai'r Llywodraeth a'r banciau yn eistedd i lawr ac yn ystyried hyn, gallent weithredu gyda chyfrifoldeb cymdeithasol a gwrthod y dictad o atebion sy'n dod o'r brig i lawr ac yn mynnu bod un ateb yn addas i bawb, sy'n arwain at gau cyfleusterau lleol mewn modd sy'n niweidiol i'n cymunedau ac yn peri iddynt ddirywio ymhellach. Rhaid iddynt weithredu yn awr, cyn i'r ymadroddion am fanciau lleol, hwylus fynd yn ddim ond atgof ac yn rhywbeth o'r oes a fu yng Nghymru wledig. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog, yn ei hymateb heddiw, yn rhwymo'r Llywodraeth i weithio gyda'r banciau fel y gallwn gadw gwasanaeth sy'n hollbwysig i gymunedau cynaliadwy.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): Like Mick Bates in presenting this debate, I also am concerned about the potential detrimental effect on services of reduced bank opening hours and the potential impact on businesses and people in rural Wales. I am as eager as anyone in this Chamber to do everything that we can to ensure that access to a broad range of services, including banking services, remains a reality for the majority of rural inhabitants.

In the report of the Wales Rural Observatory, 'Deep Rural Localities', published in October, residents in four communities were asked about their perception of services within the local area. This included banking services, building societies and cash machines. Mick referred to the fact that 31 per cent of respondents considered a bank or building society to be 'essential' in their local area, with 46 per cent deeming it desirable. I am aware that Mick Bates has previously

leol, gyda 46 y cant o'r farn bod hynny'n ddimunol. Yr wyf yn ymwybodol fod Mick Bates o'r blaen, a heddiw eto, wedi mynegi ei bryder am y cynnig i leihau oriau agor is-ganghennau NatWest yn Llanidloes, Llanfair Caereinion a Threfaldwyn. Deallaf fod y galw gan gwsmeriaid wedi bod yn disgyn ers tro ym mhob un o'r is-ganghennau hyn. Yn hytrach na'u cau, mae NatWest yn nodi ei fod yn awyddus i barhau i weithredu yn y tair tref, ond gyda llai o oriau, fel y dywedodd Mick, ond deallaf ei fod wedi ymrwymo i adolygu'r gostyngiad mewn oriau ar ôl chwe mis.

Er mwyn cynnal rhwydwaith cynaliadwy o ganghennau, realiti masnachol y sefyllfa yw bod yn rhaid i'r banciau cydbwysu anghenion eu cwsmeriaid ac adnoddau cyfyngedig. Mewn sefyllfa o'r fath, nid oes llawer y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i ymyrryd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion a swyddogion y Llywodraeth hon yn parhau i weithio gyda'r banciau i fonitro'r sefyllfa a rhoi pwysau ar y banciau i sicrhau eu bod yn parhau i gynnig mynediad i wasanaethau drwy ganghennau traddodiadol a dulliau newydd er budd busnesau ac unigolion yn y Gymru wledig. Felly, yr wyf yn rhoi'r ymrwymiad y gofynnodd Mick Bates amdano. Bydd y Llywodraeth yn gwneud ei chyfran yn y maes hwn, sydd heb ei ddatganoli ar y cyfan. Soniodd Mick yn ei gyfraniad fod y banciau wedi derbyn tipyn o arian cyhoeddus dros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf, ond yr wyf yn eich atgoffa yn garedig, Mick, o eich dylanwad o fewn eich plaid sydd yn awr mewn Llywodraeth ar lefel y Deyrnas Gyfunol o ran hawlio rhyw faint o ymateb a gwasanaeth yn ôl ar gyfer ein cymunedau gwledig fel canlyniad i'r buddsoddiad cyhoeddus hwnnw. Efallai bod hynny'n rhywbeth y byddwch eisieu ei godi gyda rhai o'r Gweinidogion o'ch plaid chi sydd yn awr mewn sefyllfa o rym yn y Llywodraeth yn San Steffan.

Yr wyf yn ymwybodol bod cwsmeriaid yn cael eu hannog i ddechrau bancio ar-lein, ond ni all rhai pobl yng Nghymru, ac yng nghefn gwlad yn enwedig, gael cysylltiad dibynadwy â'r we. Fel canlyniad i ymdrechion y Llywodraeth hon, mae mynediad at fand eang wedi'i wella mewn rhannau helaeth o'r

expressed his concern, as he has again today, about the proposal to reduce opening hours in the NatWest sub-branches in Llanidloes, Llanfair Caereinion and Montgomery. I understand that customer demand has been in decline for some time in each of these sub-branches. Rather than closing them, NatWest has noted that it is keen to continue to operate in the three towns, but with reduced hours, as Mick said, but I understand that it has committed to reviewing the reduction in six months' time.

In order to maintain a sustainable branch network, the commercial reality of the situation is that the banks have to balance the needs of customers and finite resources. In such a situation, there is very little that the Welsh Assembly Government can do to intervene directly. However, Ministers and this Government's officials will continue to work with the banks to monitor the situation and to pressure the banks to ensure access to services continue to be provided both through traditional branches and through new mechanisms for the benefit of rural Wales' businesses and individuals. Therefore, I give the commitment that Mick Bates asked for. This Government will contribute its share in this area, which is not devolved on the whole. Mick referred in his contribution to the fact that the banks have received quite a lot of public money over the last two or three years, but I gently remind you, Mick, of your influence with your party, which is now in Government at the UK level in terms of claiming some sort of response and service back for our rural communities as a result of that public investment. Perhaps that is something that you would wish to raise with some of the Ministers of your party who are now in a position of power in the Westminster Government.

I am aware that customers are being urged to sign up to online banking, but access to a reliable internet connection is not a reality for some people in Wales, particularly those in rural Wales. Thanks to efforts by this Government, broadband coverage has been improved across large parts of rural Wales,

Gymru wledig, ond mae ardaloedd digyswllt o hyd. Felly, yr wyf yn falch, fel yr wyf wedi cyfeirio ato eisoes y prynhawn yma, ein bod fel Llywodraeth wedi lansio ein cynllun cymorth band eang i helpu cynnig gwasanaethau band eang i gymunedau ac unigolion yng nghefn gwlad. Mae'r cynllun hwn yn parhau â'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth gwell i ardaloedd gwledig ac yn arbennig gwella mynediad i'r we, sy'n hanfodol i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad. Y nod yw cael gwared ar yr holl ardaloedd digyswllt y gwyddom amdanynt erbyn haf 2011, gan wneud bancio ar-lein yn opsiwn go iawn i bobl drwy Gymru gyfan.

Yn ogystal, drwy'r gwaith ar ein strategaeth cynhwysiant ariannol, yr ydym wedi ceisio hyrwyddo mynediad gwell i wasanaethau ariannol prif ffrwd. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o fanciau'r stryd fawr, ar wahân i RBS a HSBC, bellach mewn trefniadau partneriaeth gyda'r Swyddfa Bost, lle gall cwsmeriaid personol wneud trafodion bancio hanfodol, fel codi arian, yn eu swyddfeydd post lleol. Mae hyn yn sicrhau bod pobl mewn ardaloedd daeryddol ehangach yn gallu defnyddio gwasanaethau.

Yn sgîl ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol flaenorol ar gynyddu nifer y gwasanaethau bancio sydd ar gael mewn swyddfeydd post lleol, mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig, mewn partneriaeth â Banc Iwerddon, yn edrych ar ehangu'r gwasanaethau ariannol a gynigir o dan frand Swyddfa'r Post. Mae eisoes yn cynnig morgeisi, cardiau credyd, a gwasanaethau cynilo a benthyca, ac erbyn hyn mae'n datblygu cyfrif cyfredol, yn ogystal â chyfrif cynilo i blant. Bydd y cynhyrchion hyn ar gael ym mhob swyddfa bost leol, ond nid oes dyddiad lansio wedi'i nodi hyd yn hyn.

Mae Swyddfa'r Post hefyd wedi cymryd y camau cyntaf tuag at gydweithio ag undebau credyd. Mae wrthi'n gweithio ar ganllawiau a fydd yn rhoi gwybod i is-bostfeistri ar sut orau i gynnig gwasanaethau undebau credyd. Mae Swyddfa'r Post hefyd wedi cynnal trafodaethau ag ABCUL, yr undeb sy'n cynrychioli'r nifer fwyaf o undebau credyd ledled y Deyrnas Gyfunol, yn glŷn â'r ffordd orau i swyddfeydd post ac undebau credyd

but not spots remain. Therefore, I am delighted, as has already been mentioned this afternoon, that we as a Government have launched our broadband support scheme to help offer broadband services to communities and individuals in rural areas. This scheme continues our commitment to provide improved services to rural areas and in particular access to the internet, which is critical for those living and working in rural areas. The aim is to eradicate all known not spots in Wales by the summer of 2011, making online banking a realistic option for people throughout Wales.

In addition, through the work on our financial inclusion strategy, we have sought to promote greater access to mainstream financial services. For example, most high street banks, except RBS and HSBC, now have partnership arrangements with the Post Office whereby personal customers can carry out essential banking transactions, such as withdrawing cash, at their local post offices. This ensures that people in wider geographic areas can access services.

Following the previous UK Government's consultation on increasing the banking services available at local post offices, Post Office Limited, in partnership with the Bank of Ireland, is looking at expanding the financial services offered under the Post Office brand. It already offers mortgages, credit cards, savings and loan services, and it is now developing a current account and a children's savings account. These products will be available at all local post offices, but as yet no launch date has been set.

The Post Office has also taken the first steps towards joint working with credit unions. It is currently working on guidance that will provide sub-postmasters and sub-postmistresses with information on how best to host credit union services. The Post Office has also had talks with the Association of British Credit Unions, ABCUL, the union that represents most credit unions across the UK, about the best way for post offices and

gydweithio.

Yr ydym hefyd yn gweld undebau credyd fel cyfrwng delfrydol i gynnig credyd fforddiadwy mewn ffordd gyfrifol ar draws ein holl gymunedau. Drwy gyfuniad o gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd, mae aelodaeth undebau credyd yng Nghymru wedi cynyddu bum gwaith yn ystod y degawd diwethaf. Gyda'r gefnogaeth hon, mae aelodaeth undebau credyd yng Nghymru'n parhau i gynyddu er gwaethaf y dirwasgiad. Rhwng mis Mawrth 2008 a mis Medi 2009, cynyddodd aelodaeth undebau credyd yng Nghymru o 2.5 y cant, a chynyddodd lefel yr arian a roddwyd yn eu gofal 17 y cant dros yr un cyfnod.

Er mwyn gwella mynediad at ffynonellau credyd a chyfleoedd cynilo hygyrch a fforddiadwy, yr ydym ar hyn o bryd yn cefnogi 18 o undebau credyd drwy gontractau gwerth dros £600,000 i weithio gydag unigolion sydd wedi'u hallgau'n ariannol. Y nod yn hyn o beth fydd lleihau rhywfaint ar y baich ariannol a'r rhwystrau i gynhwysiant ariannol mae ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn eu hwynebu. Yr ydym hefyd wrthi'n cefnogi pum undeb credyd yng ngogledd Cymru drwy broses uno sydd â'r nod o greu un undeb credyd 'uwch' a fydd ar gael i bawb sy'n byw ac yn gweithio yn y gogledd. Bydd undeb credyd gogledd Cymru'n gwasanaethu tua 600,000 o bobl. Dros nos, dyna fydd yr undeb credyd fwyaf yng Nghymru, gydag asedau gwerth tua £4.5 miliwn a sylfaen aelodaeth o bron 10,000 o bobl.

Felly, yr ydym yn cefnogi'r gwaith o ddarparu ystod o wasanaethau ariannol y tu allan i sector bancio'r brif ffrwd, fel swyddfydd post ac undebau credyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn bwysicach fyth yn y cyfnod economaidd anodd hwn, ac maent yn cynnig gwasanaethau cynilo a benthyca fforddiadwy mewn cymunedau lle mae banciau wedi cau eu canghennau.

I gloi, mae'r llywodraeth yn cydnabod pa mor bwysig yw cael mynediad i ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys banciau, a byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau ein bod yn gwireddu hyn yn y Gymru wledig.

credit unions to work together.

We also see credit unions as ideal vehicles for delivering affordable credit in a responsible way across all our communities. Through a combination of Assembly Government and European funding, the credit union movement in Wales has seen a fivefold increase in membership over the past decade. With this support, membership of credit unions in Wales continues to rise in spite of the recession. From March 2008 to September 2009, credit union membership in Wales rose by 2.5 per cent, and the level of deposits made over the same period rose by 17 per cent.

To increase access to accessible and affordable sources of credit and savings opportunities, we are currently supporting 18 credit unions through contracts worth more than £600,000 to work with financially excluded individuals. The aim is to relieve some of the financial burdens and the barriers to financial inclusion that are experienced by our most disadvantaged communities. We are also currently supporting five credit unions in north Wales through a merger process that aims to see one 'super' credit union being formed that will be available to all those who live and work in north Wales. The north Wales credit union will serve a population of around 600,000 people. It will become, overnight, the largest credit union in Wales, with around £4.5 million in assets and a membership base of almost 10,000 people.

Therefore, we are supporting the delivery of a range of financial services outside the mainstream banking sector, such as post offices and credit unions. These services are all the more important in these difficult economic times and provide access to affordable savings and loans in communities in which banks have closed branches.

In conclusion, the Government acknowledges the importance of access to a wider range of services, including banks, and we will do everything in our power to ensure that this is a reality in rural Wales.

The Temporary Deputy Presiding Officer: **Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Diolch,
Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close. **Weinidog.** Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.58 p.m.
The meeting ended at 5.58 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Law, Trish (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)

Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)